



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



> Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

Argraffiad 3

Mawrth 2020

Cynnwys

Pennod	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad	
• Diben y Llawlyfr	2
2. Cyd-destun y Cynllun	
• Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a Deddfwriaeth	5
• Cyd-destun Cynllun Datblygu	6
• Cydymffurfiaeth Gyffredinol	9
• Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlau ar y Cyd)	11
• Chydweithio	11
• Rôl Llywodraeth Cymru	12
3. Y Broses o Baratoi CDLI – Trosolwg o'r Camau Allweddol	
• Sicrhau Datblygu Cynaliadwy - Proses Baratoi CDLI Integredig a Chynhwysol	14
• Canlyniadau Allweddol y System CDLlau	16
• Ffurf a Strwythur CDLI	17
• Trosolwg o gyfnodau allweddol CDLI – Crynodeb	20
• Cytundeb Cyflawni (DA) a Chynllun Cynnwys Cymunedau	25
• Safleoedd Ymgeisiol	34
• Datblygu Sail Dystiolaeth	54
• Strategaeth a Ffefrir	56
• Adneuo	62
• Cyflwyniad	66
4. Asesiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio	
• Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)	69
• Dull Asesu Integredig	70
• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	70
• Y Gymraeg	72
• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	72
• Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	72
• Hierarchaeth Cynlluniau Datblygu	73
• Cynnwys y Cynoedd – Gogynion Deddfwriaethol ac Arfer Gorau	74
• Camau Paratoi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd	76
• Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	89
5. Paratoi CDLI – Materion Craidd	
• Creu Lleoedd Cynaliadwy: Arddangos Gwaith Cyflawni a Gweithredu CDLI	97
• Rhestr Wirio Cynllun Dadrisgio	98
• Creu Lleoedd yn y Broses Cynllun Datblygu	99
• Cynlluniau Lleoedd	102

<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Ofodol • Cynllunio ar gyfer Tai a Thwf Economaidd • Asesu Tai a Thwf Economaidd • Darpariaeth Tai a Cydrannau'r Cyflenwad • Llundio Taflwybr Tai • Cyflogaeth – Cydrannau Cyflenwad a'r Fframwaith Polisi • Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr • Profion Hyfywedd ar gyfer Cynllun Datblygu • Gweithredu a Chyflawni 	<p>104</p> <p>111</p> <p>116</p> <p>124</p> <p>131</p> <p>141</p> <p>144</p> <p>147</p> <p>160</p>
6. Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu	
<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi ar gyfer Cyflwyno • Newidiadau â Ffocws (FCs) • Cyflwyno • Archwilio a Phrofion Cadernid • Adroddiad yr Arolygydd a Mabwysiadu 	<p>169</p> <p>172</p> <p>175</p> <p>178</p> <p>183</p>
7. Ystyriaethau a Materion Gweithdrefnol Eraill	
<ul style="list-style-type: none"> • Tynnu Cynllun yn Ôl • Her Uchel Lys • Cyfnod y Cynllun • Cynlluniau Newydd neu Hen • Argaeledd Dogfennau • Hysbysiadau • Y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg • Pwerau Llywodraeth Cymru yn y Broses CDLI • Malltod • Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (Darpariaethau 2005) 	<p>187</p> <p>187</p> <p>187</p> <p>188</p> <p>189</p> <p>189</p> <p>190</p> <p>190</p> <p>191</p> <p>192</p>
8. Monitro, Adolygu a Diwygio	
<ul style="list-style-type: none"> • Monitro, Adolygu a Diwygio • Y Fframwaith Monitro • Adroddiadau Monitro Blynyddol • Adolygu a Diwygio • Adolygiad Ffurf Fer 	<p>194</p> <p>194</p> <p>200</p> <p>210</p> <p>213</p>
9. Canllawiau Cynllunio Atodol	
<ul style="list-style-type: none"> • Statws Canllawiau Cynllunio Atodol • Ystyriaethau Ymgynghori Paratoi a Monitro 	<p>220</p> <p>222</p>
10. Cynlluniau Datblygu Strategol	

• Gofynion Cyfreithiol Cynllun Datblygu Strategol	225
• Agweddau Allweddol ar Gynllun Datblygu Strategol	226
• Cynnwys Cynllun Datblygu Strategol	227
• Prif Sbardunau Newid	231
• Y Gallu i Ymdopi â Newid	231
• Cysyniadau Gofodol - Enghreifftiau o Gysyniadau Posibl	234
• Archwilio	237
• Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC)	237
11. Geirfa	
• Geirfa	239

Pennod 1: Cyflwyniad

Diben y Llawlyfr

1.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, 'Y Llawlyfr', yn ddogfen gyfeirio ar-lein ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu neu sy'n cyfrannu at y gwaith hwnnw. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi'r, monitro a diwygio cynllun datblygu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol ac yn gyflawnadwy ac yn cyfrannu at greu lleoedd, fel y'i diffinnir yn y polisi cenedlaethol sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC).

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004), wedi bod ar waith ers dros ddegawd gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) wedi mabwysiadu cynllun a naill ai wedi dechrau, neu ar fin dechrau, adolygu eu cynllun. Mae'r Llawlyfr wedi ymgorffori gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn gan ganolbwyntio ar yr agweddau ymarferol ar greu cynlluniau mwy cyflawnadwy. Wrth i gynlluniau barhau i ddatblygu, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atgyfnerthu'r system seiliedig ar gynllun, gyda chynlluniau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar lawr gwlad, gan sicrhau gwelliannau ymarferol a chadarnhaol i gymunedau a busnesau lleol.

1.3 Mae'r Llawlyfr hwn wedi'i ysgrifennu yng nghyd-destun polisi (Polisi Cynllunio Cymru) a deddfwriaeth gyfredol y wlad, PCPA 2004 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Rheoliadau cysylltiedig (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015)). Bydd yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod arfer gorau a newidiadau polisi'n cael eu hymgorffori mewn modd amserol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn ymateb yn effeithiol i ddiweddariadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, cyhoeddi Cynlluniau Datblygu Strategol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol a Chynlluniau Datblygu Lleol Cryno cysylltiedig wrth iddynt gael eu cyflwyno. Fodd bynnag, dylai defnyddwyr hefyd ystyried deddfwriaeth a pholisïau sy'n berthnasol i gynllunio ond nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag ef, megis y Rheoliadau a'r Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy a ddaeth i rym o fis Ionawr 2019 ymlaen.

1.4 Cydnabyddir bod angen cryn dipyn o waith ac adnoddau er mwyn ymgymryd â chynllun datblygu. Gyda phwysau cynyddol ar adnoddau cyhoeddus, un ystyriaeth allweddol fydd sut i adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd er mwyn paratoi cynlluniau mwy effeithiol, effeithlon a chyflawnadwy, yn ogystal â gwell canlyniadau ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol (ALI) unigol ac ardaloedd â chysylltiad swyddogaethol.

1.5 Mae'r Llawlyfr yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd hyd yma, arfer gorau o ran datrys problemau a sut i 'ddadrisgio' cynlluniau drwy baratoi sail dystiolaeth gadarna


phenodol. Mae'r Llawlyfr yn egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran y broses o lunio cynlluniau.

Pennod 2: Cyd-destun y Cynllun

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a Deddfwriaeth

2.1 Mae'r Llawlyfr yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n trosi ein hymrwymiad i gyflawni datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio (Diagram 1). Dylid darllen y Llawlyfr ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a deddfwriaeth berthnasol.

Diagram 1: Cyfres o Ddogfennau



2.2 Nid yw'r Llawlyfr yn bolisi cenedlaethol; canllaw ydyw. Rhaid i ACLlau ystyried canllawiau wrth baratoi CDLI (adran 75, PCPA 2004). Mae'r Llawlyfr yn nodi'r 'Profion Cadernid' y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gynllun datblygu gael ei ystyried yn 'gadarn' a gallu cael ei argymhell ar gyfer ei fabwysiadu. Mae rheoliadau a pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â pharatoi CDLIau wedi'u cyhoeddi ar wahân. **Yn y Llawlyfr drwyddo draw mae cyfeiriadau at CDLI yn cynnwys CDLI cychwynnol neu unrhyw ddiwygiad dilynol i'r CDLI cychwynnol.** Mae'r Llawlyfr yn adlewyrchu canllawiau archwilio a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru (PINS) sydd ar gael ar ei gwefan. Mae'r deddfwriaeth a'r canllawiau canlynol yn arbennig o berthnasol i CDLIau a dylid eu darllen ar y cyd â'r Llawlyfr:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004) Rhan 6
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (PWA 2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant 2015)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2015)
- Polisi Cynllunio Cymru, *argraffiad diweddaraf* (Llywodraeth Cymru)
- Cynllunio eich Cymuned (Canllaw Cyhoeddus i Gynlluniau Datblygu Lleol) (2006) (Llywodraeth Cymru)
- Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllaw Gweithdrefnol (2015) (Arolygiaeth Gynllunio Cymru)
- CDLIau: Paratoi ar gyfer cyflwyno – Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol [2015] (Arolygiaeth Gynllunio Cymru)

- Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gynnwys adran 6 a Datganiadau Ardal
- Canllawiau Statudol ar gyfer Draeniau Cynaliadwy a Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru)

Cyd-destun Cynllun Datblygu

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)

2.3 Mae rhan 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio adran 60 o PCPA 2004 gan alluogi Gweinidogion Cymru i baratoi ac adolygu FfDC Cymru. Bydd y FfDC yn gynllun datblygu, a fydd yn nodi polisiau Gweinidogion Cymru ac yn cynnwys rhan o'r cynllun datblygu statudol i'w ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau, pan gaiff ei gyhoeddi.

2.4 Mae'r FfDC yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn yr hydref 2020. Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd yn ffurfio rhan o'r hierarchaeth cynlluniau datblygu statudol ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru). Yn dilyn cyhoeddi'r FfDC, bydd pob cyfeiriad mewn deddfwriaeth at Gynllun Gofodol Cymru yn cael ei ddisodli gan gyfeiriadau at y FfDC. Caiff cyfeiriadau at Gynllun Gofodol Cymru eu disodli gan y FfDC yn y profion cadernid. Bydd y FfDC yn cael ei adolygu bob pum mlynedd, gan adlewyrchu tymor y Cynulliad.

2.5 Bydd yn rhaid i bob Cynllun Datblygu Strategol a CDLI a baratoir yng Nghymru gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC, pan gaiff ei gyhoeddi. Bydd angen i ACLlau ystyried y goblygiadau i unrhyw CDLI pan gyhoeddir y FfDC. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 68A) yn datgan bod yn rhaid i ACLI, ar ôl cyhoeddi'r FfDC, ystyried a ddylid cynnal adolygiad o CDLI.

Cynllun Datblygu Strategol

2.6 Mae rhan 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gyflwyno Cynllun Datblygu Strategol. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u cyflwyno i ymdrin â materion trawsffiniol yn fwy effeithiol a sicrhau gwell canlyniadau cynllunio. Cychwynnwyd y darpariaethau perthnasol i Ran 3 sy'n hwyluso datblygiad Cynllun Datblygu Strategol ym mis Hydref 2015.

2.7 Er mwyn cychwyn y broses Cynllun Datblygu Strategol a sefydlu Panel Cynllunio Strategol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol, rhaid i ACLI neu grŵp o ACLlau sy'n gweithredu ar ran pob ACLI sy'n dymuno cymryd rhan mewn Cynllun Datblygu Strategol (yr awdurdod(au) cyfrifol) gysylltu â Gweinidogion Cymru i fynegi diddordeb

mewn datblygu Cynllun Datblygu Strategol. Byddai dull o'r fath wedyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdod(au) cyfrifol a fyddai wedyn yn cydgyssylltu'r gwaith o nodi ardal addas ar gyfer cynllun, cael consensws gan bob ACLI perthnasol, ymgynghori ar gynnig drafft a chyflwyno cynnig terfynol i Weinidogion Cymru yn gofyn am sefydlu Panel Cynllunio Strategol yn ffurfiol a datblygu Cynllun Datblygu Strategol. Bydd 'Rheoliadau Sefydlu' ar gyfer y Panel Cynllunio Strategol a'r 'Rheoliadau Ffurf a Chynnwys' i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu datblygu pan fydd datganiad o ddiddordeb wedi'i dderbyn. Bydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol ar waith cyn sefydlu'r Panel Cynllunio Strategol yn ffurfiol a gallu ffurfiol i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol. Bydd proses y Cynllun Datblygu Strategol yn adlewyrchu proses y Cynllun Datblygu Lleol i raddau helaeth, a bydd Rheoliadau yn nodi gofynion gweithdrefnol. Bydd y cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn destun craffu drwy archwiliad cyhoeddus, o dan arweiniad Arolygydd a benodir yn annibynnol. Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymol.

2.8 Er mwyn cynorthwyo awdurdod cyfrifol i gyflwyno cynnig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol, aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu a chyhoeddi ymchwil: 'Edrych ar Ddulliau o Nodi Ardaloedd Cynllunio Strategol', Hydref 2015. Roedd yr ymchwil yn ystyried amrywiaeth o faterion a allai helpu i bennu ehangder daearyddol y cynllun a chanfod materion i'w cysoni.

<https://llyw.cymru/edrych-ar-ddulliau-o-nodi-ardaloedd-cynllunio-strategol-adroddiad-terfynol>

2.9 Ar ôl i gynnig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol gael ei gyflwyno, caiff Rheoliadau eu gwneud i sefydlu Panel Cynllunio Strategol a phennu Ffurf a Chynnwys y cynllun. Bydd y materion a gaiff eu datrys drwy Gynllun Datblygu Strategol yn cynnwys:

- Gweledigaeth a strategaeth gydlynol, gyffredinol a chyflawnadwy, gyda rolau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer lleoedd
- Hierarchaeth anheddu'n seiliedig ar rôl a swyddogaeth lleoedd
- Sefydlu datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd fel yr egwyddorion arweiniol
- Nodi darpariaeth dai gyffredinol ar gyfer y cynllun ac ar gyfer pob ACLI
- Asesiad hyfywedd bras i ddangos ei fod yn gyflawnadwy
- Nodi cyfleoedd ar gyfer twf economaidd a'r raddfa/lleoliad
- Seilwaith sy'n gysylltiedig â thwf yn y lleoedd
- Taflwybr cyflawni ar gyfer cartrefi a swyddi sy'n cyd-fynd â gweithredu seilwaith
- Sefydlu'r angen am ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i bob ACLI
- Cyllid i gefnogi datblygiad ar yr adeg briodol
- Nodi meysydd eang o angen tai fforddiadwy a chysylltiadau â hyfywedd

- Patrymau/moddau trafndiaeth gynaliadwy
- Darpariaeth manwerthu sy'n gysylltiedig â rôl a swyddogaeth
- Dull cydgysylltiedig o ddynodi ynni, mwynau a gwastraff
- Dull cydgysylltiedig o ymdrin â dynodiadau amgylcheddol, gan gynnwys lleiniau glas, gan ystyried asesiadau seilwaith gwyrdd

2.10 Os yw newid yn digwydd ar raddfa fwy lleol lle mae Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu, CDLlau Cryno fydd y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Bydd y rhain yn gynlluniau llawer byrrach, â ffocws – dogfen ddyraniadau i bob pwrpas. Bydd polisiâu lleol yn cyd-fynd â'r rhain.

Perthynas Cynllun Datblygu Strategol â'r FfDC

2.11 Rhaid i Gynllun Datblygu Strategol sicrhau 'Cydymffurfiaeth Gyffredinol' â'r FfDC, pan gaiff ei gyhoeddi (adran 60I(3) PCPA 2004). Bydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar Gynllun Datblygu Strategol ac yn cyflwyno sylwadau yn ystyried cydymffurfiaeth gyffredinol adeg y cam adneuo. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried drwy'r broses archwilio. Mater i'r Arolygydd fydd ystyried a yw'r Cynllun Datblygu Strategol yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC.

2.12 Er mwyn dangos cydymffurfiaeth gyffredinol, dylai polisiâu a chynigion Cynllun Datblygu Strategol gyd-fynd yn fras ag unrhyw bolisiâu a chynigion perthnasol yn yr FfDC. Ni all fod meysydd o wahaniaeth sylweddol gan y byddai hyn yn arwain at wrthdaro rhwng y ddau gynllun. Dylai unrhyw faterion o'r fath gael eu datrys cyn i'r broses archwilio ddechrau. Os na ellir goresgyn hyn, ni fydd modd mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Strategol.

Cynllun Datblygu Lleol Cryno

2.13 Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn darparu canllawiau strategol i ACLlau yn ardal y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn mynd i'r afael â'r materion pwysig unwaith, yn hytrach na'u hailadrodd ym mhob archwiliad dilynol o'r CDLI. Un enghraifft allweddol yw pennu gofynion tai ar sail ACLI unwaith mewn Cynllun Datblygu Strategol, yn hytrach na phob tro mewn CDLI unigol. Bydd hyn yn ddefnydd mwy effeithlon o amser ac adnoddau ac yn lleihau costau. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn pennu'r strategaeth, yr hierarchaeth anheddu, y polisiâu strategol a'r cynigion/dyraniadau allweddol ar gyfer CDLlau Cryno hefyd.

2.14 Gyda'r fframwaith a'r gofynion craidd wedi'u pennu gan y Cynllun Datblygu Strategol, mae CDLICau yn dod yn debycach i ddogfen ddyraniadau; nid oes angen iddynt ailedrych ar raddfa'r twf. Bydd CDLICau yn symlach ac yn fyrrach gyda ffocws mwy lleol, ac felly bydd angen llai o adnoddau ac amser i'w paratoi, rhwng dwy flynedd a dwy flynedd a hanner. Bydd y dyraniadau'n llai o ran graddfa ac yn fwy

lleol eu natur, gan gyd-fynd â'r strategaeth a'r raddfa a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Strategol.


2.15 Bydd yn rhaid i bob polisi mewn CDLIC gydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol (adran 62(3A) PCPA 2004) gan ddilyn yr un gofyniad cyfreithiol â'r Cynllun Datblygu Strategol i'r FfDC. Ni ellir mabwysiadu CDLIC oni bai ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol. Mater i'r Panel Cynllunio Strategol fydd cyflwyno sylwadau ynghylch cydymffurfiaeth a bydd hyn yn digwydd pan gaiff y CDLIC ei roi ar adnau. Yna bydd y cynllun a gyflwynir yn cael ei archwilio a'i ystyried gan Arolygydd. Gellir paratoi CDLIC ar sail ACLI unigol, neu gwmpasu mwy nag un ACLI, gan arwain at CDLIC ar y Cyd.

Cydymffurfiaeth Gyffredinol

2.16 Mae'r gofyniad i gynllun datblygu gydymffurfio'n gyffredinol â'r cynllun datblygu statudol haen uchaf yng Nghymru i'w weld mewn deddfwriaeth sylfaenol:

- mae adran 6 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn mewnosod adran 60I i'r PCPA 2004. Mae isadran 3A yn nodi bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Strategol gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC.
- Mae adran 7(1) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn mewnosod adran 62(3A) i'r PCPA 2004 sy'n nodi bod yn rhaid i CDLI gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a'r Cynllun Datblygu Strategol.

Diagram 2: Hierarchaeth Cydymffurfiaeth Gyffredinol a Chynlluniau Datblygu



Diffiniad o Gydymffurfiaeth Gyffredinol


2.17 Mae cydymffurfiaeth gyffredinol yn cael ei chyflawni pan fydd y cynllun haen is yn cefnogi ac yn cynnal egwyddorion cyffredinol y cynllun(iau) haen uwch mwyaf diweddar a fabwysiadwyd (Diagram 2). Dim ond pan fydd anghysondeb neu hepgoriad yn y cynllun haen is a fyddai'n achosi niwed sylweddol i'r gwaith o weithredu/cyflawni strategaeth y cynllun(iau) haen uchaf y byddai cynllun yn cael ei ystyried wedyn fel un sydd ddim yn cydymffurfio'n gyffredinol. Er enghraifft:

- Newid sylweddol mewn cyd-destun polisi
- Newid sylweddol mewn strategaeth / ffocws / cyfeiriad
- Newid sylweddol mewn dosbarthiad gofodol / rôl swyddogaeth
- Newid sylweddol mewn lefelau twf (e.e. tai / economi)

2.18 Nid yw'r ffaith y gall cynllun datblygu fod yn anghyson ag un neu fwy o bolisiau yn y cynllun haen uchaf, naill ai'n uniongyrchol neu drwy hepgor polisi/cynnig, yn golygu, ynddo'i hun, nad yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol. Yn hytrach, y pwynt sylfaenol yw pa mor arwyddocaol yw'r anghysondeb o safbwynt cyflawni'r cynllun haen uchaf.

2.19 Er y byddai'n dderbyniol i'r cynllun haen is ddarparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'i wneud yn fwy unigryw i'r ardal leol, ni ddylai danseilio'r strategaeth, y polisiau na'r cynigion cyffredinol yn y cynllun(iau) haen uchaf.

Diagram 3: Cyfrifoldeb am Wneud Sylwadau ar Gydymffurfiaeth Gyffredinol



2.20 Mewn perthynas â'r FfDC, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun a bydd yn cyflwyno sylwadau ynghylch materion cydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol. Yn yr ardaloedd hynny heb Gynllun Datblygu Strategol bydd yn cyflwyno sylwadau ar faterion cydymffurfiaeth gyffredinol argyfer

CDLlau a/neu CDLlau ar y Cyd. Yn yr un modd, y Panel Cynllunio Strategol yw'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun o ran Cynllun Datblygu Strategol a bydd yn cyflwyno sylwadau ar faterion cydymffurfiaeth gyffredinol sy'n ymwneud â CDLlau Cryno a/neu CDLlau ar y Cyd (Diagram 3).

Pryd y Penderfynir ar Gydydffurfiaeth Gyffredinol?

2.21 Dylid gwneud sylwadau ar gydydffurfiaeth gyffredinol ar y cynllun adneuo a'i gyflwyno i'r Arolygydd a benodwyd i archwilio'r cynllun. Ni cheir sicrwydd o ran cynnwys y cynllun a gyflwynwyd tan yr adeg hon yn y broses o baratoi ac ymgynghori ar y cynllun datblygu. Dyma'r cynllun y mae'r awdurdod sy'n llunio cynllun yn ei ystyried yn 'gadarn' ac felly'n cael ei gyflwyno i'w archwilio. Bydd dialog cynnar a pharhaus rhwng yr awdurdod sy'n llunio'r cynllun a'r corff sy'n gyfrifol am bennu cydydffurfiaeth gyffredinol (yr Arolygydd sydd wedi'i benodi i archwilio'r cynllun perthnasol) yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anghytundeb hwyr ynghylch cydydffurfiaeth gyffredinol.

Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlau ar y Cyd)

2.22 Gall dau ACLI neu fwy gytuno i baratoi CDLI ar y Cyd ar gyfer eu hardaloedd cyfun (Adran 72 PCPA 2004 a Rheoliad CDLI 36). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd amgylchiadau lle mae gweithio a chynllunio cynllun ar y cyd yn cynnig manteision sylweddol o ran ansawdd y cynlluniau, a mynd i'r afael â materion trawsffiniol yn effeithiol hefyd. Dylai'r gallu i baratoi dull polisi mwy cyfannol a chyson, yn dilyn un broses weinyddol, wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a darparu gwell canlyniadau cynllunio ar draws yr ardal ehangach. Gallai CDLI ar y Cyd fod yn ddau ACLI neu fwy, heb unrhyw uchafswm.

2.23 Pan baratoir CDLI ar y Cyd, byddai pob ACLI yn defnyddio ei strwythurau gwneud penderfyniadau presennol gan nad oes ganddo alluoedd penderfynu i weithredu fel corff cyfunol, ac eithrio pan fydd Bwrdd Cynllunio ar y Cyd (JPB) yn bodoli. Byddai angen cymeradwyaeth gan bob ACLI unigol cyn y gellir cyflwyno CDLI ar y Cyd i'w archwilio a'i fabwysiadu. Os bydd dau ACLI neu fwy yn cytuno i baratoi neu ddiwygio CDLI ar y Cyd, rhaid i bob ACLI gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi'r CDLI ar y Cyd neu ei ddiwygio fel pe bai'n paratoi CDLI neu ei ddiwygio'n unigol. Rhaid i bob ACLI sy'n cymryd rhan weithio gyda'i gilydd i baratoi neu ddiwygio'r cynllun; ni all hyn gael ei wneud yn unochrog gan un ACLI.

Cydweithio

2.24 Ar gyfer adolygiadau CDLlau, dylai ACLlau ystyried a dangos eu bod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ac effeithlonrwydd casglu dystiolaeth,

ymgyngori a chydweithredu ar y cyd, neu drwy drefniadau cydweithio. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i CDLlau ag amserlenni paratoi tebyg ac sydd â chysylltiadau daearyddol a/neu swyddogaethol cryf. Bydd ystyried materion ar sail ehangach yn rhoi ACLlau mewn sefyllfa gryfach o lawer i ddatrys materion cynllunio ac adlewyrchu'n well sut mae pobl a busnesau'n gweithredu o ddydd i ddydd, yn unol â'r pum ffordd o weithio. Bydd hyn yn ei dro yn dangos prawf allweddol o gadernid, 'A yw'r Cynllun yn Addas? - A yw'n gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos?' Dylai'r Cytundeb Cyflawni fynegi'n glir o'r cychwyn cyntaf sut y gall ACLI ddangos cymaint o gydweithredu â phosibl. Mae'r profion ' cadernid ' wedi'u diwygio i adlewyrchu'r egwyddor hon (gweler Tabl 27, paragraff 6.27).

Rôl Llywodraeth Cymru

2.25 Rôl Llywodraeth Cymru yn y broses cynllun datblygu hyd yma yw un o stiwardiaeth weithredol, a bydd yn parhau felly. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen bydd hyn ar sail fwy penodol, gan adlewyrchu'r ffaith y bydd gan y rhan fwyaf o ACLlau gynllun datblygu lleol wedi'i fabwysiadu. Gweithredu, cyflawni a darparu seilwaith digonol i gefnogi datblygiadau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o gyflawni a hyfywedd fydd y ffocws o hyn ymlaen. Bydd ymgysylltu ag ACLlau yn y dyfodol yn digwydd ar sail fwy cyfunol/rhanbarthol i drafod materion allweddol. Anogir ACLlau i rannu gwybodaeth â'i gilydd.

Pennod 3: Y Broses o Baratoi CDLI

Sicrhau Datblygu Cynaliadwy - Proses Baratoi CDLI Integredig a Chynhwysol

3.1 Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 2) yn cyflwyno diben statudol ar gyfer y system gynllunio. Rhaid i gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio (wedi'u cyfyngu i swyddogaethau o dan Ran 6 PCPA 2004 a Rhan 3 o DCGTH 1990) arfer y swyddogaethau hynny fel rhan o'r gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant 2015). Mae Deddf Llesiant 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt bennu amcanion sydd â'r nod o gynyddu eu cyfraniad at sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gymaint â phosibl.

3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru, wedi'i ategu gan y nodau Llesiant, yn cadarnhau'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy a dylai ACLlau sicrhau bod y cynllun a'i gynigion yn sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r fframwaith polisi i gyflawni'r nodau hyn. Y nod cyffredinol yw gwneud y dull Creu Lleuedd yn rhan annatod o'r broses cynllun datblygu er mwyn sicrhau bod lleuedd cynaliadwy yn cael eu creu.


3.3 Mae PCPA 2004 (adran 62 (6)) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ACLl gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI. At ddibenion y Llawlyfr hwn mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) (Cyfarwyddeb 2001/42/EC, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r system CDLI yn integreiddio proses a gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), AAS a HRA sy'n rhan annatod o bob cam o'r broses o baratoi cynllun gan gynnwys casglu tystiolaeth, nodi materion, pennu amcanion, gwerthuso opsiynau ac ymgynghori (gweler pennod 4 am ganllawiau manwl).

3.4 Mae PCPA 2004 fel y'i diwygiwyd gan y PWA 2015 (adran 11) yn cadarnhau'r gofyniad i'r SA gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun. Diben hyn yw sicrhau bod graddfa a lleoliad y newid a nodir yn y cynllun yn cefnogi'r Gymraeg a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn eu lle, os oes angen.

3.5 Mae Deddf Llesiant 2015 wedi cyflwyno saith nod llesiant i helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy ac yn pennu'r 'Pum Ffordd o Weithio' y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau bennu amcanion Llesiant ac ystyried Cynlluniau Llesiant (WBPs) hefyd.

Un o'r negeseuon allweddol yw cynnwys yn hytrach nag ymgynghori.

Diagram 4: Nodau Llesiant



3.6 Rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos sut maent yn defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy i lywio eu gwaith. Mae rhoi ystyriaeth i'r pum ffordd o weithio yn rhan annatod o'r system cynlluniau datblygu (Diagram 4).

Hirdymor	- Ystyried sut gall yr hyn a wnawn yn awr effeithio ar gymunedau a gwasanaethau yn y dyfodol
Atal	- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
Integreiddio	- Ystyried sut mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant, yn effeithio ar amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
Cydweithio	- Gweithio gydag eraill i gyflawni'r amcan llesiant
Cynnwys	- Cynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol

3.7 Dylai'r pum ffordd o weithio fod yn sail i'r broses o baratoi'r CDLI a dylid eu hystyried o'r cychwyn. Bydd y Cynlluniau Llesiant yn rhan allweddol o'r dystiolaeth, gan ffurfio a dylanwadu ar weledigaeth, strategaeth ac amcanion y CDLI.

3.8 Y Cytundeb Cyflenwi sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS) yw'r mecanwaith sy'n nodi sut a phryd y gall cymunedau gael eu cynnwys yn y broses CDLI er mwyn iddynt allu llunio a dylanwadu ar eu hardal yn effeithiol.

Bydd cydymffurfio ac integreiddio â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio yn chwarae rhan bwysig o ran dangos bod y CDLI yn gadarn. Ni ddylai fod yn ymarfer ticio blychau neu'n rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu at ddiwedd y broses – yn hytrach, dylai fod yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi cynllun.

3.9 Mae Pennod 4 y Llawlyfr (Asesiadau Effaith a Chyfleoedd ar gyfer Integreiddio) yn egluro sut i integreiddio'r gofynion deddfwriaethol hyn, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar iechyd a chydardoldeb, yn y broses o lunio cynllun a chynnal Afarniad o Gynaliadwyedd. Mae'n crynhoi hefyd sut y gellir integreiddio'r broses gynnwys i gwmpasu'r CDLI a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS cysylltiedig, ar y cyd â'r nodau llesiant a 'ffyrdd o weithio'.

Canlyniadau Allweddol y System CDLI

3.10 Mae'r system CDLI yn ceisio cyflawni'r canlyniadau allweddol canlynol. Dylai cynlluniau wneud y canlynol: :

- 1) Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o safon yn seiliedig ar Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) wedi'i integreiddio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS/HRA, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant 2015.
- 2) Bod yn seiliedig ar gynnwys cymunedau yn gynnar, yn effeithiol ac yn ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion.
- 3) Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth ardal(oedd) gan gynnwys y cysylltiadau swyddogaethol ag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.
- 4) Bod yn unigryw drwy fod â chynlluniau sy'n nodi'n glir sut bydd eu hardal yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
- 5) Gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio Rhagolygon Hinsawdd diweddaraf y DU, data asesiadau risg a pherygl llifogydd) a chefnogi'r broses o newid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Bydd yn rhaid dilyn egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

- 6) Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 7) Cyflawni'r hyn a fwriedir drwy gynlluniau cyflawnadwy a hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill yfarchnad.
- 8) Bod yn rhagweithiol ac yn ymatebol gyda'r cynlluniau'n cael eu cadw'n gyfredol ac yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer newid.

Ffurf a Strwythur CDLI

3.11 Mae'r elfennau allweddol sy'n ffurfio ffurf a strwythur CDLI wedi'u nodi mewn:

- 1) Deddfwriaeth (adran 62, PCPA 2004 a Rheoliadau CDLI 11 a 12)
- 2) Polisi cynllunio cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru)
- 3) Y Llawlyfr CDLIau

Dylai CDLI fod yn benodol, yn gryno ac yn berthnasol i'r materion allweddol y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw. Ni ddylai CDLI ailadrodd polisi cenedlaethol. Ni ddylai cynlluniau fod yn grynodeb o bolisiâu ar gyfer pob sefyllfa. Dylai CDLIau cryno ddefnyddio iaith glir, osgoi jargon, bod yn hygyrch i'r darlennydd a sicrhau bod modd adolygu a diwygio'r cynllun yn effeithiol.

Bydd cynllun yn cynnwys y strategaeth, y polisiâu a'r dyraniadau i fynd i'r afael â'r materion allweddol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd yn llunio ac yn arwain cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy, gan sicrhau twf a llesiant o'r raddfa a'r math sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun. Bydd cynllun yn dangos sut mae'n cyflawni Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, bod gwaith datblygu yn gyflawnadwy, yn hyfyw yn ariannol, yn digwydd fesul cam ac yn cael ei gefnogi gan seilwaith. Bydd CDLIau yn helpu i wneud penderfyniadau cyson ledled Cymru.

Mae CDLI sy'n ailadroddus ac yn gymhleth yn debygol o arwain at brosesau ymgynghori ac archwilio mwy hirfaith, gan ychwanegu costau ac oedi diangen.

Dylai CDLI fod yn gryno ac yn glir

3.12 Mae'n rhaid i'r CDLI gwmpasu ardal weinyddol lawn yr ACLI sy'n paratoi'r cynllun, mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a chynnwys y canlynol:

Tabl 1: Cynnwys CDLI

Teitl	Enw'r ardal y mae'r CDLI yn cael ei baratoi ar ei chyfer.
Cyfnod y Cynllun	Cyfnod y cynllun (e.e. 2020 – 2035).
Is-deitl	Dyddiad mabwysiadu'r CDLI a'r dyddiad y daw'r cyfnod y bydd y cynllun yn weithredol amdano i ben, wedi'i fynegi fel dyddiad, mis a blwyddyn, h.y. 31 Rhagfyr 2035. Os yw'n 'CDLI sy'n datblygu' (h.y. cyn y cam adneuo) dylai'r cynllun nodi'r cam a gyrhaeddwyd a'r dyddiad cyhoeddi.
Crynodeb a'r Dudalen Gynnwys	Bydd crynodeb byr o'r cynllun a'r rhestr gynnwys yn gwneud y cynllun yn fwy cydlynol a hygyrch.
Cyflwyniad	Esboniad clir a chryno o'r materion a'r strategaethau cyd-destunol, gan gynnwys yr amcanion llesiant a'r cynllun llesiant, sydd wedi llywio'r cynllun a'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Dylid croesgyfeirio ffynonellau data'n glir.
Strategaeth	<p>Mae'r strategaeth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweledigaeth drosfwaol, materion strategol, nodau/amcanion allweddol, gan gynnwys y berthynas â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ac integreiddio'r amcanion llesiant. • Hierarchaeth anheddu. • Polisiâu strategol allweddol - ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol, egwyddorion Creu Lleoedd, lleoliadau eang ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy, ffiniau aneddiadau a mannau dynodedig o dwf/cyfyngiadau, targedau tai (gan gynnwys is-ardaloedd) math a deiliadaeth, polisi tai fforddiadwy trosfwaol, datblygu economaidd, anghenion manwerthu, ystyriaethau o ran y Gymraeg, seilwaith i gefnogi'r lefel ofynnol o ddatblygiad ac adnoddau naturiol i'w diogelu, eu rheoli neu eu defnyddio. • Lefel arfaethedig y newid / lefelau twf – dosbarthiad gofodol a mecanweithiau rheoli. • Dylai'r polisiâu gael eu hategu gan wybodaeth fanwl am safleoedd penodol megis graddfa'r twf, camau'r gwaith a'r lleoliad. • Dylid dangos y strategaeth ar ddiagram allweddol yn crynhoi'r prif elfennau (e.e. symbolau a saethau wedi'u cyffredinoli – ddim yn seiliedig ar O.S).
Polisiâu Rheoli Datblygiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer cyfyngedig o bolisiâu cryno ar gyfer yr ardal gyfan, sy'n canolbwyntio ar faterion lleol penodol, y Gymraeg, tai fforddiadwy gan gynnwys targedau, polisiâu tai fforddiadwy lleol, ffiniau aneddiadau, Sipsiwn a Theithwyr, trafndiaeth, ynni adnewyddadwy, rhwymedigaethau cynllunio a106, dylunio, twristiaeth, mwynau, gwastraff, manwerthu, seilwaith

	<p>gwyRDD, perygl llifogydd, cyflwr y ddaear gan gynnwys nwy o fwyngloddiau, fel sy'n briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r polisïau nodi unrhyw ofynion lliniaru/digolledu perthnasol, yn seiliedig ar asesiadau hyfywedd/paramedrau deddfwriaeth, nad ydynt o fewn y cyfiawnhad rhesymedig (RJ). • Dylai polisïau osgoi ailadrodd polisïau cenedlaethol, er y gall croesgyfeirio fod yn fuddiol. • Dylai fod cysylltiad clir rhwng polisïau ac amcanion y CDLI, gyda chyfeiriadau at bolisi cenedlaethol a gwybodaeth gefndir ategol wedi'u cynnwys lle maent yn berthnasol. Bydd hyn yn osgoi ailadrodd ac yn gwneud y ddogfen yn fwy cydlynol ac yn haws i'w defnyddio. • Byddwch yn glir ynghylch manau dynodedig ar gyfer eu hamddiffyn, cadwraeth a chyfyngiadau. (AHNE, bioamrywiaeth, treftadaeth). • Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft iechyd yr amgylchedd, rheoliadau adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. • Ni ddylai polisïau gynnwys datganiadau o fwriad neu ddisgrifiadau o drefniadau gweinyddol.
Cyfiawnhad Rhesymedig cryno	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfiawnhau ac egluro sut caiff polisïau eu gweithredu, wedi'u hategu gan gyfeiriadau allweddol at bolisi cenedlaethol a Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA). • Dylai bod modd gwahaniaethu'n hawdd rhwng polisïau a'r Cyfiawnhad Rhesymedig. Rhaid i'r Cyfiawnhad Rhesymedig beidio â chyflwyno polisi newydd, na gwrth-ddweud y polisi.
Polisïau a Dyriadau Penodol i Safle/Ardal	<ul style="list-style-type: none"> • Safleoedd i'w datblygu a pholisïau'n ymwneud â'u cyflawni a'u gweithredu. • Egwyddorion prif gynlluniau / fframweithiau sgematig
Fframwaith Monitro	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi sut caiff y strategaeth, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion yn y cynllun eu monitro yn erbyn dangosyddion priodol a phwyntiau ysgogi ar gyfer gweithredu a'u cysylltu ag adolygu/diwygio'r cynllun.
Rhagolygon Tai (Atodiad)	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys rhagolygon tai mewn Atodiad i'r cynllun i ddangos sut caiff tai eu cyflwyno'n raddol a'u darparu dros oes y cynllun, wedi'u hategu gan dablau, sy'n dangos bod y gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig wedi'i chyflawni.
Gweithredu a Chyflawni (Atodiad)	<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad Gweithredu a Chyflawni sy'n nodi materion allweddol, cyfyngiadau, camau cyflwyno a mesurau lliniaru sy'n ofynnol i gyflawni cynigion yn y CDLI y gellir eu defnyddio i roi dangosyddion monitro a sbardunau allweddol. Dylai gynnwys disgrifiadau cryno o'r safleoedd allweddol, ynghyd â throsolwg

	o'r materion cyflawni a gweithredu penodol ar gyfer safle, yn cynnwys cyfyngiadau safleoedd, y mesurau lliniaru / digolledu angenrheidiol a rhwymedigaethau cynllunio / gofynion seilwaith a106.
Atodiadau	<ul style="list-style-type: none"> Gall defnyddio atodiadau i gynnwys gwybodaeth fanwl am safleoedd, canllawiau cynllunio atodol, gofynion cyflawni'r gwaith fesul cam, mapiau, dynodiadau, fod yn ychwanegiad defnyddiol, lle y bo angen, i helpu i wneud y cynllun yn fwy clir.
Termau Technegol a Geirfa	<ul style="list-style-type: none"> Dylid osgoi jargon ac esbonio termau'n glir.
Map Cynigion a Mapiau Mewnosod (lle bo'n briodol)	<ul style="list-style-type: none"> Mae map seiliedig ar O.S. yn dangos yn glir y polisiau a'r cynigion yn y cynllun sydd ag elfen ofodol (dyraniadau safle/ardal, ffiniau aneddiadau, ardaloedd diogelu) gan gynnwys diffinio ardaloedd y bydd polisiau rheoli datblygu penodol yn berthnasol iddynt. Pan fydd cyfnodau'r gwaith ar safleoedd yn mynd y tu hwnt i gyfnod y cynllun, ond eu bod wedi dechrau o fewn cyfnod y cynllun, efallai y bydd yn briodol cynnwys ffin y safle cyfan er mwyn caniatáu datblygiad effeithiol a chynhwysfawr. Bydd angen i ACLlau ystyried y mater hwn yng ngoleuni darpariaethau Malltod (gweler paragraff 7.18).
Map Cyfyngiadau	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n rhan ffurfiol o CDLI ond mae'n ddefnyddiol iawn i nodi'r ardaloedd gofodol hynny a bennir gan gyrff/prosesau eraill e.e. mapiau perygl llifogydd, dynodiadau tirwedd statudol, parthau rheoli ansawdd aer.

Trosolwg o Gyfnodau Allweddol CDLI – Crynodeb

3.13 Mae Diagram 5 isod yn nodi camau allweddol y broses o baratoi cynllun. Mae'r Rheoliadau CDLI yn nodi gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau y gellir dangos cydymffurfiaeth weithdrefnol drwy'r archwiliad, sy'n brawf hanfodol o gadernid. Yna mae Diagram 6 yn rhoi rhagor o fanylion am y berthynas rhwng paratoi cynllun, proses yr SA a Deddf Llesiant 2015. Amlygir cyfeiriadau at wahanol benodau'r Llawlyfr lle gellir dod o hyd i fanylion pellach.

Diagram 5: Y Broses CDLI

<p style="text-align: center;"> Polisi Cynllunio Cymru Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Ymgysylltu â'r Gymuned Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Aseiad Amgylcheddol Strategol Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd </p>	1	Adolygiad o'r CDLI a Datblygu Sail Dystiolaeth (parhaus)
	2	*Cytundeb Cyflawni (amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau)
	3	<p style="text-align: center;">Paratoi / Cyfranogi Galw am safleoedd ymgeisiol Strategaeth a Ffefrir</p> <p style="text-align: center;">Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol (6 wythnos)</p>
	4	<p style="text-align: center;">Cynllun Adneuo Diweddaru'r Sail Dystiolaeth</p> <p style="text-align: center;">Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol (6 wythnos)</p>
	5	Cyflwyno
	6	Archwilio
	7	Adroddiad Arolygwyr
	8	Mabwysiadu
	9	<p style="text-align: center;">Adroddiad Monitro Blynyddol Adroddiad Adolygu</p>

*Gweler Pennod 8 am y weithdrefn adolygu ffurf fer

Diagram 6: Cynnwys a Thasgau Allweddol yn y Broses CDLI

Ymgysylltu ac ymgynghori	Tasgau allweddol a'r arfarniad cynaliadwyedd integredig (ISA)	Cyfeirnod y bennod yn y llawlyfr
1. Adolygiad CDLI/datblygu sail tystiolaeth		
	<p>Adolygiad CDLI - datblygu sail dystiolaeth (parhaus)</p> <p>Sefydlu'r llinell sylfaen (Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS))/ailystyried dilysrwydd fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd mabwysiedig</p>	<p>Pennod 8: Monitro, Adolygu a Diwygio</p> <p>Pennod 4: Asesiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio</p>
2. Cytundeb Cyflawni (Amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau)		
<p>Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori'n anffurfiol â chymunedau a rhanddeiliaid allweddol ar gwmpas a chynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau.</p> <p>Rhaid i'r ACLI ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ddrafft cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol</p>	<p>Cytundeb Cyflawni (Amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau)</p>	<p>Pennod 3: Y Broses o Baratoi CDLI – Trosolwg o'r Camau Allweddol</p>
3. Cynigion cyn adneuo/paratoi a chyfranogi		
<p>Meithrin consensws/nodi a phrofi opsiynau strategol/materion allweddol gyda rhanddeiliaid a chymunedau allweddol</p> <p>Ymgynghori'n ffurfiol ar y Strategaeth a Ffefrir am 6 wythnos</p> <p>Ystyried a thrafod canlyniadau'r ymgynghoriad</p> <p>Paratoi'r adroddiad ymgynghori cychwynnol</p>	<p>Galwad am Safleoedd Ymgeisiol – paratoi cofrestr</p> <p>SA o opsiynau/paratoi adroddiad cychwynnol yr arfarniad o gynaliadwyedd</p> <p>Paratoi cynigion cyn adneuo Paratoi / cyfranogi</p> <p>Ymgynghoriad cyhoeddus statudol (6 wythnos)</p>	<p>Pennod 3: Y Broses o Baratoi CDLI – Trosolwg o'r Camau Allweddol</p> <p>Pennod 4: Asesiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio</p>
4. Adneuo		
<p>Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol a'r cynigion sy'n dod i'r amlwg</p> <p>Ymgynghori'n ffurfiol ar ddogfennau adneuo am 6 wythnos</p>	<p>Terfynu'r Cynllun Adneuo a sylfaen dystiolaeth ategol</p> <p>Adolygu SA ar opsiynau newydd/diweddaru adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd</p>	<p>Pennod 3: Y Broses o Baratoi CDLI – Trosolwg o'r Camau Allweddol</p> <p>Pennod 4: Asesiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio</p> <p>Pennod 5 – Paratoi CDLI: Materion craidd</p>

Datganiadau Tir Cyffredin Ystyried sylwadau a wnaed a diweddarau'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad	Cyflwyno dogfennau adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol (6 wythnos) Dylai safleoedd sydd heb eu profi a gynigir gael eu profi drwy'r arfarniad o gynaliadwyedd	
5. Cyflwyno		
Cysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio mewn perthynas â gofynion dogfennau cyflwyno	Cyflwyno	Pennod 5 – Paratoi CDLI: Materion Craidd Pennod 6: Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu Canllawiau archwiliadau'r Arolygiaeth Gynllunio
6. Archwilio		
Diweddarau/paratoi datganiadau tir cyffredin ar faterion a safleoedd allweddol.	Archwilio	Pennod 6: Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu Canllawiau archwiliadau'r Arolygiaeth Gynllunio
7. Adroddiad Arolygwyr		
Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu	Adroddiad Arolygwyr	Pennod 6: Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu Chanllawiau archwiliadau'r Arolygiaeth Gynllunio.
8. Mabwysiadu		
Mabwysiadu'r cynllun a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun, adroddiad cynaliadwyedd a datganiad ar ôl mabwysiadu	Mabwysiadu'r CDLI cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd drwy benderfyniad ffurfiol y Cyngor. Cyhoeddi ble y gall y cynllun sydd wedi'i fabwysiadu gael ei archwilio Diwygio a chyhoeddi'r adroddiad cynaliadwyedd a'r datganiad ar ôl mabwysiadu yn cynnwys arfarniad cynaliadwyedd.	Pennod 6: Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu Pennod 4: Aseidiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio

9. Adroddiad Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu		
<p>Dylai'r ACLL ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid allweddol ar yr AMB a'r Adroddiad Adolygu.</p>	<p>Adolygiad o'r CDLI - Datblygu Sail Dystiolaeth (parhaus)</p> <p>Adroddiadau Monitro Blynyddol</p> <p>Adroddiad Adolygu (gan ddod i gasgliad ar weithdrefn adolygu ffurf fer)</p> <p>Monitro effeithiau sylweddol a mesurau lliniaru drwy'r broses AMB.</p> <p>Sefydlu'r llinell sylfaen (SA/SEA) / ailystyried dilysrwydd fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd mabwysiedig</p>	<p>Pennod 8: Monitro, Adolygu a Diwygio</p> <p>Pennod 4: Aseidiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio</p>


**Gweler Pennod 4 am ganllawiau ar y broses ISA a'r berthynas â'r cyfnodau allweddol a Phennod 8 ar gyfer gweithdrefn adolygu ffurflen fer*

Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau


Trosolwg

3.14 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddatganiad cyhoeddus cryno sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n nodi sut a **phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan** yn y broses o lunio cynllun ac **amserlen** ar gyfer paratoi/diwygio CDLI. Crynhoir y broses yn Niagram 7:


Diagram 7: Proses y Cytundeb Cyflawni




Cam 1: Egwyddor Prosesau Cychwynol: Rheoliad 14



Cam 2: Ymgynghoriad Statudol – Rheoliad 15



Cam 3: Ymdrin â sylwadau a pharatoi'r Adroddiad Ymgynghori (Rheoliad 16 ac 16A)



**Rheoliad 26A sy'n berthnasol ar gyfer adolygiad ffurf fer (nid Rheoliad 14/15). Penderfynu ar gwmpas yr adolygiad a chreu opsiynau amgen; gall safleoedd ymgeisiol fod yn briodol – gweler Pennod adolygiad ffurf fer*

Cytundeb Cyflawni

3.15 Mae'r Cytundeb Cyflawni'n offeryn rheoli prosiect hanfodol sy'n:

- Atgyfnerthu pwysigrwydd y CDLI fel offeryn corfforaethol o fewn yr ACLI
- Hysbysu'r gymuned o'r broses o baratoi cynllun, pryd y gallant gymryd rhan ac yn nodi sut y gallant gyfrannu
- Pennu'r terfyn realistig ar yr hyn y gall yr ACLI ei wneud yn rhesymol o fewn adnoddau a disgwyliadau amser
- Sicrhau cyllideb ac yn ymrwymo adnoddau staff

- Egluro cwmpas a dylanwad y cynllun
- Caniatáu cydlynu â'r gwaith o baratoi strategaethau a dogfennau eraill

Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni (gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau a'r amserlen) gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan yr ACLI (neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n cyfateb i ACLI) yn unol â Rheoliad 9 CDLlau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y Cynllun Cyflawni'n gadarn, yn realistig ac yn ymdrin â phrif ofynion paratoi'r cynllun.

Cael cytundeb i'r Cynllun Cyflawni yw dechrau ffurfiol y broses o baratoi/adolygu'r cynllun. Mae'r ACLI wedi ymrwymo i'r amserlenni a'r prosesau ymgynghori a nodwyd.

Mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Cyflawni gyda chopïau ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfeydd yr ACLI ac ar ei wefan yn unol â rheoliad 10 CDLlau.

Ymgynghori a Chynnwys

3.16 Mae'r Rheoliadau CDLlau yn amlinellu'r gofyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio'r Cynllun Cyflawni. Mae Rheoliad 2 CDLlau yn diffinio cyrff ymgynghori penodol a chyrff ymgynghori cyffredinol, y cyfeirir atynt fel rhanddeiliaid allweddol a rhanddeiliaid yn y Llawlyfr, yn y drefn honno. Drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Cyflawni, argymhellir y dylid cynnal trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ac ymgynghoreion statudol eraill er mwyn deall rolau a chyfrifoldebau a datblygu amserlenni realistig. Dylai ACLlau ystyried y lefel a'r math mwyaf priodol o gyfranogiad ar gyfer eu Cynllun Cyflawni i gyd-fynd â'r cyd-destun lleol, ac yn arbennig, sicrhau bod Deddf Llesiant 2015 a'r ffyrdd o weithio i gynnwys pobl yn cael sylw priodol. Gall ACLI ddewis ymgynghori ar ei Gynllun Cyflawni drafft gydag ACLlau cyfagos a grwpiau buddiant lleol neu genedlaethol. Y gofyniad yw i fuddiannau lleol o'r fath gael eu cynnwys yn y gwaith o'i baratoi fel y mae'r ACLI yn ystyried yn briodol (Rheoliad 5 CDLlau).

Cynnwys a Fformat Cynllun Cynnwys Cymunedau

3.17 Wrth baratoi'r cynllun mae'n hanfodol bod ACLI yn cynnwys y bobl gywir ar yr adeg iawn gan geisio sicrhau mwy o gonsensws a chryfhau cyfraniad y gymuned at y broses o lunio cynllun. Dylai'r ACLI sicrhau ei fod yn gyson â Deddf Llesiant 2015 a phum ffordd o weithio wrth baratoi ei Gynllun Cynnwys Cymunedau a chynnwys rhanddeiliaid hefyd. Wrth baratoi'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, dylai ACLlau:

- Greu'r amodau ar gyfer sicrhau cyfranogiad ac adborth cynnar yn ystod cam pan fydd pobl yn gallu siapio a dylanwadu ar y cynllun, yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio, fel y nodir yn Neddf Llesiant 2015

- Annog ymrwymiad yr holl gyfranogwyr i drafodaeth agored a gonest ar opsiynau datblygu amgen realistig wrth geisio sicrhau consensws eang
- Cydnabod yr angen i fabwysiadu dulliau/technegau i gynnwys pob elfen o'r gymuned (grwpiau oedran, grwpiau gweithredu cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau nodweddion gwarchoddedig) gan gynnwys busnesau, sy'n ceisio cynnwys y rhai nad ydynt yn arfer cymryd rhan
- Ni fydd un dull sy'n gweddu i bawb yn briodol

3.18 Mae'n rhaid i'r ACLI ystyried nodau, cwmpas a blaenoriaethau'r CDLI a defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol ac effeithlon o sicrhau cyfranogiad.

3.19 Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu sut i gynnwys y gymuned a rhanddeiliaid na pha ddulliau y dylid eu defnyddio. Mae hwn yn fater i bob ACLI, gan ystyried ei wybodaeth leol.

3.20 Dylai'r Cynllun Cynnwys Cymunedau nodi egwyddorion strategaeth cyfranogiad y CDLI a rhestru'r holl gyrrff ymgynghori cyffredinol a phenodol hynny sydd i'w cynnwys yn y gwaith o baratoi'r CDLI (Rheoliad 2 CDLlau). Dylai'r ACLI sicrhau ei fod yn cynnwys y cyrrff ymgynghori allweddol hynny sy'n berthnasol i'w ardal a'r materion a'r cynigion amrywiol sy'n cael eu hystyried neu y bydd angen ymdrin â nhw yn y cynllun. Er enghraifft, dylai'r ACLI sicrhau ei fod yn cynnwys y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Heddlu er mwyn sicrhau y caiff egwyddorion diogelwch a dylunio eu hystyried o'r cychwyn. Mae hefyd yn hanfodol bod aelodau o'r gymuned a rhanddeiliaid yn rhagweithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys a bod manylion cyswllt yn cael eu darparu ar restr rhanddeiliaid yr ACLI. Dylai'r ACLI gynnwys y grwpiau allweddol ar yr adeg gywir. Nid oes gofyniad bellach i roi rhybudd drwy hysbysebu'n lleol mewn papur newydd lleol. Fodd bynnag, gall ACLI benderfynu bod hyn yn ddull priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol i gynyddu cyfranogiad.

Paratoi'r Cynllun Cynnwys Cymunedau

Pennir cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Rheoliad 6 CDLlau.

3.21 Dylai ACLLau roi sylw i'r pwyntiau canlynol wrth baratoi neu adolygu'r Cynllun Cynnwys Cymunedau:

- A gafodd y gwersi eu dysgu o'r broses o baratoi'r cynllun blaenorol ac a oes angen diwygio'r Cynllun Cynnwys Cymunedau?
- Pa ddogfennaeth sydd ar gael wrth geisio cynnwys y gymuned? Dylai hyn fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r dogfennau sy'n cael eu paratoi yn ystod y cam penodol o'r gwaith o lunio cynllun a gyrhaeddwyd

- Nodi rhaglen gynnwys fanwl er mwyn hwyluso deialog gynnar, gyda'r nod o geisio consensws ar y dystiolaeth, sicrhau bod y broses gynnwys yn canolbwyntio ar y camau pan ellir dylanwadu ar y cynllun er mwyn datblygu cynllun cadarn
- Pwy fydd yn cymryd rhan? Proffilio'r gymuned a nodi'r ystod fwyaf priodol o fuddiannau, yn enwedig grwpiau anodd eu cyrraedd nad ydynt yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi cynllun fel arfer, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig
- Dulliau ac amseru sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid ar wahanol gamau'r gwaith o baratoi'r cynllun
- Darpariaethau ymgynghori ffurfiol ar gyfer y camau eraill o'r cynllun
- Nodi'r adnoddau sydd ar gael
- Lefel cyfranogiad Aelodau etholedig, cysylltiadau â grwpiau cymunedol, cylchoedd pwyllgorau ac etholiadau
- Nodi mecanweithiau adrodd a lledaenu gwybodaeth, yn anffurfiol a hefyd cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol
- Dull tryloyw o ystyried allbwn a defnyddio canlyniadau i lywio'r cynllun drafft, y polisiâu a'r canllawiau

Mae'r Gofynion a'r Ystyriaethau ar gyfer Cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau fel a ganlyn:

- Rhaid i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau ymdrin â'r materion a restrir yn Rheoliad 6 CDLlau a nodi egwyddorion strategaeth gynnwys yr ACLI
- Unrhyw safonau corfforaethol ACLI, trefniadau presennol ar gyfer cynnwys y gymuned e.e. paneli dinasyddion, trefniadau cynnwys Cynlluniau Llesiant neu Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol, ymarferion cynnwys strategaethau/cynlluniau eraill yr ACLI sy'n gorgyffwrdd neu sy'n berthnasol
- Rôl yr ACLI, swyddogion, aelodau Gweithredol ac aelodau Etholedig
- Datganiad ar y dull o adeiladu consensws a mynediad i'r broses gan grwpiau anodd eu cyrraedd a'r rheini â nodweddion gwarchoddedig
- Disgwyliadau ymgynghoreion statudol, asiantaethau a thrydydd partion/cyfranogwyr
- Potensial ar gyfer gweithio ar y cyd, defnyddio ymarfer cynnwys presennol/blaenorol yr ACLI
- Defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu

Gallai Atodiadau'r Cynllun Cynnwys Cymunedau gynnwys:

- Trefniadau cyhoeddusrwydd safonol gan gynnwys gwefan yr ACLI
- Adroddiad unrhyw ymgynghoriad ar y Cynllun Cynnwys Cymunedau arfaethedig
- Rhestr o drefniadau cynnwys gyda chyrrff/grwpiau rhanddeiliaid

- Rhestr o bartneriaethau sy'n berthnasol i'r ACLI
- Proffil a nodweddion y gymuned leol
- Trosolwg o risgiau a chynlluniau wrth gefn

Ystyriaethau Cydymffurfio

3.22 Mae'r Cytundeb Cyflawni'n ymrwymo'r ACLI i gynhyrchu ei CDLI, neu ei ddiwygio, yn unol â'r amserlenni a'r prosesau ymgynghori a nodwyd. Mae Rheoliad 9 (6) CDLlau yn pennu pryd nad oes rhaid i ACLI gydymffurfio â gofyniad penodol yn ei Gynllun Cynnwys Cymunedau; h.y. os oes gan yr ACLI sail resymol i gredu nad yw'n debygol o niweidio cyfle unrhyw berson i fod yn rhan o arfer swyddogaethau'r ACLI o dan Ran 6 o'r PCPA 2004 os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

3.23 Mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn archwilio unrhyw wyriadau arwyddocaol o'r amserlen a gytunwyd a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (na chytunwyd arno'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd) oherwydd gallai hyn arwain at oblygiadau gweithdrefnol anffafriol o ran y profion cadernid. Mae hon yn risg y dylid ei hosgoi drwy sicrhau y cedwir at yr amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau hefyd. Os na fydd y gwaith yn cadw at yr amserlen, mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Cynnwys yr Amserlen

Mae Rheoliad 8 CDLlau yn nodi gofynion cynnwys yr amserlen

3.24 Mae'n rhaid i'r amserlen nodi llinell amser ar gyfer y broses o baratoi cynllun sy'n cynnwys y gwahanol gamau, gan gynnwys camau allweddol ymgynghori â'r cyhoedd, yn **ddiffiniol hyd at yr adneuo, a dyddiadau** dangosol hyd at fabwysiadu'r cynllun. Rhaid iddi nodi'r dyddiadau allweddol ar gyfer cyhoeddi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd. Dylai'r Cytundeb Cyflawni nodi'r adnoddau staff sydd ar gael i baratoi'r cynllun.

Amserlenni ar gyfer Paratoi Cynllun

3.25 Gan fod ACLlau wedi mabwysiadu CDLI a bod cynlluniau'n cael eu hadolygu, dylai'r broses o baratoi adolygiadau o gynlluniau fod yn llawer cyflymach nag o'r blaen. Mae hyn yn adlewyrchu cwmpas, amrediad a pherthnasedd y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r cynllun a fabwysiadwyd, cynefinrwydd â'r system a'r profiad a enillwyd gan ACLlau. Ni ddylai paratoi cynllun gymryd mwy na 3.75 o flynyddoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cynlluniau sy'n cael eu hadolygu yn **cael eu paratoi mewn 3.5 mlynedd ar ôl cytuno'n ffurfiol ar y Cytundeb Cyflawni, gydag un cyfnod llithriant ychwanegol o 3 mis**. Bydd y cyfnod llithriant hwn yn berthnasol i holl broses y cynllun ac nid yw'n gronol.

3.26 Bydd y cyfnod llithriant yn cynnwys ychydig o hyblygrwydd cyn bod angen newid ffurfiol i'r amserlen, ond dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylai hyn fod yn angenrheidiol. Mae hyn yn cydnabod na fydd ACLlau yn dechrau o'r dechrau. Bydd y cyfuniad o'r ffaith nad oes angen diweddarau'r sail dystiolaeth oni bai fod amgylchiadau wedi newid a'r sgiliau a'r wybodaeth a gafwyd o fabwysiadu'r cynllun blaenorol, yn golygu bod modd hwyluso adolygiadau o gynlluniau'n gynt.

Pennu Amserlen Realistig

3.27 Trwy gydol y broses o baratoi amserlen y Cytundeb Cyflawni, dylai ACLlau ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ddrafftiau cynnar cyn penderfyniad yr ACLI a'i gyflwyno'n ffurfiol. Bydd hyn yn osgoi unrhyw ail-ddrafftiau ac oedi diangen.

Rhaid i amserlenni ar gyfer y camau allweddol fod yn glir, gan nodi cyfnodau amser pendant pan fydd ymgynghoriadau'n digwydd (e.e. Adneuo Gorffennaf-Awst 2019, Cyflwyno – Awst 2020). Amseriad y cyfnod ymgynghori ei hun ac nid y cam cyfan ddylai hwn fod. Bydd dyddiadau ar ôl y cyflwyno yn rhai dangosol.

Nid yw amserlenni sydd ag amrediad eang o ddyddiadau ar gyfer Rheoliad 15 (Strategaeth a Ffebrir) Rheoliad 17 (Adneuo) a Rheoliad 22 (Cyflwyno) yn briodol.

3.28 Dyma'r ffactorau allweddol i'w hystyried wrth bennu amserlen realistig a chyraeddadwy:

Tabl 2: Ffactorau wrth Bennu Amserlen Realistig

Penderfyniadau gan Aelodau	Mae amseriad penderfyniadau Aelodau (ac etholiadau) yn bwysig wrth bennu'r amserlen. Dylai pob Cytundeb Cyflawni wneud darpariaeth briodol ar gyfer cylchoedd Pwyllgorau a'r Cyngor yn ogystal â chyfarfodydd arbennig gan ystyried cyfnodau etholiad a hyfforddiant aelodau lle bo angen.
Amseriadau rhwng camau statudol	Bydd y cyfnod o amser rhwng camau statudol allweddol a lefel y gwaith ynghlwm wrth bob cam yn llywio'r amserlen yn uniongyrchol. Dylai ACLlau ganiatáu amser ar gyfer paratoi astudiaethau technegol, cynnwys, gwaith arolygu a gweithio ar y cyd.
Adnoddau a chyllidebau staff	Er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cael ei gweithredu'n effeithiol, mae'n rhaid bod lefel briodol o adnoddau staff wedi'u sefydlu a'u hymrwymo yn y Cytundeb Cyflawni. Rhaid ymgorffori hyn yng

	nghyllidebau'r ACLI, gan gynnwys cost comisiynu astudiaethau technegol a chynnal yr archwiliad.
Ymgynghori â'r Arolygiaeth Gynllunio	Dylai canllawiau gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio lywio amserlen y cynllun a'r gwaith o fireinio'r camau dangosol pan fydd yr amserlen archwilio'n hysbys. Mae hyn yn golygu hefyd y gellir gwirio argaeledd tebygol Arolygydd i archwilio'r CDLI ac mae'n galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i gynllunio ei llwyth gwaith.
Newidiadau â Ffocws	Cam anstatudol a dim ond mewn amgylchiadau 'eithriadol' y dylid ei ddefnyddio ac ni ddylid ei gynnwys yn amserlen y Cytundeb Cyflawni o'r cychwyn cyntaf.

Tabl 3: Amserlen Cytundeb Cyflawni

Cam Allweddol		Amserlenni
Diffiniol		
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Hyd at bedair wythnos ar gyfer cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (Yn fyrrach fel arfer)
Cam 2	Cyn adneuo Paratoi a chynnwys	Tua 1.5 mlynedd
Cam 3	Strategaeth a Ffefrir Ymgynghoriad cyhoeddus	
Cam 4	Cynllun adneuo Ymgynghoriad cyhoeddus	
Dangosol		Amserlenni
Cam 5	Cyflwyno	Tua 11 mis yn unol â Chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 6	Archwilio	
Cam 7	Adroddiad yr Arolygydd	
Cam 8	Mabwysiadu	
		Cyfanswm amser paratoi'r cynllun tair blynedd a hanner (Yn ogystal ag un cyfnod llithriant o dri mis)

Diwygio'r Cytundeb Cyflawni

Rhaid i'r ACLI adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn rheolaidd a rhaid i unrhyw ddiwygiad gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan yr ACLI a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru o fewn 4 wythnos i'r cais cychwynnol, oni bai bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am amser ychwanegol i ystyried y ddogfen (Rheoliad 9 CDLlau). Dylid cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio yn unol â Rheoliad 10 CDLlau. **Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid** ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi'r cynllun.

Safleoedd Ymgeisiol

3.29 Yn dilyn cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni, galw am safleoedd ymgeisiol (CS) yw'r cam ffurfiol cyntaf o baratoi CDLI. Mae hyn yn galluogi pob parti i gyflwyno safleoedd posibl i'w cynnwys yn y cynllun i'r ACLI. Mater i'r ACLI wedyn fydd asesu pob safle a phenderfynu os ydynt yn addas i'w cynnwys yn y cynllun ai peidio.

3.30 Er mwyn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl a bod pob cam o'r gwaith o baratoi'r cynllun mor effeithiol â phosibl, dylid darparu cymaint o dystiolaeth ag sy'n bosibl ar gam y safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys asesiad hyfywedd ariannol. Mae hyn yn berthnasol i bob safle ymgeisiol. Bydd mynegi cymaint o sicrwydd ac eglurder â phosibl yn y strategaeth a ffefrir yn arwain at gyfranogiad mwy ystyrlon ac ymatebion o safon uwch, gan wella effeithiolrwydd y broses o lunio cynlluniau. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae angen cyhoeddi mwy o wybodaeth a derbyn tystiolaeth fanylach drwy'r alwad am safleoedd ymgeisiol. Mae Diagram 8 yn crynhoi'r broses safleoedd ymgeisiol ac elfennau allweddol y bennod hon.

PROSES AU CYCHWYNNOL: Mae tystiolaeth fanwl ymlaen llaw ac ar ddechrau'r broses o lunio'r cynllun yn hanfodol er mwyn llywio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a ffefrir a chatau dilynol y cynllun. Mae'n hanfodol cael tystiolaeth fanylach yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol.

Os na ddarperir tystiolaeth ddigonol ymlaen llaw, bydd angen gofyn am dystiolaeth bellach yn ddiweddarach yn y broses, gan achosi oedi. Bydd strategaeth a ffefrir fanylach nid yn unig yn darparu ymatebion mwy ystyrlon i'r ymgynghoriad, ond yn darparu mwy o dystiolaeth hefyd i ddylanwadu ar y cynllun adneuo a'i lunio. **Mae sicrhau sail dystiolaeth ar ddechrau'r gwaith yn hanfodol i'r dull gweithredu hwn.** Gall lefel annigonol o wybodaeth i ddangos gwaith cyflawni fod yn rheswm dros ddiystyru safleoedd.

Deddfwriaeth a Gofynion Gweithdrefnol – Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

3.31 Mae Rheoliad 14(2) CDLIau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLI 'ofyn am enwebiadau ar gyfer safleoedd y cynigir eu cynnwys yn y CDLI'. Mae'r cais am enwebiadau ar gyfer safleoedd, a elwir yn safleoedd ymgeisiol at ddibenion y Llawlyfr hwn, yn elfen greiddiol o lunio cynllun. **Rhaid cynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol cyn i ACLI gydymffurfio â Rheoliad 15 CDLIau**, sef ymgynghori ar y strategaeth a ffefrir.

3.32 Mae'n ofynnol cynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol yn gynnar yn y broses o baratoi'r cynllun, cyn unrhyw elfen ffurfiol o'r cynllun. Safleoedd ymgeisiol a'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) yw conglfeini'r broses o lunio cynllun ac maent yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynnig safleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

Tai	Sipsiwn a theithwyr
Cyflogaeth	Manwerthu
Cyfleusterau cymunedol	Hamdden
Twristiaeth	Ynni Adnewyddadwy
Seilwaith gwyrdd	Bioamrywiaeth
Gwastraff	Seilwaith Trafnidiaeth
Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol	Mwynau

3.33 Nid yw'r dull a'r amserlen ar gyfer 'galwad am safleoedd' wedi'u pennu mewn rheoliadau; mae hwn yn fater i bob ACLI benderfynu arno gan adlewyrchu ei ardal leol. Dylai ACLI:

- Gyhoeddi'r cais am enwebiadau ar gyfer safleoedd ar ei wefan a thrwy ddulliau eraill fel y gwêl yn briodol;
- Nodi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r ACLI dderbyn y fath enwebiadau ar gyfer safleoedd (Rheoliad 14 (3) CDLlau).

3.34 Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni nodi'r amserlen ar gyfer cynnal yr alwad ar gyfer safleoedd ymgeisiol; nid oes unrhyw gyfnod cyfreithiol penodol ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisiol. Rhaid i ACLI ddatgan erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid derbyn enwebiadau ar gyfer safleoedd (safleoedd ymgeisiol) (Rheoliad 14(3) a 26A(7(b)) y CDLlau) cyn cyrraedd cam Rheoliad 15 CDLlau. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu **cyfnod ymgynghori gofynnol o chwe wythnos o leiaf**, sy'n adlewyrchu camau ymgynghori cynlluniau statudol eraill, er y gall ACLI ymestyn y cyfnod ymgynghori hwn hyd at amser **cyn** i'r strategaeth a ffefrir gael ei gwneud yn gyhoeddus. Yr ACLI fydd yn penderfynu ar yr union amseru/ddulliau, gan ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol.

3.35 Wrth alw am safleoedd ymgeisiol, rhaid i ACLI ystyried a chynnal lefel/math priodol o hysbysebu fel y nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau, sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni. Mater i bob ACLI yw penderfynu ar ddull hysbysebu addas a phriodol, gan adlewyrchu'r amgylchiadau yn ei ardal. Rhaid i ACLlau sicrhau bod adnoddau a dulliau cynnwys priodol yn cael eu defnyddio er mwyn ysgogi diddordeb ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid, cymunedau a pherchenogion tir, gan y gall methiant i ddenu safleoedd ymgeisiol priodol yn gynnar yn y broses achosi oedi sylweddol a diangen wrth baratoi'r cynllun.

Diagram 8: Crynodeb o'r cam safleoedd ymgeisiol a'r asesiad

Cytundeb Cyflawni (Rheoliad 9)
 Pennu'r amserlen ar gyfer cynnal yr alwad am safleoedd
 Nodi dulliau hysbysebu a chyfluoedd ar gyfer gweithdai

Casglu Tystiolaeth ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (Rheoliad 14)
 Cynnal yr alwad am safleoedd ymgeisiol yn unol â'r Cytundeb Cyflawni

Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rheoliad 15)
 Cyhoeddi'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol a'r asesiad cam 1, gan gynnwys tystiolaeth ychwanegol i ategu safleoedd ymgeisiol allweddol a meysydd ar gyfer twf

Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo (Rheoliad 17)
 Mae'r cynllun yn nodi'r safleoedd a neilltuwyd
 Cyhoeddi'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol, yr asesiad cam 2 ac arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer pob safle, ac egluro pam mae safleoedd yn cael eu neilltuo neu eu diystyru

Gyflwyno (Rheoliad 22)
 Mae safleoedd a neilltuwyd yn destun archwiliad

Cyn cynnal yr alwad am safleoedd:

- Paratoi'r ffurflen cyflwyno safle ymgeisiol â chwestiynau am gynaliadwyedd, cyflawnadwyedd a hyfywedd y safle
- Cyhoeddi'r asesiad a methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Pennu trothwy maint safle
- Cyhoeddi gwybodaeth ategol ar fap cyfyngiadau a gwybodaeth/canllawiau GIS perthnasol

Ar ôl yr alwad am safleoedd/cyn y Strategaeth a Ffefrir:

- Cofnodi pob safle a dderbyniwyd mewn Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol
- Cynnal y broses hidlo safleoedd gychwynol (cam 1) a diystyru'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'r fethodoleg
- Cynnal asesiad manylach o safleoedd allweddol/ardaloedd twf

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cam cynllunio:

- Ychwanegu unrhyw safleoedd newydd a gyflwynwyd at y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol
- Ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ar y cam cynllunio
- Cynnal proses hidlo cam 2 ar gyfer pob un o'r safleoedd a dderbyniwyd
- Cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Cydgysylltu ag adrannau'r ALI a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â safleoedd wedi'u hidlo
- Nodi safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer y Cynllun Adneuo
- Paratoi'r dyraniadau safleoedd terfynol

Bydd angen i unrhyw safleoedd newydd a gynigir ar y cam Adneuo gyflwyno arfarniad o gynaliadwyedd gyda'u ffurflen cyflwyno safle

Dylai'r Adroddiad Ymgynghori, yn dilyn y cam Adneuo, esbonio'r ffordd y mae sylwadau ynghylch safleoedd newydd neu ddiwygiedig wedi'u hystyried

Ymhlith y dogfennau sydd angen eu cyflwyno mae'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol, asesiad o'r safle, adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd, adroddiad ymgynghori (yn unol â rheoliad 22)

Egwyddorion Allweddol – Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

3.36 Mae'n rhaid i ACLI ddefnyddio'r broses safleoedd ymgeisiol i gasglu tystiolaeth addas gan hyrwyddwyr safleoedd i ddangos yn gadarn bod safleoedd yn gynaliadwy, yn gyflawnadwy ac yn hyfyw yn ariannol. Rhaid i'r dystiolaeth alluogi'r ACLI i asesu'r canlynol:

- A yw'r safle mewn lleoliad **cynaliadwy** ac a ellir ei ryddhau o bob cyfyngiad?
- A ellir **cyflawni'r** safle?
- A yw'r safle yn **hyfyw**?

3.37 Dylai ACLlau ei gwneud yn glir nad yw cyflwyno safleoedd ymgeisiol posibl i'w hystyried yn golygu bod safle'n addas i'w ddatblygu, neu i'r gwrthwyneb. Bydd hyn yn osgoi codi disgwyliadau'n ormodol, naill ai ar gyfer cynnwys neu eithrio safleoedd o'r cynllun. Bydd bod yn glir am baramedrau cyffredinol ynghylch ble y bydd datblygiad yn dderbyniol, neu ble na fydd yn dderbyniol, o gymorth yn y broses hon. Er enghraifft, perthnasedd y strategaeth ofodol yn y cynllun mabwysiedig, y drefn chwilio (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) a'r berthynas â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a nodi aneddiadau cynaliadwy, yn seiliedig ar eu rôl/swyddogaeth.

3.38 Er mwyn sicrhau dechrau effeithiol i'r broses CDLI, mae'n hanfodol bod hyrwyddwyr safleoedd ac aelodau ehangach o'r gymuned yn ymwybodol o'u rôl a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. **Dylid ei gwneud yn glir mai adeg yr alwad am safleoedd ymgeisiol yw'r adeg briodol i gyflwyno safleoedd ar gyfer eu cynnwys, o bosibl, yn y cynllun.** Dylai pob parti â diddordeb sylweddoli y bydd cyflwyno safleoedd ar ôl y cam strategaeth a ffeirir yn golygu ei bod yn annhebygol y gellir eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun. Dylid ei gwneud yn glir hefyd y gall peidio â chyflwyno gwybodaeth ddigon manwl ar y cam priodol arwain at beidio â symud y safle yn ei flaen.

3.39 Cyn yr 'Alwad am Safleoedd' dylai'r ACLI ystyried pa wybodaeth y gall ei chyhoeddi i gynorthwyo gyda'r broses hon (gweler hefyd adrannau perthnasol y Bennod hon mewn perthynas â chynnwys y ffurflen safle ymgeisiol, trothwyon a gwybodaeth ategol/adnoddau). Dylai'r **ACLI sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael i gynorthwyo hyrwyddwyr safleoedd gyda'r broses safleoedd ymgeisiol.** Er enghraifft, gall yr ACLI ddarparu gwybodaeth dechnegol mewn perthynas ag ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, dynodiadau amgylcheddol, ansawdd tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, dynodiadau archeolegol neu barthau diogelu mwynau. **Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell yn gryf y dylai ACLlau ddarparu Map Cyfyngiadau i gynorthwyo gyda'r broses safleoedd ymgeisiol.** Bydd Map Cyfyngiadau a chyfeirio at adnoddau System Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) eraill, megis <http://lle.gov.wales/home?lang=cy> yn rhoi arweiniad i hyrwyddwyr safleoedd o ran lleoliadau datblygu priodol a chyfyngiadau tebygol.

3.40 Er mwyn sicrhau y gall pob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn y broses safleoedd ymgeisiol, byddai cyfeirio at ddogfennau canllaw perthnasol eraill yn fuddiol. Er enghraifft, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys Siewmyn Teithiol, ar sut i gymryd rhan yn y broses gynllunio er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer eu hanghenion. (<http://www.planningaidwales.org.uk/gtguide> sy'n rhoi dolen i'r canllawiau a fideo cysylltiedig). Mae Cymorth Cynllunio Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i ddefnyddio a llunio Cynlluniau Cynefin a all fod yn adnodd defnyddiol i gymunedau a Chynghorau Tref <http://www.placeplans.org.uk/cy/>

3.41 Dylai ACLI sicrhau bod cymorth ar gael i helpu a galluogi hyrwyddwyr safleoedd i gael gafael ar yr holl wybodaeth angenrheidiol. Gellid cynnal sesiwn gweithdy ar gyfer perchennog y tir, y datblygwr a'r gymuned fel dull o sicrhau cyfranogiad a lledaenu gwybodaeth yn glir. Dylai'r ACLI ddatgan yn glir mai rhan yn unig o'r ymarfer casglu gwybodaeth yw cyflwyno safleoedd ac nid yw hyn yn ymrwymiad gan yr ACLI y bydd safleoedd yn cael eu cynnwys yn y CDLI.

3.42 Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o bob cam o'r broses o baratoi CDLI. **Dylid cyhoeddi meini prawf a methodoleg asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ynghyd â'r alwad am safleoedd**, gan sicrhau tryloywder ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol. Bydd hyn yn sicrhau bod effeithiau posibl ar y Gymraeg yn cael eu hystyried.

3.43 Ni ddylid eithrio safleoedd o asesiad yn fwriadol, ond dylid mynegi egwyddorion cynllunio cyffredinol drwy feini prawf i fynegi lle y rhoddir ystyriaeth lai ffafriol i symud safleoedd yn eu blaen. Os nad yw'r ACLI yn derbyn gwybodaeth gan hyrwyddwyr safleoedd, ni ddylid diystyru safleoedd yn awtomatig, ond eu hidlo'n briodol drwy broses ddiolli gychwynnol (Asesiad safle cam 1, paragraff 3.67). **Mae angen i bob parti gydweithredu er mwyn sicrhau y gall y wybodaeth orau ddod ymlaen i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau.**

Dangos Hyfywedd Cyflawni ac Ariannol Safleoedd Ymgeisiol


Yr amcan allweddol y dylai ACLI ei bennu yw a yw hyrwyddwr safle'n bwriadu datblygu'r safle o ddifrif ac a all wneud hynny o fewn amserlen y cynllun. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r prawf cadernid, 'A fydd y cynllun yn cyflawni?'

Efallai na fydd safle sy'n gyflawnadwy yn hyfyw yn ariannol, ac i'r gwrthwyneb. Yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol, mae'n rhaid ystyried y ddwy elfen yn eu cyfanrwydd, mewn modd eang a chymesur, ynghyd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dylai safleoedd ymgeisiol fod yn gynaliadwy, yn gyflawnadwy ac yn hyfyw yn ariannol er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun gan ACLI. Dylai pob safle fodloni'r paramedrau a'r wybodaeth eang a gaiff eu cyhoeddi gan yr ACLI a bod â digon o hyblygrwydd ariannol i fodloni holl ofynion polisi'r

cynllun. **At ddibenion y Llawlyfr hwn, mae sicrhau bod safleoedd mewn cynlluniau yn gyflawnadwy yn golygu cyflawnadwyedd a hyfywedd ariannol.**

3.44 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r dull polisi o ystyried cyflenwi tai ym mhroses y cynllun datblygu. Elfen allweddol o hyn yw sicrhau bod hyfywedd ariannol yn cael ei asesu ar y cam safle ymgeisiol. Rhaid i hyrwyddwr safle (ACLI, perchennog tir a/neu ddatblygwr) wneud asesiad **cychwynnol** o hyfywedd y safle a darparu tystiolaeth y gellir cyflawni'r safleoedd. **Fel sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol, mae pob safle ymgeisiol yn destun asesiad o hyfywedd. Fodd bynnag, dylai lefel y manylder a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr asesiad hwn fod yn ystyrion ac yn gymesur i bwysigrwydd y safle yn y cynllun datblygu.**

3.45 Oherwydd y nodweddion gwahanol o fewn ardal cynllun, h.y. yn amrywio o ardaloedd trefol â dyraniadau mwy o faint/strategol i awdurdodau gwledig â dyraniadau llai o faint, bydd y trothwy datblygu a chyd-destun/materion y farchnad yn wahanol. Ni fydd maint y safleoedd a ddyrennir yn gyson ym mhob cynllun yng Nghymru. Bydd angen i'r ACLI ystyried y trothwy ar gyfer safleoedd ymgeisiol a geisir a'r trothwy ar gyfer dyraniadau (os yw'n wahanol) yn ofalus yng nghyd-destun ardal y cynllun a'r math o safleoedd a geisir a'u maint. Mater i'r ACLI benderfynu arno yw hwn. Dylai fod yn ystyriaeth allweddol i ACLlau yn yr alwad am safleoedd wrth ddefnyddio dull cymesur o ymdrin â gwybodaeth/tystiolaeth ariannol ac ehangach a geisir. Mae materion allweddol i'w hystyried gan ACLI yn cynnwys y canlynol:



Fel arfer caiff lwfans ar gyfer **safle bach** (e.e. llai na 5 neu 10 uned) mewn cynllun datblygu (gweler hefyd Dabl 18 a pharagraff 5.63) ei seilio ar dueddiadau cwblhau hanesyddol, gan ystyried cyd-destun y cynllun a fabwysiadwyd/arfaethedig a diystyru anghysondebau blaenorol. Gall tueddiadau hanesyddol ddangos bod safleoedd bach wedi'u cyflawni'n gyson dros flynyddoedd blaenorol; nid oes angen i dystiolaeth hyfywedd ar gyfer safleoedd o'r fath, er ei bod yn bwysig, fod yn eang.

Mae **dyraniadau** mewn cynllun yn safleoedd uwchlaw trothwy(on) penodol a bennir gan yr ACLI. Diffinnir safleoedd islaw'r trothwy fel **hap-safleoedd** (gweler Tabl 18 a pharagraff 5.63). Gellir darparu ar gyfer hap-safleoedd mewn cynllun datblygu. Bydd angen darparu mwy o dystiolaeth ar gyfer hap-safleoedd na safleoedd bach, e.e. gwybodaeth a gyflwynir fel rhan o gam y safle ymgeisiol, astudiaeth hyfywedd lefel uchel ac astudiaeth capasiti trefol (os bydd un wedi'i pharatoi).

Bydd angen i ACLlau ystyried y lefel gymesur o wybodaeth am hyfywedd sydd ei hangen i ddangos y cyflawnir pob **dyraniad**. Er enghraifft, a yw'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o gam y safle ymgeisiol a'r ffaith bod astudiaeth hyfywedd lefel uchel wedi'i pharatoi yn ddigon ynddi ei hun i ddangos y cyflawnir safleoedd a dyrannwyd? A fydd angen gwneud gwaith penodol ar hyfywedd ar gyfer rhai dyraniadau? A oes angen dulliau ariannu amgen er mwyn eu cyflwyno?

Mae **dyraniadau safleoedd allweddol/strategol** yn hanfodol i gyflawni'r strategaeth gynlluniau a rhaid iddynt gael eu hategu gan arfarniad hyfywedd safle-benodol manwl.

3.46 Mae Pennod 5 o'r Llawlyfr yn cynnwys canllawiau manwl ar sut i lunio sail dystiolaeth ar gyfer arfarniadau hyfywedd lefel uchel a safle-benodol ac mae'r diagram o hierarchaeth hyfywedd (5.81) yn glir ynglŷn â'r hyn a ddisgwyllir ar bob cam. **Gall costau datblygu a gyflwynir gan hyrwyddwyr safleoedd ar bob safle fod yn adnodd defnyddiol i lywio mewnbynnau hyfywedd yr astudiaeth hyfywedd lefel uchel a sicrhau bod polisiau ar seilwaith a thai fforddiadwy yn gadarn** (Tabl 24). Gellir defnyddio asesiadau o hyfywedd a gyflwynir i ategu CDLlau fel sail i drafodaethau ynghylch rheoli datblygu.

3.47 Dylai'r asesiad cyflawnadwyedd a hyfywedd a gyflwynir yn ystod y cam safleoedd ymgeisiol fynd i'r afael â'r pwyntiau a nodir isod a **rhaid** eu hadlewyrchu ar Ffurflen y Safle Ymgeisiol. (Mae hyn yn wahanol i'r arfarniad mwy manwl o hyfywedd, gweler paragraffau 5.81 – 5.103).

Beth yw Safle Ymgeisiol Cyflawnadwy?

- Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy (yn unol â'r drefn chwilio safleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a ddylai lywio methodoleg y Cyngor ar gyfer

safleoedd ymgeisiol) a bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gosod y paramedrau bras i gyd-fynd â'r alwad am safleoedd ymgeisiol

- Mae'r safle ar gael yn awr, neu bydd ar gael ar adeg briodol o fewn cyfnod y cynllun.
- Yn gyffredinol, mae'r safle'n rhydd o gyfyngiadau ffisegol, megis perchenogaeth tir, seilwaith, mynediad, cyflwr y ddaear, tirwedd, treftadaeth, problemau peryglon llifogydd a llygredd
- Os yw'r safle yn eiddo cyhoeddus, fe'i nodir mewn strategaeth waredu gyhoeddedig a/neu drwy benderfyniad y Cyngor os bwriedir i'r tir gael ei gadw neu ei werthu gan y Cyngor. Dylai fod ymrwymiad clir i gyflwyno'r safle ar adeg benodol yn ystod cyfnod y cynllun gan gynnwys, os yw'n berthnasol, ffrydiau ariannu a nodwyd/neilltuwyd.
- Beth yw'r hanes cynllunio a/neu a yw'n elwa ar ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes, neu a yw'n cael ei nodi fel dyraniad? Gallai safleoedd â hanes cynllunio cadarnhaol fod yn berthnasol a gellid ystyried eu bod yn addas i'w datblygu, er y bydd angen asesu a yw amgylchiadau wedi newid a fyddai'n newid eu haddasrwydd (gweler Polisi Cynllunio Cymru)
- Lle bo'n briodol, esboniad a chyfiawnhad clir o sut a phryd y gellir goresgyn unrhyw rwystrau i gyflawni

Beth yw Safleoedd Ymgeisiol sy'n Hyfyw yn Ariannol?

- Mae potensial datblygu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Ar y cyfan mae'r safle'n ddeniadol i'r farchnad (y sector preifat a/neu gyhoeddus) i'w ddatblygu yn y lleoliad arfaethedig
- Gall y safle gynnwys y **lefelau eang** o dai fforddiadwy, gofynion polisi/a106 eraill a chostau seilwaith a nodir gan yr ACLI; bydd yr ACLI yn mynegi'r paramedrau bras yn yr alwad am safleoedd ymgeisiol
- Lle y mae diffygion ariannol yn rhwystro datblygiad rhag cael ei gyflwyno, mae mecanweithiau ariannu yn cael eu sicrhau, neu'n gallu cael eu sicrhau, i wneud y safle'n hyfyw yn ariannol
- Gall safle ymgeisiol gael ei ystyried yn hyfyw os, ar ôl ystyried y costau cyffredinol hysbys, y bydd y gwerth/enillion ar y datblygiad yn ddigonol i ddarparu elw digonol i'r datblygwr a chynnydd ystyrion yng ngwerth y tir i berchennog y tir.

3.48 Cydnabyddir na fydd sicrwydd ynglŷn â chyflawnadwyedd safle'n ddiffiniol o reidrwydd nes y bydd gwybodaeth fwy manwl am hyfywedd yn hysbys wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Gall yr ACLI ofyn am ragor o wybodaeth sy'n **gymesur** â natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig lle bo angen er mwyn galluogi'r ACLI i asesu addasrwydd y safle'n fanwl i'w ddyrannu yn y CDLI adneuo.

3.49 Fodd bynnag, dylai hyn fod yn fireinio gan y bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth wedi'i nodi'n gynnar drwy'r broses safleoedd ymgeisiol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ceisio cael safleoedd ymgeisiol newydd ar ôl y cam strategaeth a ffefrir lle nad oes digon o safleoedd wedi dod ymlaen yn gynharach yn y broses. Bydd y dystiolaeth o allu safleoedd unigol i gyflawni yn cael ei phrofi drwy'r broses archwilio.

Gwybodaeth am Hyfywedd Ariannol

3.50 Er mwyn i hyrwyddwr safle ddarparu digon o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i ddangos bod materion cyflawni a hyfywedd wedi cael eu hystyried yn ystod y cam safle ymgeisiol, dylai'r ACLI gyhoeddi detholiad o wybodaeth i gynorthwyo gyda'r broses hon. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canlynol:

- Sicrhau bod polisïau tai fforddiadwy'r CDLI mabwysiedig ar gael (lle maent yn addas i'r diben) gan gynnwys polisïau penodol, yn seiliedig ar ardal neu amrediadau
- Os yw polisïau'r cynllun a fabwysiadwyd wedi dyddio, neu wedi'u disodli gan newid mewn amgylchiadau, dylai'r ACLI nodi pa lefelau amgen o dai fforddiadwy a geisiwyd. Gall trafodaethau diweddar am y safle dros y 12 i 18 mis diwethaf ddarparu sail dystiolaeth fwy cyfredol
- Cyfartaledd costau a106 (penodol, ardal neu amrediadau) yn seiliedig ar drafodaethau a106 cyfredol gwirioneddol dros y 12 i 18 mis blaenorol. Yr ACLI fydd yn penderfynu ar y cyfnod amser perthnasol ar sail yr amgylchiadau presennol. Gallai hyn gael ei lywio hefyd gan ofynion seilwaith ACLIau mewn perthynas â diffygion hysbys presennol
- Gofynion polisi eraill y disgwylir iddynt fod â goblygiadau o ran cost ariannol
- Unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol a chyfredol
- Gofynion y Cynllun Seilwaith cyfredol neu ddiwygiedig/newydd / Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)
- Tybiaethau craidd a ddefnyddir mewn unrhyw wybodaeth/astudiaeth dechnegol gyfredol neu wedi'i diweddarau neu fodel hyfywedd ACLI, h.y. meincnodau gwerthoedd tir, elw datblygu a thybiaethau craidd eraill sy'n berthnasol ac yn gyfredol (gweler Pennod 5)

3.51 Dylai ACLI gynnwys cafeat yn y ffurflen gyflwyno y bydd angen gwybodaeth am hyfywedd yn ystod y broses asesu safle **ac y gallai methu â chyflwyno gwybodaeth am hyfywedd pan ofynnir amdani arwain at beidio â dyrannu safle arfaethedig**. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid gofyn am brofion hyfywedd pellach yn ystod cam y cais cynllunio.

Safleoedd sy'n Allweddol i Gyflawni'r Cynllun

3.52 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, dylid cynnal **profion ar safleoedd penodol ar ffurf arfarniad hyfywedd** ar gyfer safleoedd sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun, gan ddangos bod modd eu cyflawni mewn egwyddor. Bydd y trothwy maint ar gyfer yr hyn a ystyrir yn safle allweddol yn amrywio rhwng ACLlau, a mater i bob ACLI fydd penderfynu ar hyn. Byddai'n well gwneud hyn cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol ar y cam safleoedd ymgeisiol, ond heb fod yn hwyrach na'r camau adneuol (Rheoliad 17 CDLlau). Bydd hyn yn galluogi ymgynghoreion statudol allweddol i wneud cyfraniad ystyrlon at y broses o lunio'r cynllun.

3.53 Dylai Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) gael ei gyflwyno gyda chynnig lle gall fod problemau o ran perygl llifogydd. Mae SFCA yn cynnwys tri cham fel arfer, gydag asesiadau manylach yn ofynnol wrth i safleoedd ymgeisiol symud ymlaen drwy'r broses o lunio'r cynllun. Bydd angen i'r dystiolaeth ddangos sut nad yw problemau peryglon llifogydd yn effeithio ar y gallu i gyflawni ar y safle, yn enwedig os cynigir defnydd preswyl (dosbarth C3 neu C4), ac os bydd hynny mewn categori risg llifogydd C2, byddai'n groes i bolisi cenedlaethol.

3.54 Dylai'r ACLI a hyrwyddwr y safle gynnwys ymgynghoreion perthnasol i nodi cwmpas unrhyw asesiad technegol **sydd ei angen i ganfod a yw'r safle'n addas ar gyfer y defnydd tir arfaethedig, yn hyfyw ac yn gallu cael ei gyflawni o fewn yr amserlen briodol.**

3.55 Dylai arfarniad o hyfywedd ariannol ar draws y cynllun gael ei gynnal **hefyd cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol yn y cam safleoedd ymgeisiol, ond heb fod yn hwyrach na'r cam adneuo.** Mae pennod pump o'r Llawlyfr yn nodi canllawiau manwl mewn perthynas ag arfarniadau hyfywedd o'r cynllun cyfan a safleoedd penodol. Efallai y bydd yr ACLI yn dymuno comisiynu tystiolaeth a gynhelir gan gynghorwr annibynnol, a gaiff ei adolygu a'i gytuno'n annibynnol gan yr ACLI a hyrwyddwr/datblygwr y safle, neu gan yr ACLI ei hun.

Ffurflen Safle Ymgeisiol

3.56 Dylai ACLlau wahodd ceisiadau ar gyfer safleoedd ymgeisiol ar ffurflen safonol, gan nodi'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau y caiff ei chasglu mewn modd cyson a chynhwysfawr. Dylai'r ACLI nodi nad yw'r alwad am safleoedd wedi'i chyfyngu i safleoedd tai posibl yn unig, ond dylai wahodd perchnogion tir ac asiantau i gyflwyno cynigion ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddiau tir a'u pennu. Bydd gwahanol ddefnyddiau tir yn galw am wahanol gwestiynau a lefelau o wybodaeth. Dylai'r wybodaeth a geisir fod yn rhesymol ac yn gymesur â maint y safle a'r defnydd ohono.

3.57 Gall ACLI bennu ffi i roi cymorth i gynigwyr safleoedd wrth lenwi ffurflenni safleoedd ymgeisiol. Byddai hwn yn wasanaeth dewisol. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 (adran 2) a Deddf Llywodraeth Leol 2003 (adran 93) yn darparu'r pwerau ar gyfer pennu ffi o'r fath. Fodd bynnag, dylid pennu unrhyw ffi ar lefel sy'n adennill costau'n unig. Os defnyddir dull o'r fath rhaid i'r ACLI allu nodi'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer codi'r ffi a chael trywydd archwilio i ddangos sut y defnyddiwyd pwerau o'r fath i gyfiawnhau'r dull hwn.

Trothwy Safle

3.58 Er mwyn cadw'r ymarfer yn ymarferol, dylai ACLlau bennu trothwy maint ar gyfer safleoedd ymgeisiol yn unol â nodweddion a graddfa lleoedd yn eu hardal weinyddol. Ar gyfer safleoedd ymgeisiol preswyl (dosbarth C3 a C4) efallai y byddai'n syniad da cadw at y diffiniad o 'ddatblygiad mawr' yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012: trothwy safle o 10 neu fwy o unedau preswyl, neu fwy na 0.5 hectar ar gyfer awdurdodau trefol. Ar gyfer awdurdodau gwledig, gallai trothwy is o 5 uned breswyl ac uwch fod yn briodol. Dylai'r trothwy ystyried nodweddion gwledig neu drefol yn bennaf yr awdurdod cynllunio lleol, gan gynnwys creu cymaint â phosibl o gyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau).

3.59 Os yw'r ACLI yn derbyn safleoedd o dan y trothwy, mae dal yn rhaid iddynt gael eu cofnodi ar y gofrestr safleoedd ymgeisiol. Fodd bynnag, gellir diystyru'r safleoedd hyn drwy asesiad Cam 1 (gweler paragraffau 3.66-3.67). Gall cyflwyno safleoedd bach ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol i gefnogi lwfans ar gyfer safle bach/hap-safle yn y cynllun. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai ACLlau gadw cofrestr o safleoedd cynaliadwy sy'n dod islaw'r trothwy dyrannu yn eu cynllun datblygu. Bydd y broses safleoedd ymgeisiol yn helpu i weithredu'r dull polisi hwn.

Cynnwys Craidd y Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol

3.60 Bydd hyn yn fater i bob ACLI ei ystyried, wedi'i deilwra i amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni cynlluniau mwy effeithiol a chyraeddadwy, dylid ceisio'r elfennau craidd canlynol ar y cam safleoedd ymgeisiol cychwynol er mwyn llywio'r strategaeth a ffeirir (Rheoliad 15 CDLlau) ynghyd ag ymatebion y sawl sy'n cynnig y safle.

Tabl 4: Cynnwys y Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol

Manylion Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Enw • Cyfeiriad • Manylion cyswllt
Lleoliad y Safle	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriad / cod post y safle • Ffin llinell goch a/neu gyfeirnod grid os yw'n hysbys

Math o Safle	<ul style="list-style-type: none"> • Defnydd presennol • Tir glas neu dir llwyd
Defnyddiau Arfaethedig	<ul style="list-style-type: none"> • Defnydd arfaethedig (amcan o nifer yr anheddau, rhaniad daliadaeth, arwynebedd llawr, lleiniau Mw (ynni) ac ati.)
Perchenogaeth Tir	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion perchenogaeth (unig berchenogaeth neu berchenogaeth luosog) • A yw perchennog y tir yn fodlon gwerthu'r tir? A oes cynnydd ystyrlon yng ngwerth y tir yn ddigonol i annog perchennog y tir i werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig? • Os yw'r safle'n eiddo cyhoeddus dylid ei gynnwys mewn Strategaeth Waredu (DS) a gyhoeddir
Statws Cynllunio /Arolygon Safle	<ul style="list-style-type: none"> • Statws cynllunio cyfredol (os yw'n hysbys) • A yw'r safle wedi'i ddynodi yn y cynllun datblygu presennol naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd • Hanes cynllunio'r safle (gan gynnwys unrhyw resymau dros wrthod) • A gafwyd trafodaethau cyn gwneud cais? A oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cynllun y safle • Pa arolygon sy'n ofynnol neu sydd wedi'u cynnal hyd yma
Addasrwydd Safle a'i Gyflawni	<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae'r safle'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn cynorthwyo i gyflawni gofynion Deddf Llesiant 2015 • Sut mae'r safle'n cyd-fynd â'r dilyniant chwilio a'r dull Creu Lleodedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru • Sut mae'r safle'n cefnogi'r meini prawf lleoliadol a nodir gan yr ACLI <p>Cyfyngiadau ffisegol ac asedau Dynodiadau cenedlaethol/lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngiadau ffisegol ac asedau (topograffi, mynediad i'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas, llystyfiant, parthau llifogydd) <p>Cyfleustodau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith ar ddynodiadau a rhywogaethau Ewropeaidd/cenedlaethol (e.e. Ramsar, SoDdGA ac ati.) Parciau Cenedlaethol, AHNE ac asedau treftadaeth <p>Halogi</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfleustodau (dŵr, carthffosiaeth, nwy, trydan, ffôn/band eang) • Cyfyngiadau halogi, ardaloedd risg uchel o ran sadrwydd y ddaear a phyllau glo <p>Cyfyngiadau eraill (Wedi'u cysylltu â Map Cyfyngiadau)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngiadau hysbys eraill, dymchwel, piblinellau nwy, carthffosydd, llinellau trydan ac ati.
Gofynion a Chyflawni Seilwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynion seilwaith o'r datblygiad arfaethedig lle maent yn hysbys (addysg, hamdden, iechyd, trafndiaeth ac ati.) • Sut byddai hyn yn cael ei gyflawni (rhwymedigaethau a106/Ardoll Seilwaith Cymunedol ar neu oddi ar y safle ac ati.)?

	<ul style="list-style-type: none"> • A oes arian / cyllid i gyflawni'r gofynion seilwaith angenrheidiol • Gofynion Seilwaith Gwyrdd, adnoddau naturiol allweddol neu ardaloedd cysylltedd cynefinoedd (presennol a phosibl)
<p>Cyflawnadwyedd a Hyfywedd y Safle (Yn gymesur â graddfa a defnydd y cynnig)</p> <p>Hyfywedd ariannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer dod â'r safle ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun? Dylid cynnwys cyfraddau blynyddol lle bo hynny'n berthnasol ac yn gyflawnadwy • A oes diddordeb gan ddatblygwyr? A yw datblygwr yn rhan o'r cynlluniau drwy gytundeb opsiwn neu gytundeb contractiol arall? Os na, pryd fydd datblygwr yn rhan o'r cynlluniau • A all y safle fodloni'r gofynion polisi cyffredinol, seilwaith ac a106 sy'n ofynnol gan yr ACLI • A yw'r safle'n hyfyw o'i asesu yn erbyn y tybiaethau hyfywedd a nodir gan yr ACLI? (meincnodau gwerthoedd tir, elw'r datblygwr, costau adeiladu ac ati) • Sut mae amgylchiadau penodol y safle'n wahanol i'r tybiaethau cyffredinol a sut mae hyn yn effeithio ar hyfywedd y safle • Os nad y datblygwr yw perchennog y tir, a oes yna gytundebau tir sy'n rhwymo neu ddim yn rhwymo (opsynau, ac ati.) A ydynt yn realistig ac yn gyflawnadwy • Ar gyfer safleoedd tai, pa lefel o dai fforddiadwy a gaiff ei darparu • Manylion cyfamodau cyfyngol / gwerthoedd / cyfyngiadau cyfreithiol / adfachu, h.y. a gyfyngir ar y safle gan gytundeb cyfreithiol sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r tir yn y dyfodol
<p>Cafeatau / ystyriaethau eang i'w cynnwys ar y ffurflen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai pob un o'r uchod fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad a gynigir • Fe'ch anogir i ddarparu asesiad o hyfywedd gyda safle ymgeisiol, yn unol â'r paramedrau bras a bennir gan yr ACLI • Gall yr ACLI geisio arfarniad hyfywedd manwl ar eich safle cyn adneuo er mwyn dangos a yw'n hyfyw yn ariannol. Dylid cynnal arfarniad o hyfywedd cyn gynted â phosibl. Gallai peidio â chyflwyno arfarniad o hyfywedd olygu na fydd eich safle'n cael ei gynnwys yn y CDLI adneuo • Mae'n ddyletswydd ar hyrwyddwyr safleoedd i gymryd rhan gadarnhaol yn y broses o baratoi'r cynllun ar bob cam, gan weithio gyda'r ACLI i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael ar y cam priodol 	

- Cyfrifoldeb hyrwyddwr y safle yw ymgymryd â gwaith technegol perthnasol i gefnogi penderfyniad i gynnwys safle yn y cynllun, gan gynnwys costau ariannol.

Rhestr Wirio Gryno wrth Alw am Safleoedd Ymgeisiol

✓	Penderfynu ar ddulliau hysbysebu a'u cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi'r alwad ar wefan yr ACLI, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni
✓	Pennu dyddiad cau wrth chwilio am safleoedd ymgeisiol cyn Rheoliad 15 CDLlau
✓	Cyhoeddi'r ffurflen safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys cwestiynau ar gyflawnadwyedd
✓	Yr ACLI i gyhoeddi'r gofynion polisi cyffredinol, seilwaith ac a106 sy'n ofynnol
✓	ACLI i gyhoeddi gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo gyda'r broses, gan nodi'r cyfyngiadau cynllunio allweddol y caiff safleoedd eu hasesu yn eu herbyn, h.y. nodi aneddiadau a hierarchaeth sy'n gynaliadwy; meini prawf agosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau; hanes cynllunio (lle bo'n briodol). Nodi'r cylch gwaith a'r disgwyliadau wrth symud ymlaen
✓	Yr ACLI i ddarparu map cyfyngiadau, neu unrhyw wybodaeth hysbys
✓	Nodi methodoleg a system sgorio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd
✓	Trefnu digwyddiadau gweithdy

Y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol (CSR)

3.61 Yn dilyn yr alwad am safleoedd ymgeisiol, rhaid i ACLI baratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol Rheoliadau (CSR) 14(4) a 26A (7) CDLlau. Rhaid i'r gofrestr gofnodi'r **holl** safleoedd a gaiff eu derbyn yn ystod yr alwad am safleoedd ymgeisiol a chael ei chyhoeddi.

3.62 Yn y cam strategaeth a ffefrir (Rheoliad 15 CDLlau) rhaid i'r ACLI gyhoeddi'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol (gweler Rheoliad 2 CDLlau, diffiniad o ddogfennau cynnig cyn adneuo). Dylai'r strategaeth a ffefrir nodi a rhoi darlun gofodol o raddfa a dosbarthiad y twf yn fras a **nodi'r safleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol**, gan ddangos sut gellir cyflawni'r twf. Bydd yr ymgynghoriad statudol yn gwahodd sylwadau ar y safleoedd allweddol hyn a'r CSR yn eu cyfanrwydd. Dylid nodi statws pob safle a'r broses asesu sy'n weddill yn glir yn y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol. Rhaid i'r ACLI nodi'n glir, os na fydd safleoedd yn cael eu cynnig i'w dyrannu ar y cam hwn, y gellid eu cyflwyno'n ddiweddarach yn y

broses o lunio cynllun neu archwilio, os yw'r angen yn codi. Dylid cynghori rhanddeiliaid mai dyma'r amser priodol i wneud sylwadau ar unrhyw un o'r safleoedd a nodwyd yn y CSR, neu i nodi safleoedd newydd.

3.63 Cyn cynnal ymgynghoriad ar y cynllun adneuo, 'rhaid i'r ACLI ystyried unrhyw safleoedd a enwebwyd cyn penderfynu ar gynnwys y CDLI sy'n cael ei adneuo yn unol â rheoliad 17' (Rheoliad 14 (5) CDLIau). Lle bo'n briodol, dylai'r ACLI egluro a chyfiawnhau pa newidiadau a wnaed yn dilyn y strategaeth a ffefrir, a pham. **Pan gaiff y cynllun ei adneuo, dylai'r CSR (gan gynnwys/ymgorffori'r asesiad o'r safle ymgeisiol) a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gofnodi tystiolaeth yr ACLI yn glir a dod i gasgliad ynglŷn â pham mae safleoedd wedi'u cynnwys, neu eu hepgor.** Mae trywydd archwilio clir sy'n esbonio'r sail resymegol yn hanfodol.

3.64 Dylid cofnodi safleoedd ymgeisiol mewn modd cyson. Dylai fod trywydd archwilio clir rhwng y CSR a'r dystiolaeth i gefnogi safleoedd sydd wedi'u cynnwys, neu sydd wedi'u heithrio o'r cynllun. Mater i'r ACLI yw penderfynu a ddylid cofnodi pob asesiad o safle yn y CSR, neu ar wahân. Y gofyniad allweddol yw i'r holl wybodaeth fod yn glir ac yn hygyrch i holl ddefnyddwyr y cynllun. Bydd hyn yn gwella'r ddealltwriaeth, y cyfiawnhad, yr effeithlonrwydd a'r cysondeb ac yn sicrhau ei fod yn 'siop un stop' ar gyfer partïon sydd â diddordeb. Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir yn y cam strategaeth a ffefrir, dylai'r CSR gynnwys:

✓	Hanes cynllunio
✓	Sylwadau gan randdeiliaid allweddol
✓	Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir ac ymateb yr ACLI
✓	Canlyniad yr asesiad manwl o'r safle a geir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
✓	Perthynas â'r Asesiad Llesiant, Datganiadau Ardal a'r HRA
✓	Asesiadau sy'n berthnasol i Bolisi Cynllunio Cymru, e.e. Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (SFCA) Asesiad Seilwaith Gwyrdd
✓	Casgliad clir ynghylch a ddylid dyrannu'r safle ai peidio yn y cynllun a pham

Asesu Safleoedd Ymgeisiol

3.65 Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu methodoleg safonol ar gyfer asesu safleoedd ymgeisiol. Fel y nodwyd eisoes, rhaid cyhoeddi'r gofrestr o safleoedd ymgeisiol adeg yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rheoliad 15). Wedyn rhaid i'r ACLI ystyried unrhyw safleoedd a enwebwyd cyn penderfynu ar gynnwys y CDLI Adneuo (Rheoliad 14(5)). Mae'n rhesymol ac yn ymarferol i'r ACLI gynnal methodoleg asesu fesul cam, sy'n cynnwys proses hidlo gychwynnol ac asesiad manwl. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi egwyddor blaenlwytho, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell proses hidlo dau gam i asesu safleoedd ymgeisiol.

Cam 1 – Proses Hidlo Safleoedd Cychwynnol

3.66 Mae asesiad desg o'r holl safleoedd a gyflwynir, yn nodi a diystyru safleoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf asesu hidlo cychwynnol yn briodol. Dylai hyn ddefnyddio gwybodaeth hysbys, megis Map Cyfyngiadau, strategaeth aneddiadau, polisi cynllunio cenedlaethol, h.y. dim datblygiad preswyl Dosbarth C3 neu C4 mewn perygl llifogydd C2. Mae enghreifftiau o feini prawf diystyru yn cynnwys lle mae safleoedd:

X	Islaw'r trothwy maint safle
X	Yn cynnwys cyfyngiadau sylfaenol na ellir eu lliniaru, e.e. safleoedd mewn cefn gwlad agored nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw anheddiad a nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau, neu ddefnyddiau preswyl (dosbarth C3 a C4) mewn perygl llifogydd C2
X	Codi materion cyflawnadwyedd, neu pan na fydd y safle'n cael ei ddwyn ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun, neu lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod y safle'n hyfyw yn ariannol

3.67 Bydd cyhoeddi asesiad cychwynnol cam 1 ochr yn ochr â'r gofrestr o safleoedd ymgeisiol ar adeg yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir, yn cyfleu'n glir pa safleoedd sydd wedi cael eu diystyru o ganlyniad i broses hidlo lefel uchel (a grynhowyd uchod). Bydd hyn yn galluogi rhanddeiliaid a chymunedau i ymgysylltu'n fwy effeithiol ac ystyrlon, yn gynharach yn y broses. Dylai'r eglurder hwn leihau nifer y sylwadau a gyflwynir a sicrhau eu bod yn fwy penodol.

Cam 2 – Asesu Addasrwydd y Safle a Chydymffurfiaeth â Strategaeth a Ffefrir y CDLI

3.68 Dylid cynnal dadansoddiad manylach o safleoedd ar gyfer pob safle sydd wedi pasio drwy Gam 1, gan eu hasesu yn erbyn amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd yr ACLI. Rhaid i'r ACLI ddatblygu methodoleg asesu gynhwysfawr a systematig i asesu effeithiau posibl pob safle'n llawn. Dylai wneud hyn yn dilyn yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir ac ystyried unrhyw sylwadau a gafwyd.

Er mwyn cyflawni Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol, rhaid i feini prawf asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd:

1. Mynd i'r afael â phob un o bynciau amgylcheddol yr AAS a ragnodir yn Atodlen 2 o Reoliadau AAS
2. Ymwneud â phob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddiffinnir yn benodol ar gyfer yr ACLI
3. Caniatáu ar gyfer nodi effeithiau arwyddocaol tebygol (ac felly rhai nad ydynt yn arwyddocaol)

4. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau AAS mae'n hanfodol bod system sgorio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gwahaniaethu rhwng effeithiau arwyddocaol a llai arwyddocaol

3.69 Er mwyn dangos bod y cynllun yn gadarn adeg y cam archwilio, bydd angen i ACLlau gyfiawnhau eu meini prawf ac asesiadau safle cysylltiedig. Rhaid i'r meini prawf gyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. **Rhaid i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gofnodi'r asesiad a rhoi cyfiawnhad rhesymedig dros statws y safle (gwrthodwyd, dewis amgen rhesymol neu safle a ffefrir).** Dim ond os nad oes ganddynt unrhyw botensial i fod yn safle arfaethedig, neu'n ddewis amgen rhesymol, y dylid gwrthod safleoedd ymgeisiol yn llwyr. Gall hyn wedyn lywio'r dyraniadau cynllun sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth. Rhaid i hon fod yn broses dryloyw, wedi'i dogfennu'n glir yn adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y cynllun adneuo.

Tabl 5: Meini Prawf Asesu Safle Enghreifftiol

Lleoliad a hygyrchedd	Perthynas ag aneddiadau a chyfleusterau cymunedol (ysgolion, siopau, cyfleusterau meddygol, hamdden ac ati) gan gynnwys gallu cyfleusterau lleol i gefnogi twf.
Cyd-destun a chymeriad y safle	Tir llwyd / tir glas, topograffi, golygfeydd, defnyddiau tir cyfagos, halogiad a'r defnydd presennol. Maint/arwyddocâd costau anarferol halogiad, adfer, dymchwel, mynediad ac ati.
Hygyrchedd a chapasiti priffyrdd	Addasrwydd mynediad i gerbydau yn ôl ac ymlaen o'r safle a'r effaith ar y briffordd, llwybrau trafniadaeth gyhoeddus ac amlder gwasanaeth, hygyrchedd ar droed neu ar feic i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau. (Ar gyfer adeiladu a defnyddio).
Tirwedd ac effaith amgylcheddol	Nodweddion/gwerth y dirwedd ac effeithiau ar ddynodiadau Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol, fel; Parciau Cenedlaethol; Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE); Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA); Safleoedd RAMSAR, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR); dynodiadau lleol anstatudol; asedau hanesyddol; safle maes glas/tir llwyd; system dosbarthiad tir amaethyddol (ALC) ac ansawdd aer.
Perygl llifogydd	Nodi a lleoli parthau llifogydd (C1 a C2). Cymhwyso profion cyfiawnhad yn unol â TAN 15.
Ardaloedd Diogelu Mwynau/Parthau Clustogi	Nodi'r safle a'r effaith ar ardaloedd diogelu neu barthau clustogi.

Capasiti seilwaith	Cysylltiadau a chapasiti dŵr, draenïau, carthffosiaeth, trydan, nwy a thelathrebu.
Cyflawni a hyfywedd	A yw'r safle'n pasio'r profion cyflawni a hyfywedd cyffredinol? Bwriadau perchenogion tir a rhagolygon realistig o ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun. Hanes cynllunio. Ar gael yn wirioneddol i'w ddatblygu ac yn hyfyw yn ariannol mewn egwyddor.
Hanes cynllunio	Hanes cynllunio blaenorol ac unrhyw hawliau sydd wedi dod i ben neu eu gwrthod ar y safle ar hyn o bryd.

3.70 Dylai ACLlau nodi'r holl feini prawf perthnasol y bydd safleoedd yn cael eu hasesu yn eu herbyn yn glir. Dylai unrhyw system sgorio neu ddyfarniad gwerth gael ei fynegi'n agored a chlir. Bydd hyn yn sicrhau bod trywydd archwilio clir o'r modd y mae safleoedd ymgeisiol wedi symud ymlaen i'r strategaeth a ffeirir, a pham. Gellir trafod materion o'r fath yn y sesiynau gwrandawiadau archwilio 'Safleoedd Amgen' lle bydd y dystiolaeth hon yn berthnasol, os yw'r Arolygydd o'r farn bod hyn yn angenrheidiol. Bydd yn cynorthwyo'r ACLI i gyfiawnhau ei gasgliadau drwy ei brosesau ei hun hefyd.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol a Statudol ar Safleoedd Ymgeisiol

3.71 Dim ond y safleoedd hynny sy'n cael eu hidlo drwy Gam 2 y dylid ymgynghori arnynt gydag adrannau perthnasol yr ALI, megis priffyrdd ac addysg, ynghyd â chyrrff ymgynghori penodol, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Dŵr Cymru (gan gynnwys gweithredwyr cyfatebol yng Nghymru a Lloegr) a Byrddau Iechyd (o ran y Profion Cadernid). Dylai hyn sicrhau mai dim ond ar safleoedd sydd â chyfle rhesymol o gael eu cynnwys yn y CDLI y mae cyrrff o'r fath yn gwneud sylwadau. Dylai ACLI barhau i gyfathrebu ar yr amserlen debygol ar gyfer ymgynghori er mwyn sicrhau bod gan gyrrff o'r fath y gallu i ymateb mewn modd amserol.

Bydd disgwyl i ddarparwyr seilwaith ac ymgynghoreion eraill ymateb mewn modd amserol, gan gynnig cyngor ystyrlon ar safleoedd ymgeisiol, costau, cyflenwi ac amseru. Ni ddylid cyflwyno rhestrau cyflawn o safleoedd ymgeisiol iddynt – yn hytrach dylid blaenoriaethu safleoedd o'r fath fel mai dim ond y safleoedd hynny sydd â photensial rhesymol o gael eu dyrannu yn unol â'r strategaeth sy'n esblygu sy'n cael eu cynnwys ar y rhestr.

Safleoedd a Dderbyniwyd mewn ymateb i'r Strategaeth a Ffeirir a'r Cynllun Adneuo

3.72 Mae camau strategaeth a ffeirir ac adneuo'r broses o baratoi CDLI yn rhoi cyfle i bob rhanddeiliad roi sylwadau ar y polisïau a'r safleoedd arfaethedig; cyflwyno sylwadau'n gofyn am newid ffiniau'r dyraniadau, neu gynnig dileu neu ychwanegu

safleoedd newydd. Dylai'r holl sylwadau a wneir gael eu hategu gan resymeg cynllunio a chyd-fynd â fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd yr ACLI. Dylai safleoedd a gyflwynir mewn ymateb i'r cam strategaeth a ffefrir (Rheoliad 15) gael eu hychwanegu at y CSR a'u hasesu'n briodol gan yr ACLI. Mater i'w benderfynu gan yr ACLI yw sut i ymdrin â safleoedd ymgeisiol a gyflwynir ar ôl i'r ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir ddod i ben.

3.73 Bydd yn ofynnol i unrhyw safleoedd newydd a gynigir mewn ymateb i'r cam adneuo (Rheoliad 17 CDLlau) gyflwyno Arfarniad o Gynaliadwyedd yn seiliedig ar fframwaith yr ACLI, er mwyn sicrhau y gellir ystyried safleoedd o'r fath drwy'r broses archwilio, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau AAS. Caiff priodoldeb neu ddiffyg priodoldeb unrhyw safleoedd newydd ei ystyried gan yr ACLI yn yr Adroddiad Ymgynghori (CR). Dylid hysbysu'r cyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol o'r dystiolaeth hon a rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau arni. Nid yw'n debygol y bydd safle nad yw'n destun Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei ystyried yn addas i'w ddyrannu yn y cynllun.

3.74 Mae'n rhaid i'r ACLI ystyried pob sylw adneuo a wnaed yn briodol, gan gynnwys unrhyw safleoedd newydd a gynigir a phenderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun. Rhaid i'r ACLI gynnal lefel briodol o asesu i'w alluogi i ymateb yn gywir ac yn effeithiol i unrhyw gwestiynau posibl yn y cam archwilio gan yr Arolygydd penodedig. Bydd angen i'r Adroddiad Ymgynghori (Rheoliad 22 CDLlau) ei gwneud yn glir sut mae sylwadau adneuo wedi cael eu hystyried, byddai hyn hefyd yn cynnwys sylwadau ynghylch safleoedd newydd neu ddiwygiedig.

Fel isafswm, bydd angen datgan yn glir yn yr Adroddiad Ymgynghori beth yw barn ffurfiol yr ACLI ar unrhyw sylwadau ynghylch safleoedd ychwanegol pan gyflwynir yr adroddiad.

3.75 Mae gan unrhyw berson sydd wedi cyflwyno sylwadau a wnaed yn briodol i'r cynllun adneuo hawl i ymddangos yn yr archwiliad, er mai mater i'r Arolygydd fydd ystyried y gwerth a ychwanegir drwy ganiatáu ymddangosiad, yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol drwy'r broses, h.y. a oes unrhyw beth newydd i'w glywed. Y ddau lwybr ar gyfer cynnwys safleoedd newydd ar ôl y cam adneuo yw Newidiadau â Ffocws (FCs) adeg eu cyflwyno neu Newidiadau Materion sy'n Codi (MACs) ar ôl cyflwyno'r safle a gyflwynwyd yn ystod y broses archwilio. Mae'r ddau opsiwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid gynnig sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig cyn i'r Arolygydd ystyried a ellir mabwysiadu cynllun ai peidio. **Dylid ystyried Newidiadau â Ffocws yn eithriadau, yn hytrach na dull gweithredu arferol.**

3.76 Wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad dylai fod gan yr ACLI restr wedi'i blaenoriaethu o safleoedd wrth gefn posibl y mae'n ystyried y gellid eu cynnwys fel

dewisiadau amgen a'u hychwanegu at y cynllun, pe bai angen safleoedd ychwanegol yn dilyn ystyriaeth o'r cynllun drwy'r sesiynau gwrandawriad ffurfiol.

3.77 Nid yw safleoedd wrth gefn yn ddyraniadau, maent yn safleoedd y mae'r ACLI o'r farn eu bod yn addas ac yn gyflawnadwy mewn perthynas â'r strategaeth, ond nad oes eu hangen ar hyn o bryd. Nid yw'n ofynnol eu nodi felly. Mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid allweddol perthnasol yn cael gwybod am unrhyw safleoedd wrth gefn a hyrwyddir gan yr ACLI a'u bod yn cael cyfle i wneud sylwadau.

3.78 Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ddangos sut byddai safleoedd wrth gefn yn cyd-fynd â strategaeth y cynllun, pe baent yn cael eu hystyried yn angenrheidiol. Ni chaiff safleoedd o'r fath eu hyrwyddo gan yr ACLI i'w cynnwys yn y cynllun, a dim ond os bydd yr Arolygydd, drwy'r broses archwilio yn dod i'r casgliad bod prinder safleoedd a bod angen dyraniadau ychwanegol neu amgen ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir y byddant yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

Datblygu Sail Dystiolaeth

3.79 Sylfaen cynllun datblygu yw'r sail dystiolaeth. **Mae sail dystiolaeth gadarn sy'n berthnasol, sy'n gymesur â'r materion y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw ac sy'n canolbwyntio ar faterion a safleoedd allweddol yn hollbwysig.** Mae hyn yn bwysig wrth i fwy o drylwyredd ddod yn rhan annatod o'r broses, yn enwedig dangos cyflawnadwyedd.

3.80 Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ACLlau yn elwa ar CDLI mabwysiedig, neu maent yng nghampau olaf y broses o fabwysiadu CDLI. Wrth ddechrau paratoi cynllun diwygiedig, ni fydd ACLlau yn dechrau'r broses o'r newydd yn niffyg unrhyw dystiolaeth. Bydd deall os, neu lle mae bylchau yn y dystiolaeth bresennol a'r hyn sydd angen ei ddiweddarau yn hytrach na dechrau o'r dechrau, yn hanfodol.

3.81 Mae'n ofynnol i ACLlau gadw golwg ar faterion sy'n effeithio ar ddatblygiad yn eu hardal (adran 61, PCPA 2004). Dylai hyn fod yn broses barhaus, cyn ac ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Unwaith y caiff CDLI ei fabwysiadu, gall llawer o'r wybodaeth hon ddeillio o'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR). Ar ôl cyhoeddi nifer o Adroddiadau Monitro Blynyddol, gellir nodi tueddiadau a materion allweddol, eu dadansoddi a'u hadlewyrchu yng nghasgliadau'r Adroddiad Adolygu (RR). Bydd yr Adroddiad Adolygu a thystiolaeth i gefnogi'r CDLI mabwysiedig yn darparu'r dystiolaeth llinell sylfaen.

3.82 Yn achos adolygiadau CDLI, dylai fod yn glir beth yw'r materion allweddol a pha bolisiâu sy'n gweithio, neu ddim yn gweithio, a pham. Bydd hyn yn dangos yn glir pa elfennau o'r sail dystiolaeth sydd angen eu diweddarau, neu ble mae angen tystiolaeth newydd. Dylai ACLlau ystyried manteision gweithio ar y cyd er mwyn cronni adnoddau i leihau costau a chynllunio'n fwy effeithiol ar draws ffiniau, gan wella canlyniadau cynllunio ar gyfer cymunedau. Dylid ystyried tueddiadau hefyd sydd â goblygiadau y tu hwnt i ffiniau gweinyddol unigol ar raddfa isranbarth a rhanbarth, megis marchnadoedd tai/cyflogaeth, seilwaith, capasiti trafnidiaeth a phatrymau cymudo. Bydd strategaethau/cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dylanwadu ar y dystiolaeth i gefnogi a dylanwadu ar ganlyniadau'r cynllun.

3.83 Dylai ACLlau ystyried newidiadau i bolisi cenedlaethol hefyd, fel y'u mynegir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a all ei gwneud yn ofynnol i dystiolaeth newydd gael ei chynnal a'i hadlewyrchu drwy bolisiâu newydd mewn cynllun diwygiedig. Bydd hyn yn un mor berthnasol i ddiwygiadau i feysydd polisi presennol. Gall diweddariadau i ddata a gyhoeddwyd yn genedlaethol, fel amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth, ddarparu newid cyd-destunol y dylid ei ystyried hefyd.

3.84 Bydd angen i ACLlau ystyried pob un o'r uchod wrth baratoi sail dystiolaeth i gyfiawnhau eu CDLI. Dylid mynd ati i gasglu tystiolaeth ar bob agwedd ar y broses o baratoi'r cynllun a dylai'r broses casglu tystiolaeth gyd-fynd â'r tair agwedd ganlynol:

Perthnasol

- Amseru
- Cwblhau'r sail dystiolaeth a llenwi bylchau er mwyn cefnogi casgliadau'r cynllun/polisi ymlaen llaw; ni ddylid ceisio tystiolaeth ar ôl dewis polisi.
 - Gellir ymgymryd â gwahanol fathau o dystiolaeth mewn gwahanol ffyrdd, h.y. yn gyfochrog neu'n ddilyniannol, drwy baratoi cynllun. Dylai manylion priodol y dystiolaeth fod ar gael ar yr adeg berthnasol yn y broses.
 - Dylid diweddarau'r dystiolaeth drwy gydol y broses. Dylid nodi'r wybodaeth ddiweddaraf yn glir ynghyd â'r goblygiadau sy'n deillio o unrhyw newidiadau, gan gofnodi'n glir sut maent wedi llunio'r cynllun/polisiâu.
- I'r mater mater/cynllun.
- Sicrhau bod y dystiolaeth yn ymwneud â chyflawni'r

Cymesur

- Lefel y manylder
- Dylai graddfa/manylder y sail dystiolaeth ymwneud ag arwyddocâd y mater sy'n cael sylw. Po fwyaf arwyddocaol yw'r mater i'r cynllun, h.y. sylfaenol neu ymylol, y mwyaf yw'r effaith ar y lefel o dystiolaeth fanwl sydd ei hangen. Po fwyaf cymhleth fydd y broblem, po fwyaf eang a manwl y bydd angen i'r sail dystiolaeth fod.
- Penodol i'r ardal
- Gall y dystiolaeth naill ai fod yn gyffredinol (ar draws ardaloedd daearyddol eang) neu'n llawer mwy penodol (yn seiliedig ar amgylchiadau lleol). Gall y naill neu'r llall, neu'r ddau, fod yn briodol. Gellir defnyddio cyfuniad o'r ddau i sicrhau'r manteision polisi mwyaf posibl, megis cipio 'mannau poeth' o ran tai fforddiadwy mewn ardal ddaearyddol gwerth isel ehangach o lawer. Gallai data lleol, o bosibl o drafodaethau go iawn ar y safle, nodi targedau polisi uwch yn hytrach na derbyn dull gwerth is mwy generig. Mae angen i'r holl ddata/tystiolaeth fod yn gadarn.

Cadw ffocws

- Ar faterion allweddol - Dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau'r cynllun. Nid oes rhaid iddo gwmpasu popeth; bod yn gymesur â'r arwyddocâd. Canolbwyntio'r dystiolaeth ar yr hyn sy'n ofynnol.
- Diweddarau a 'Bylchau' - Gyda'r rhan fwyaf o ACLlau yn elwa ar CDLI mabwysiedig, nid oes angen dechrau o'r newydd ar gasglu tystiolaeth. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn y mae'n briodol o hyd i'w ddatblygu, lle mae angen diweddariadau a lle mae 'bylchau' ac mae angen rhagor o dystiolaeth, fel ymateb i newidiadau mewn polisi cenedlaethol.

Strategaeth a Ffefrir

Wrth lunio ac ymgynghori ar y strategaeth a ffefrir, rhaid i ACLlau gydymffurfio â deddfwriaeth ac elfennau gweithdrefnol fel y nodir yn Rheoliadau 14, 15, 16 a 16A CDLlau, y Rheoliadau AAS a gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod dewisiadau eraill rhesymol a realistig wedi'u hystyried.

O ran y cynlluniau hynny a gaiff eu diwygio, bydd y strategaeth a ffefrir yn fwy manwl na chynlluniau blaenorol, gan nodi manau allweddol a graddfa'r newid, safleoedd sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun, nodi gofynion seilwaith a dangos gweithredu a chyflawni.

Paratoi Strategaeth a Ffefrir

3.85 Y strategaeth a ffefrir yw'r cam ymgynghori statudol cyntaf yn y broses o baratoi CDLI. Mae'n nodi'r dull cyffredinol o ymdrin â maint a lleoliad y twf ac yn sicrhau y caiff y datblygiad ei gynllunio mewn modd cynaliadwy. Mae'n darparu'r fframwaith strategol ar gyfer polisiau, cynigion a dyraniadau defnydd tir penodol manylach, a gaiff eu cynnwys wedyn yn y CDLI adneuo (Diagram 9).


3.86 Mae cynnwys y cyhoedd yn effeithiol ar y cam strategaeth a ffefrir yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn chwarae rhan ystyrlon. Bydd trafodaeth gynnar am y sail dystiolaeth, opsiynau strategol, strategaeth a chynigion cysylltiedig, gan gynnwys safleoedd ymgeisiol, yn hollbwysig er mwyn creu consensws a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau mawr o ran cyflawni'r strategaeth a ffefrir. Mae ymgynghori â chyrrff ymgynghori penodol a chyffredinol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 14(1)(a) a (1)(b) CDLlau yn hanfodol.

3.87 Rhaid i gydymffurfiaeth â gofynion cyfranogi ac ymgynghori â'r cyhoedd yn y Rheoliadau CDLlau (14 a 15) fodloni gofynion y Rheoliadau AAS hefyd er mwyn sicrhau bod dewisiadau amgen rhesymol i'r cynllun yn cael eu nodi a'u gwerthuso. Rhaid cynnwys cyrrff ymgynghori penodol a chyffredinol hefyd (Rheoliad 14(1)(a) a (1)(b) CDLlau cyn i'r ACLI ymgynghori ar y strategaeth a ffefrir.

Dylai opsiynau realistig fod: yn ddilys, yn rhesymol, adlewyrchu'r dystiolaeth a materion/amcanion y cynllun, diwallu anghenion yr ardal fel y'u nodwyd mewn tystiolaeth, bod yn gyflawnadwy o fewn cyfnod y cynllun, cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, ategu mentrau rhanbarthol neu leol a bod yn hyblyg a chynaliadwy. **Dylai ACLlau ystyried pa mor briodol yw'r opsiynau a ystyriwyd yn flaenorol, gan gynnwys dewisiadau amgen newydd.** Mae'r broses adolygu'n ymwneud ag aildefnyddio a dilysu'r dystiolaeth bresennol, ynghyd â llenwi bylchau yn y dystiolaeth, yn hytrach na dechrau o'r dechrau, ar y cyd ag unrhyw opsiynau newydd.

3.88 Ni fydd ACLlau yn dechrau ar ddalen lan; bydd CDLI mabwysiedig eisoes ar waith gyda thystiolaeth ategol, gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol, polisïau, methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adroddiad Adolygu. Y pwynt allweddol yw ystyried y cyd-destun presennol ac asesu beth sydd wedi newid ers casglu tystiolaeth y cynllun blaenorol, pa opsiynau a brofwyd a beth sydd angen ei ddiweddarau ar gyfer gwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS a'r cynllun ei hun. Er enghraifft, a fu unrhyw newidiadau deddfwriaethol, neu newidiadau i bolisi cenedlaethol y mae angen eu hadlewyrchu? Pa bolisiau nad ydynt/sydd wedi bod yn effeithiol ac y dylid naill ai eu dileu, neu eu haddasu?

Diagram 9: Crynodeb o'r Opsiynau a'r Strategaeth a Ffefrir



Cwmpas y Strategaeth a Ffefrir

3.89 Mae angen i'r strategaeth a ffefrir fod yn ystyrllon, yn fanwl, ac yn seiliedig ar yr egwyddor blaenlwytho. Bydd hyn yn cynnwys cam safleoedd ymgeisiol mwy trylwyr a manwl, nodi lefelau twf cyffredinol, dangos y rhaniad twf rhwng hierarchaeth aneddiadau, safleoedd allweddol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun (gan gynnwys asesiad hyfywedd) ac ystyriaeth drylwyr o waith cyflawni, gweithredu fesul cam a chapasiti seilwaith. Bydd prinder manylion yn golygu nad oes gan randdeiliaid na'r gymuned wybodaeth hanfodol, gan amharu ar ddefnyddioldeb yr ymarfer. **Nid yw gadael yr elfennau craidd hyn, gan gynnwys dogfennau sail dystiolaeth tan y cam adneuo, yn ddull effeithiol o baratoi CDLI.** Gall tystiolaeth fanylach ddod i'r fei yn ddiweddarach yn y broses o baratoi'r cynllun; ond dylai hyn fod yn fireinio yn hytrach na chreu tystiolaeth newydd.

3.90 Dylai fod yn glir o'r strategaeth a ffefrir beth yw'r strategaeth, pam y'i dewiswyd fel y ffordd fwyaf priodol o ymdrin â'r ystod o faterion, sut caiff ei chyflawni a'i rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys mynegi lefelau twf yn ofodol, sut caiff y lefel honno ei chyflwyno mewn termau cyffredinol (safleoedd ymgeisiol, capasiti trefol, dadansoddiad banc tir, dyraniadau newydd) gyda safleoedd allweddol yn cael eu diffinio. Rhaid i'r strategaeth gyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

3.91 Bydd angen i'r ACLI ddangos bod diddordeb mewn dod â safleoedd datblygu allweddol ymlaen yn yr ardaloedd a nodwyd, ar y cyd â gofynion polisi'r cynllun. Hefyd, bydd angen mynegi barn rhanddeiliaid allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i gyflawni'r safleoedd allweddol, na'r gallu i gyflawni yn y manau a nodwyd. Dylai'r strategaeth gael ei chefnogi gan bapurau pwnc seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi, esbonio a chyfiawnhau'r dull a ddefnyddir. Dylai barn rhanddeiliaid allweddol lywio'r cynllun a'r dystiolaeth.

Y Strategaeth a Ffefrir (Rheoliad 15 CDLIau) – Egwyddorion/Canlyniadau Allweddol

Nodi'r materion, heriau a sbardunau allweddol ar gyfer yr ardal (agweddau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol) gan gynnwys gofynion strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Gwerthuso a yw'r materion allweddol ar gyfer y cynllun mabwysiedig yn berthnasol o hyd, i ba raddau y mae materion newydd wedi codi.

Nodi gweledigaeth ar gyfer y cynllun, sy'n unigryw i amgylchiadau lleol, gydag amcanion troswaol sy'n ymateb i'r materion allweddol.

Rhaid i'r Strategaeth a Ffefrir basio'r prawf porth a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru gan ymgorffori'r dull Creu Lleoedd a'r drefn chwilio am safle, strategaeth ofodol a hierarchaeth anheddu sydd wedi'u mynegi'n glir, yn seiliedig ar rôl a swyddogaeth

lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, ffactorau angen a chyflenwi a datblygu cynaliadwy.

Diffinio graddfa arfaethedig twf poblogaeth, tai a chyflogaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r opsiynau twf amrywiol, nodi sut caiff ei gyflawni, e.e. ystod eang o gydrannau (ymrwymadau/hap-safleoedd/safleoedd bach/dyraniadau ac ati)

Mynegi lefelau tai a thwf economaidd cyflym yn yr hierarchaeth aneddiadau a lleoedd.

Safleoedd/ardaloedd twf allweddol i gyflawni'r cynllun wedi'i nodi'n ofodol ar Fap Cynigion, wedi'i ategu gan egwyddorion prif gynllun, diagramau cysyniad a Map Cyfyngiadau.

Amseru/camau cyflwyno cyffredinol ar gyfer tai a thwf economaidd, gan gynnwys seilwaith.

Polisiâu strategol allweddol i gyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth.

Polisiâu rheoli datblygiad (wedi'u cadw/diwygio o'r cynllun mabwysiedig).

Asesiadau hyfywedd ar gyfer pob safle, gydag arfarniadau manwl ar gyfer safleoedd allweddol.

Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w paratoi a'u blaenoriaethu.

Gofynion Ymgynghori (Rheoliad 15 CDLlau)

3.92 Mae Rheoliad 15 CDLlau yn esbonio'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi, hysbysu ac arolygu. Rhaid rhoi cyhoedduswydd i'r cynigion cyn-adneuo (y strategaeth a ffefrir) dros gyfnod o chwe wythnos o leiaf, gydag amser ychwanegol ar gyfer gwyliau cyhoeddus. Rhaid i'r dogfennau fod ar gael ym mhrif swyddfa ACLI a lleoliadau allweddol eraill. Rhaid i'r ddogfennaeth gynnwys:

- Cytundeb Cyflawni/Cynllun Cynnwys Cymunedau
- CSR (egluo pa safleoedd sy'n cyd-fynd â'r strategaeth a'r rhai sydd ddim)
- Manylion trefniadau ymgynghori yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Gwybodaeth am sut i ymateb
- Ffurflen ymateb ar gyfer gwrthwynebwyd
- Cyfeiriadau i ategu papurau technegol a phapurau cefndir
- Adroddiad adolygu
- Adroddiad cychwynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac adroddiad sgrinio HRA

Ymateb i Sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir

3.93 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth a ffefrir os bu newid perthnasol mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar safle a wrthodwyd yn flaenorol, neu os cyflwynir safle cwbl newydd, cyfrifoldeb yr hyrwyddwr yw profi effeithiau ei safle gan ddefnyddio fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd yr ACLI. Dylai ACLLau

ddarparu canllawiau ar yr hyn fyddai'n ofynnol ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd y byddai disgwyl i'r hyrwyddwr eu dilyn.

3.94 Dylai ACLlau sicrhau bod copi o'r wybodaeth sylfaenol, y dystiolaeth ac adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael, a dylent eu hannog i ddefnyddio methodoleg gyson sy'n ystyried effeithiau'r AAS o fewn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Dylai'r rheini sy'n gwrthwynebu cynnwys safle gael copi o unrhyw waith perthnasol sy'n rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, naill ai gan yr hyrwyddwr neu gan yr ACLI. Gellir ystyried canlyniadau'r asesiad yn yr archwiliad.

3.95 Ni fydd proses fetio i sicrhau bod cyflwyniadau'n foddhaol o ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd: bydd unrhyw fetio'n digwydd fel rhan o'r archwiliad gerbron yr Arolygydd gan fod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o'r sail dystiolaeth a ddylai gefnogi'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun adneuo. Os nad yw safle newydd neu amgen wedi bod yn destun unrhyw Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'n annhebygol y bydd yr Arolygydd yn argymhell ei gynnwys yn y CDLI.

Rhaid i ACLlau ystyried yr holl sylwadau a wneir yn unol â Rheoliad 16(2) CDLIau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo cyn penderfynu ar gynnwys y CDLI adneuo.

3.96 Ni fydd sylwadau a wneir yn ystod y cam cyn adneuo yn sylwadau i'w hystyried yn yr archwiliad annibynnol. Dylai ACLlau drafod gyda rhanddeiliaid allweddol y materion sy'n codi sy'n cwestiynu'r strategaeth a ffefrir, neu safleoedd/polisïau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Dylai esboniad o sut y mae'r sylwadau hyn wedi dylanwadu, neu beidio, ar bolisïau a chynigion y CDLI, gael ei roi fel adborth i ymatebwyr a rhanddeiliaid a chael ei gyhoeddi.

Gwerthuso Newidiadau Sylweddol i'r Strategaeth

3.97 Os bydd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi'r strategaeth a ffefrir i raddau helaeth, efallai na fydd y gwaith asesu pellach yn sylweddol. Dylai'r gwelliannau a wneir i'r strategaeth a ffefrir gael eu hadlewyrchu yn y papurau cefndir ac adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

3.98 Os ar y llaw arall bydd yr ACLI yn mynd ar drywydd strategaeth sy'n wahanol i'r strategaeth a ffefrir, rhaid iddo ei harfarnu yn erbyn fframwaith asesu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yna byddai angen ategu adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn fwy helaeth, neu ei ailysgrifennu hyd yn oed. Os daw strategaeth neu gynigion newydd o sylwadau a wnaed, dylai'r ymatebwyr hynny ddarparu gwybodaeth berthnasol sydd ar gael am ei heffeithiau. Os ystyrir safleoedd newydd, rhaid ystyried yr effeithiau cronus hefyd. Dylai'r ACLI ystyried sylwadau'r ymgynghoriad ar adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd a gwneud

addasiadau lle ystyrir bod eu hangen. Dylid rhoi gwybod i'r cyrff ymgynghori statudol am newidiadau i'r asesiadau ac adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol

3.99 I baratoi ar gyfer y cam adneuo dylai'r ACLI ddechrau drafftio'i adroddiad ymgynghori cychwynnol (Rheoliad 16A y CDLIau, gweithdrefn lawn a Rheoliad 26A CDLIau, ffurf fer). Bydd hyn yn sail ar gyfer yr adroddiad ymgynghori dilynol sydd ei angen pan gyflwynir y CDLI i'w archwilio'n annibynnol. Dylai'r adroddiad nodi'r cyrff a gaiff eu cynnwys neu eu hysbysu neu yr ymgynghorir â nhw yn ystod y cam cyn adneuo, gan gynnwys safleoedd, y prif faterion a godwyd a sut maent wedi dylanwadu ar y CDLI adneuo; dylai gynnwys crynodeb cyffredinol o sylwadau, ymateb yr ACLI a chymau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i baratoi'r cynllun. **Dylai unrhyw wyriad oddi wrth y Cynllun Cynnwys Cymunedau fod yn eithriadol a chael ei gyfiawnhau'n llawn (Rheoliad 9(6) CDLIau).** Dylai fod rhestr o sylwadau ar safleoedd unigol neu awgrymiadau ar gyfer dyraniadau safleoedd newydd hefyd. Dylid sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr ACLI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymgynghori/cynnwys cyn adneuo.

Cynllun Adneuo


Y cynllun adneuo yw'r cynllun y mae'r ACLI yn ei ystyried yn gadarn ac yn bosibl i'w fabwysiadu. Rhaid ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo am o leiaf chwe wythnos (gan gynnwys amser ychwanegol ar gyfer gwyliau cyhoeddus lle bo angen). Mae Rheoliadau 17, 18, a 19 CDLlau yn nodi gofynion gweithdrefnol y cam hwn. **Dylai'r cynllun ei gwneud yn glir y dylid ei ddarllen yn ei gyfanrwydd.**

Mae'r cynllun adneuo'n cynnwys y strategaeth, y polisiau a'r dyraniadau, yn seiliedig ar faterion ac amcanion allweddol y cynllun a'r sail dystiolaeth iddo. Bydd y cynllun adneuo'n cael ei ategu gan dystiolaeth gefndir berthnasol, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, CSR ac adroddiad ymgynghori cychwynnol yn nodi sut y mae sylwadau wedi dylanwadu ar y cynllun.

Bydd y cynllun adneuo'n llunio ac yn llywio cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy er mwyn cyflawni twf ar y raddfa ac o'r math sydd ei angen er mwyn sicrhau llesiant y gymuned leol dros gyfnod y cynllun. Bydd y cynllun yn dangos bod datblygiad yn ariannol hyfyw, bod modd ei gyflawni dros gyfnod penodol o amser ac y caiff ei gefnogi gan seilwaith a ariennir.

3.100 Mae Penodau 3 a 4 o'r Llawlyfr yn nodi proses y CDLI, y gofynion o ran cynnwys, y canlyniadau allweddol a'r canllawiau ar gyfer cydymffurfio â gweithdrefnau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr AAS a'r HRA ar gyfer y system CDLlau. Mae Pennod 5 yn nodi canllawiau technegol ac ymarferol ar sut i baratoi sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y materion craidd ac yn nodi'r elfennau allweddol y dylid eu cynnwys yn y cynllun. Mae Penodau 8 a 9 yn nodi canllawiau ar y fframwaith monitro a'r defnydd o Ganllawiau Cynllunio Atodol. **Dylai'r ACLI ddangos bod pob elfen berthnasol o'r Llawlyfr wedi cael ei dilyn.** Y cynllun adneuo yw'r cynllun y mae'r ACLI yn ei ystyried yn gadarn ac yn bwriadu ei gyflwyno i'w archwilio a'i fabwysiadu. Felly, dylid ei ddrafftio mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ddiangen. Mae Diagram 10 yn rhoi trosolwg o broses y cynllun adneuo.

Diagram 10: Proses y Cynllun Adneuo



Cwblhau adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

3.101 Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith technegol wedi'i gwblhau wrth baratoi adroddiad cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod y cam cyn adneuo. Bydd hyn wedi disgrifio'r arfarniad o'r prif opsiynau strategol a'r rhesymau dros ddewis y strategaeth a ffefrir. Ar y cam hwn, dylai adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys canlyniadau asesu unrhyw opsiynau diwygiedig neu newydd sy'n deillio o ymgynghoriad cyhoeddus, wedi'u diweddaru os oes angen. Bydd angen iddo ystyried sylwadau perthnasol ar adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod y cam cyn adneuo hefyd a chofnodi newidiadau o'r fath. Wrth baratoi'r cynllun adneuo

mae'n bosibl y bydd nifer o bolisïau ychwanegol a safleoedd bach wedi'u hychwanegu. Dylai adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ddisgrifio sut maent yn perfformio yn erbyn y fframwaith asesu integredig gan gynnwys unrhyw effeithiau cronnus. Dylid hysbysu'r cyrff ymgynghori statudol a rhoi cyfle iddynt roi eu sylwadau. At ei gilydd, dylai gynnwys disgrifiad o effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol polisïau'r cynllun neu ble gellir dod o hyd i'r deunydd hwn. Dylid diweddarau'r crynodeb annhechnegol ac unrhyw ddeunydd cefndir arall hefyd.

Rhoi'r CDLI ar Adnau - Gofynion Ymgynghori a Dogfennaeth

3.102 Pan fo ACLI yn barod i roi'r CDLI ar adnau i'w archwilio gan y cyhoedd rhaid iddo hysbysebu hyn yn unol â Rheoliad 17 CDLIau. Ynghyd â dogfennau penodedig eraill, rhaid ei anfon at Lywodraeth Cymru a'r cyrff ymgynghori y cyfeirir atynt yn Rheoliad 14 CDLIau, sef yr ymgynghoreion statudol ac unrhyw rai eraill a nodir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau, **gan ganiatáu o leiaf chwe wythnos (gydag amser ychwanegol ar gyfer gwyliau cyhoeddus lle bo'n briodol) ar gyfer cyflwyno sylwadau (Rheoliad 18 CDLIau)**. Dylai'r ymgynghoriad fodloni gofynion y Rheoliadau AAS. Ar gyfer diwygiad rhannol gan ddefnyddio'r weithdrefn ffurf fer, y Rheoliadau CDLIau priodol yw 26B ac C (gweler paragraffau 8.20 – 8.38).

3.103 Dylai'r ACLI gysylltu â Llywodraeth Cymru a'r cyrff ymgynghori penodol i ganfod faint o gopiâu (papur a/neu electronig) o'r dogfennau yn y datganiad cyhoeddedig sydd eu hangen. Dylai pob dogfen, gan gynnwys unrhyw grynodedb o'r CDLI, fod ar gael ar wefan yr ACLI ac ar bapur i'w harchwilio yn swyddfeydd penodedig yr ACLI (gan gynnwys amseroedd a lleoedd) ac ar gael i'w prynu ar bapur (am gost resymol):

- Datganiad o faterion adneuo (teitl y CDLI, y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, cyfeiriad a phwynt cyswllt ar gyfer ble a sut (electronig neu fel arall) i anfon sylwadau (gall y sylwadau nodi cyfeiriad cyswllt ar gyfer cyfathrebu pellach)
- Y CDLI Adneuo
- Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r HRA
- Rhestr o ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r CDLI. Mae hyn yn cynnwys y sail dystiolaeth y mae'r CDLI yn seiliedig arni (mae'n bwysig bod ymatebwyr yn gallu gweld hon er mwyn llywio eu sylwadau).
- Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol
- Adroddiad Adolygu
- Yr Adroddiad Ymgynghori cychwynnol
- Manylion safleoedd amgen a gynigir gan y rhai sy'n cyflwyno sylwadau ar y cam cyn adneuo ac unrhyw sylwadau a wneir ynghylch dyraniadau arfaethedig neu safleoedd a restrir yn y gofrestr o safleoedd ymgeisiol. Gall yr ACLI gofnodi ei safbwyntiau ei hun ynghylch pam nad yw'n cynnig safleoedd

amgen i'w cynnwys yn y cynllun ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid iddo nodi'n glir bod potensial i hyn newid a bod angen i randdeiliaid fynegi eu barn ar safleoedd amgen yn awr.

Ffurflen Safonol ar gyfer Cyflwyno Sylwadau

3.104 Dylai pawb sy'n cyflwyno sylwadau (Rheoliadau 18 a 26C CDLlau) gael eu hannog i ddefnyddio ffurflen safonol sy'n nodi unrhyw sylwadau neu wrthwynebiad ategol yn glir, h.y. sylwadau sy'n ceisio newid CDLI (adran 64 (6) PCPA 2004). Er nad yw'n angenrheidiol, dylid rhoi'r cyfle i wrthwynebwyr nodi pa rai o'r profion cadernid y mae'r cynllun yn eu methu yn eu barn nhw. Dylid gofyn i wrthwynebwyr nodi sut dylai'r cynllun gael ei newid yn eu tyb nhw. Mae ffurflen sylwadau enghreifftiol gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru ar gael ar ei gwefan, a gynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â Chymorth Cynllunio Cymru (PAW) gan ddefnyddio profiad o archwiliadau blaenorol. Mae'r ffurflen yn annog cofnodi cefnogaeth i'r cynllun.

3.105 Ym mhob achos, dylai ymatebwyr nodi'r rhan benodol o'r cynllun y mae eu sylw yn ymwneud ag ef drwy nodi'r paragraff, rhif polisi, neu fap cynigion. Yn achos hepgoriad tybiedig, dylai ymatebwyr nodi'r polisi newydd arfaethedig, y testun ategol, neu'r lleoliad ar gyfer safle newydd neu ddiwygiedig. Dylai ymatebwyr nodi sut mae eu sylwadau'n cyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol a'r arfarniad asesu Arfarniad o Gynaliadwyedd integredig. Bydd hyn yn hanfodol pan fydd y sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd neu ddiwygiedig. Mae canllawiau Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn rhoi esboniad pellach o'r gofynion gweithdrefnol. Mae'r Llawlyfr yn nodi'r profion cadernid a'r cwestiynau cysylltiedig (Tabl 27, paragraff 6.27).

Ymdrin â Sylwadau

3.106 Rhaid i ACLlau gofrestru'r holl sylwadau 'a wneir yn briodol' (h.y. sylwadau a wneir yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddwyd) sy'n ymwneud ag ystyriaethau cynllunio, nid dim ond y rhai sy'n ymwneud yn benodol â chadernid. Mae gan ACLI ddisgresiwn i dderbyn sylwadau hwyr ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried hyn, a dylid nodi'r amgylchiadau hyn yng Nghynllun Cynnwys Cymunedau yr ACLI. Dylai ACLI hysbysu'r rhai sydd â hawl statudol i ymddangos gerbron a chael eu clywed yn yr archwiliad gan yr Arolygydd (h.y. gwrthwynebwyr, y rhai sydd am weld newid i'r cynllun o dan a64(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) y gallant gyflwyno'u gwrthwynebiadau drwy ddefnyddio sylwadau ysgrifenedig hefyd os nad ydynt yn dymuno ymddangos yn yr archwiliad. Bydd gwrthwynebiadau a wneir yn y modd hwn yn cael yr un faint o ystyriaeth gan yr Arolygydd â'r rhai a wneir ar lafar yn yr archwiliad.

3.107 Mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud sylwadau ar gael i'w harchwilio i'w gweld yn Rheoliadau 19 a 26D CDLlau. Dylid sicrhau bod yr holl sylwadau ar gael i'r cyhoedd

eu gweld cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Argymhellir bod rhestr gryno ohonynt yn cael ei rhoi ar wefan yr ACLI gyda manylion ble gellir eu gweld.

3.108 Argymhellir y dylai'r ACLI sefydlu **cronfa ddata ymgynghori** fel dull o brosesu'r sylwadau os nad wedi gwneud hynny'n barod. Dylai'r wybodaeth gynnwys y meysydd canlynol, o leiaf:

- Manylion yr ymatebydd
- Y rhan benodol o'r cynllun y mae ei sylwadau'n ymwneud ag ef
- P'un a yw'n cefnogi neu'n gwrthwynebu
- Unrhyw newidiadau a awgrymir i'r cynllun, gan gynnwys yn ymwneud â safleoedd
- Unrhyw gysylltiad ag ymatebwyr cyn yr archwiliad

3.109 Dylai fod modd chwilio yn y gronfa ddata fel y gellir gweld sylwadau tebyg, gan ganiatáu i'r Arolygydd grwpio gwrthwynebwyr yn yr archwiliad, lle bo hynny'n briodol.

3.110 Lle na gyflawnwyd prosesau statudol ar gyfer safleoedd a gyflwynwyd yn hwyr yn y broses baratoi, ni fyddai adroddiad yr Arolygydd yn gallu argymhell eu cynnwys yn y CDLI. At hynny, pe bai newid o'r fath yn golygu na fyddai'r CDLI yn gadarn, ni fyddai'r Arolygydd yn gallu argymhell o'i blaid. Felly, cyfrifoldeb y rhai sy'n hyrwyddo newidiadau o'r fath yw dangos bod y gweithdrefnau priodol wedi'u dilyn a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos y byddai'r cynllun yn gadarn pe bai'r safle yn cael ei gynnwys. Byddai hyn yn cynnwys cydnawsedd y safle â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae unrhyw newidiadau i'r cynllun yn fater i'r Arolygydd a fydd yn archwilio'r cynllun er mwyn penderfynu a yw'n 'gadarn' ai peidio'.

Cyflwyno

3.111 Pan gyflwynir CDLI i'w archwilio'n annibynnol, hwn yw'r cynllun y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ei ystyried yn 'gadarn' ac yn briodol i'w fabwysiadu. Os bydd angen, er eu bod yn anstatudol, gellir gwneud newidiadau â ffocws yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed. Dim ond i'r elfennau hynny o'r cynllun y mae'r ACLI yn ystyried sydd angen eu diwygio y dylid cyflwyno ymatebion o'r fath er mwyn sicrhau y gellir pennu bod y cynllun yn 'gadarn'.

3.112 Mae Pennod 6 y Llawlyfr (paragraffau 6.3 a 6.13 - 6.22) yn rhoi canllawiau pellach ar y defnydd o newidiadau â ffocws. Fodd bynnag, **mae'n bwysig cofio mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio newidiadau â ffocws.** Ni ddylent gael eu cynnwys yn awtomatig yn yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun, yn enwedig ar gyfer CDLIau sy'n disodli rhai blaenorol. Dylai Adroddiadau Monitro Blynyddol amlygu anghysondebau o ran effeithiolrwydd polisi y gellir mynd i'r afael â

hwy drwy adolygu'r cynllun. Yn yr un modd, gellir mynd i'r afael ag esblygiad polisi cynllunio cenedlaethol drwy adolygu'r cynllun.

3.113 Mae'n rhaid i'r ACLI roi cyhoeddusrwydd i'r cyflwyniad a sicrhau bod y dogfennau perthnasol ar gael (Rheoliad 22 CDLlau). Dylai ACLlau ystyried canllawiau archwilio Arolygiaeth Gynllunio Cymru sy'n nodi'r broses a'r materion i'w hystyried o ran cyflwyno ac archwilio. Ceir canllawiau manwl ar baratoi ar gyfer cyflwyno a chyflwyno'r cynllun i'w archwilio ym mhennod 6.

Pennod 4: Aseidiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio

Mae Pennod 4 yn rhoi arweiniad ar y gofyniad statudol i baratoi Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) (gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Cyflwyniad

4.1 Wrth wraidd datblygu cynaliadwy mae'r syniad o sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. **Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses cynllun datblygu.** Rhaid i bob cynllun datblygu sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf Llesiant 2015). Mae hyn yn cynnwys CDLlau, Cynlluniau Datblygu Strategol a'r FfDC.

4.2 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn ofynion statudol (a39 (2) PCPA 2004 a Rheoliadau AAS 5(2) a 5(4) yn y drefn honno). Mae'r gofyniad statudol i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n ymgorffori AAS, yn darparu tystiolaeth a rhesymeg dros ddewisiadau gofodol a pholisi, a dylai wahodd y gymuned a rhanddeiliaid i gyfrannu ym mhob cam o broses y cynllun.

4.3 Mae cwmpas AAS wedi'i gyfyngu i effeithiau¹ amgylcheddol cynlluniau, tra bod cylch gwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangach ac yn cwmpasu effeithiau llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol. Mae'n well ymgorffori gofynion y Rheoliadau AAS mewn Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn osgoi ailadrodd diangen.

4.4 I fod yn effeithiol dylai Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei integreiddio'n llawn yn y broses o lunio'r cynllun o'r cychwyn cyntaf a dylai roi mewnbwn ym mhob cam. Dylai fod yn glir o'r broses pam y dewiswyd opsiynau twf, amcanion, polisiau a chynigion yn y cynllun. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn bwysig wrth ddangos bod y cynllun datblygu yn gadarn, drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy. **Yn y Llawlyfr hwn, rhaid cymryd bod pob cyfeiriad at Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys gofynion y Rheoliadau AAS. Rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun sicrhau bod holl ofynion cyfreithiol Arfarniad o Gynaliadwyedd ac AAS yn cael eu bodloni wrth baratoi cynllun datblygu.**

¹ "the likely significant effects on the environment, including on issues such as biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship between the above factors" (Cyfarwyddeb AAS 2001/42/EC, Atodiad I (f))

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod llunio cynllun sy'n gyfrifol am baratoi'r FfDC; SPP yw'r awdurdod llunio cynllun sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol; ac ACLI yw'r awdurdod llunio cynllun sy'n gyfrifol am baratoi CDLI a/neu CDLIC.

Dull Asesu Integredig: Dull Effeithiol a Chyffannol o Lunio Cynllun

4.5 Wrth gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, dylai ACLlau ystyried y gwerth a'r cyfleoedd o gael dull asesu integredig wrth baratoi cynllun datblygu. Trwy integreiddio elfennau statudol ac allweddol megis gofynion Deddf Llesiant 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) a Deddf yr Amgylchedd (adran 6) (pan yn berthnasol) mewn un Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (ISA), bydd modd cynnal asesiad mwy tryloyw, cyffannol a chynhwysfawr o oblygiadau opsiynau twf, amcanion, polisiâu a chynigion ar gyfer cynaliadwyedd.

4.6 Gall ISA sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl, osgoi dyblygu, a darparu trywydd archwilio clir i gymunedau a defnyddwyr cynllun ynghylch sut caffodd y materion amrywiol eu hystyried, a sut maent wedi dylanwadu ar y cynllun. Mae dull ISA yn cynnig mecanwaith cadarn a thrylwyr i nodi problemau, asesu effeithiau a chynorthwyo gyda monitro mewn modd cyffannol. Mater i bob awdurdod sy'n llunio cynllun fydd penderfynu a ddylid integreiddio'r asesiadau a drafodir isod (nid yw'n rhestr gyflawn) fel rhan o'i Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ystyried gofynion deddfwriaethol a materion allweddol yn ardal y cynllun. **Bydd angen i awdurdodau sy'n llunio cynlluniau fod yn glir ynghylch pa elfennau sy'n cael eu sgrinio i'r ISA; h.y. yr elfennau hynny sy'n berthnasol ac y gellir eu hystyried gan y cynllun datblygu. Dylai'r ISA gyfeirio'n glir at y gofyniad cyfreithiol penodol y maent yn ymdrin ag ef.** Ni ddylid defnyddio'r system cynllun datblygu i sicrhau amcanion y mae'n fwy priodol eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth neu fecanweithiau eraill.

4.7 Ni ddylai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael ei integreiddio gyda'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gan ei fod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol sy'n cael ei drafod yn ddiweddarach yn y bennod hon (paragraffau 4.37 – 4.55). Dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd grynhoi canfyddiadau'r HRA fel rhan o'i asesiad o effeithiau ar fioamrywiaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4.8 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Llesiant 2015.

Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.

4.9 Mae Deddf Llesiant 2015 yn gosod saith nod llesiant y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu cyflawni:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

4.10 Rhaid i'r CDLI ddangos sut mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Gall y dull a ddefnyddir i arfarnu'r cynllun drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd alluogi ACLlau i ddeall lle gall y cynllun wneud y cyfraniad mwyaf. Dylai'r nodau llesiant fod yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a dylid eu defnyddio i lywio'r adolygiad o dystiolaeth, nodi problemau a strwythuro fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a fydd yn asesu opsiynau twf, amcanion, polisiau a chynigion y cynllun.

4.11 Mae Deddf Llesiant 2015 yn nodi pum ffordd o weithio hefyd y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u defnyddio wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau datblygu cynaliadwy. Dyma'r pum ffordd o weithio:

- Ystyried **tymor hir** fel nad ydym yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Deall gwraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd neu waethygu;
- Mabwysiadu dull **integredig** fel bod gyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.

4.12 Dylai'r nodau llesiant, yr amcanion a'r pum ffordd o weithio fod yn rhan annatod o ddatblygu fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mater i bob corff sy'n gwneud penderfyniadau fydd dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant 2015.

Y Gymraeg

4.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg fel y gall ffynnu a thyfu ledled Cymru. Rhaid ystyried y Gymraeg o gychwyn cyntaf y broses cynllun datblygu. Mae'n ofyniad deddfwriaethol bellach bod yn rhaid i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg (adran 62(6A) PCPA 2004 fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

4.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pennu'r gofynion polisi ar gyfer y Gymraeg. Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN20): Mae 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' yn rhoi arweiniad ar ystyried y Gymraeg fel rhan o brosesau'r cynllun datblygu a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn gryno, mae'n rhaid i ACLlau ystyried effeithiau tebygol eu cynllun datblygu fel rhan o'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd a chynnwys datganiad yn y cynllun adneuo ar sut mae'r cynllun datblygu wedi ystyried a/neu wedi mynd i'r afael â hyn. Proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw'r mecanwaith ar gyfer ystyried sut mae graddfa a lleoliad twf, y weledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion yn unigol ac ar y cyd, yn effeithio ar y Gymraeg. Lle mae tystiolaeth yn dangos effaith niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg, gall yr ACLI asesu a ddylid diwygio'r strategaeth neu nodi mesurau lliniaru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

4.15 Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010, adran 149) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith polisïau ar wahanol grwpiau poblogaeth er mwyn sicrhau nad yw gwahaniaethu'n digwydd, a lle bo'n bosibl, hyrwyddo cyfle cyfartal. Dylai'r awdurdod sgrinio'r naw grŵp² nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i nodi a chyfiawnhau pa nodweddion y gall y cynllun ddylanwadu arnynt. Dylid integreiddio'r nodweddion hynny y gellir dylanwadu arnynt yn y fframwaith asesu; dylai'r rhai na ellir dylanwadu arnynt gael eu sgrinio allan a'u cyfiawnhau.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

4.16 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mewn perthynas ag iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gael ei gynnal gan gyrff cyhoeddus. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn diffinio asesiad o'r effaith ar iechyd fel "...asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru." Defnyddir asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac maent yn helpu

² Oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol

llunwyr polisi i sicrhau cymaint â phosibl o fanteision a nodi/lliniaru effeithiau negyddol posibl ar iechyd a llesiant. Cynhyrchir rheoliadau (heb eu cyhoeddi eto) i nodi pryd y bydd angen i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gael ei gynnal gan gyrrff cyhoeddus a sut dylid ei gynnal. Bydd angen i ACLlau roi sylw i unrhyw ddeddfwriaeth bellach (Rheoliadau) a chanllawiau yn hyn o beth.

4.17 Mae proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn darparu fframwaith systematig, ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisiâu neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut gallant, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl. Mae'r Gyfarwydddeb AAS (Atodiad I (f)) yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried iechyd pobl fel rhan o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol. Gellir ehangu elfen iechyd AAS i gynnwys amcanion iechyd corfforol ac iechyd meddwl Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi 'Creu Lleuedd a Mannau Iachach ar Gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol' (2018) sy'n canolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth³ yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol a all gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant, a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Mae canllawiau pellach hefyd ar gael yn 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol' (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, WHIASU, 2012).

Hierarchaeth Cynlluniau Datblygu

4.18 Mae cynnal arfarniad o gynaliadwyedd cynllun yn ofyniad statudol ar gyfer pob haen o gynllun datblygu, gan gynnwys y FfDC, y Cynllun Datblygu Strategol, CDLlau a CDLlau Cryno. Wrth baratoi cynllun haen is rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun roi sylw i unrhyw gynllun haen uwch, gan gynnwys yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Er bod yn rhaid rhoi sylw i Arfarniad o Gynaliadwyedd cynllun haen uwch, nid yw'n briodol gwneud dim mwy na dyblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Rhaid i'r cynllun haen is gwblhau holl gamau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ochr yn ochr â pharatoi'r cynllun a datblygu fframwaith asesu sy'n berthnasol ac yn briodol i raddfa'r cynllun. Mae'n debygol y byddai'r fframwaith asesu ar gyfer pob cynllun haen is yn mynd yn fwy manwl wrth i ardaloedd gofodol i'w datblygu gael eu mireinio a'u nodi yn y cynllun datblygu cysylltiedig. Er enghraifft, mae cynllun lefel uwch yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar faterion strategol megis lleoliadau bras ar gyfer cartrefi a swyddi ('Ardaloedd Chwilio') a darpariaeth seilwaith. Mae tasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fel y'u hamlinellir yn Niagram 11 yn berthnasol i bob haen o gynllun datblygu a rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni.

³Y seilwaith cerdded a beicio; manau gwyrdd/glas agored a seilwaith gwyrdd; yr amgylchedd tyfu bwyd a manwerthu bwyd; gwasanaethau cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu cynnig o gyfleusterau lleol; lefelau isel o lygredd aer; dyluniad adeiladau sy'n hybu iechyd a llesiant.


Cynnwys y Cyhoedd – Gofynion Deddfwriaethol ac Arfer Gorau

4.19 Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan annatod o bob cam o'r broses o baratoi cynllun. Dylai ddechrau pan fydd y gwaith o baratoi'r cynllun yn dechrau a darparu mewnbwn ar bob cam pan gaiff penderfyniadau eu gwneud. Mae Pennod 3 o'r Llawlyfr yn nodi canlyniadau allweddol y system CDLI, gan gynnwys pwysigrwydd cyfranogiad cynnar, effeithiol ac ystyrlon. Mae'n hanfodol ymgysylltu â phobl a sefydliadau sy'n gallu cyfrannu gwybodaeth arbenigol a pherthnasol. Ceir gofynion statudol ar gyfer ymgynghori yn neddfwriaeth yr AAS a'r Rheoliadau CDLIau. Mae Diagram 11 yn esbonio camau allweddol y broses o baratoi cynllun a sut mae hyn yn cyd-fynd â phroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r gofynion ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid cymunedol a statudol yn y broses. Ceir dau brif gam lle mae ymgynghori'n ofyniad deddfwriaethol:

- Cam A – Ymgynghori â chyrrff statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) ar yr adroddiad cwmpasu. Ystyrir ei bod yn arfer gorau sicrhau bod yr adroddiad cwmpasu ar gael i'r cyhoedd
- Cam D – Ymgynghori â chyrrff statudol a'r cyhoedd ynghylch y cynllun adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

4.20 Argymhellir hefyd y dylid ymgynghori â chyrrff cyhoeddus a'r cyhoedd ynghylch yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ym mhob un o gamau allweddol y CDLI a'u cynnwys yn y broses o'i gynnal fel y nodir yn Niagram 11 (gweler y dudalen ganlynol). Dylai hyn atal problemau rhag codi'n ddiweddarach a allai oedi'r broses o baratoi'r cynllun.

Diagram 11: Prif gamau'r Broses CDLI ac Integreiddio â gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd



Camau Paratoi'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.21 Mae pum prif gam yn y broses o gynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y dylid eu hintegreiddio yn y gwaith o baratoi'r cynllun datblygu. Caiff y rhain eu hamlinellu a'u hesbonio'n fanwl isod.

Cam A: Cwmpasu

4.22 Trosolwg: Mae cam 'cwmpasu' cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gam casglu tystiolaeth i raddau helaeth. Mae'n bwysig cael dealltwriaeth drylwyr o'r cyd-destun llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol presennol a chasglu data llinell sylfaen i nodi a chanolbwyntio ar y materion o bwys yn yr ardal. Bydd hyn yn cynorthwyo ac yn galluogi datblygu cyfres gryno a pherthnasol o amcanion i ffurfio'r fframwaith ar gyfer asesu effeithiau polisiau a chynigion y cynllun. Bydd yn darparu sail ar gyfer monitro effeithiau yn y dyfodol hefyd. **Allbwn y cam hwn yw cyhoeddi'r 'Adroddiad Cwmpasu' a chynnal ymgynghoriad statudol arno.**

Tabl 6: Cam Cwmpasu

Tasg	Diben	Cyngor
A1: Amlinellu cynnwys a phrif amcanion y cynllun. Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a)	Hysbysu ymgynghoreion am hanfodion y cynllun sy'n cael ei arfarnu.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cynnwys map sy'n dangos ardal y cynllun yng nghyd-destun ehangach awdurdodau lleol eraill, ardaloedd adeiledig a seilwaith trafnidiaeth pwysig. ✓ Cynnwys gwybodaeth am y math o gynllun (e.e. defnydd tir), ei raddfa ofodol a'i amserlen (e.e. 15 mlynedd). ✓ Wrth i'r cynllun ddatblygu, rhestru ei amcanion a chynnwys ei dabl cynnwys.
A2: Nodi ac adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol eraill a fydd yn llywio'r cynllun. Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC, Atodiad I (a) ac I (e)	Helpu i bennu'r cyd-destun ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd drwy nodi synergeddau posibl, deall sut y gellir goresgyn cyfyngiadau, a nodi targedau ac amcanion priodol ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cadw ffocws a nodi'r cynlluniau, rhaglenni a'r amcanion amgylcheddol hynny sy'n 'berthnasol' i'ch cynllun yn unig. Er enghraifft, mae'r rheini sydd ar yr un raddfa ofodol yn debygol o fod yn fwy perthnasol a byddant wedi ymgorffori gofynion cynlluniau haen uwch rhyngwladol neu genedlaethol. ✓ Sicrhau eich bod wedi adolygu Asesiad Llesiant yr ALI a Datganiadau Ardal a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. ✓ Sicrhau mai'r cynlluniau a adolygir yw'r rhai diweddaraf. ✓ Crynhoi gwybodaeth gan nodi enw'r cynllun, amlinelliad byr o'i amcanion, gofynion a'r goblygiadau ar gyfer y cynllun.
A3: Casglu gwybodaeth	I;	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Nodi ffynhonnell y data er mwyn gallu ei diweddarau'n hawdd.

Tasg	Diben	Cyngor
<p>sylfaenol am lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a chyflwr yr amgylchedd ar hyn o bryd a'r hyn sy'n debygol yn y dyfodol ar y raddfa ofodol berthnasol ar gyfer y cynllun.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r data sylfaenol gwmpasu; esblygiad tebygol y rheini heb weithredu'r cynllun (Atodiad I (b); nodweddion ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol (Atodiad I (c))</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi cyfleoedd, yn ogystal â materion a phroblemau • Cefnogi'r broses o ragfynegi a gwerthuso effeithiau • Pennu llinell sylfaen ar gyfer monitro effeithiau'r cynllun yn y dyfodol 	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Nodi unrhyw fylchau yn y data. ✓ Cynnwys mapiau a diagramau er mwyn dangos mewn ffordd fuddiol beth yw lleoliad gofodol dynodiadau amgylcheddol a nodwyd, ardaloedd lle mae perygl llifogydd, mynegai amddifadedd lluosog ac ati. ✓ Sicrhau eich bod wedi bodloni gofynion y Gyfarwyddeb AAS a chanfod; <ul style="list-style-type: none"> - Beth yw'r sefyllfa yn awr? - Beth fydd y sefyllfa heb y cynllun? ✓ Dylai'r 'sefyllfa heb y cynllun' dybio nad oes cynllun datblygu wedi'i fabwysiadu, ond dylai ystyried unrhyw brosiectau a thueddiadau a ragwelir lle y bo'n bosibl. ✓ Lle bo'n berthnasol, cymharu'r sefyllfa leol gyda chymharydd neu darged (yn gysylltiedig â chyfartaledd Cymru gyfan o bosibl). ✓ Sicrhau bod yr holl feini prawf amgylcheddol a amlinellir yn Atodiad I(f) o'r Gyfarwyddeb AAS wedi'u cynnwys neu'n cael eu cwmpasu gydag esboniad; "bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, ffactorau hinsoddol awyr, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, tirwedd a'r rhyngberthynas rhwng y ffactorau uchod." ✓ Cynnwys y Gymraeg, iechyd/iechyd meddwl, llesiant a chydraddoldeb hefyd. ✓ Nodi unrhyw ansicrwydd neu gyfyngiadau o ran gwybodaeth.
<p>A4: Nodi materion a phroblemau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r cynllun.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (d).</p>	<p>Rhoi ffocws i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a helpu i ddatblygu amcanion ac opsiynau cynaliadwyedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Nodi'r problemau presennol a nodwyd fel rhan o'r llinell sylfaen, gan roi sylw arbennig i nodi'r problemau amgylcheddol presennol sy'n ymwneud â dynodiadau Ewropeaidd – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer Cynefinoedd a Rhywogaethau (ACA), Ardaloedd Gwarchod Arbennig ar gyfer Adar (AGA), safleoedd Ramsar ac ardaloedd eraill o bwys amgylcheddol. ✓ Nodi unrhyw broblemau o ran cyrraedd y targedau a nodir mewn cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol eraill.

Tasg	Diben	Cyngor
		<ul style="list-style-type: none"> ✓ Ystyried cyhoeddi mynegai o fapiau amddifadedd lluosog a map cyfyngiadau amgylcheddol.
<p>A5: Datblygu fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd y gellir arfarnu'r cynllun yn ei erbyn.</p>	<p>Datblygu meini prawf ac amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd a chwestiynau arfarnu manwl i asesu, dadansoddi a chymharu effeithiau'r polisiau a'r cynigion, gan gynnwys y dewisiadau eraill a nodir yn y cynllun.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Dylid defnyddio'r materion cynllunio a chynaliadwyedd allweddol a nodwyd i ddatblygu amcanion cynaliadwyedd. ✓ Cadw ffocws a phennu tua 12-20 o amcanion. ✓ Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hymgorffori. ✓ Ar gyfer pob amcan, nodi dangosyddion a thargedau perthnasol. Dylai targedau fod yn gysylltiedig â safonau cyfreithiol neu ofynion polisi lle bo hynny'n briodol. ✓ Sicrhau bod fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd yn sicrhau cydbwysedd bras rhwng materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. ✓ Cynnwys tabl i ddangos sut mae pob un o'r materion amgylcheddol yn y Gyfarwyddeb AAS (Atodiad I (f)) wedi cael sylw neu eu cwmpasu gydag esboniad. ✓ Rhoi sylwebaeth fer ar bob amcan a'r hyn y mae'n bwriadu ei hyrwyddo. ✓ Datblygu is-amcanion (meini prawf neu gwestiynau) ar gyfer pob amcan fel sbardunau i helpu i nodi effeithiau. ✓ Datblygu a chynnwys meini prawf ar wahân – rhai mwy penodol yn ofodol a meintiol – i asesu safleoedd ymgeisiol, yn cynnwys meini prawf penodol ar gyfer y lleoliad (gweler Cam B).
<p>A6: Paratoi adroddiad cwmpasu'r arfarniad o gynaliadwyedd ac ymgynghori arno</p> <p>Yn ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 5, (4) a 6(3).</p>	<p>Cael barn ar y sail dystiolaeth, y materion cynaliadwyedd a nodwyd ac amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd er mwyn sicrhau bod effeithiau sylweddol tebygol y cynllun yn cael eu nodi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Fel isafswm, cynnal ymgynghoriad pum wythnos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw ar yr Adroddiad Cwmpasu. ✓ Ystyri ei bod yn arfer gorau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill a'r gymuned. ✓ Dylai'r Adroddiad Cwmpasu gynnwys: disgrifiad o'r cynllun i'r graddau sy'n bosibl ar hyn o bryd, y cyd-destun polisi, gwybodaeth sylfaenol, materion a phroblemau'n ymwneud â chynaliadwyedd, a Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. ✓ Yn dilyn ymgynghori a sicrhau cyfranogiad, ystyried a pharatoi adroddiad, gan gofnodi ymatebion yr ymgynghoreion ac ymateb yr awdurdod.

Tasg	Diben	Cyngor
		✓ Diweddaru'r sail dystiolaeth tua diwedd y broses o lunio'r cynllun.

Cam B: Aseu Dewisiadau Amgen

4.23 **Trosolwg:** Mae'r cam asesu'n broses ailadroddol lle caiff opsiynau'r cynllun eu datblygu, eu hasesu, eu mireinio a'u dewis. Dylai'r cam hwn fod yn sail i elfennau allweddol y cynllun datblygu, megis lefel gyffredinol twf tai a chyflogaeth, ei ddosbarthiad gofodol a dyraniad safleoedd unigol. Rhaid i'r awdurdod arfarnu'r agweddau canlynol ar y cynllun er mwyn nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol y cynllun:

- Gweledigaeth
- Amcanion
- Opsiynau (e.e. lefelau twf, opsiynau/dosbarthiad strategaeth ofodol, polisi pwnc)
- Drafftio polisiâu a nodi safleoedd datblygu

4.24 Mae paratoi'r cynllun datblygu'n golygu ystyried a gwerthuso nifer o 'opsiynau' (a elwir hefyd yn 'dewisiadau amgen') i bennu lefel y twf a ffeirir, dosbarthiad gofodol y twf a nodi safleoedd datblygu ac opsiynau polisi. Rhaid ystyried bod pob opsiwn yn 'rhesymol', er enghraifft, ni ystyrir bod yr opsiwn 'dim cynllun' yn rhesymol gan fod paratoi cynllun yn ofyniad statudol. O ran asesu safleoedd ymgeisiol, gall awdurdodau hidlo a gwrthod safleoedd ymgeisiol nad ydynt yn cael eu hystyried yn 'rhesymol' e.e. y rhai sydd islaw trothwy maint safle, y rhai â chyfyngiadau sylfaenol megis bod mewn cefn gwlad agored neu safleoedd preswyl mewn gorlifdir C2, neu os ydynt yn codi problemau sylweddol o ran y gallu i gyflawni. Mae asesu safleoedd yn arbennig yn debygol o arwain at graffu mwy manwl, felly dylid cofnodi proses gadarn er mwyn sicrhau y caiff pob safle ei asesu'n gyson ac mewn modd tryloyw.

4.25 Byddai'n arfer gorau datblygu fframwaith ar wahân ar gyfer asesu safleoedd i gynnwys mwy o feini prawf sy'n benodol i leoliad, er enghraifft, i fesur ac asesu pellteroedd i wasanaethau a chyfleusterau. Dylai'r asesiad ddigwydd yn erbyn matrices sgorio (gweler yr enghraifft isod) lle caiff effeithiau tebygol y cynigion eu sgorio ar raddfa, a'u hategu gan sylwadau sy'n egluro sail resymegol y sgôr. Argymhellir defnyddio lliwiau golau traffig (coch, oren a gwyrdd) ynghyd â symbolau ar gyfer cadarnhaol a negyddol.

Awgrym ar gyfer matrices sgorio Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS

Symbol	Effaith a ragwelir	Camau a awgrymir
++	Effeithiau cadarnhaol iawn o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach
+	Effaith gadarnhaol o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried unrhyw fesurau gwella pellach

0	Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried a allai ymyrraeth gael effeithiau cadarnhaol
-	Effaith negyddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried mesurau lliniaru: osgoi'r effaith yn gyntaf, ac yna lleihau effaith, ac yn olaf iawndal am yr effaith. Ailystyried polisi/defnydd arfaethedig.
--	Effaith negyddol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol	Ystyried mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effaith, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn anodd a/neu'n gostus. Ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig.
I	Mae'r effaith yn dibynnu ar sut mae'r polisi a'r dyraniad yn cael eu gweithredu	Awgrymiadau ar gyfer gweithredu
?	Ansicr	Mae angen mwy o wybodaeth. Ystyried ble gellid cael yr wybodaeth? Sut a phryd y gellid ei chasglu.

4.26 Dylid paratoi cyfiawnhad rhesymedig ar gyfer pob opsiwn, gan egluro pam mai'r dyma'r opsiwn a ffefrir, neu os yw wedi cael ei ddiystyru. Os yw'r opsiwn a ffefrir yn gyfuniad o elfennau o opsiynau gwahanol, argymhellir bod yr opsiwn hwn yn cael ei asesu yn erbyn fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd hefyd.

4.27 Pan ragwelir effeithiau negyddol sylweddol, dylai'r asesiad wneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella pob un o'r opsiynau drwy fesurau lliniaru. Mae nodi mesurau lliniaru'n gam allweddol o'r arfarniad o gynaliadwyedd sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ganlyniad y cynllun. Dylai'r awdurdod ddilyn hierarchaeth lliniaru fel a ganlyn; osgoi'r effaith yn y lle cyntaf, yna lleihau effaith ac yn olaf iawndal am yr effaith. Rhaid iddo sicrhau bod pob mesur lliniaru'n rhesymol ac yn gyflawnadwy. Gall mesurau lliniaru gynnwys;

- Newidiadau i'r cynllun drwy ychwanegu neu ddileu polisiâu
- Diwygio polisiâu i wella'r manteision tebygol a lleihau effeithiau andwyol, e.e. drwy gryfhau meini prawf polisi
- Mesurau technegol i'w cymhwyso yn ystod y broses weithredu e.e. clustogfeydd, egwyddorion dylunio, amnewid neu wrthbwysio
- Gofynion neu glych gorchwyl ar gyfer Asesiadau Effaith Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio

Tabl 7: Cam Dewisiadau Amgen

Tasg	Diben	Cyngor
B1: Asesu a lliniaru effeithiau amcanion y cynllun gan ddefnyddio	Sicrhau bod amcanion y cynllun yn adlewyrchu	✓ Lle nodir unrhyw anghysondeb neu wrthdaro, dylai'r awdurdod ystyried amcanion amgen neu gyfiawnhau'r amcan(ion) a ffefrir.

Tasg	Diben	Cyngor
fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd.	egwyddorion cynaliadwyedd.	
<p>B2: Datblygu dewisiadau amgen rhesymol.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS erthygl 5(1) ac Atodiad I(h).</p>	Nodi dewisiadau amgen rhesymol i ymdrin â phroblemau cynaliadwyedd a nodwyd yn Nhasg A4, a chyflawni amcanion y cynllun.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Dewisiadau amgen = opsiynau ✓ Dylid datblygu'r dewisiadau amgen ar sail dealltwriaeth o'r prif faterion a nodwyd yn y cam cwmpasu. ✓ Rhaid i'r dewisiadau amgen fod yn 'rhesymol'. Er enghraifft, nid yw peidio â chael cynllun – sy'n ofyniad statudol – yn ddewis amgen 'rhesymol' ac ni ddylid ei brofi. ✓ Ni ddylid 'dyfeisio' nac ôl-osod y dewisiadau amgen. ✓ Ymhlith y prif feysydd lle gellid ystyried dewisiadau eraill mae; <ul style="list-style-type: none"> - Lefelau twf - Strategaeth ofodol a dosbarthiad y datblygiad - Nodi safleoedd - Polisiâu sy'n seiliedig ar bwnc, a all gynnwys canllawiau rhifiadol (e.e. dwysedd), neu dargedau (e.e. ynni adnewyddadwy) - Polisiâu sy'n seiliedig ar bwnc yn amlinellu egwyddorion a meini prawf ehangach ar gyfer datblygu, diogelu a lliniaru ✓ Mae nodi (Tasg B2) a dewis (Tasg B4) dewisiadau amgen ymhlith y camau pwysicaf yn yr arfarniad o gynaliadwyedd.
<p>B3: Asesu a lliniaru effeithiau'r dewisiadau amgen gan ddefnyddio fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad 1(f) a (g).</p>	Asesu a chymharu effeithiau'r dewisiadau amgen rhesymol ar gynaliadwyedd.	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cymharu effeithiau posibl pob dewis amgen, o gymharu â'r sefyllfa bresennol ✓ Canolbwyntio ar 'effeithiau sylweddol', rhai cadarnhaol a negyddol. ✓ Os yw dewis amgen yn cael effeithiau negyddol, ystyried a ellid ei wella/sut gellid ei wella drwy fesurau lliniaru (gweler y testun uchod). ✓ Dylai unrhyw ddewisiadau 'newydd' neu 'hybrid' sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i'r broses asesu gael eu hasesu a'u gwerthuso yn erbyn fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd.

Tasg	Diben	Cyngor
<p>B4: Dewis y dewisiadau amgen a ffefrir ac amlinellu'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen.</p> <p>Mae'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad 1(h).</p>	<p>Sicrhau bod y dewis o ddewisiadau amgen yn adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd.</p> <p>Cyfiawnhau'r dewis o ddewisiadau amgen a ffefrir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Cofnodi'r rhesymau dros ddewis y dewis a ffefrir a diystyru dewisiadau eraill. ✓ Ystyri'r arfer gorau yw cynnal ymgynghoriad ar asesu dewisiadau amgen ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

Cam C: Asesu'r Cynllun Adneuo a Pharatoi'r Adroddiad Cynaliadwyedd

4.28 Trosolwg: Yn dilyn y cam asesu (Cam B) dylai'r ACLI fod wedi gwneud penderfyniadau clir i lywio datblygiad y cynllun adneuo. Dylai'r Adroddiad Cynaliadwyedd neu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (y cyfeirir ato fel yr Adroddiad Amgylcheddol (ER) yn y Gyfarwyddeb AAS) gofnodi ac adrodd stori glir ynglŷn â pham y gwnaed penderfyniadau a pham y cafodd safleoedd a pholisïau eu cynnwys neu eu diystyru o'r cynllun adneuo. Mae Erthygl 5(1) o'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad gynnwys yr holl wybodaeth y cyfeirir ati yn Atodiad I y Gyfarwyddeb. **Rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun ddangos yn glir bod gofynion y Gyfarwyddeb AAS a'r gofynion a nodir yn Atodiad I wedi'u bodloni.** Amlinellir crynodeb byr o'r gofynion isod. Fodd bynnag, mae'n rhaid cyfeirio at yr union eiriad yn Atodiad I er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

- ✓ Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun
- ✓ Perthynas y cynllun â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill (y dylid eu diweddar'u'n gyson) ac amcanion diogelu'r amgylchedd
- ✓ Y sefyllfa llinell sylfaen bresennol a'r sefyllfa debygol heb y cynllun, gan gynnwys y nodweddion amgylcheddol y mae'r cynllun yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt
- ✓ Materion allweddol neu broblemau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â safleoedd gwarchoddedig Ewropeaidd sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- ✓ Dewisiadau amgen a ystyriwyd, sut cawsant eu hasesu a manylion unrhyw anawsterau a wynebwyd
- ✓ Effeithiau sylweddol tebygol y cynllun
- ✓ Manylion unrhyw fesurau lliniaru
- ✓ Mesurau monitro
- ✓ Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth o dan bob un o'r meysydd uchod

- ✓ Manylion sut mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried

4.29 Wrth baratoi'r adroddiad dylai'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun sicrhau ei fod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol (Cyfarwyddeb AAS, Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, y Gymraeg, Cydraddoldeb ac Iechyd) ac wedi dangos cydymffurfiaeth drwy gyfeirio'n benodol at y gofyniad cyfreithiol yr ymdrinnir ag ef. I gynorthwyo amrywiaeth o ddefnyddwyr, a chyd-fynd â'r Gyfarwyddeb AAS, rhaid paratoi crynodeb annhechnegol a rhoi sylw i'r prif faterion yn yr adroddiad.

Tabl 8: Asesiad o'r Cynllun

Tasg	Diben	Cyngor
<p>C1: Asesu a lliniaru effeithiau'r cynllun adneuo gan ddefnyddio fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I(f) a (g).</p>	<p>Asesu effeithiau'r cynllun adneuo ar gynaliadwyedd.</p> <p>Nodi mesurau i atal/osgoi, lleihau neu wrthbwyo unrhyw effeithiau andwyol sylweddol o weithredu'r cynllun, neu sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl.</p> <p>Sicrhau bod y cynllun adneuo'n adlewyrchu egwyddorion cynaliadwyedd.</p> <p>Cofnodi cynaliadwyedd y cynllun adneuo.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Nodi o'r asesiad manwl unrhyw bolisiâu cynllun a safleoedd datblygu sy'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd: esbonio pam eu bod wedi cael eu nodi. ✓ Asesu pob polisi cynllun a safle datblygu sy'n weddill gan ddefnyddio fframwaith priodol yr arfarniad o gynaliadwyedd. ✓ Canolbwyntio ar 'effeithiau sylweddol', rhai cadarnhaol a negyddol. ✓ Os yw polisi neu safle yn cael effeithiau negyddol, ystyried a ellid ei wella/sut gellid ei wella drwy fesurau lliniaru (gweler y testun uchod). Mae hwn un o gamau pwysicaf yr arfarniad o gynaliadwyedd. ✓ Ar ôl y broses hon, disgrifio'r cynllun cyfan o ran ei: <ul style="list-style-type: none"> - Effeithiau anuniongyrchol / eilaidd – sy'n cael eu hachosi gan y weithred, ond mae'r effeithiau'n digwydd yn ddiweddarach neu ymhellach o ran pellter e.e. effeithiau'r twf ar ansawdd aer a dŵr. - Effeithiau cronol – cyfuniad yr effaith o weithredu'r cynllun ynghyd â chynlluniau a phrosiectau eraill y gellir eu rhagweld yn rhesymol ac a fyddai'n digwydd yn y dyfodol heb y cynllun. - Synergyddol – effeithiau sy'n rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol (h.y. yr effaith lluosydd). - Effeithiau tymor byr, canolig a hir. - Effeithiau parhaol a dros dro. - Cyfrannu at y nodau a'r amcanion llesiant.

		<ul style="list-style-type: none"> ✓ Lle mae'r asesiad o effeithiau anuniongyrchol ac ati yn nodi effeithiau newydd, os yw dewis amgen yn cael effeithiau negyddol, ystyried a ellid eu gwella/sut gellid eu gwella drwy fesurau lliniaru (gweler y testun uchod).. ✓ Nodi mesurau lliniaru i ddangos sut mae'r arfarniad o gynaliadwyedd wedi dylanwadu ar newidiadau. ✓ Nodi unrhyw ansicrwydd neu gyfyngiadau o ran gwybodaeth.
<p>C2: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(c), Erthygl 10, Atodiad I(i).</p>	<p>Cynnig mesurau i brofi effeithiau sylweddol gwirioneddol gweithredu'r cynllun.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Ystyried monitro'n gynnar a defnyddio systemau monitro presennol fel man cychwyn i fireinio. ✓ Nodi dangosyddion, targedau, sbardunau a champau gweithredu priodol yn y fframwaith monitro. ✓ Canolbwyntio ar fonitro 'effeithiau amgylcheddol sylweddol' i gyd-fynd â'r Gyfarwyddeb AAS. ✓ Gweler Tasg E monitro am ragor o wybodaeth.
<p>C3: Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 6.</p>	<p>Rhoi cyfle i gyrff statudol a'r cyhoedd ystyried y cynllun a chyflwyno sylwadau ar ganfyddiadau adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Sicrhau bod adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd a gyflwynwyd wedi bodloni holl ofynion y Gyfarwyddeb AAS, Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r arfarniad o gynaliadwyedd gynnwys y Gymraeg. ✓ Rhaid i asesiad integredig fodloni darpariaethau'r Ddeddf Llesiant, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 hefyd (os oes angen).

Cam D: Ymgynghori, Archwilio a Mabwysiadu'r Cynllun

4.30 Rhaid sicrhau bod yr Adroddiad Cynaliadwyedd neu Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael i'r gyrff statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) a'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad chwe wythnos ar y cynllun adneuo. Rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun ystyried unrhyw sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori a pharatoi adroddiad yn crynhoi unrhyw sylwadau a'i ymateb.

4.31 Unwaith y bydd yr awdurdod sy'n llunio'r cynllun o'r farn bod y cynllun yn 'gadarn', rhaid iddo ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i gael ei archwilio gan Arolygydd annibynnol, ynghyd ag adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd,

Adroddiad yr HRA a datganiad ymgynghori, ynghyd â dogfennau tystiolaeth ategol. Bydd yr Arolygydd a benodir yn archwilio cadernid y cynllun, gan gynnwys a yw gofynion yr arfarniad o gynaliadwyedd wedi'u bodloni a bod modd mabwysiadu'r cynllun. Os oes angen newid y cynllun cyn y gellir ei fabwysiadu, rhaid gwneud unrhyw newidiadau i'r arfarniad o gynaliadwyedd hefyd er mwyn sicrhau bod y newidiadau hyn yn dderbyniol. Ar ôl cael adroddiad rhwymol gan yr Arolygydd, rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun fabwysiadu ei gynllun datblygu a chyhoeddi datganiad ôl-fabwysiadu.

Tabl 9: Cyfnod Archwilio

Tasg	Diben	Cyngor
<p>D1: Asesu effeithiau newidiadau sylweddol a wneir i'r cynllun adneuo gan fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd.</p> <p>Yn ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 5(2)</p>	<p>Sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i'r cynllun adneuo yn gynaliadwy.</p>	<p>✓ Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb AAS a lleihau'r risg o her gyfreithiol, rhaid i unrhyw newidiadau a wneir ar ôl adneuo (Newidiadau â Ffocws, Materion sy'n Codi, Newidiadau yn ystod archwilio, neu'r rhai sy'n ofynnol gan yr Arolygydd) fod yn destun asesiad ac ymgynghoriad.</p>
<p>D2: Ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu, rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun gyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu.</p> <p>Yn ofynnol dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1).</p>	<p>Dogfennu sut mae proses yr arfarniad o gynaliadwyedd wedi dylanwadu ar y broses o lunio'r cynllun.</p>	<p>✓ Bydd arolygydd annibynnol yn archwilio cadernid y cynllun ac a yw gofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u bodloni.</p> <p>✓ Ar ôl mabwysiadu'r cynllun datblygu, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi 'datganiad ôl-fabwysiadu' (Cyfarwyddeb AAS (Erthygl 9(1))). Mae'n arfer da cyhoeddi'r datganiad ôl-fabwysiadu o fewn chwe wythnos i fabwysiadu'r cynllun. Rhaid i'r datganiad grynhoi;</p> <p>✓ Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio yn y cynllun (Tasg C1).</p> <p>✓ Sut mae adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried (Tasg C3).</p> <p>✓ Y rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen a ffeirir yn y cynllun mabwysiedig, gan gyfeirio at y dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd (Tasg B4).</p>

Cam E: Monitro

4.32 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r fframwaith monitro ganolbwyntio ar yr 'effeithiau amgylcheddol sylweddol' sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun. Nid yw'n ofynnol monitro pob effaith. Un o ddibenion allweddol monitro yw nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd ac, os oes angen, nodi a gweithredu camau unioni priodol. Mae'r Rheoliadau CDLlau yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol sy'n caniatáu i fframwaith monitro'r arfarniad o gynaliadwyedd gael ei integreiddio yn y gwaith o fonitro'r cynllun. Bydd dull tebyg ar waith ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, pan gânt eu mabwysiadu. Mae coladu data monitro yn rhoi cyfle i ddiweddarau gwybodaeth sylfaenol (Cam A3) a bydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth llinell sylfaen i lywio'r gwaith o adolygu'r cynllun a diwygio neu ddisodli'r cynllun wedyn.

Tabl 10: Cam Monitro

Tasg	Diben	Cyngor
<p>E1: Datblygu nodau a dulliau ar gyfer monitro.</p> <p>Mae'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1) (c), Erthygl 10, Atodiad I (if).</p>	<p>Monitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y cynllun a nodi unrhyw effeithiau andwyol nas rhagwelwyd a galluogi camau unioni priodol i gael eu cymryd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Defnyddio system fonitro wedi'i mabwysiadu fel man cychwyn. ✓ Er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb AAS, monitro 'effeithiau amgylcheddol sylweddol' y cynllun. Nid oes angen monitro pob effaith. ✓ Os oes gan 'effeithiau sylweddol' fesurau lliniaru, gallai'r dangosydd monitro ganolbwyntio ar weithredu'r mesur lliniaru. ✓ Monitro yn erbyn targedau a nodwyd a allai fod yn safonau cyfreithiol, trothwyon neu gyfartaleddau cenedlaethol. ✓ Cynnwys dangosyddion, sbardunau a chamau gweithredu priodol yn y fframwaith monitro i'w hasesu a'u hadrodd ym mhob Adroddiad Monitro Blynyddol. ✓ Dylai'r sbardunau a'r camau gweithredu sicrhau bod effeithiau andwyol yn cael eu nodi'n gynnar a bod camau unioni'n cael eu cymryd. ✓ Cymharu'r effeithiau a ragwelir yn yr asesiad a'r effeithiau gwirioneddol a fesurir wrth weithredu'r polisi.
<p>E2: Ymateb i effeithiau andwyol.</p> <p>Mae'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 10 (1).</p>	<p>Cymryd camau unioni, os oes angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gall camau unioni gynnwys paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol neu hyfforddiant i aelodau. ✓ Rhaid i unrhyw newidiadau i'r cynllun drwy ddiwygio, ychwanegu neu ddileu polisiâu gael eu gwneud drwy adolygu'r cynllun (ffurf fer neu ddisodli'r cynllun cyfan). Dylid rhybuddio'r awdurdod am unrhyw newidiadau gofynnol drwy'r Adroddiadau

Tasg	Diben	Cyngor
		Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu (sy'n pedair blynedd).

Adolygiad o'r CDLI

4.33 Mae angen cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd pan gynhelir adolygiad llawn o'r cynllun neu adolygiad ffurf fer. Wrth adolygu neu ddisodli'r cynllun, y man cychwyn fyddai diweddarau'r sefyllfa llinell sylfaen. Dylai'r rhan fwyaf o gynlluniau a rhaglenni barhau i fod yn berthnasol. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun fod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol allweddol a wnaed, yn enwedig Deddf Llesiant 2015 a fydd yn effeithio ar y fframwaith asesu. Dylai'r gwaith monitro a wneir fel rhan o gam E y cynllun blaenorol ddarparu sail ar gyfer diweddarau'r adroddiad cwmpasu y mae'n rhaid i'r ACLI ei lunio ac ymgynghori arno (cam A).

4.34 O ran yr asesiad (camau B ac C) bydd angen ailedrych ar y dewisiadau amgen sydd i'w hystyried. Mae'n debygol y bydd rhai elfennau o'r cynllun, fel yr opsiynau gofodol a'r polisiau rheoli datblygu, yn aros yr un fath i raddau helaeth, tra bo graddfa'r twf yn debygol o fod wedi newid a bod angen ailasesu'r dewisiadau amgen yn llawn. Mae'n debygol y bydd angen asesu polisiau newydd sy'n seiliedig ar destunau hefyd.

4.35 Bydd gofynion gweithdrefnol y camau ymgynghori a chyflwyno adroddiadau (cam D) yn gymwys yn yr un modd. Rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun sicrhau bod yr holl ofynion ymgynghori a chyfreithiol ar gyfer adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd yn cael eu bodloni.

4.36 Bydd y cam monitro (cam E) yn rhoi cyfle i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun ddysgu o'u Hadroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol a mireinio'r fframwaith monitro i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar 'effeithiau sylweddol'.

Rhestr Wirio Gryno

✓	Sicrhau eich bod wedi paratoi ac wedi ymgynghori ar; <ul style="list-style-type: none"> - Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (yn ymgorffori asesiad ar y Gymraeg) - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
✓	Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac ymgorffori pedair colofn datblygu cynaliadwy; lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol a ffyrdd o weithio
✓	Sicrhau bod y gofynion ymgynghori'n cael eu bodloni a, lle y bo'n bosibl, sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid
✓	Sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb AAS a chyfeirio'n uniongyrchol at y Gyfarwyddeb i ddangos cydymffurfiaeth. Bod yn

	ofalus iawn wrth nodi a dewis dewisiadau amgen rhesymol, a lliniaru effeithiau, gan mai dyma ble mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn fwyaf tebygol o wella'r cynllun
✓	Paratoi crynodeb annhechnegol
✓	Cyhoeddi datganiad ôl-fabwysiadu

Dogfennau Allweddol/ Canllawiau Pellach:

- Cyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC (Y Gyfarwyddeb AAS)
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (OS 2004/1656)
- Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, wedi'i ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gweithrediaeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon, 2005)
- Strategic Environmental Assessment: Improving the effectiveness and efficiency of SEA/SA for land use plans Commissioned by Royal Town Planning Institute (RTPI) South East, wedi'i ysgrifennu gan Levett-Therivel (Ionawr 2018)
- Asesu'r Effaith ar Iechyd, Canllaw Ymarferol (Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru WHIASU)
- Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar Gyfer y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol (Iechyd Cyhoeddus Cymru) (2018)

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cefndir

4.37 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'). Rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun (yr ACLI a nodwyd fel yr 'awdurdod cymwys' ar gyfer CDLI/CDLIC, y Panel Cynllunio Strategol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol) gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'i gynllun datblygu er mwyn penderfynu a yw'r polisiau a'r cynigion yn y cynllun yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar gyfanrwydd unrhyw safle dynodedig Ewropeidd, fel y rhestrir isod:

- **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** fel y'u dynodwyd yng Nghyfarwyddeb y CE ar Warchod Cynefinoedd Naturiol Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/EEC).
- **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** fel y'u dynodwyd yng Nghyfarwyddeb yr UE ar Warchod Adar Gwyllt (2009/147/EC). Gwarchodir y safleoedd hyn er mwyn diogelu cynefinoedd adar mudol a rhai adar sydd dan fygythiad arbennig.
- **Safleoedd morol alltraeth Ewropeidd** fel y'u diffinnir yn rheoliad 15 o Reoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol, &c.) Rheoliadau 2007 (O.S. 2007/1842).
- **DS: Dylai'r weithdrefn HRA gael ei chymhwyso i safleoedd Ramsar (gwlyptir) rhestredig, AGAau arfaethedig ac ACAau ymgeisiol hefyd er nad yw'r rhain yn safleoedd Ewropeidd o dan y gyfraith.**

4.38 Yn benodol, rhaid i'r HRA ystyried effeithiau posibl y cynllun ar y nodweddion cymhwyso y cafodd yr ardal ei dynodi o'u herwydd (gweler gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru i gael manylion am ACAau, AGAau a safleoedd RAMSAR a gwefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) am wybodaeth am safleoedd morol alltraeth).

Integreiddio HRA gyda'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS

4.39 Nid yw'n briodol integreiddio HRA gydag Arfarniad o Gynaliadwyedd gan eu bod yn deillio o ofynion deddfwriaethol gwahanol; ac mae'r dull rhagofalus a ddefnyddir yn yr HRA yn wahanol iawn i Arfarniad o Gynaliadwyedd. Dylid cyhoeddi'r canfyddiadau ar wahân a'u dogfennu'n glir. Fodd bynnag, mae'n arfer da crynhoi canfyddiadau'r HRA yn yr arfarniad o gynaliadwyedd fel rhan o'i asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth.

Pryd i wneud HRA

4.40 Fel yn achos proses yr arfarniad o gynaliadwyedd, dylai'r HRA fod yn rhan annatod o'r broses o lunio'r cynllun, a dylai'r effeithiau sylweddol posibl gael eu hasesu neu eu diweddarau ar bob cam perthnasol o'r broses. Dylid sgrinio'n gynnar ar ddechrau'r cynllun er mwyn nodi safleoedd Ewropeaidd a thynnu sylw llunwyr cynlluniau at y cyfyngiadau y gallent eu cael ar y cynllun. Gallai fod yn briodol ailedrych ar y cam hwn yn y cam strategaeth a ffefrir pan fydd digon o fanylion ar gael er mwyn gallu gwneud asesiad ystyrion. Os oes angen Asesiad Priodol, dylid ei gynnal ar y cyd â'r broses o lunio'r cynllun i lywio'r dewis o ddewisiadau amgen a mesurau lliniaru. Dylid sicrhau ei fod ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun adneuo a rhaid ei ddiweddarau ar unrhyw gamau dilynol os cynigir newidiadau fel rhan o'r Newidiadau â Ffocws neu'r broses archwilio i gadarnhau ei fod yn berthnasol ac yn gywir o hyd. Mae'n bwysig bod yr awdurdod cymwys yn cynnal llwybr archwilio trylwyr ym mhob un o'r camau i sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Ymgynghori a Chynnwys

4.41 **Mae ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a'i gynnwys drwy gydol proses yr HRA yn hanfodol.** Yn ystod y cam asesu priodol (sydd i'w gynnal cyn ymgynghori ar y cynllun adneuo) mae'n ofynnol i'r awdurdod cymwys ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (a Natural England neu JNCC, os yw'n briodol) a rhaid iddo roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y corff (cyrff) statudol. Ystyrir hefyd mai'r arfer gorau yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cam asesu priodol ochr yn ochr â'r cynllun adneuo ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mater i'r awdurdod cymwys yw penderfynu ar unrhyw gyhoeddusrwydd neu ymgynghori ychwanegol y mae'n ei ystyried yn briodol.

HRA – Camau Allweddol

Cam 1: Sgrinio ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol

4.42 Mae cam cyntaf y broses HRA yn ymarfer 'sgrinio' i ystyried pa bryd y gallai'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion cymhwysio safle Ewropeaidd. Dylai'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun sicrhau nad yw'r ymarfer sgrinio wedi'i gyfyngu i ardal yr awdurdod, ond ei fod hefyd yn nodi pob safle Ewropeaidd o fewn pellter rhesymol i ffin yr awdurdod sy'n llunio'r cynllun, neu lle mae llwybr a allai arwain at effaith (h.y. cyrsiau dŵr). Ar gyfer pob safle Ewropeaidd dylai'r awdurdod nodi;

- nodwedd(ion) cymhwysio'r safle, a
- pha effeithiau y gallai'r nodwedd(ion) cymhwysio fod yn sensitif iddynt (e.e. llygredd aer, aflonyddwch hamdden)

Beth sy'n effaith sylweddol debygol?

Tebygol:

Dylid cynnal asesiad priodol *“if it cannot be excluded, on the basis of objective information, that it will have a significant effect on the site....”* Achos Waddensee (Llys Cyfiawnder Ewrop C-127/02)

“The question is simply whether the plan or project concerned is capable of having an effect. It is in that sense that the English ‘likely to’ should be understood.” Achos Sweetman (Llys Cyfiawnder Ewrop C-258/11).

Sylweddol:

“Where a plan or project has an effect on that site, but is not likely to undermine its conservation objectives, it cannot be considered likely to have a significant effect on that site” Achos Waddensee (Llys Cyfiawnder Ewrop C-127/02)

Bydd effaith yn 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn os gall danseilio amcanion cadwraeth y safle. Rhaid i'r asesiad o'r risg honno gael ei wneud yng ngoleuni ffactorau fel nodweddion ac amodau amgylcheddol penodol y safle dan sylw.

DS: Dylid barnu pob polisi neu gynnig yn y cynllun yn ôl ei deilyngdod ei hun. Mae'n bosibl na fydd yr hyn a ystyrir yn sylweddol ar gyfer un safle Ewropeaidd (neu ei fuddiant cymhwys) yn sylweddol ar gyfer un arall.

4.43 Dylai'r awdurdod sy'n gwneud y cynllun fabwysiadu **ymagwedd ragofalus** tuag at sgrinio. Dylai'r weithdrefn sgrinio asesu pob polisi a chynnig yn y cynllun er mwyn ystyried ei effaith debygol, ar ei ben ei hun ac ar y cyd ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill sy'n effeithio ar yr un safle Ewropeaidd. Mae'n bwysig i'r tebygolrwydd o effaith sylweddol gael ei asesu ar gyfer pob nodwedd gymhwysol y gwnaed y dynodiad ar ei chyfer, ac ar gyfer pob dynodiad lle mae safle wedi ei ddynodi, ei ddsbarthu neu ei restru o dan fwy nag un rhwymedigaeth ryngwladol. Efallai y bydd yr awdurdod sy'n gwneud y cynllun yn ei chael hi'n ddefnyddiol nodi categori sgrinio priodol (gweler The HRA Handbook a gyhoeddwyd gan David Tyldesley & Associates Publications) a rhoi casgliad rhesymegol yn erbyn pob polisi/cynnig i nodi'r effaith sylweddol debygol a rhoi ffocws i'r asesiad priodol (os oes angen).

4.44 Dylai canlyniad y cam sgrinio fod yn ddatganiad clir ynghylch a yw'r cynllun, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodwedd gymhwysol unrhyw safle Ewropeaidd neu beidio. **Os na ellir diystyru'r posibilrwydd y bydd yn cael effaith sylweddol, gall yr HRA ddod i ben yn ystod y cam sgrinio. Pe gallai gael effaith sylweddol, neu os yw'n ansicr, mae'n rhaid i'r HRA barhau i'r cam asesiad priodol.**

DS: Mae cyfraith achosion ddiweddar (People Over Wind & Sweetman V Coillte, C-323/17) wedi sefydlu nad yw bellach yn dderbyniol ystyried 'mesurau lliniaru' yn ystod y broses sgrinio. Felly mae angen gwahaniaethu rhwng 'nodweddion y cynllun' a diystyru 'mesurau sydd â'r bwriad o osgoi neu leihau niwed' (mesurau lliniaru) yn ystod y cam sgrinio.

4.45 Er nad yw'n ofyniad statudol, ystyrir ei bod yn arfer da ymgynghori â'r corff statudol (CNC) ar ganlyniad yr ymarfer sgrinio. Dylid ymgynghori â Natural England hefyd pan fo'r safle Ewropeaidd sy'n cael ei effeithio wedi'i leoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr. Dylid ymgynghori â'r JNCC ar gyfer safleoedd morol alltraeth.

Cam 2: Asesiad Priodol a'r Prawf Cyfanrwydd

4.46 Diben yr asesiad priodol yw canfod a fydd y cynllun, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, yn cael effaith andwyol ar amcanion cadwraeth nodweddion cymhwyso'r safle, yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol orau. Bydd cwmpas a chynnwys asesiad priodol yn dibynnu ar natur, lleoliad, hyd a graddfa'r cynllun arfaethedig a nodweddion cymhwyso'r safle Ewropeaidd. Bydd hyn yn golygu profi p'un a fydd y cynllun ar ei ben ei hun, neu 'ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill' yn effeithio ar y ffactorau amgylcheddol sydd eu hangen i gynnal cyfanrwydd y safle, h.y. a yw'r cynllun yn cynyddu llygredd aer, yn cynyddu aflonyddwch hamdden ac ati. Rhaid i'r awdurdod cymwys gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o wybodaeth a chyngor.

Prawf Cyfanrwydd

4.47 Gan ystyried casgliadau'r asesiad priodol o effeithiau'r cynllun ar yr amcanion cadwraeth ac ar ôl ceisio ac ystyried cyngor yr ymgynghoreion statudol (CNC, Natural England, JNCC, fel y bo'n briodol), rhaid i'r awdurdod cymwys benderfynu a fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar *gyfanrwydd* y safle Ewropeaidd.

Beth yw cyfanrwydd y safle?

“The integrity of a site is the coherence of its ecological structure and function, across its whole area, that enables it to sustain the habitat, complex of habitats and /or the levels of populations for which it was classified or listed.”

(Nodyn Cyngor Technegol 5, Atodiad 3, paragraff 19)

4.48 Felly, rhaid i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun ystyried effeithiau tebygol y cynllun a rhagweld yn rhesymol yr effeithiau er mwyn penderfynu a fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd. Wrth wneud hynny, gellir ystyried y ffordd y bwriedir i'r cynnig neu'r polisi gael ei weithredu ac a ellir rhoi amodau neu

gyfyngiadau eraill y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol ar waith i sicrhau na fydd effaith andwyol ar gyfanrwydd safle. **Rhaid i'r penderfyniad fod yn bendant na fyddai'r cynllun yn cael effaith andwyol. O dan rai amgylchiadau gall fod yn fwy priodol gohirio rhai agweddau ar HRA i gynllun haen is neu asesiad lefel prosiect, er bod yn rhaid i'r asesiad lefel prosiect fod wedi dechrau ar y cam asesu priodol cyn i hyn ddigwydd. Er mwyn cadarnhau na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd, dim ond os bydd pob un o'r tri maen prawf canlynol wedi'u bodloni y caiff corff sy'n gwneud cynlluniau ddibynnu ar fesurau lliniaru:**

a) Ni all yr asesiad lefel uwch o'r cynllun ragweld yn rhesymol yr effaith ar safle Ewropeaidd mewn ffordd ystyrlon;

b) tra bydd gan y cynllun haen is neu lefel prosiect, a fydd yn nodi natur, amseriad, hyd, graddfa neu leoliad datblygiad yn fwy cywir, ac felly ei effeithiau posibl, yr hyblygrwydd angenrheidiol o ran union natur, amseriad, hyd, graddfa a lleoliad y cynnig er mwyn osgoi effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle; ac

c) mae HRA y cynllun haen is yn ofynnol fel mater o gyfraith neu bolisi'r Llywodraeth.

4.49 Mae'n rhaid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (a Natural England a JNCC os yw'n briodol) ar ganlyniad y cam asesiad priodol, a rhai peidio â dechrau ar Gamau 3 a 4 heb gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall ALLau ddewis ymgynghori'n ehangach ar yr Asesiad Priodol os bydd o'r farn ei bod yn briodol.

Cam 3: Atebion Amgen

4.50 Os na fydd yr asesiad wedi gallu diystyru effeithiau andwyol, bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy ddefnyddio un o'r opsiynau canlynol:

- Newidiadau i'r cynllun (dileu polisi/cynnig, adleoli cynigion y tu hwnt i barth dylanwad, newid graddfa, amseriad, hyd neu natur y cynnig, cadw'r cynnig islaw trothwyon neu derfynau arwyddocâd).
- Ymgorffori 'mesurau lliniaru'. Dylid cynnwys manylion y mesurau lliniaru arfaethedig mewn polisi penodol i'r safle.

4.51 Os gellir dangos nad oes unrhyw atebion amgen, gall yr awdurdod cymwys ystyried a oes unrhyw resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig i gyfiawnhau pam mae'n rhaid i'r cynllun fynd rhagddo er gwaethaf yr effaith negyddol debygol ar gyfanrwydd safle (gweler Nodyn Cyngor Technegol 5, Atodiad 4, paragraff 34 am ragor o fanylion am egwyddorion arweiniol wrth benderfynu a ddangosir rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig ai peidio).

4.52 Dim ond os na all asesiad priodol ddiystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd ac mae'r ACLI wedi penderfynu peidio â diwygio ac ailasesu'r cynnig y cyrhaeddir Cam 3. Yn y sefyllfa hon nid yw'n gyfreithlon deddfu na mabwysiadu'r cynnig oni fodlonir tri amod, sef nad oes unrhyw atebion amgen, bod rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig a bod mesurau cydbwysio wedi'u sicrhau. Y cam cyntaf yw ystyried atebion amgen (sy'n dal i gyflawni amcan y cynnig) ac a yw unrhyw un o'r rhain yn cael llai o effaith ar safleoedd Ewropeaidd. Dim ond pan ellir dangos na fydd yr atebion amgen hyn yn cael llai o effaith y gall y cynnig symud ymlaen i'r ail brawf, sef er budd cyhoeddus tra phwysig.

Cam 4: Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) a Mesurau Cydbwysio

4.53 Dim ond os bydd rhaid cyflawni'r cynnig neu'r polisi am resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig y dylid mabwysiadu'r cynllun. Fel y nodir yn TAN 5, prosiectau cyffredinol o bwys cenedlaethol sydd fwyaf tebygol o gefnogi rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig, tra bo prosiectau o arwyddocâd lleol yn llai tebygol o gael eu hystyried i fod yn bwysicach na'r niwed posibl i'r safle Ewropeaidd. Lle bernir bod pwysigrwydd datblygiad yn rheswm hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig, rhaid sicrhau mesurau cydbwysio i warchod cydlynid cyffredinol y rhwydwaith safleoedd Ewropeaidd (am ragor o wybodaeth gweler TAN 5).

HRA yn Hierarchaeth y Cynllun Datblygu

4.54 Rhaid sgrinio pob cynllun datblygu o fewn yr hierarchaeth - y FfDC, Cynlluniau Datblygu Strategol a CDLlau - er mwyn penderfynu a yw polisiâu a chynigion yn y cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle dynodedig Ewropeaidd. Ni fydd arfarniad o gynllun haen uwch yn dileu'r angen am HRA o gynllun haen is, ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid asesu effeithiau i'r graddau sy'n bosibl ar sail manylder y cynllun (Adfocad Cyffredinol, *Commission v*).

4.55 Er mwyn osgoi dyblygu diangen, lle mae cynllun datblygu wedi bod yn destun HRA yn flaenorol, gall yr awdurdod cymwys 'fabwysiadu' elfennau o'r asesiad HRA cynharach. Gellir mabwysiadu rhesymu, casgliad neu asesiad awdurdod cymwys arall, ar yr amod bod yr awdurdod yn fodlon â'r canlynol:

- Nad oes gwybodaeth berthnasol wedi dod i'r amlwg sy'n golygu bod yr HRA wedi dyddio, ac
- Bod y dadansoddiad sy'n sail i'r HRA yn drylwyr ac yn gadarn.

Dogfennau Allweddol/ Canllawiau Pellach:

- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd')

- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio
- The HRA Handbook (David Tyldesley & Associates Publications)

Pennod 5: Paratoi CDLI – Materion Craidd

Creu Lleoedd Cynaliadwy - Dangos sut y gellir cyflawni a Gweithredu Cynllun Datblygu

5.1 Dylai cynlluniau datblygu gyflwyno gweledigaeth a strategaeth ar gyfer ardal yng nghyd-destun dealltwriaeth drylwyr o anghenion a llesiant lleol, ffactorau galw a chyflenwad, amodau economaidd a'r farchnad. Dylid seilio cynlluniau ar dystiolaeth gadarn fel y gellir eu cyflawni a gwireddu'r amcan allweddol o greu lleoedd, sy'n hollbwysig i system gynllunio lwyddiannus. Bydd deall hyfywedd a'r gwahanol elfennau sydd eu hangen i baratoi elfennau craidd cynllun ac adeiladu sail dystiolaeth gadarn yn hanfodol. Bydd gweithredu cynllun, i raddau helaeth, yn dibynnu ar weithredoedd pobl eraill. Mae'n hanfodol ein bod yn meithrin consensws â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. Er mwyn bodloni'r profion cadernid (Tabl 27, paragraff 6.27) rhaid i ACLlau allu dangos, yn gyffredinol; y gellir cyflawni'r cynllun heb unrhyw rwystrau sylweddol i'w weithredu. Mae'r Llawlyfr yn cynnig canllawiau ymarferol ar elfennau craidd llunio cynlluniau fel y crynhoir isod:

Diagram 12: Creu Lleoedd Cynaliadwy



Rhestr Wirio Cynllun Dadrisingio

✓	A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a'r Cynllun Datblygu Strategol (pan fydd wedi'i fabwysiadu)?
✓	Cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar yr adeg iawn.
✓	Proses fanwl ar gyfer safleoedd ymgeisiol. Sicrhau bod cyflawni a hyfywedd yn rhan annatod o'r broses safleoedd ymgeisiol o'r cychwyn cyntaf.
✓	Sicrhau'r datblygiad cywir yn y man cywir. Sicrhau bod y strategaeth yn seiliedig ar asesiad cadarn o rôl a swyddogaeth lleoedd yn unol â'r prawf porth, y drefn chwilio a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd, fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
✓	Strategaeth a ffeirir fwy ystyrlon a chyflawnadwy.
✓	Defnyddio offer creu lleoedd yn effeithiol.
✓	Cynllunio ar gyfer lefelau realistig o dwf tai a thwf economaidd ar sail ystyriaeth gadarn o ffactorau angen a chyflenwad, gan ystyried yr angen am dai fforddiadwy, hyfywedd a chyflawnadwyedd.
✓	Cynnwys lefel briodol o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth o dai a swyddi er mwyn caniatáu ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.
✓	Dyrannu amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflawnadwy mewn lleoliadau priodol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni strategaeth y cynllun .
✓	Ystyried argaeledd ymyriadau penodol (e.e. ffrydiau ariannu, prynu gorfodol) gan y sector cyhoeddus a/neu breifat a all helpu i gyflawni safleoedd er mwyn datgloi safleoedd tir llwyd cynaliadwy.
✓	Ystyried realiti'r banc tir sydd i'w gyflawni. Dylid dad-ddyrannu safleoedd nad ydynt yn debygol o gael eu cyflawni yn hytrach na'u 'dwyn ymlaen' o'r cynllun blaenorol. Gallai fod yn ddoeth nodi safleoedd o'r fath ar wahân fel safleoedd adfywio nad ydynt yn cyfrif tuag at y gofyniad o ran tai.
✓	Cynllunio ar gyfer cyfraddau elw annisgwyl realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o gyfraddau cyflawni yn y gorffennol a'r gofrestr safleoedd bach.
✓	Paratoi rhagolygon tai. Cynllunio ar gyfer cyfraddau realistig o gyflwyno fesul cam a chyflawni: Gwerthfawrogiad o'r amser y bydd yn ei gymryd i weithredu pob elfen o'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig.
✓	Sicrhau bod y cynllun yn cael ei gefnogi gan arfarniad hyfywedd a ategir gan dybiaethau perthnasol a chadarn. Dylai hyn ddileu'r angen am asesiadau pellach yn ystod cam y cais cynllunio, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol (fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru)
✓	Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r asesiad o hyfywedd ariannol yn cynnwys cynllun wrth gefn priodol i sicrhau y gall datblygiad ddod ymlaen.
✓	Paratoi Cynllun Seilwaith: Nodi'r seilwaith angenrheidiol.
✓	Bydd deall cyfyngiadau a gofynion seilwaith, gan gynnwys yr amseru a sut cânt eu hariannu, yn hollbwysig er mwyn dangos sut gellir eu cyflawni a/neu eu lliniaru.
✓	Adnabod datblygwyr a'u gallu i gyflawni yn y dyfodol. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer amrywiaeth a dewis o safleoedd/datblygwyr.
✓	Dylai fod gan y polisi tai fforddiadwy dargedau a throthwyon canrannol sy'n ymwneud â sail dystiolaeth astudiaethau hyfywedd. Lle maent yn wahanol, e.e. ar gyfer amgylchiadau lleol penodol, dylid cyfiawnhau ac esbonio hyn yn glir.

✓	Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr: Sicrhau sail dystiolaeth gyfredol ar gyfer cyfnod y cynllun a lle bo angen, nodi dyraniad(au) cyflawnadwy.
✓	Ystyried dulliau effeithiol o fonitro, adolygu a gweithredu.

Creu Lleoedd yn y Broses Cynllun Datblygu

5.2 Blaenoriaeth genedlaethol allweddol yw darparu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel, drwy ddull Creu Lleoedd sy'n gorfod cael lle blaenllaw yn y broses o lunio cynllun. Rhaid i gynlluniau gael eu paratoi'n unol â'r prawf porth a'r dilyniant chwilio a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Rhaid defnyddio Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu. Bydd hyn yn sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli yn y lle cywir a bod lleoedd yn cael eu cynllunio'n gynhwysfawr ac yn sicrhau canlyniadau o ansawdd da i gymunedau. Dylai deall sut mae lleoedd yn gweithredu ar lefel strategol a lleol ddylanwadu ar y ffordd y caiff cynlluniau eu paratoi a'u gweithredu.

5.3 Ar **lefel strategol**, mae dylunio yn llywio'r weledigaeth ofodol ar gyfer lleoedd ac yn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd cynllun, tra'n creu fframwaith i helpu i gyflawni amcanion ehangach drwy ddull Creu Lleoedd integredig hefyd. Gall hyn gynnwys strategaethau ALI megis amcanion a chynlluniau llesiant, ardaloedd adfywio, dyrannu safleoedd, strategaethau canol trefi a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth gynaliadwy a darparu seilwaith. Dylai'r broses o lunio'r cynllun ystyried sut mae egwyddorion Creu Lleoedd a dylunio da yn dylanwadu ar raddfa a lleoliad datblygiad. Ar **lefel leol**, dylai'r cynllun a'r fframwaith polisi sicrhau bod lleoedd o safon sydd wedi'u dylunio'n dda yn cael eu creu lle bydd pobl yn dymuno byw a gweithio ac ymweld â nhw.

Adnoddau Creu Lleoedd fel Sail Dystiolaeth – Dull Prif Gynllun

Gall 'offer' Creu Lleoedd fod yn fecanwaith defnyddiol pan gaiff ei baratoi ochr yn ochr â'r cynllun i lywio cynigion a pholisiau datblygu a sicrhau y caiff ei weithredu a'i gyflawni'n effeithiol.

5.4 Gwerth dull Creu Lleoedd wrth baratoi cynlluniau yw nodi paramedrau dylunio allweddol a gofynion seilwaith cronol datblygu ar draws yr ardal ehangach i lywio polisi a dyraniadau safleoedd penodol. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod ACLlau wrth y llyw a bod ganddynt ddigon o 'ddannedd' i weithredu gofynion dylunio a seilwaith allweddol safleoedd, yn enwedig lle mae safleoedd mawr ar wahanol gamau datblygu ac mewn nifer o ddwylo gwahanol, wedi'u rhaglennu dros flynyddoedd lawer.

5.5 Yr ACLI fydd yn pennu'r 'offeryn Creu Lleoedd' mwyaf priodol ar gyfer cynllun datblygu, ar sail graddfa'r safle(oedd) a lle mae safleoedd yn y broses ddatblygu.

Mae Tabl 11 yn dangos sut dylid defnyddio offer Creu Lleoedd fel rhan o sail dystiolaeth y cynllun. Lle bo modd, dylai'r awdurdod cynllunio lleol a rhanddeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am gyflawni'r safle, yn ogystal â'r gymuned leol, ymgymryd â'r gwaith hwn ar y cyd. Gall ymgynghori'n gynnar â Chomisiwn Dylunio Cymru drwy'r gwasanaeth adolygu dyluniadau wrth ddatblygu uwchgynlluniau neu 'offer' creu lleoedd ychwanegu gwerth at y broses, nodi ystyriaethau cynnar pwysig o ran Creu Lleoedd a gosod y safon ar gyfer ansawdd dylunio. Bydd yn hanfodol i gyrff statudol wneud sylwadau ar faterion allweddol fel llifogydd, seilwaith carthffosiaeth, yr amgylchedd naturiol, diwylliant ac iechyd. Bydd hyn yn rhoi sylfaen ddilys i'r cynllun, yn tynnu sylw at faterion, gofynion a chyfyngiadau allweddol y gellir eu hystyried yn y broses prif gynllun, gan gyflawni lleoedd o safon uchel.

Dylai Cynlluniau Datblygu gynnwys:

- Gweledigaeth Creu Lleoedd strategol ac unigryw i'r ardal leol ar gyfer ardal y cynllun (wedi'i llywio gan strategaethau ac amcanion a chynlluniau llesiant y Cyngor) wedi'i gefnogi gan bolisi (bolisiâu) dylunio / egwyddorion prifgynllunio / seilwaith gwyrdd a mynediad priodol. Lle mae materion penodol, gellir paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Fframweithiau cysyniad/sgematig, egwyddorion dylunio a gofynion seilwaith ar gyfer safleoedd allweddol (a nodir mewn polisiâu) sy'n greiddiol i gyflawni'r cynllun. Dylid ystyried safleoedd allweddol a Chreu Lleoedd a gofynion seilwaith yn fanwl o gamau cynnar y gwaith o lunio'r cynllun, wedi'u paratoi ar y cyd â datblygwyr a'r gymuned. Gallant fod yn fan cychwyn allweddol ar gyfer cydweithio ymhellach ar y dyluniad a llywio gwaith prif gynllun a hyfywedd manwl sy'n benodol i safle.

Tabl 11: Offer Creu Lleoedd fel Sail Dystiolaeth

Dull prif gynllun	Sut i wreiddio yn y cynllun datblygu
<p>Fframwaith Cysyniad / Sgematig</p> <p>Gweledigaeth gysyniadol hyblyg yn nodi elfennau allweddol safle (mynediad, seilwaith ffisegol, rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, ardaloedd/defnydd y datblygiad, tirwedd, nodweddion allweddol, cyfleoedd allweddol a chyfyngiadau)</p> <p>Nodi materion a chyfyngiadau cynllunio yr ardal/safle penodol ac arolygon perthnasol.</p>	<p>Gellir ei ymgorffori fel rhan o bolisiâu penodol i safle, dull eang o asesu a dylanwadu ar gynigion wrth iddynt ddod ymlaen.</p> <p>Yn ddefnyddiol ar gyfer safleoedd allweddol/strategol sy'n greiddiol i gyflawni'r cynllun.</p> <p>Dylai Asesiadau Seilwaith Gwyrdd / Datganiadau Ardal lywio'r dull prif gynllun ar gyfer dyrannu safleoedd er mwyn cefnogi cydnerthedd</p>

<p>Nodi gweledigaeth allweddol ac egwyddorion dylunio lefel uchel safle a sut dylid ei ddatblygu.</p> <p>Gallu darparu mecanwaith eang ar gyfer asesu a dylanwadu ar gynigion wrth iddynt ddod ymlaen.</p>	<p>ecosystemau a nodi atebion sy'n seiliedig ar natur.</p> <p>Dylid defnyddio'r wybodaeth i lywio gofynion seilwaith / hyfywedd safleoedd. Gellir eu nodi'n glir yn y cynllun.</p> <p>Paratowyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol (gan gynnwys Cynlluniau Lleoedd).</p>
<p>Dull Prif Gynllun Manwl</p> <p>Gall fod yn gyffredinol neu'n benodol i safle. Gall nodi egwyddorion dylunio allweddol sy'n ddiffiniol ac yn hanfodol er mwyn creu lleoedd cynaliadwy a'r rhai lle gellir defnyddio mwy o hyblygrwydd.</p> <p>Fframwaith lefel uchel sy'n ymdrin â pharamedrau / gofynion prif gynllun allweddol ar gyfer ardal fwy neu safle penodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddiau tir, yn enwedig y rhai sy'n greiddiol i benderfynu ar y cynllun • Dwysedd a mathau o dai (lle bo'n hysbys) • Graddfa a masgrynhoi • Mynediad allweddol, coridorau symud a hierarchaeth strydoedd • Cludiant / symudiadau (pob math) • Seilwaith gwyrdd • Seilwaith ffisegol • Bioamrywiaeth • Cyfleoedd ynni adnewyddadwy / effeithlonrwydd ynni • Gofynion gweithredu fesul cam a seilwaith • Asedau cymdeithasol a chymunedol 	<p>Gellir ei gynnwys yn y cynllun fel polisi dylunio cyffredinol / gofynion polisi cyffredinol – wedi'u nodi mewn polisi a/neu fformat graffigol.</p> <p>Gellir ei wreiddio fel rhan o bolisi safle penodol neu bolisi dylunio cyffredinol.</p> <p>Egwyddorion dylunio a gofynion seilwaith mewn termau cyffredinol neu ar gyfer safle penodol.</p> <p>Yn ddefnyddiol ar gyfer safleoedd allweddol/strategol sy'n greiddiol i gyflawni'r cynllun.</p> <p>Dylid defnyddio'r wybodaeth i lywio gofynion seilwaith / gwaith hyfywedd ar safleoedd penodol. Gellir eu hegluro yn y cynllun.</p> <p>Paratowyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol (h.y. Cynllun Lle)</p>

Cynlluniau Lle

5.6 Mae Cynlluniau Lle yn rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan yn y broses o lunio cynllun ar lefel leol, gydag ACLlau yn cefnogi mentrau Creu Lleoedd mewn cymunedau lleol. Mae cynlluniau lleoedd yn golygu cyflawni canlyniadau lleol, helpu i greu consensws a chefnogaeth o fewn proses ehangach y cynllun datblygu. Gallant ychwanegu'r manylion at CDLI mabwysiedig. Gallant gael eu cynhyrchu gan Gyngorau Tref a/neu Gymuned, neu'r ACLI ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'n hanfodol bod yr holl bartion dan sylw yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen i baratoi Cynllun Lle a bydd cynnwys pob parti yn gynnar yn hanfodol.

Statws Cynlluniau Lle

5.7 Dylai Cynlluniau Lleoedd gydymffurfio â'r cynllun datblygu a chael eu mabwysiadu gan yr ALI fel canllawiau cynllunio atodol i'r cynllun (paragraff 9). Gallant lywio'r adolygiad CDLI, gael eu paratoi ochr yn ochr â CDLI, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled â bod 'bachyn polisi' digonol yn y cynllun. Ni allant ddyblygu neu gyflwyno polisi newydd, ac ni allant ddad-ddyrannu safleoedd a nodwyd yn y cynllun datblygu mabwysiedig chwaith. Nid yw Cynlluniau Lleoedd yn rhan o'r cynllun datblygu statudol; yn hytrach maent yn ychwanegu manylder at y cynllun mabwysiedig.

Cwmpas Cynllun Lle

5.8 Bydd cynnwys Cynllun Lle yn dibynnu ar ffactorau amrywiol, gan gynnwys yr hyn sy'n gynnwysedig yn y CDLI, natur a graddfa'r ardal/safle, y materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy a dyheadau'r gymuned. Yn y bôn, mae'n golygu ymhelaethu ar y manylion sydd yn y cynllun datblygu statudol. Gellid mynegi hyn drwy gyfrwng briffiau datblygu/prif gynlluniau ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd neu strategaeth tref/pentref sy'n mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol fel dylunio, cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Fel arall, gellid nodi safleoedd mewn Cynllun Lle nad ydynt wedi'u dyrannu yn y CDLI, er y byddai'n rhaid iddynt gyd-fynd â'r fframwaith a nodir yn y CDLI. Gallai hyn gynnwys nodi safleoedd ar hap ar raddfa fach o fewn ffin anheddiad. Mae hyn yn atgyfnerthu'r dull o ddefnyddio gwybodaeth a chyfranogiad lleol i gyflawni manylion y cynllun. Mae hyn yn lleihau baich y cynllun o fod yn rhy fanwl hefyd.

5.9 Yn ogystal, gall Cynlluniau Lle roi arweiniad ar gyfer dosbarthu a gwario arian a gasglwyd o rwymedigaethau cynllunio/symiau gohiriedig a106 a lle bo'n berthnasol, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL). Dylai Cynlluniau Lle nodi pa bolisi dyrannu safleoedd perthnasol yn y CDLI y mae'n cyfeirio ato a/neu nodi sut y mae'n ehangu ar bolisiau cysylltiedig cyffredinol eraill, fel dylunio, canolfannau masnachol a mannau gwyrdd. Mae Cymorth Cynllunio Cymru (PAW) wedi cyhoeddi canllawiau ar

ddefnyddio a pharatoi Cynlluniau Lle a gall ACLlau roi gwybod i bartion sydd â diddordeb am yr adnodd hwn fel pwynt cyfeirio allweddol wrth ystyried a ddylid bwrw ymlaen â chynllun lle ai peidio. (<http://www.placeplans.org.uk/>)

Strategaeth Ofodol

Mae'r strategaeth ofodol yn sail i holl elfennau'r cynllun a rhaid iddi ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r prawf porth, y dilyniant chwilio a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Rhaid i'r strategaeth ofodol gyfleu'n glir ble caiff gwaith datblygu'r dyfodol ei leoli, pam a sut bydd yn cyflawni'r weledigaeth, y materion a'r amcanion allweddol.

Er mwyn datblygu a chreu lleoedd cynaliadwy, mae'n rhaid i bob ACLI gynnwys ei randdeiliaid a'i gymuned er mwyn meithrin dealltwriaeth drylwyr o'i ardal, gan gynnwys cryfderau, cyfleoedd a chyfyngiadau, a gyfiawnheir gan sail dystiolaeth gyfredol. **Mae dealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth lleoedd**, ffactorau galw a chyflenwi, o fewn a thu hwnt i'w ffin weinyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau strategaeth effeithiol a chanlyniadau cynllunio o ansawdd. Rhaid nodi hyn yn glir yn y cynllun a'r sail dystiolaeth.

5.10 Mae'n rhaid i'r ACLI ystyried ac asesu nifer o opsiynau realistig ar gyfer dosbarthiad gofodol datblygiadau ar draws ei ardal. Fodd bynnag, ar gyfer diwygiadau i gynlluniau sydd wedi'u mabwysiadu, bydd cryn dipyn o dystiolaeth gyd-destunol a phroffion ar yr opsiynau eisoes a fyddai, yn hytrach na dechrau o'r dechrau, yn elwa ar gael eu dilysu i ddeall os a/neu ble mae angen unrhyw dystiolaeth newydd ar gyfer dewisiadau amgen. Dylai'r strategaeth gael ei mynegi'n glir a chael ei hategu gan dystiolaeth gadarn sy'n sicrhau ei bod yn realistig. Rhaid i ACLlau ystyried nifer o ffactorau wrth asesu opsiynau strategol gofodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

✓	Dyheadau'r cynllun (ardaloedd i'w hadfywio, cyd-destun rhanbarthol ehangach ac ati.)
✓	Argaeledd ac addasrwydd tir llwyd yn hytrach na thir glas a thir sydd â gwerth amaethyddol, ecolegol neu dirwedd uchel
	Lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, drwy'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a Chynlluniau Teithio Llesol
✓	Gallu'r seilwaith presennol a darpar seilwaith
✓	Graddfa a lleoliad y farchnad a'r tai fforddiadwy sydd eu hangen
✓	Graddfa a lleoliad cyfleoedd cyflogaeth

✓	Goblygiadau amgylcheddol, e.e. y defnydd o ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr, perygl llifogydd, bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd, adnoddau mwynol a chyflwr y ddaear, gan gynnwys nwy o fwyngloddiau.
✓	Ffactorau cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys ystyried y Gymraeg
✓	Hygyrchedd i swyddi, siopau a gwasanaethau
✓	Deall sut y gall gwahanol ardaloedd y farchnad effeithio ar ddichonoldeb darparu tai preifat a fforddiadwy yn ogystal â seilwaith cysylltiedig er mwyn helpu i gyflawni'r lefel o ddatblygiad a gynigir.
✓	Y gallu i gyflawni safleoedd allweddol a'r strategaeth gyffredinol
✓	Strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol, megis datgarboneiddio ac iechyd

Gweledigaeth

5.11 Rhaid i bob CDLI gynnwys gweledigaeth sy'n cyfleu nod cyffredinol y cynllun a sut bydd lleoedd yn newid dros gyfnod y cynllun. Dylai'r weledigaeth:

✓	Fod yn ddatganiad cryno a chadarnhaol ag iddo ffocws
✓	Cynnwys pwyslais gofodol ar ddefnydd tir a chyfleu sut y bwriedir i leoedd ddatblygu, newid neu gael eu gwarchod
✓	Bod yn benodol ac yn briodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gliro'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
✓	Bod yn gyson â'r amcanion a'r cynllun llesiant a strategaethau lleol eraill, gan gynnwys Datganiadau Ardal, Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE.
✓	Adlewyrchu gwahaniaethau daearyddol amrywiol o fewn ardal ehangach yr ACLI

Amcanion

5.12 Dylai amcanion y cynllun gael eu datblygu o'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a nodwyd yn yr ardal a dylent fod yn gyflawnadwy ac ychwanegu manylion at y weledigaeth. O'u darllen ar y cyd, dylai'r weledigaeth a'r amcanion osod cyd-destun clir ar gyfer strategaeth y CDLI. Dylai'r amcanion lifo drwy'r cynllun a chael eu cysylltu â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, polisiâu'r CDLI a'r fframwaith monitro. Ar ôl cyflwyno Deddf Llesiant 2015, rhaid i amcanion yr ACLI gyd-fynd â'r nodau a'r amcanion

llesiant. Felly, mae'n rhaid i'r ACLI ddangos sut mae pob un o amcanion y CDLI yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion llesiant.

✓	Datganiadau â ffocws sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prif faterion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol a nodwyd yn yr ardal
✓	Dangos sut mae'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn cael eu cyflawni
✓	Cyd-fynd â nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
✓	Cysylltiad â'r weledigaeth, polisïau'r CDLI a'r fframwaith monitro


Diagram Allwedd

5.13 Mae'n rhaid cynnwys diagram allwedd i nodi'r safleoedd allweddol, y prif rwydweithiau trafndiaeth a'r gofynion seilwaith strategol yn ofodol. Dylid ei fynegi ar ffurf diagram, yn hytrach nag ar fap O.S., er mwyn cyfleu prif elfennau strategaeth y CDLI.

✓	Mynegi elfennau allweddol y strategaeth mewn ffordd ofodol - safleoedd allweddol, prif lwybrau trafndiaeth, gofynion seilwaith strategol, asedau seilwaith gwyrdd allweddol gan gynnwys safleoedd gwarchoddedig.
✓	Map ar ffurf diagram (nid ar sail O.S.)

5.14 Dylai'r strategaeth ofodol gael ei llywio gan amrywiaeth o ffactorau galw a chyflenwi, a eglurir yn ddiweddarach yn y bennod hon. Bydd y strategaeth ofodol yn defnyddio nifer o ddarnau allweddol o dystiolaeth, fel asesiad o aneddiadau, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ac asesiad hyfywedd, i wneud penderfyniadau polisi hyddysg ynghylch ble i leoli datblygiad. Rhaid cyfleu'r strategaeth yn glir i holl ddefnyddwyr y cynllun, fel y gellir ei chyflwyno mewn ffordd gadarnhaol. Crynhoir yr elfennau allweddol yn Niagram 13.

Diagram 13: Datblygu ac Aseu Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf



Cynnal Aseiad Aneddiadau i lywio Dosbarthiad Twf

5.15 Dylai'r ACLI gynnal aseiad o aneddiadau i lywio penderfyniadau ynghylch ble y dylid lleoli datblygiadau'n ofodol er mwyn sicrhau patrwm twf cynaliadwy, lleihau patrymau anghynaliadwy o ran symud pobl a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol nodi meysydd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd ieithyddol er mwyn sicrhau bod twf yn cael ei gyfeirio'n addas i ardaloedd lle gall yr effaith ar y Gymraeg fod yn gadarnhaol. Ni ddylai'r aseiad gael ei gyfyngu i ffiniau daearyddol ei ffin weinyddol, ond mae'n ystyried y berthynas sydd gan aneddiadau ag ardaloedd cyfagos. Mae enghreifftiau o bynciau i'w hystyried fel rhan o'r aseiad o aneddiadau i'w gweld yn Niagram 14.

Diagram 14: Aseiad o Aneddiadau



Rhaid i'r ACLI lunio methodoleg ar gyfer asesu rôl a swyddogaeth aneddiadau sydd wedi'u nodi'n glir yn y sail dystiolaeth. Dylai fod yn dryloyw o ran sut mae aneddiadau'n cael eu hasesu, y cydrannau asesu allweddol a sut mae hyn wedi cael ei gymhwysu mewn modd cyson ar draws yr ardal. Lle y bo'n bosibl, gellir cynnwys y gymuned yn y broses er mwyn ychwanegu manylion a gwybodaeth bellach am wasanaethau a chyfleusterau aneddiadau lleol.

5.16 Pan fo marchnadoedd tai ac ardaloedd teithio i'r gwaith yn croesi ffiniau gweinyddol, mae'n fuddiol i ACLlau gydweithio ag awdurdodau cyfagos. Y nod yw nodi'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf. Dylai ACLlau geisio sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi a swyddi er mwyn lleihau'r angen i gymudo. Caiff hyn ei brofi yn yr archwiliad o'r CDLI.

5.17 Dylai ACLlau ystyried y ffordd fwyaf ymarferol o gyflwyno canlyniadau'r aseuadau, megis system sgorio, neu ddadansoddiad RAG (Coch, Oren neu Wyrdd). Dylai'r aseiad hwn fod yn sail i'r hierarchaeth aneddiadau, gan nodi pa aneddiadau sydd fwyaf cynaliadwy a gyda'r capasiti i sicrhau twf.

5.18 Dylai'r sail dystiolaeth gyfleu'n glir sut mae rôl a swyddogaeth lleoedd, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau a chyfleoedd wedi cael eu hasesu ac wedi dylanwadu ar y strategaeth ofodol. Law yn llaw â'r asesiad o hierarchaeth aneddiadau, dylai canfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a hyfywedd ddylanwadu ar yr opsiynau polisi ar gyfer dosbarthiad gofodol twf. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi ardaloedd gofodol lle mae angen tai a dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ar leoliad twf tai yn y cynllun. Dylai'r ACLI ystyried hyfywedd hefyd wrth ystyried sut caiff twf tai ei gyfeirio at ardaloedd a all ddarparu tai'r farchnad a thai fforddiadwy, gan adlewyrchu ardaloedd o angen. Mae'r elfennau hyn yn cael sylw manylach yn yr adrannau sy'n dilyn.

Cyflawni'r Strategaeth Ofodol – Fframwaith Polisi Clir a Chyson

5.19 Rhaid i'r cynllun fynegi'n glir sut caiff y strategaeth ofodol ei chyflawni. Rhaid i hierarchaeth aneddiadau gael ei mynegi'n glir mewn polisi gyda lefelau twf penodol wedi'u priodoli i bob haen (Tabl 12: Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai a Chyflogaeth). Mae'n rhaid priodoli pob cydran o'r cyflenwad tai (wedi'u cwblhau, unedau â chaniatâd cynllunio, dynodiadau tai newydd, hap-safleoedd mawr a hap-safleoedd bach) gan ddefnyddio rhif i bob haen o'r hierarchaeth aneddiadau.

Mae'n rhaid i'r ACLI sicrhau ei fod wedi asesu'r cyfleoedd ar gyfer twf ym mhob anheddiad er mwyn sicrhau bod lefel briodol o dwf wedi'i briodoli ac y gellir ei gyflawni.

5.20 Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r defnydd o ffiniau aneddiadau ar y Map Cynigion yn dangos yn glir i ddefnyddwyr cynlluniau ble mae datblygiad yn dderbyniol, neu ddim yn dderbyniol. Rhaid llunio ffin yr anheddiad yn briodol; gan ystyried nodau'r strategaeth gyffredinol a'r lefel a'r math o ddatblygiad a briodolir i bob haen o'r hierarchaeth aneddiadau. Er enghraifft, os priodolir llawer o hap-safleoedd i haen benodol, rhaid tynnu ffiniau aneddiadau'n briodol er mwyn gallu cyflawni cyfleoedd hap-safleoedd o'r fath. Fodd bynnag, efallai na fydd yn ddoeth dibynnu ar hap-safleoedd graddfa fawr ar gyfer y cynllun.

5.21 Ni fydd ffiniau cyfyng yn caniatáu ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu hap-safleoedd o fewn aneddiadau a nodwyd. I'r gwrthwyneb, os dylid cyfyngu ar dwf mewn haen neu anheddiad penodol, yna mae'n rhaid tynnu ffiniau aneddiadau'n llym er mwyn cyfyngu ar gyfleoedd.

Rhaid i'r fframwaith polisi adlewyrchu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ofodol, gan sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at yr haen briodol o anheddiad.

5.22 Rhaid i bolisi strategol fynegi'n glir ble a pham y tynnwyd ffiniau anheddiad a pha fathau o ddatblygiad sy'n dderbyniol neu ddim yn dderbyniol o fewn pob haen anheddiad.

Y canlyniad allweddol yw y dylai fod yn glir wrth ddarllen y cynllun pa fathau o ddatblygiadau a ganiateir yn yr hierarchaeth aneddiadau drwyddi draw. Er enghraifft:

Math o dai (anghenion preifat, fforddiadwy, anghenion lleol)
 Dyraniadau (cyflogaeth a thai)
 Cyfleoedd adfywio
 Hap-safle (cyfleoedd tai a gwaith)
 Talgrynnu/mewnlenni
 Datblygiad gerllaw aneddiadau (safleoedd eithriedig tai fforddiadwy)

5.23 Mae'n rhaid i'r ACLI sicrhau bod y fframwaith polisi'n glir o ran pa fath o ddatblygiad sy'n dderbyniol ar bob haen o'r hierarchaeth aneddiadau, fel bod y strategaeth gyffredinol yn cael ei chyflawni. Ni ddylid defnyddio termau/iaith amwys megis; yn agos i, yn gysylltiedig yn weledol ac ati er mwyn sicrhau bod twf yn cael ei gyflawni'n unol â'r strategaeth. Po fwyaf clir yw'r polisi: po fwyaf sicr yw'r canlyniad.

5.24 Dylai fod aliniad bras yn yr hierarchaeth aneddiadau rhwng graddfa a dosbarthiad tai a chyflogaeth yn y cynllun, gan ystyried ffactorau megis perfformiad yn y gorffennol o ran cartrefi a adeiladwyd, neu dir ar gyfer cyflogaeth a swyddi a grëwyd. Bydd hyn yn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy'n cael eu datblygu ac yn atgyfnerthu'r egwyddorion creu lleoedd sy'n bodoli eisoes ym mhob un o strategaethau'r cynllun. Er mwyn dangos y gyfatebiaeth hon, dylai'r sail dystiolaeth gynnwys tabl fel y nodir isod.

Tabl 12: Dosbarthiad Gofodol Tai a Chyflogaeth

Hierarchaeth Aneddiadau	Tai (Unedau)	Canran	Cyflogaeth (Hectarau/ Swyddi)	Canran
Haen X				
Cyfanswm				

Cynllunio ar gyfer Tai a Thwf Economaidd

5.25 Mae cynllunio ar gyfer llesiant, twf economaidd, tai a'r seilwaith cysylltiedig i gefnogi newid yn elfen graidd o unrhyw gynllun datblygu. Er nad oes cydberthynas uniongyrchol bob amser rhwng swyddi a chartrefi, mae angen eu hystyried gyda'i gilydd wrth asesu lefelau twf a datblygu strategaeth gynaliadwy; y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi a swyddi a thrwy hynny leihau'r angen i gymudo. Bydd y gweithlu sydd ar gael, sgiliau, lefelau ymfudo net, patrymau cymudo, darpariaeth tai a seilwaith yn dylanwadu'n gryf ar y twf economaidd sydd i'w gyflawni mewn cynllun. Dylid ystyried cysylltiadau â'r cyd-destun rhanbarthol ac isranbarthol hefyd, gan ystyried cysylltiadau swyddogaethol a synergedd daearyddol rhwng lleoedd i gyflawni gwell canlyniadau cynllunio.


5.26 Mae'r adran hon o'r Llawlyfr yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i ddatblygu sail dystiolaeth i gyfiawnhau lefel a dosbarthiad twf economaidd a thai. Mae'n nodi'r materion allweddol y mae angen i'r sail dystiolaeth fynd i'r afael â hwy; gan ganolbwyntio ar ddangos bod lefelau twf a safleoedd sy'n sail iddo yn briodol ac yn gyflawnadwy. Mae'n nodi'r hyn y dylai'r cynllun ei gynnwys a sut i sicrhau bod fframwaith polisi effeithiol a chlir yn cael ei gyflawni hefyd. I grynhoi, mae'r bennod hon yn cynnwys y canlynol:

- Disgrifio sut i asesu/meintioli'r angen am swyddi a chartrefi
- Trosi angen yn ofyniad y cynllun
- Sut i ystyried gwahanol lefelau twf
- Arwyddocâd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a rhagolygon demograffig ar gyfer tai
- Arwyddocâd yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) a rhagolygon economaidd
- Cysylltiadau rhwng tai a rhagolygon economaidd
- Ymgorffori senarios twf amgen
- Cyfraddau adeiladu yn y gorffennol fel meincnod
- Canlyniadau'r cynllun ar gyfer tai a chyflogaeth
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos

Asesu'r Angen a'r Gofyniad am Swyddi a Chartrefi

5.27 Dylai graddfa'r twf economaidd a thai a fynegir yn y cynllun fod yn ddyfarniad rhwng yr agweddau angen/galw, yr **angen heb ei gyfyngu** wedi'i gydbwysu yn erbyn **ffactorau cyflenwi** sy'n cyfyngu ar allu'r cynllun i gyflawni, gan arwain at lefelau twf addaedig a **gofyniad** y cynllun.

ANGEN HEB EI GYFYNGU Vs FFACTORAU CYFLENWI = GOFYNIAD CYNLLUN



5.28 Mae lefel yr **angen heb ei gyfyngu** yn seiliedig ar y lefelau presennol o angen/galw ar adeg benodol, h.y. y sefyllfa bresennol/llinell sylfaen (cartrefi a swyddi). Bydd angen tystiolaeth i ddangos sefyllfa llinell sylfaen y cynllun. Mae rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau yn meintioli amrywiaeth o ganlyniadau, yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau, gan allosod lefel yr angen i gwmpasu cyfnod y cynllun cyfan. Dylai'r rhagolygon a ddefnyddir ymwneud yn uniongyrchol â'r amrywiaeth o faterion a dulliau defnydd tir y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, er enghraifft, newidiadau yn y boblogaeth a'r angen am gartrefi ychwanegol i ddarparu ar gyfer y newid hwn. Dylid defnyddio'r holl ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynllun.

5.29 Ar ôl penderfynu ar gyfanswm yr angen heb unrhyw gyfyngiad, sef yr angen heb ei gyfyngu, bydd angen i ACLlau ystyried pa gyfyngiadau a allai fod yn berthnasol a fyddai'n dylanwadu ar lefel yr angen, **ffactorau cyflenwi**. Gallai ystyriaethau polisi gynyddu, neu leihau twf am amryw o resymau. Ar y llaw arall, hwyrach mai ffactorau cyflawni, megis amseroedd cwblhau wrth gyflwyno datblygiadau sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni graddfa o dwf, ar yr adeg briodol. Bydd angen i ACLlau nodi a darparu tystiolaeth o'r holl ffactorau cyflenwi hynny y maen nhw o'r farn y byddent yn dylanwadu ar raddfa'r twf y gellir ei gynnwys yn y cynllun, gan gynnwys yr amseriad.

5.30 Mae'n hanfodol bod y ddwy elfen yn cael eu hystyried a'u cydbwysu a bod tystiolaeth yn cael ei rhoi ar eu cyfer i nodi **gofyniad** y cynllun. Dylai fod cysylltiad cryf rhwng graddfa'r twf a nodir yn y gofyniad, gweledigaeth gyffredinol y cynllun a chyflawni'r amcanion allweddol. Ni fyddai'n ddoeth i ACLI ystyried sicrhau'r ffyniant economaidd mwyaf posibl ond lleihau'r cyflenwad o dai i lefel na fydd yn creu gweithlu digonol i ddiwallu'r anghenion cyflogaeth. Yn yr un modd, ni ddylid cael tai heb swyddi; mae angen sicrhau cydbwysedd o fewn strategaeth y cynllun datblygu.

Diagram 15: Ffactorau Angen a Chyflenwad



Tabl 13: Angen a Chyflenwad o ran Tai a'r Economi

TAI			
Demograffeg ac Aseidiadau Seiliedig ar Angen	Ystyriaethau Seiliedig ar Dueddiadau	Ystyriaethau Cyflawni/Cyfyngu	Ystyriaethau Seiliedig ar Bolisi
FFACTORAU ANGEN A GALW		FFACTORAU CYFLENWI	
<p>Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Diweddaraf (Llywodraeth Cymru) gan gynnwys yr amcangyfrifon canol-blwyddyn diweddaraf</p> <p>Senarios Llinell Sylfaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim ymfudo net (newid naturiol yn unig) • Ymfudo 5 a 10 mlynedd • Amrywiolion twf isel/canolig/uchel • Prif Amcanestyniad <p>Aseidiadau Marchnad Dai /Aseidiadau Angen</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymysgedd daliadaeth a maint yn ôl ardal / is-ardal • Yr angen am dai fforddiadwy • Yr angen am dai anghenion lleol • Angen tai arbenigol (hen bobl, ac ati.) <p>Strategaethau cymunedol / ffactorau cymdeithasol / Cynllun Llesiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Cynlluniau Llesiant yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer holl gynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol • Yr angen am seilwaith a gwasanaethau yn y gymuned 	<p>CDLI - Adroddiadau Monitro Blynyddol</p> <p>Cyfraddau mudo mewnol a rhyngwladol</p> <p>Ardaloedd y farchnad dai - lleol ac isranbarthol</p> <p>Ardaloedd Hyfywedd</p> <p>Cyfraddau adeiladu yn y gorffennol - Beth yw'r tueddiadau yn y gorffennol dros wahanol gyfnodau, e.e. 5, 10, 25 ac 20 mlynedd?</p> <p>Cyfraddau cyflawni safleoedd bach a mawr</p> <p>Patrymau cymudo</p> <p>Y Gymraeg - % Siaradwyr Cymraeg</p> <p>Cyfleusterau presennol mewn lleoedd - rôl a swyddogaeth</p>	<p>Capasiti (materion cymdeithasol, ffisegol, amgylcheddol a diwylliannol)</p> <p>Rôl a swyddogaeth – capasiti (ffisegol, cymdeithasol, amgylcheddol) mewn lleoedd i ymdopi â thwff</p> <p>Math o ddatblygwyr/capasiti/potensial i sicrhau lefelau twf – cystadleuwyr yn y farchnad ac effeithiau ar gyflawni? Amserau cwblhau ar gyfer datblygiadau (mawr/cyfaint, BBaChau, adeiladwyr bach)</p> <p>Gwerthoedd tir (ledled y cynllun ac is-farchnad)</p> <p>Hygyrchedd, capasiti a chostau seilwaith</p> <p>Cyfyngiadau amgylcheddol, ecolegol cenedlaethol – e.e. llifogydd, halogiad, dynodiadau</p> <p>Gorswm/adfachu (e.e. talu swm ariannol pan fydd datblygiad yn cychwyn)</p>	<p>Senarios demograffig amgen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau i faint aelwydydd (uwch neu is) • Newidiadau i gyfnodau a thybiaethau mudo (y DU, Rhyngwladol) • Newidiadau i broffiliau oedran (h.y. oed gweithio, 65+) • Y ffactor trosi / cyfraddau gwacter / ail gartrefi / trosiant yn y farchnad <p>Canlyniadau gofodol - graddfa a lleoliad cartrefi a seilwaith</p> <p>Hierarchaeth a ffiniau aneddiadau</p> <p>Targedau a throthwyon tai fforddiadwy</p> <p>Dynodiadau lleol – e.e. lletemau glas</p> <p>Ffactorau cymdeithasol – e.e. ardaloedd sensitif/polisiau'r Gymraeg</p>

<ul style="list-style-type: none"> Cysoni darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau â newidiadau demograffig megis iechyd, addysg a hamdden <p>Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwmpasu cyfnod y cynllun 			<p>Amseru a chamau'r datblygiad</p> <p>Y berthynas â thwf economaidd</p>
---	--	--	--

ECONOMI

Ystyriaethau Demograffig a Seiliedig ar Angen	Ystyriaethau Seiliedig ar Dueddiadau	Ystyriaethau a Chyfyngiadau Cyflawni	Ystyriaethau Seiliedig ar Bolisi
FFACTORAU ANGEN A GALW		FFACTORAU CYFLENWI	
<p>Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Diweddaraf (Llywodraeth Cymru)</p> <p>Yn ogystal â'r uchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Proffil oedran gweithio Economaidd weithgar Cyfraddau mudo Proffil oedran <p>Adolygiad o Dir Cyflogaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi safleoedd cyflogaeth presennol Nodi tir cyflogaeth/swyddi presennol yn ôl dosbarth defnydd, wedi'i ddadansoddi yn ôl y cod SIC Twf swyddi (os yw'n briodol) Rhagolwg o dwf neu leihad mewn defnydd tir Dosbarth B a chyflogaeth arall Yr angen am glustog i weithredu 	<p>CDLI – Adroddiadau Monitro Blynnyddol</p> <p>Cyfraddau diweithdra (cymharu â chyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r DU)</p> <p>Patrymau a chyfraddau cymudo</p> <p>Lefel hunangyflogaeth a gweithio gartref, ynghyd â thueddiadau posibl</p> <p>'Trosiant' a disodli unedau cyflogaeth presennol</p> <p>Cyfraddau gwacter a gwarged safleoedd/adeiladau yn ôl math a sector</p> <p>Darparu tir cyflogaeth / defnydd ohono sy'n gysylltiedig â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol - Beth</p>	<p>Rôl a swyddogaeth – capasiti (ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol) mewn lleoedd i ymdopi â thwf</p> <p>Sicrhau bod safleoedd ar gael ac yn gyflawnadwy yn cynnwys cyflwyno fesul cam DU</p> <p>Capasiti a chostau seilwaith</p> <p>Cyfyngiadau amgylcheddol cenedlaethol – e.e. llifogydd, halogiad a dynodiadau Ewropeaidd</p> <p>Y math o ddatblygwr a'i gapasiti/potensial i sicrhau lefelau twf – e.e. cystadleuaeth rhwng safleoedd â chynigion marchnad tebyg mewn ACLlau cyfagos</p> <p>Mynediad i farchnadoedd a defnyddwyr</p> <p>Set sgiliau'r gweithlu lleol</p> <p>Gwerthoedd tir</p> <p>Cymalau gorswm/adfachu (e.e. talu swm ariannol pan fydd y datblygiad yn cychwyn)</p>	<p>Senarios demograffig amgen:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd targed yn y proffil oedran gweithio ac economaidd weithgar Newidiadau i dybiaethau mudo – e.e. cyfraddau mudo mewn/allan sy'n gysylltiedig â phobl economaidd weithgar <p>Hierarchaeth a ffiniau aneddiadau</p> <p>Nifer a lefel y swyddi arfaethedig – e.e. arbenigol a lleol</p> <p>Graddfa a lleoliad safleoedd cyflogaeth newydd (allweddol / lleol) - B1, B2, B8 gan gynnwys</p> <p>Nodi Ardaloedd Menter</p>

<p>fel lwfans hyblygrwydd</p> <p>Strategaethau twf economaidd cenedlaethol a rhanbarthol</p> <p>Cynhyrchu rhagolygon twf ar gyfer defnyddiau cyflogaeth heblaw rhai Dosbarth B</p>	<p>yw'r defnydd cyflogaeth dros wahanol gyfnodau, e.e. 5, 10, 20 a 25 mlynedd?</p> <p>Y galw yn awr ac yn y dyfodol am safleoedd cyflogaeth yn ôl math / sector gan gynnwys twf economaidd gwledig</p> <p>Datblygu mewn Ardaloedd Menter (EZs)</p>		<p>Diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol sy'n bodoli'n barod</p> <p>Colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau amgen</p> <p>Perthynas â thwf tai</p>
--	--	--	---

Asesu Tai a Thwf Economaidd

Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)

5.31 Dylai pob CDLI gael ei gefnogi gan Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ac astudiaethau eraill o anghenion lleol fel y bo'n briodol (e.e. pobl hŷn, asesiadau tai anghenion lleol). Gwerth Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yw ei fod yn nodi lefel o angen am dai, tai'r farchnad a rhai fforddiadwy, bob blwyddyn, yn rhifiadol ac yn ofodol, yn ogystal â'r math o angen mewn ardal, e.e. cymysgedd deiliadaeth a mathau o dai. Mae hwn yn ddarn craidd o dystiolaeth sylfaenol sy'n dylanwadu ar raddfa, math a lleoliad twf mewn cynllun. Os bydd marchnadoedd tai yn croesi ffiniau gweinyddol, dylai'r asesiad gwmpasu holl ardal y farchnad.

5.32 Bydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi cyfanswm yr angen am dai fforddiadwy wedi'i allosod dros gyfnod y cynllun, goblygiadau gofodol a'r prif gymysgedd deiliadaeth sydd ei angen. Dylid nodi hyn yn glir yn y cyfiawnhad rhesymedig i'r cynllun. Bydd graddfa'r angen am dai fforddiadwy yn ystyriaeth allweddol wrth bennu lefel gyffredinol a lleoliad y tai yn y cynllun, yn ogystal â dyraniad safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy lle mae o leiaf 50% o'r cartrefi'n fforddiadwy, yn unol â'r diffiniadau a nodir yn TAN 2. Dylid adlewyrchu ardaloedd yr is-farchnad a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ofodol mewn profion hyfywedd dilynol, gan sicrhau eglurder ar gyfer llunio polisïau, mynegiad gofodol a chymhwyso. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn glir ynghylch y ffordd y mae ardaloedd yr is-farchnad a adlewyrchir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r gwaith ar hyfywedd yn cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau a thargedau polisi tai fforddiadwy yn y cynllun.

Tabl 14: Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

Pam mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn bwysig?	Ystyriaethau allweddol / cysylltiadau â dogfennau eraill y sail dystiolaeth.
Mae'n nodi lefel yr angen am dai fforddiadwy bob blwyddyn. Dylid ei allosod ar gyfer holl gyfnod y cynllun.	Bydd lefel yr angen yn ystyriaeth allweddol wrth bennu lefel twf tai ar gyfer cynllun, yng nghyd-destun cyflawnadwyedd.
Ardaloedd y Farchnad Leol - Gall nodi'r lefel o angen yn ôl ardal, ward neu is-ardal.	Bydd hyn yn ystyriaeth allweddol wrth ddyfeisio strategaeth ofodol. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn glir ynghylch sut mae'r asesiad o'r farchnad wedi dylanwadu ar dwf mewn lleoedd.

	Sicrhau bod cysondeb a/neu esboniad clir o sut mae ardaloedd y farchnad yn cyd-fynd â'r ardaloedd hyfywedd / hierarchaeth aneddiadau. Dylai'r rhyngberthynas fod yn glir.
Mae'n nodi'r math o gartrefi a'u deiliadaeth. (rhentu cymdeithasol, canolradd, math o dai 1-2 ystafell wely, 3-4 ystafell wely, 5 + ystafell wely)	Dylid defnyddio hyn i lywio'r gwaith hyfywedd lefel uchel / penodol i safle, lle y bo'n briodol. Dylid cynnwys cyfeiriad at y mathau o ddeiliadaeth / tai sydd eu hangen yn y cyfiawnhad rhesymedig i'r polisi tai fforddiadwy er mwyn cynorthwyo ACLlau i negodi rhwymedigaethau a106.
Pam mae asesiadau anghenion lleol yn bwysig?	Cysylltiadau â dogfennau eraill y sail dystiolaeth
Yn gyffredinol, maent yn fwy addas i ardaloedd gwledig a dim ond i gyfran fach o ardal y cynllun y byddant yn gymwys (yn ofodol ac yn rhifyddol) lle ceir materion lleol penodol megis ail gartrefi, a/neu broblemau fforddiadwyedd mewn mannau penodol a allai fod angen ymateb polisi penodol h.y. dim ond i'r rhai sy'n bodloni diffiniad penodol y bydd cartrefi'n cael eu gwerthu.	Rhaid i'r ymateb polisi fod yn gymesur â'r mater a chysylltu'n glir â'r sail dystiolaeth. Mae problemau penodol yn gysylltiedig â thai anghenion lleol yn ymwneud â chyllid, cyflawnadwyedd ac argaeledd morgesei y bydd angen eu hystyried yn ofalus. Rhaid bod yn glir ynghylch ble mae'r polisiâu hyn yn berthnasol a pham. Mae'n bosibl iawn bod Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ddarn allweddol o dystiolaeth yn hyn o beth.

Tai – Senarios Demograffig

5.33 Mae amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau'n cyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau drwy allosod tueddiadau presennol dros gyfnod y cynllun, yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau. Maent yn rhoi cyd-destun i baratoi cynllun. Nid ydynt yn ddatganiad diffiniol o'r hyn a fydd yn digwydd yn union, ond maent yn dangos yr hyn a allai ddigwydd, yn dibynnu ar y dybiaeth a ddefnyddir. Yr allwedd i unrhyw ragamcanion fydd y tybiaethau eu hunain. O ran darpariaeth tai a chyflogaeth, bydd tybiaethau amrywiol ar gyfer cyfraddau ffurfio aelwydydd, lefelau mudo a thwf swyddi yn effeithio ar lefel y ddarpariaeth a ystyrir yn briodol ar gyfer y naill a'r llall.

5.34 O ran ystyried lefel y ddarpariaeth tai ar gyfer cynllun, mae'r gyfres ddiweddaraf o Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd gan Lywodraeth Cymru yn rhan

sylyfaenol o'r sail dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys y prif amcanestyniadau a'r amrywiolion, fel y nodir isod:

Prif	Amrywiolyn uwch	Amrywiolyn is	Mudo deng mlynedd	Dim ymfudo
------	-----------------	---------------	-------------------	------------

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Households/Projections>

5.35 Mae'r ystadegau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir eu hallforio i Excel, neu feddalwedd benodol i'w dadansoddi. Dylai pob ACLI ddefnyddio'r amcanestyniadau hyn a nifer gwirioneddol yr aelwydydd wrth ystyried lefel y ddarpariaeth tai ar gyfer cyfnod cynllun. Mae angen cynnwys dadansoddiad cryno o bob amcanestyniad amrywiol a goblygiadau hyn o ran poblogaeth, aelwydydd a thwf swyddi mewn ardal yn y sail dystiolaeth. Bydd angen ymgorffori data o Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn Llywodraeth Cymru (Ile maent ar gael) gan eu bod yn rhoi sefyllfa fwy cyfredol o ran lefelau poblogaeth, genedigaethau a marwolaethau.

5.36 Mae ACLlau yn parhau i allu newid rhai tybiaethau o fewn y modelu safonedig. Gallai hyn fod o ganlyniad i ffactorau lleol sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol yn well. Bydd angen rhoi tystiolaeth glir o'r amrywiad mewn unrhyw un o'r tybiaethau, pa rai a pham, a'i esbonio.

5.37 Rhaid i ACLlau ddefnyddio ffactor trosi aelwydydd wrth droi aelwydydd yn anheddau. Mae data Cyfrifiad Llywodraeth Cymru yn cynnwys 'cyfraddau gwacter' ar gyfer pob ACLI yng Nghymru. Gellir addasu hyn yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Mae methu â chynnwys cyfradd drosi gadarn o'r cychwyn cyntaf yn strategaeth risg uchel a gall olygu bod angen safleoedd ychwanegol yn ddiweddarach yn y broses. Nid yw marchnad dai effeithiol yn gweithredu ar sail 1:1, h.y. mae'n rhaid bod cartrefi gwag yn y stoc i ganiatáu ar gyfer 'trosiant'.

Cyfanswm twf aelwydydd dros gyfnod y cynllun x 1.04 = Cyfanswm yr anheddau sydd eu hangen

5.38 Dylid cyfeirio'n glir at ffactor trosi a'i gymhwyso'n gyson drwy'r sail dystiolaeth gyfan. Gall cymhareb drosi o 1.04 o anheddau fesul cartref fod yn briodol fel meincnod bras. Mae hyn yn galluogi 'trosiant' yn y farchnad dai ac elfen o aelwydydd 'cudd' i'w lletya. Yn ymarferol, mae'r gymhareb hon wedi amrywio o 1.03% i 1.13% ledled Cymru, gan adlewyrchu amgylchiadau lleol, strategaethau cartrefi gwag ac effaith ail gartrefi. Mater i'r ACLI fydd ystyried y gymhareb drosi a darparu tystiolaeth ar ei chyfer. Hefyd, dylai ACLlau ystyried senarios twf amgen (gweler paragraff 5.51 – 5.54) y tu hwnt i'r rhai a nodir yn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru. Mae'r adran senarios twf amgen yn amlygu senarios posibl eraill y gellid eu defnyddio. Lle mae senarios posibl eraill wedi'u defnyddio, dylai ACLlau ddarparu sail resymegol a thystiolaeth glir i gefnogi dull gweithredu o'r fath.

Llinell Sylfaen Economaidd

5.39 Rhaid i ACLlau feddu ar sail dystiolaeth economaidd gadarn sy'n sail i'r CDLI. Rhaid i'r CDLI gynnwys gweledigaeth economaidd, asesiad bras o'r newid a ddisgwylir mewn cyflogaeth fesul sector a defnydd tir, cynnwys targedau meintiol ar gyfer defnydd cyflogaeth Dosbarth B (tir a swyddi) yn ogystal â dyrannu a diogelu'r safleoedd hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth economaidd sydd wedi'i gwreiddio yn y cynllun.

5.40 Yn aml nid yw gweithgareddau cyflogaeth wedi'u cyfyngu gan ffiniau ACLlau unigol. Mae strategaethau a pholisïau awdurdodau cyfagos, yn ogystal â'r rhai ar raddfa genedlaethol a rhanbarthol, yn cael effaith sylweddol ar draws ffiniau ACLlau, gan ddylanwadu ar y math o weithgarwch cyflogaeth, sgiliau llafur a phatrymau cymudo dros ardal ddaearyddol eang. Dylai ACLlau weithio'n strategol a chydweithredol er mwyn deall a mesur cysylltiadau o'r fath, gan gael eglurder o ran y graddau y gallai dylanwadau allanol effeithio ar eu CDLI arfaethedig. Bydd cydweithredu o'r fath yn fanteisiol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran sgiliau, adnoddau a chyllid i ACLlau unigol, yn ogystal ag arwain at sail dystiolaeth gadarnach. Bydd tystiolaeth o'r fath y tu hwnt i'r lleol yn dylanwadu ar raddfa a lleoliad y twf a nodir yn y CDLI. Yn gyffredinol, dylid ceisio lleoli cartrefi a swyddi mor agos â phosibl at ei gilydd er mwyn lleihau'r angen i gymudo.

5.41 Er mwyn cynorthwyo ACLlau i ddeall llinell sylfaen y dystiolaeth economaidd yn ardal eu cynllun, yn ogystal â llunio rhagolygon dros gyfnod y cynllun, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Canllaw Ymarferol - Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn Cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol' (Awst 2015) i gynorthwyo ACLlau i gwblhau Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR). Gall Adolygiadau o'r fath:

- Nodi lle mae'r galw a'r cyfleoedd
- Nodi lle nad oes angen tir cyflogaeth presennol mwyach
- Sefydlu proffiliau marchnad eiddo ar gyfer defnydd cyflogaeth Dosbarth B
- Sefydlu rhestr feintiol o safleoedd
- Cynhyrchu arfarniadau ansoddol o safleoedd

5.42 Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth yn darparu asesiad llinell sylfaen cadarn y gellir ei ddefnyddio i wneud rhagolygon yn y dyfodol. Dylai ACLlau ddilyn y dull a nodir yn yr Adolygiad, yn gymesur â'u hamgylchiadau lleol, er mwyn darparu llinell sylfaen economaidd y gellir cynnal rhagolygon ar ei sail yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd yn briodol defnyddio dull llai rhagnodol mewn ardaloedd mwy gwledig.

Rhagolygon Economaidd

5.43 Er mwyn deall y galw am y raddfa a'r math o dwf cyflogaeth dros gyfnod y cynllun, mae'n rhaid i ACLlau ddefnyddio dull manylach o greu rhagolygon

economaidd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o dwf swyddi ar draws gwahanol sectorau diwydiannol, wedi'i rannu'n godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC). Gellir gwneud tybiaethau amrywiol ynglŷn â lefelau twf ar gyfer pob cod SIC, gan ystyried ffactorau cenedlaethol a rhanbarthol. Gellir ystyried dewisiadau polisi yn y dyfodol hefyd, megis nodi ffocws twf ar sectorau penodol drwy sefydlu Ardal Fenter (EZ) neu Fargen Ddinesig. Bydd hyn yn cynhyrchu ffigur twf swyddi ar gyfer pob cod SIC, y gellir ei gyfuno wedyn i ddefnyddiau Dosbarth B ac yna gofynion tir mewn hectarau.

5.44 Mae'n bwysig nodi y bydd angen cael dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa sylfaenol er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn galluogi hyn. Argymhellir y dylid cynnal Adolygiad o'r fath er mwyn hwyluso'r gwaith modelu pellach hwn. Ni fydd methu â deall y sefyllfa sylfaenol yn darparu sail ddigonol ar gyfer unrhyw ragolygon.

5.45 Bydd rhagolygon economaidd yn rhoi nifer swyddi i ACLlau, a fydd yn cynnwys swyddi y tu hwnt i ddefnydd tir Dosbarth B, fel manwerthu, addysg ac iechyd. Mae'n bwysig bod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn dynodi swyddi Dosbarth B, gan fod hyn yn ymwneud â'r polisiau yn y cynllun.

5.46 Ar ôl i'r cynnydd rhifiadol mewn twf swyddi gael ei fesur gan sector cod SIC, gellir trosi hyn wedyn yn ofynion twf Dosbarth B - B1, B2 a B8. O ganlyniad i'r cymarebau defnydd tir amrywiol gan swyddi fesul m² neu hectar, bydd defnyddio cymhareb drosi briodol rhwng swyddi a defnydd tir ar gyfer y gwahanol sectorau'n creu gofyniad cyffredinol o ran defnydd tir ar gyfer cyflogaeth Dosbarth B, a fynegir yn y cynllun.

5.47 Bydd disgwyl i'r cynllun fynegi gwerth defnydd tir (hectarau) ar gyfer defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth ychwanegu rhywfaint o hyblygrwydd, clustog i werth gofyniad tir, gan nad yw unrhyw ragolygon yn wyddor fanwl gywir. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir ar gyfer tai. Mater i'r ACLI benderfynu arno fydd hyn, gan ystyried natur ei ardal weinyddol a data hanesyddol ac addasu'r dull gweithredu yn unol â hynny.

5.48 Pwynt allweddol gyda'r dull hwn o weithredu yw natur y tybiaethau a ddefnyddir yn y rhagolwg. Boed y rhain yn lefelau twf economaidd absoliwt, dewisiadau polisi, cyfyngiadau, a dylanwadau cenedlaethol a/neu ranbarthol, dylent oll gynhyrchu canlyniadau gwahanol. Yr un egwyddor yw hon wrth ystyried amcanestyniadau tai. Bydd ystod o nifer swyddi a gofynion tir cysylltiedig yn dibynnu ar y tybiaethau hyn.

Y Cysylltiad rhwng Rhagolygon Economaidd a Thai

5.49 Ni ddylai ACLlau ystyried rhagamcanion cyflogaeth ar eu pen eu hunain, ond y berthynas rhwng amcanestyniadau economaidd a demograffig/poblogaeth. Bydd

amcanestyniadau demograffig a phoblogaeth yn ystyriaeth allweddol wrth ddeall potensial poblogaeth yn y dyfodol i ddarparu ar gyfer opsiynau twf economaidd (ac i'r gwrthwyneb). Beth yw'r berthynas rhwng nifer y swyddi a gynhrychir ac elfen economaidd weithgar y boblogaeth a ragamcenir? A fydd poblogaeth yn darparu digon o gartrefi fel nad oes rhaid mewnfurio llafur ac felly cynyddu mewn-gymudo? A oes digon o dir cyflogaeth/swyddi ar gael ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth?

5.50 Y pwynt allweddol yw sicrhau bod twf economaidd a thwf tai yn cyfateb yn fras, gan dderbyn nad oes perthynas fathemategol uniongyrchol. Dylai'r rhagolygon a graddfa'r twf fod yn debyg, gan gefnogi ei gilydd. Perthynas symbiotig yw hon; mae'n bwysig dangos sut y mae'r tybiaethau sy'n sail i'r gwaith o ragfynegi swyddi a chartrefi'n cyd-fynd yn fras, er mwyn lleihau'r angen i gymudo.

Senarios Twf Amgen

5.51 Dylai'r sail dystiolaeth ystyried amrywiaeth o opsiynau, yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau, ar gyfer swyddi a chartrefi. Gellir cynnwys ffactorau gwahanol mewn rhagolwg, fel lefelau mudo, neu lefelau twf cod SIC gwahanol ar gyfer cyflogaeth. Mae deall y goblygiadau sy'n deillio o wahanol dybiaethau a'r aliniad dilynol rhwng swyddi a chartrefi yn hollbwysig.

5.52 Gellir addasu newidynnau allweddol yn yr amcanestyniadau tai ac economaidd er mwyn darparu senarios amgen wrth ystyried twf tai a thwf economaidd. Mae creu senarios amgen yn ddefnyddiol i brofi effeithiau gwahanol dybiaethau. Bydd ystyried senarios amgen yn helpu ACLlau i lunio sail dystiolaeth gadarnach sy'n gyson â'r strategaeth a'r materion allweddol, yn eu llywio ac yn eu cyflawni. Mae enghreifftiau o senarios amgen yn cynnwys y canlynol:

Tabl 15: Senarios Amgen

Seiliedig ar ddemograffeg:	Newidiadau ym maint aelwyd
Seiliedig ar ddemograffeg:	Newidiadau mewn cyfraddau ffurfio aelwydydd
Seiliedig ar ddemograffeg:	Newidiadau mewn cyfraddau mudo (mewnol a rhyngwladol) proffil oedran mudwyr (oedran ymddeol, economaidd weithgar)
Seiliedig ar dai fforddiadwy:	Lefel y ddarpariaeth tai sy'n angenrheidiol i gyflawni'r holl angen am dai fforddiadwy a nodwyd dros gyfnod y cynllun
Seiliedig ar swyddi:	Newidiadau i'r proffil llafurlu / economaidd weithgar

Seiliedig ar swyddi:	Cynllunio ar gyfer canlyniadau twf economaidd amrywiol (h.y. cynnydd yn y llafurlu/oedran gweithio, lefelau mudo)
Seiliedig ar anheddau:	Cynllunio ar gyfer nifer penodol o gartrefi i gyflawni canlyniadau demograffig (h.y. anghenion tai / lefelau poblogaeth a mudo)
Seiliedig ar anheddau:	Senarios cyfradd adeiladu yn y gorffennol (e.e. 5, 10, 15 ac 20 mlynedd) – goblygiad efelychu tueddiadau'r gorffennol (a ystyriwyd yn erbyn y cynllun a'r cyd-destun economaidd ar y pryd, gan ystyried y datblygwyr sy'n gweithredu yn yr ardal)
Seiliedig ar bolisi:	Dewis polisi – ystyried effaith lefelau twf rhanbarthol, ceisiadau Bargaen Ddinesig, Ardaloedd Menter, lefelau twf, ffactorau cyfyngu a chymudo

5.53 Dylai'r dystiolaeth fod yn glir ac ymwneud â'r gwahanol senarios twf a brofwyd, gan esbonio'r goblygiadau ar gyfer y proffil demograffig a lefel cartrefi a swyddi yn y cynllun. Mae'n bwysig bod yr amodau cyd-destunol ac economaidd sy'n sail i unrhyw amcanestyniad yn cael eu hystyried yn ofalus, gan y gallai hyn effeithio ar ba mor realistig neu briodol yw cynllunio ar gyfer y lefelau hynny yn y dyfodol. Er enghraifft, a yw'n briodol bwrw ymlaen â thueddiadau anarferol o negyddol, cyfnodau o dwf uchel neu dybiaethau afrealistig am dwf tai neu gyflogaeth yn y dyfodol?

5.54 Gall ACLlau ddewis cynllunio ar gyfer strategaeth benodol sy'n seiliedig ar swyddi, demograffig, anheddau, neu gallai dull hybrid fod yn briodol. Gall fod elfennau cyffredin rhwng senarios gwahanol o ran y cartrefi a'r swyddi a grëir, sy'n awgrymu y bydd mwy nag un senario, neu gyfuniad o sawl senario, yn cyflawni strategaeth y CDLI. Dylai'r sail dystiolaeth nodi'n glir pam y ffeifrir lefel twf a dangos sut mae'n cyd-fynd â'r sail dystiolaeth a sut bydd yn cyflawni'r materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, law yn llaw â lleihau'r angen i gymudo.

Bydd diffyg cyfatebiaeth sylweddol rhwng dyhead a chyflawni, y dystiolaeth a lefel y twf a gynigir yn arwain at ganlyniadau niweidiol i'r cynllun. Dylid pennu lefel y cartrefi a'r swyddi a gynigir i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y cynllun a mynd i'r afael â'r materion allweddol.

Cymharu Cyfraddau Adeiladu yn y Gorffennol

5.55 Mae allosod y cyfraddau defnydd ar gyfer swyddi a chartrefi yn y gorffennol dros gyfnodau amrywiol o amser yn rhoi cynrychiolaeth ffeithiol o'r hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol. Gall y dull hwn ddarparu meincnod defnyddiol ar gyfer cymharu twf cyflogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol, gan dybio bod amodau blaenorol wedi aros yr un fath. Fodd bynnag, hwyrach fod hyn fod wedi'i gyfyngu gan ddylanwadau cyd-destunol a oedd yn gymwys ar adeg flaenorol, er enghraifft marchnadoedd

economaidd byd-eang, neu wedi arwain at ganlyniadau annymunol na ddylid eu hailadrodd, megis diffyg cyfatebiaeth rhwng nifer y cartrefi a swyddi.

5.56 Bydd yn bwysig deall y berthynas rhwng y gorffennol a chyfeiriad y cynllun yn y dyfodol, gan gynnwys amgylchiadau cyd-destunol o'r fath. Os oes/oedd cyfyngiadau a oedd yn llesteirio'r gallu i gyflawni twf yn y gorffennol, yna nes bod mecanweithiau ar waith i fynd i'r afael â materion o'r fath gallai hyn effeithio ar lefelau twf yn y dyfodol. Bydd yn bwysig deall ym mha gyd-destun yr oedd modd cyflawni/y gellir cyflawni, yn enwedig wrth ystyried taflywbr tai gan y gallai hyn ddylanwadu ar gyflymder cyfraddau cyflawni a'u cynyddu, neu, i'r gwrthwyneb, arwain at gap cyflawni nes bod materion o'r fath yn cael eu datrys.

5.57 Nid yw dibynnu ar gyfraddau adeiladu yn y gorffennol fel yr unig sail dystiolaeth i bennu gofynion tir ar gyfer cyflogaeth a thai yn y dyfodol yn ddigon ar ei ben ei hun. Bydd angen tystiolaeth ychwanegol i nodi faint o swyddi a chartrefi newydd sydd eu hangen a'r gofynion tir cysylltiedig. Mae tablau 13 a 15 yn rhoi enghreifftiau o senarios amgen i roi ystod eang o ganlyniadau posibl, yn hytrach na dibynnu ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn unig.

Darpariaeth Tai a Cydrannau'r Cyflenwad

Cyflenwad Tai

5.58 Y cyflenwad tai yw cyfanswm y ddarpariaeth tai a nodir yn y cynllun, sy'n cynnwys y gofyniad tai a lwfans hyblygrwydd.

$$\text{Gofyniad Tai} + \text{Lwfans Hyblygrwydd} = \text{Darpariaeth Tai}$$

Lwfans Hyblygrwydd

5.59 Bydd hi'n anghyffredin iawn i'r holl safleoedd a nodir mewn cynllun gael eu datblygu o fewn yr amserlen a ragwelir. Er bod angen gwella sicrwydd drwy flaenlwytho, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn y Llawlyfr, mae'n bosibl y bydd achosion lle mae amgylchiadau penodol y safle, nad ydynt yn hysbys adeg llunio'r cynllun, yn achosi oedi wrth gyflawni safleoedd. Ni fydd cynllun datblygu'n effeithiol os na all ymdopi ag amgylchiadau sy'n newid. **Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ymgorffori lwfans hyblygrwydd yn y cynllun.** Bydd angen i'r cynllun ddangos tystiolaeth bod digon o hyblygrwydd y tu hwnt i'r gofyniad ar gyfer diffyg cyflawni a materion nas rhagwelwyd, gan ddangos sut y cyflawnir y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig drwy gydol cyfnod y cynllun. Bydd taflwybr tai yn offeryn pwysig i ddangos tystiolaeth o hyn (gweler paragraff 5.64 – 5.74). Bydd pob ACLI yn penderfynu ar lefel yr hyblygrwydd ar sail materion lleol; gallai'r man cychwyn ar gyfer ystyriaethau o'r fath fod yn hyblygrwydd o 10% gyda thystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw amrywiad. Dylai'r fframwaith polisi yn y cynllun fod yn glir ynghylch y gofyniad o ran tai, darpariaeth a'r lwfans hyblygrwydd. Cynhelir lefel yr hyblygrwydd a ddewisir gan yr ACLI pan gaiff y cynllun ei adneuo ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu. Dylid llunio'r polisi tai allweddol o amgylch y dull canlynol:

Polisi Tai X:

Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer x o gartrefi i gyflawni gofyniad tai y, gyda z o'r cartrefi'n fforddiadwy.

(Noder: $X - Y = \text{Lwfans Hyblygrwydd}$)

Dosbarthiad Gofodol Tai

5.60 Dylai'r cynllun nodi elfennau'r cyflenwad tai yn ôl anheddiad/categori anheddiad yn glir er mwyn cefnogi'r fframwaith polisi tai. Bydd hyn yn dangos sut mae'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad yn ffurfio cyfanswm darpariaeth y cynllun ac, yn hollbwysig, sut byddant yn cael eu dosbarthu'n ofodol. Dylid cynnwys tabl 16 yn y cynllun. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gysylltu'r ddarpariaeth wirioneddol o

safleoedd â'r strategaeth a'r amcanion, gan roi eglurder i'r cynllun a sicrhau bod y strategaeth ofodol yn cael ei monitro'n effeithiol.

Tabl 16: Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai

	Cydrannau'r Cyflenwad Tai	Parth Aneddiadau / Twf Haen 1	Parth Aneddiadau / Twf Haen 2	Parth Aneddiadau / Twf Haen 3	Parth Aneddiadau / Twf Haen 4
A	Cyfanswm wedi'u cwblhau (bach a mawr)				
B	Unedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu				
C	*Unedau â chaniatâd cynllunio				
D	Dyraniadau tai newydd				
E	Hap-safleoedd mawr (+5/10)				
F	Hap-safleoedd bach (-5/10)				
G	Cyfanswm y ddarpariaeth tai				

*Dim ond caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd mawr mewn perthynas â throthwy'r ACLI (ardal drefol/wledig) y dylai hyn ei gynnwys. Mae safleoedd bach yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol ac yn cael eu dwyn ymlaen. Fodd bynnag, yr ACLI fydd yn penderfynu ar hyn, gan sicrhau nad yw safleoedd yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Dyraniadau

5.61 Bydd y polisi tai trosfwaol yn nodi cyfanswm y ddarpariaeth, a ddylai gael ei rannu'n ofodol wedyn yn ôl categorïau anheddiad. Dylid ategu hyn gyda pholisïau pellach sy'n gysylltiedig â dyraniadau safle penodol. Dylai'r polisi dyraniadau safleoedd nodi enw'r safle, yr anheddiad, nifer yr unedau (preifat a fforddiadwy) a chamau bras y gwaith yn glir. Dylai capasiti safleoedd ystyried dwyseddau a'r berthynas â lleoliadau cynaliadwy. (Tabl 17)

Tabl 17: Tabl Polisi Dyraniadau Safleoedd

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Parth anheddiad /twf	Cyfanswm yr unedau yng nghyfnod y cynllun	Cyfanswm yr unedau fforddiadwy yng nghyfnod y cynllun	Amserlen gyflawni Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun

Dangos cyflawni

5.62 Er mwyn gallu cwblhau Tablau 16 ac 17, mae angen cael dull clir a chyson o ymdrin â'r derminoleg ar gyfer pob cydran dai. Er y bydd y gwerthoedd rhifol penodol yn amrywio'n sylweddol, mae cael dull cyffredin a chyson ar gyfer diffiniadau yn hanfodol (Tabl 18). Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y bydd y diffiniadau hyn yn cael eu defnyddio i ddangos y cyflenwad tai ar draws cyfnod y cynllun, ar gyfer pob ACLI yng Nghymru. Dylid cynnwys Tablau 16 ac 17 yn y cynllun o dan y polisi dyraniadau tai.

Diffiniad o Gydrannau

- Rhaid i'r holl gydrannau gael yr un dyddiad sylfaen, a hwyrach y bydd angen eu diweddarau wrth i'r cynllun symud drwy'r broses baratoi. Dylai ACLIau ystyried y berthynas rhwng cyfnod y data monitro tai (h.y. 31 Mawrth) a diwedd cyfnod y cynllun (h.y. 31 Rhagfyr). Y ffordd symlaf o wneud hyn yw cysoni cyfnod y cynllun â'r cyfnod monitro er mwyn osgoi anawsterau yn y broses o gyflawni fesul cam a'r taflywbr tai gan y gallai hyn achosi anawsterau ymarferol yn ystod blwyddyn olaf y gwaith o gyflawni fesul cam yng nghyfnod y cynllun. Fel arall, gallai blwyddyn olaf y taflywbr adlewyrchu 9 mis o gyflenwad. Mae hwn yn rhywbeth i'r ACLI ei ystyried.
- Dylid gwahanu dyraniadau, ymrwymadau a hap-safleoedd (bach a mawr) i sicrhau bod y cynllun yn glir ac osgoi cyfrif pethau ddwywaith.
- Dylai pob cydran tai gael ei diffinio'n glir, ei chyfiawnhau'n drylwyr, bod yn gysylltiedig â'r hierarchaeth aneddiadau a bod yn gyson o ran terminoleg.

Tabl 18: Cydrannau'r Cyflenwad Tai

Elfen tai	Ystyriaethau allweddol / cysylltiadau â dogfennau eraill y sail dystiolaeth.
<p>'Ymrwymadau' y banc tir</p> <p>Unedau tai sydd wedi'u cwblhau ers dechrau cyfnod y CDLI, unedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu a'r rhai sydd â chaniatâd cynllunio ar 'adeg benodol' - y dyddiad sylfaen.</p>	<p>Ymdrin â dyraniadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio – Dim ond ymrwymadau sydd yn y banc tir, y safleoedd hynny sydd â chaniatâd cynllunio ar y dyddiad sylfaen. Bydd angen nodi a meintioli safleoedd dyranedig sy'n cael caniatâd cynllunio ar ôl y dyddiad sylfaen ar gyfer yr archwiliad.</p> <p>Gwaith wedi'i gwblhau hyd yma – Dylid ei rannu yn ôl safleoedd mawr a bach er mwyn sicrhau eglurder wrth gyflwyno a dadansoddi (bydd hyn yn dibynnu ar p'un ai 5 neu 10 uned sydd wedi'i ddewis fel y trothwy).</p> <p>Dangos tystiolaeth o'r ffordd y cyflawnir y banc tir – Ceir y 'banc tir' o'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai diweddaraf, a fydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ar gyfer y safleoedd hynny a'r broses o'u cyflwyno'n raddol.</p> <p>Gall cynnwys y banc tir cyfan mewn termau rhifiadol mewn darpariaeth tai fod yn strategaeth risg uchel. Os nad yw safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelwyd, neu os oes problemau'n codi fel rhan o'r broses archwilio, gall diffyg darpariaeth arwain at brinder cartrefi posibl. Gall cynnwys lwfans peidio â chyflawni yn y cynllun helpu i osgoi'r senario hon.</p> <p>Mae 'lwfans peidio â chyflawni' wedi'i gynnwys yn y banc tir; gan ddiystyru cyfran o'r banc tir ar sail tystiolaeth leol. Efallai na fydd hyn yn briodol i bob ACLI, ond bydd yn berthnasol i ACLlau â nifer mawr o safleoedd banc tir, nid i'r rhai sydd ag ychydig o safleoedd yn unig, neu mewn ardaloedd lle mae'r banc tir yn cynnwys safleoedd bach niferus sy'n cymryd amser maith i'w cwblhau. I fod yn glir, mae lwfans peidio â chyflawni banc tir yn lwfans ar wahân i'r lwfans hyblygrwydd (h.y. 10%) sy'n cael ei gymhwyso i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.</p> <p>Gall deall cyfran y safleoedd na chawsant eu cyflwyno yn y gorffennol fod yn offeryn defnyddiol yn hyn o beth. Gellir diystyru safleoedd yn unigol, neu eu cymhwyso fel canran ar draws y banc tir cyfan. Y dull olaf yma yw'r un symlaf. Mae lwfansau peidio â chyflawni wedi amrywio o 20-50% hyd yn hyn, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.</p>

<p>Hap-safleoedd mawr (>5 neu >10)</p> <p>Hap-safleoedd bach (<5 neu <10)</p> <p>Safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu nac yn ymrwymiad yn y cynllun.</p>	<p>Dadansoddi tueddiadau'r gorffennol – Dylai'r dystiolaeth osod cyfraddau hap-safleoedd bach a mawr fel cydrannau ar wahân. Yr ACLI fydd yn pennu'r trothwy (5 neu 10 uned).</p> <p>Bydd adolygu cyfraddau cyflawni hap-safleoedd bach a mawr, dros gyfnodau amser gwahanol, yn llywio'r broses o ystyried cyfradd allosod at y dyfodol. Efallai y bydd sylwebaeth gyd-destunol ar y cyfraddau hynny mewn perthynas â'r cynllun o gymorth. Nid yw'n briodol cynnwys cyfnodau o gyfraddau cwblhau anarferol o uchel neu isel yng nghyfradd allosod y dyfodol. Dylai'r dystiolaeth fod yn glir ynghylch pa gyfnod a ddewiswyd a'r rhesymeg dros wneud hynny. Dylai'r cyfnod amser a ddewisir fod yn ddigon i ddiystyru anghysondebau mewn blynyddoedd penodol a dylai bara am gyfnod rhesymol. Bydd safleoedd a dderbynnir o waith y broses safleoedd ymgeisiol a'r Astudiaeth Cynhwysedd Trefol (UCS) yn cynorthwyo gyda'r broses hon. Ni ddylid cynnwys hap-safleoedd mawr yn y ddwy flynedd gyntaf o gyflenwi er mwyn osgoi problemau sy'n gysylltiedig â chyfrif ddwywaith (gweler y canllawiau ar daflwybr).</p> <p>Dylid pennu ffiniau aneddiadau mewn modd sy'n cyfateb i gyfradd allosod i gael eu cyflwyno, yn unol â strategaeth y cynllun. Bydd hyn yn sicrhau cyfleoedd i adeiladwyr bach hefyd.</p> <p>Gallai ystyried newidiadau cyd-destunol, er enghraifft, newid yn y strategaeth aneddiadau a'r dull o ymdrin â ffiniau, olygu y bydd mwy neu lai o gyfle i gyflawni hap-safleoedd. Gall Astudiaeth Cynhwysedd Trefol gynorthwyo i ddangos lwfans hap-safleoedd. Dim ond enillion net o ran unedau preswyl y dylid eu cynnwys. Gall rhai safleoedd mawr fod yn fwy priodol i'w datblygu fel dyraniadau penodol yn y cynllun, nid hap-safleoedd.</p>
--	---

Dyraniadau tai newydd

Dyraniadau tai newydd – Dylai'r rhain gael eu cyflwyno drwy'r broses safleoedd ymgeisiol. Bydd angen iddynt gael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn ar gyflawni, camau'r gwaith datblygu, gofynion seilwaith a hyfywedd. Dylai dyraniadau gydymffurfio â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, y prawf Porth a ddefnyddir gyda'r dilyniant chwilio safle a'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy (PCC). Mae'r Llawlyfr yn rhoi canllawiau penodol ar Greu Lleoedd, sut i ystyried y gwaith cyflawni a hyfywedd dyraniadau. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod y cywair polisi ar gyfer ystyried dyraniadau newydd, wedi'i ategu gan ddadansoddiad o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys adrannau manwl hefyd ar sut i ddangos bod safleoedd allweddol yn y cynllun wedi'u datblygu.

Cario dyraniadau ymlaen – Bydd angen cyfiawnhad gofalus i gynnwys dyraniadau sy'n cael eu cario ymlaen o gynllun blaenorol mewn cynllun diwygiedig, gan gyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru. Bydd angen newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos y gellir cyflawni safleoedd a chyfiawnhau cael eu cynnwys eto. Bydd angen tystiolaeth glir y gellir cyflawni safleoedd o'r fath. Dylai'r safleoedd orfod bodloni'r un gofynion proses safleoedd ymgeisiol â safleoedd newydd h.y. rhaid dangos eu bod yn gynaliadwy ac yn gyflawnadwy. Os yw ACLI yn dymuno cadw safleoedd o'r fath ond na all ddangos tystiolaeth y byddant yn cael eu cyflawni, h.y. at ddibenion dyhead neu adfywio, gellir eu dyrannu yn y cynllun ond ni ddylid dibynnu arnynt i gyfrannu at y ddarpariaeth. Ni fydd yn briodol cynnwys safleoedd o'r fath yn y lwfans hap-safleoedd. Dylid eu trin fel 'safleoedd bonws'.

Safleoedd allweddol – Bydd safleoedd sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun angen mwy o dystiolaeth i gefnogi eu cyflawni gan gynnwys fframweithiau sgematig, manylion camau'r gwaith, coridorau trafndiaeth allweddol, gofynion mynediad critigol, paramedrau dylunio (er mwyn cefnogi Canllawiau Cynllunio Atodol /Briffiau Datblygu/Prif gynlluniau), gofynion a106, seilwaith a chostau. Dylid cynnwys gofynion sy'n hanfodol i gyflawni'r safleoedd allweddol hyn yn y polisi, wedi'u hategu gan fframwaith sgematig. Dylid nodi'r egwyddorion hyn yn y Datganiadau Tir Cyffredin (Datganiad Tir Cyffredin) (SoCG).

Arfarniadau o hyfywedd – Dylai'r ACLI baratoi arfarniadau o hyfywedd ar y cyd â datblygwyr a hyrwyddwyr safleoedd ar gyfer safleoedd allweddol cyn eu dyrannu. Bydd Datganiad Tir

Cyffredin yn cael ei baratoi i ddangos lle mae cytundeb/anghytundeb.

Camau datblygu safleoedd – Dylid cynnwys y canlynol mewn amserlen o gamau datblygu:

- Caffael tir
- Trafodaethau cyn gwneud cais
- Proses ymgynghori statudol cyn ymgeisio (PAC)
- ACLI yn penderfynu ar y cais cynllunio a'r cytundeb A106 cysylltiedig
- Amserlenni cymeradwyo SAB
- Cyflawni amodau cynllunio

Gall cymhlethdod safle ymestyn yr amserlen gyflawni. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn glir ynghylch pa gam o'r broses mae safleoedd wedi cyrraedd. Dylai camau datblygu safleoedd fod yn seiliedig ar asesiad cadarn o'r elfennau allweddol hyn. Gall Datganiad Tir Cyffredin gyda datblygwyr gynorthwyo yn y broses hon. Dylai amseru a chamau datblygu safleoedd allweddol fod yn realistig.

Cwmpas posibl Astudiaeth Cynhwysedd Trefol

5.63 Dywed Polisi Cynllunio Cymru y dylai ACLIau gadw cofrestr o safleoedd addas sy'n disgyn islaw'r trothwy ar gyfer dyrannu yn y CDLI. Bydd y broses safleoedd ymgeisiol yn helpu i gyflawni'r amcan hwn. Isod ceir rhestr o'r hyn y gellid ei ystyried o fewn Astudiaeth Cynhwysedd Trefol, ond yr ACLI fydd yn penderfynu ar hyn yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Gall Astudiaeth Cynhwysedd Trefol lywio'r broses o nodi dyraniadau safleoedd a helpu i ddangos bod y lwfans hap-safleoedd yn y cynllun wedi'i chyflawni. Gall fod yn adnodd defnyddiol i ddatblygwyr a BBaChau sy'n nodi cyfleoedd datblygu posibl nad ydynt wedi'u dyrannu'n benodol yn y cynllun.

- Tir gwag o fewn ffin anheddiad
- Is-raniad tai presennol
- Fflatiau uwchben siopau
- Cartrefi gwag
- Tir ac adeiladau (ac eithrio tai) gwag a diffaith a ddatblygwyd o'r blaen h.y. safleoedd cyflogaeth sy'n cael eu tanddefnyddio/segur, gorsafoedd petrol, tafarndai, gwestai, adeiladau cymunedol
- Rhaglen cau ysgolion / strategaeth waredu cyrff cyhoeddus
- Mannau agored nad oes eu hangen
- Dwysau ardaloedd presennol o dai
- Ailddatblygu meysydd parcio
Trosi adeiladau masnachol

Llunio Taflwybr Tai

5.64 Mae taflwybr tai yn rhan o'r cynllun datblygu. Crynodeb ydyw o'r wybodaeth am gamau datblygu safleoedd penodol ar gyfer pob safle yn y cynllun, gan gynnwys datblygiadau hap-safleoedd, a fynegir yn flynyddol. Mae'n dangos sut y disgwylir i safleoedd yn y cynllun gael eu cyflawni, gan helpu i fonitro'r cynllun yn effeithiol.

Taflwybr tai yw'r prif fecanwaith i ddangos sut caiff pob safle ei gyflawni o fewn yr amserlenni a nodwyd, drwy gydol cyfnod y cynllun, er mwyn bodloni'r gofyniad o ran tai.

5.65 Dylid ystyried amseroedd rhagarweiniol ar gyfer cyflwyno safleoedd mwy, y gydberthynas rhwng safleoedd, y berthynas â chyfyngiadau posibl, amseru a chanfod seilwaith/cyllid a thybiaethau ar gyfer hap-safleoedd bach/mawr wrth baratoi taflwybr tai. Mae dealltwriaeth drylwyr o amseriad cyffredinol datblygiad o drafodaethau cyn-ymgeisio, cael caniatâd cynllunio, arolygon sydd eu hangen, cyflawni amodau a chyflwyno fesul cam ar y safle yn hanfodol wrth ystyried darparu tai.

Rhaid llunio taflwybr tai er mwyn ategu'r Cynllun Adneuo **a'i ymgorffori yn y cynllun fel Atodiad, gan gyfleu'n glir** y gyfradd adeiladu flynyddol a chronnol ddisgwylidig. **Dylai taflwybrau tai gynnwys llif cyson o safleoedd tai drwy gydol cyfnod y cynllun ac ni ddylid eu llwytho â gormod o safleoedd tua diwedd cyfnod y cynllun.**

Dylid llunio'r taflwybr drwy gydweithio'n effeithiol â'r rhanddeiliaid perthnasol a'u cynnwys yn y broses. Os na wneir hynny, mae'n bosibl y bydd mwy o wrthwynebiadau/oedi ar adeg archwilio'r CDLI.

Dim ond ar ôl i'r cynllun gael ei archwilio y ceir sicrwydd ynglŷn â thafwybr cyflawni safleoedd a ddyrannwyd, cysylltiadau â seilwaith ategol, tybiaethau ynghylch hap-safleoedd a pha safleoedd banc tir yr ystyrir ei bod yn ddoeth eu cynnwys yn y cynllun, y mae pob un ohonynt wedi bod yn destun craffu trylwyr drwy'r broses archwilio. Y taflwybr hwn yn y cynllun fydd y sail at ddibenion monitro.

Mae Pennod 8 yn nodi canllawiau ar sut y dylid diweddarau'r taflwybr ar ôl i'r cynllun gael ei fabwysiadu drwy'r broses Adroddiadau Monitro Blynyddol.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid er mwyn Llunio'r Taflwybr Tai – Grŵp Rhanddeiliaid Tai

5.66 Rhaid llunio taflwybr tai er mwyn ategu'r Cynllun Adneuo. Er mwyn llunio taflwybr tai a thablau cyflawni fesul cam cysylltiedig **bydd angen i ACLlau ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Grŵp Rhanddeiliaid Tai.** Bydd hyn yn sicrhau bod amseriad a champau cyflawni safleoedd yn gadarn ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r dull hwn o weithredu yn ceisio sicrhau consensws a chyfyngu

trafodaeth bellach i'r meysydd/safleoedd hynny lle y ceir anghytundeb pan gyflwynir y cynllun i'w archwilio. Fel y nodwyd mewn penodau blaenorol, bydd angen llunio Datganiadau Tir Cyffredin manylach i gefnogi safleoedd allweddol a strategol.

5.67 Mater i'r ACLI fydd gwahodd rhanddeiliaid perthnasol i gyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Tai cyn penderfynu'n derfynol ar y dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Adneuo. Mater i bob ACLI benderfynu arno yw aelodaeth y grŵp ond, yn ddelfrydol, dylent gynnwys adrannau perthnasol yr ACLI, adeiladwyr tai, perchenogion tir (ac asiantau tir lle y bo'n briodol), Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ymgwymerwyr statudol, darparwyr seilwaith a chyrrff eraill fel y bo'n briodol.

5.68 Diben y grŵp rhanddeiliaid fydd trafod amseriad a chymau cyflawni pob safle sydd â chaniatâd cynllunio neu ddyraniad yn y cynllun, fel y nodir yn Nhabl 19 ac 20 drosodd. **I ddechrau, bydd yr ACLI yn llunio drafft o bob tabl (cyfradd cyflawni fesul cam flynyddol) yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan hyrwyddwyr safleoedd drwy'r broses safleoedd ymgeisiol a llunio cynllun hyd yma, yn ogystal â mecanweithiau monitro mewnol mewn perthynas â thai a gwblhawyd a cheisiadau cynllunio.** Mater i'r ACLI fydd ystyried pa wybodaeth a gesglir a sut y caiff ei chyfleu i'r grŵp rhanddeiliaid cyn cyfarfod er mwyn helpu i lywio trafodaethau.

5.69 Diben y grŵp rhanddeiliaid fydd ystyried a mireinio/diweddaru (lle mae hynny'n briodol ac yn cael ei gyfiawnhau gan y dystiolaeth) amseriad a chymau cyflawni safleoedd gwirioneddol yn y cynllun. Mae paramedrau allweddol ar gyfer y grŵp fel a ganlyn:

- Sicrhau bod **ffigurau cwblhau** yn gyfredol ac wedi'u cofnodi'n gywir ar gyfer safleoedd bach a mawr
- Ystyried y cyfraddau cyflawni blynyddol disgwylidig ar gyfer **safleoedd â chaniatâd cynllunio** (noder: gellir cynnwys safleoedd sy'n destun cytundebau a106 ond dim ond pan fydd tystiolaeth glir y caiff y cytundeb a106 ei lofnodi a bod siawns realistig y caiff y safle ei gyflawni yn y byrdymor)
- Ystyried y cyfraddau cyflawni blynyddol disgwylidig ar gyfer **dyraniadau tai** (wedi'i lywio gan Ddatganiad Tir Cyffredin ar safleoedd allweddol pan fo ar gael).

5.70 Nid yw cyfraddau/tybiaethau ar gyfer hap-safleoedd bach a mawr yn rhan o gylch gwaith y grŵp rhanddeiliaid. Dylai'r ACLI ddarparu tystiolaeth ar gyfer tybiaethau a ddefnyddir i benderfynu ar y cyfraddau cyfartalog hyn a fydd yn rhan o'r drafodaeth pan gaiff y cynllun ei archwilio. Dyma'r cam priodol yn y broses o baratoi'r cynllun i herio tybiaethau o'r fath drwy gyflwyno sylwadau ar y cynllun, os yw'n briodol. (Gweler Tabl 18)

5.71 Pan gwblheir Tablau 19 ac 20, ar y cyd â thybjaethau cadarn ynglŷn â chyfraddau hap-safleoedd bach a mawr, defnyddir y wybodaeth hon i boblogi Tabl 21 a Graff y Taflwybr (Diagram 16).

5.72 Caiff Cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid eu cadeirio gan yr ACLI. Y cynllun adneuo yw'r cynllun y mae'r ACLI yn ei ystyried yn gadarn. Ar y sail hon, os bydd anghytundeb ynghylch amseriad a chamau cyflawni safleoedd, mater i'r ACLI fydd gwneud penderfyniad/dod i gasgliad ar y sail honno. Fodd bynnag, lle y ceir meysydd sy'n dal i fod yn destun anghydfod/anghytuno, a ddylai fod yn gyfyngedig o ran eu nifer, dylid cofnodi hyn yn sail dystiolaeth y Cyngor a fydd yn ei gwneud yn bosibl i drafodaeth fwy penodol gael ei chynnal ynghylch meysydd allweddol lle y ceir anghytuno pan gyflwynir y cynllun archwilio. Dylai'r grŵp rhanddeiliaid gydweithio i greu cymaint o gonsensws â phosibl. **Dylai'r Grŵp wneud pob ymdrech i gyttuno ar amseriad a chamau cyflawni safleoedd yn ystod cyfnod y cynllun.**

Sut i Lunio Taflwybr Tai

5.73 Wrth ddyfeisio sail dystiolaeth y CDLI, mae'r taflwybr tai yn cynnwys tair elfen:

Noder bod y gyfradd adeiladu flynyddol yn cwmpasu tai'r farchnad a thai fforddiadwy gyda'i gilydd ac nad oes angen ei rhannu at ddibenion y taflwybr.

- **Dealltwriaeth o amseru a chamau cyflawni holl gydrannau'r cyflenwad tai dros gyfnod y cynllun** (unedau â chaniatâd cynllunio, dyraniadau a hap-ddatblygiadau). Dylid cwblhau Tablau 19 ac 20 i lywio'r broses hon. Bydd cyfraddau hap-safleoedd (*gall ACLlau ddewis gwneud dadansoddiad manylach*) yn gyfradd safonol flynyddol dros gyfnod y cynllun fel rheol. Nid oes unrhyw broblem o ran cyfrif ddwywaith yn gysylltiedig â hap-safleoedd bach a safleoedd â chaniatâd cynllunio (islaw'r trothwy).

Dylai ACLlau sicrhau nad oes unrhyw achosion o gyfrif ddwywaith yn ystod blynyddoedd cynnar y cynllun rhwng hap-safleoedd mawr a'r rhai â chaniatâd cynllunio. **Yn ymarferol, nid argymhellir y dylid cynnwys cyfradd lwfans fawr ar gyfer hap-safleoedd yn ystod dwy flynedd gyntaf y cyflenwad amcanestynedig er mwyn osgoi problemau o ran cyfrif ddwywaith.** Rhaid i gyfanswm yr holl elfennau hyn gyd-fynd â'r ddarpariaeth tai.

- Tabl cryno sy'n nodi amseriad a chamau cyflawni tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar gyfer yr holl elfennau tai drwy gydol cyfnod y cynllun (Tabl 21) i gyfrifo cyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig (heb gynnwys hyblygrwydd). **Y gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig fydd y meincnod a ddefnyddir i fesur faint o dai o gyflenwyd drwy'r broses Adroddiadau Monitro Blynyddol** (Gweler Pennod 8).

- Graff taflwybr sy'n dangos holl gydrannau'r cyflenwad tai sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r ddarpariaeth tai, a gyflwynir fesul cam dros gyfnod y cynllun er mwyn cyflawni'r gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig. **Bydd y graff hefyd yn dangos graddfa ac amseriad hyblygrwydd dros gyfnod y cynllun** (Diagram 16).

5.74 Mewn perthynas â Thabl 21, nodwch yr egwyddorion canlynol:

- **Rhes C** – Dylid nodi cyfanswm y tai a ddarperir ar gyfer cyfnod y cynllun fel cyfradd safonol ym mhob colofn (nid ffigur blynyddol).
- **Rhes D** – Dylid nodi cyfanswm y gofyniad yn y cynllun ar gyfer cyfnod y cynllun fel cyfradd safonol ym mhob colofn (nid ffigur blynyddol).
- **Rhes K** – Cyfanswm y tai a gwblhawyd (Rhes E+F+G+H+I+J).
- **Rhes L** – Mae trywydd tai wedi'i baratoi drwy gwblhau Tablau 19, 20 a 21, gan greu Diagram 16, Trywydd Datblygu Tai. Bydd y trywydd hwn yn pennu sut y gellir rhagweld y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer tai bob blwyddyn, yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, ar draws cyfnod cyfan y cynllun (y bariau fel a nodir yn Diagram 16).
- Dylid nodi bod y rhagdybiaethau a ddefnyddir i greu y Trywydd Datblygu Tai (sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth) yn cynnwys amseru, cyfnodau a darparu'r safleoedd. Bydd hyn yn amrywio rhwng safleoedd oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys maint y safle, amser paratoi, safleoedd adfywio, llygredd ac ati. Effaith hyn yw y bydd y Trywydd Datblygu Tai (sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth) yn fwa, yn adlewyrchu'r amrywiol gyfraddau cyflawni blynyddol.
- Bydd lefel y ddarpariaeth dai yn fwy na'r gofynion tai, gan bod y ddarpariaeth dai yn cynnwys y lwfans hyblygrwydd, wedi'i fynegi mewn canran (gweler paragraff 5.58). Bydd felly'n angenrheidiol i benderfynu ar y **Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR)** ar gyfer cyfnod y cynllun, yn seiliedig ar yr hyn sydd angen i'r cynllun ei adeiladu (y llinell ddu ar Ddiagram 16).
- Fodd bynnag, yn ystod y broses o baratoi'r cynllun, mae'n bosibl y bydd rhagdybiaethau o ran cyfnodau a chyflawni'r safleoedd dros weddill cyfnod y cynllun yn newid. Gellid darparu safleoedd yn gynharach, neu'n hwyrach, neu mewn symiau mwy neu lai yn y dyfodol. Hefyd, mae'n bosibl na fydd y tai sydd wedi'u cwblhau o ddechrau cyfnod y cynllun yn cyfateb â'r rhai hynny a ystyriwyd yn briodol ar y cychwyn. Bydd cyfuniad o'r ffactorau hyn yn arwain at Drywydd Datblygu Tai gwahanol (yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth) ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun, fydd yn fwa o fath ychydig yn wahanol.

- Felly bydd angen penderfynu ar **AABR** gwahanol, nifer y tai sydd angen eu darparu bob blwyddyn dros weddill y cynllun, ar amrywiol gamau cyn mabwysiadu'r cynllun. Bydd hyn yn adlewyrchu'r Trywydd Datblygu Tai wedi'i ddiweddarau, er yn seiliedig ar y tai sy'n ofynnol ar gyfer gweddill y cynllun, yn hytrach na'r ddarpariaeth.
- Er mwyn penderfynu ar yr AABR, dylid lluosio Rhes K gyda'r Ffactor Addasu ar gyfer bob blwyddyn yn dilyn y flwyddyn gwblhau wirioneddol sy'n hysbys. Mae'n rhaid addasu Rhes K i adlewyrchu'r tai gwirioneddol sydd wedi'u cwblhau o ddechrau cyfnod y cynllun, yn ogystal â sut y mae rhagdybiaethau ynghylch darparu y safleoedd yn y dyfodol yn datblygu. Gellir defnyddio'r broses hon o addasu'r AABR drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun.
- Bydd yn hanfodol cynnal AABR terfynol wedi'i addasu cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r AABR hwn yn allweddol gan ei fod yn y gofyniad cyflenwi tai blynyddol y caiff y cynllun ei fonitro yn ei erbyn (gweler paragraffau 8.14 i 8.17).
- Erbyn diwedd cyfnod y cynllun (blwyddyn 15) dylai'r AABR cronol sydd wedi'u cwblhau fod yn gyfanswm y tai gofynnol o fewn y cynllun. Mae'n bosibl na fydd y ffigurau yn hollol gywir, o bosibl, oherwydd talgrynnu rhifau. Mae'r fformiwla i gyfrifo y Ffactor Addasu wedi'i nodi isod.

$$\text{Ffactor Addasu} = \frac{\text{Gofynnol} - \text{Cwblhau}}{\text{Darpariaeth} - \text{Cwblhau}}$$

Enghraifft fel Diagram 16: 12,000 Darpariaeth, 10,435 Gofynnol, 874 Cwblhau

$$\text{Ffactor Addasu} = \frac{10,435 - 874}{12,000 - 874}$$

$$\text{Ffactor Addasu} = \frac{9,561}{11,126}$$

$$\text{Ffactor Addasu} = 0.8593$$

Er mwyn bod yn glir, nid yw'r fformiwla yn newid yr hyblygrwydd cyffredinol yn y cynllun; bwriedir iddo addasu'r gyfradd adeiladu flynyddol ddiwygiedig er mwyn ystyried nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd ac unrhyw ddiwygiadau i'r gofyniad a/neu'r ddarpariaeth yn sgil archwilio'r cynllun. Wedyn, bydd cymhwyso'r ffactor addasu at Res K yn sicrhau nad oes unrhyw anghysondebau yn y cyfrifiadau rhifiadol dros weddill cyfnod y cynllun. Y tabl hwn fydd y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol â dangosyddion ar gyfer tai a gyflawnwyd.

- **Rhes M** - Nifer cronol rhagamcanol y tai a gwblhawyd yn ôl blwyddyn Er enghraifft, byddai nifer cronol y tai a gwblhawyd ym mlwyddyn olaf y cynllun yn cyfateb i'r gofyniad o ran tai, gan ganiatáu addasiad bach ar gyfer materion yn ymwneud â thalgrynnu i fyny/i lawr, lle y bo'n briodol.
- **Rhes N** – Gweddill y tai a gwblhawyd (y gofyniad o ran tai llai nifer rhagamcanol y tai a gwblhawyd yn ôl blwyddyn). Nifer gweddill y tai a gwblhawyd ym mlwddyn olaf y cynllun fyddai sero.

Tabl 19: Amseru a Chamau Cyflawni Dyraniadau Newydd

Tabl 20: Amseru a Chyflawni Safleoedd â Chaniatâd Cynllunio

Amseru a chamau cyflawni dyraniadau (2018-2033)		Camau Cyflawni'r Datblygiad (2018-2033)																	
Haen Anheddiad / Parth Twf	Enw Safle a Ddyramwyd	*Cyfanswm capasiti'r safle	Oedi tan ddechrau'r gwaith adeiladu mewn misoedd	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun
			Cyfnodargyfer / Amser rhwng tratodaethau cyflwyno cais / cael caniatâd cyn ymgeisio / cynllunio a'r cynllunio a ymgynghoriad / penderfyniad bodloni amodau perthnasol a galluogi adeiladu'ry safle	Cwblhau	U/C														
Parth y De	Safle A																		
Anheddiad A	Safle B																		
Anheddiad B	Safle C																		
Anheddiad C	Safle D																		

* Safleoedd sy'n gallu darparu mwy o gartrefi y tu hwnt i gyfnod y cynllun


Amseru a chamau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio (2018-2033)		Camau Cyflawni'r Datblygiad (2018-2033)																		
Haen Anheddiad / Parth Twf	Enw Safle	*Cyfanswm capasiti'r safle	Oedi tan ddechrau'r gwaith adeiladu mewn misoedd	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun	
			Cwblhau	U/C	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	
Parth y De	Safle A																			
Anheddiad A	Safle B																			
Anheddiad B	Safle C																			
Anheddiad C	Safle D																			

* Safleoedd sy'n gallu darparu mwy o gartrefi y tu hwnt i gyfnod y cynllun

Tabl 21: Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig

	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-2033
Blwyddyn y Cynllun Datblygu Lleol															
A Blwyddyn	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1
B Y blynyddoedd sy'n weddill															
C Cyfanswm nifer y tai wedi eu darparu															
D Cyfanswm y galw am dai yny Cynllun Datblygu Lleol															
E Nifer y tai wedi eu cwblhau mewn gwirionedd ar safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															
F Nifer y tai wedi eu cwblhau mewn gwirionedd ar safleoedd bach yn ystod y flwyddyn															
G Nifer y tai y disgwyliir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn															
H Nifer y tai y disgwyliir iddynt gael eu cwblhau ar fanciau tir yn ystod y flwyddyn															
I *Nifer y tai y disgwyliir iddynt gael eu cwblhau ar hapsafleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															
J Nifer y tai y disgwyliir iddynt gael eu cwblhau ar hapsafleoedd bach yn ystod y flwyddyn															
K Cyfanswm y tai wedi eu cwblhau (E+F+G+H+I+J)															
L Cyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig – Cyfanswm y tai y disgwyliir iddynt gael eu cwblhau bob blwyddyn (G+H+I+J) wedi'i addasu â ffactoro X% i dai agwbheirnydyfodol. Nid yw'r ffactor addasu'n cael ei gymhyso i unrhyw dai wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn rhes E ac F.															
M Cyfanswm cromol rhagamcanol y tai wedi eu cwblhau															
N Gweddill y tai wedi eu cwblhau (y gofyniad o ran tai wedi llymu nifer rhagamcanol y tai wedi eu cwblhau fesul blwyddyn)															
*Ni chyfrifir hapsafleoedd mawr o fewn dwy flynedd gyntaf y cynllun															

Diagram 16: Tafllwybr Datblygu Tai



Rhestr Wirio Gryno ar gyfer Tai

✓	Sicrhau bod polisiâu'r cynllun yn glir o ran y ddarpariaeth tai, y gofyniad a'r elfen hyblygrwydd.
✓	Sicrhau bod y cynllun yn nodi dosbarthiad gofodol tai yn ôl categori anheddiad a'r gydran cyflenwad tai'n glir.
✓	Sicrhau bod yr elfennau tai wedi'u diffinio'n glir, yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
✓	Nodi'n glir a rhoi tystiolaeth ar gyfer camau a gwaith cyflawni'r holl gydrannau tai dros gyfnod y cynllun cyfan, yn flynyddol.
✓	Dylai ACLlau ystyried y berthynas rhwng dwysedd a lleoliad dyraniadau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a ddarperir gan ddatblygiadau a leolir o amgylch canolbwyntiau tramwy cyhoeddus/torfol,
✓	Bod yn realistig ynghylch pryd fydd safleoedd yn dod yn eu blaen dros gyfnod y cynllun. Dylai'r taflwybr fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cronol o gyfraddau adeiladu realistig, y gallu i gyflawni lefelau twf, camau ac amseru safleoedd allweddol, gofynion seilwaith a gwaith cyflawni a hyfywedd.
✓	Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Dylai'r taflwybr tai adlewyrchu gofynion/tybiaethau gweithio rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys rhai datblygwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Gellir paratoi Datganiad Tir Cyffredin gyda phartneriaid allweddol i gefnogi tybiaethau'r camau gwaith ynghylch lefelau twf a gwybodaeth fanwl am gamau cyflawni yn y cynllun.
✓	Dylid ystyried adlewyrchiad o'r broses gyfan o ddechrau cynllunio i gyflawni unedau. Dylai camau cyflawni safleoedd gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio, amser i roi caniatâd, cyflawni amodau a chyfradd adeiladu'r diwydiant/galw'r farchnad. Dylai hyn roi cymaint o sicrwydd â phosibl.
✓	Bydd taflwybr cadarn yn dangos bod amseriad a chamau cyflawni pob safle dros gyfnod y cynllun yn realistig ac yn gyflawnadwy.
✓	Dylai taflwybr cadarn ddangos hyblygrwydd sy'n uwch na'r gyfradd adeiladu flynyddol ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod y cynllun, gan dderbyn y bydd amrywiadau yn y gyfradd adeiladu.

Cyflogaeth – Cydrannau Cyflenwad a'r Fframwaith Polisi

Darpariaeth

5.75 Lefel y ddarpariaeth cyflogaeth Dosbarth B (hectarau) a nodir yn y cynllun yw'r gofyniad cyflogaeth, gan gynnwys clustog. Oherwydd ansicrwydd yn yr hinsawdd economaidd a gofynion newidiol y farchnad, mae'n hanfodol bod y cynllun yn ymdrin ag amgylchiadau annisgwyl ac yn darparu hyblygrwydd a dewis ar amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth. Nid yw strategaeth yn debygol o fod yn effeithiol os na all ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn golygu y dylid cynnwys clustog yn y cynllun.

$$\text{Gofyniad Cyflogaeth (ha) + Clustog (ha) = Darpariaeth Cyflogaeth (ha)}$$

Clustog

5.76 Mae Gofynion Tir Cyflogaeth yn cyfrifo'r glustog yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu blynyddol yn y gorffennol a chaiff hyn ei fynegi drwy gyflenwad blynyddoedd ychwanegol. Dylai graddfa'r glustog a bennir yn y Gofyniad Tir Cyflogaeth fod yn gymesur ac yn berthynol i'r gofyniad a graddau'r risg o ran darparu dyraniadau cyflogaeth. Gall gormodedd o dir cyflogaeth uwchlaw'r ddarpariaeth gael effaith andwyol ar ddatblygu dyraniadau cyflogaeth gan fod perygl o ddrysu'r farchnad, lleihau gwerth tir, atgyfnerthu cyfraddau swyddi gwag a llesteirio datblygiad at ddefnyddiau amgen. Dylai clustog fod yn realistig. Dylai'r fframwaith polisi yn y cynllun fod yn glir ynglŷn â'r ddarpariaeth cyflogaeth:

Polisi Cyflogaeth X:

Darperir tir ar gyfer x ha o dir cyflogaeth Dosbarth B

Tabl 22: Cydrannau Economaidd

Polisiau Cyflogaeth	Ystyriaethau allweddol / cysylltiadau â dogfennau eraill y sail dystiolaeth.
Dyraniadau cyflogaeth	Dyraniadau defnydd cymysg – Rhan o gynllun defnydd cymysg ehangach gan gynnwys defnyddiau Dosbarth B. O ran dyraniadau defnydd cymysg, dylai egwyddorion Creu Lleuedd a fframweithiau sgematig gael eu hymgorffori yn y cynllun gan nodi'n glir beth yw math, graddfa (ha), a lleoliad yr elfen gyflogaeth a'r camau cyflawni.

	<p>Camau cyflawni safleoedd allweddol – Dylid nodi camau cyflawni bras ar gyfer safleoedd cyflogaeth yn yr atodiad gweithredu a chyflawni. Gall Datganiad Tir Cyffredin fod yn fanteisiol.</p> <p>Ardaloedd Menter – Bydd Ardaloedd Menter, lle maent wedi'u dynodi, yn cyfrannu tuag at y ddarpariaeth cyflogaeth. Bydd angen i ffin Ardal Fenter gyd-fynd yn llawn â dynodiad Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dyraniadau 'sy'n cario ymlaen' – Cyn y gall dyraniadau mewn cynlluniau blaenorol gael eu cario ymlaen, mae angen dangos tystiolaeth eu bod yn gallu cael eu cyflawni. Os na, dylid eu dad-ddyrannu. Fodd bynnag, gellir eu cadw a'u dyrannu yn y cynllun at ddibenion dyhead neu adfywio ond ni ddylid dibynnu arnynt yn rhifiadol i gyfrif tuag at y ddarpariaeth.</p> <p>Defnyddiau Atodol – Gall gwasanaethau a chyfleusterau ategol gefnogi rôl a swyddogaeth ehangach safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu a'u diogelu. Mae polisïau'r cynllun yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau ategol gael eu datblygu, ar yr amod nad ydynt yn tanseilio uniondeb cyfanrwydd y safle cyflogaeth. Dylent ategu, nid dominyddu.</p> <p>Defnyddiau Gwastraff – Mae dyraniadau cyflogaeth cyffredinol a safleoedd a ddiogelir (Dosbarth B2) yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff, ar yr amod nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â pherygl llifogydd gyda mathau penodol o brosesu gwastraff, h.y. bwyd gwastraff (gweler Nodyn Cyngor Technegol 15 ' Datblygu a Pherygl o Lifogydd'). Dylai safleoedd a ffefrir ar gyfer defnyddiau gwastraff gael eu nodi'n glir mewn polisi.</p>
<p>Safleoedd cyflogaeth a ddiogelir</p>	<p>Mae Gofynion Tir Cyflogaeth yn nodi safleoedd cyflogaeth Dosbarth B presennol i'w cadw at ddefnydd cyflogaeth. Dylid rhestru safleoedd mewn polisi diogelu ar wahân a'u nodi'n ofodol ar y Map Cynigion.</p> <p>Dylai safleoedd a ddiogelir gynnal y safle fel sbardun cyflogaeth ac economaidd allweddol yn yr ardal. Dylid eu diogelu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau Dosbarth B.</p>

<p>Colli tir/adeiladau cyflogaeth i ddefnyddiau amgen</p>	<p>Dylai cynlluniau gynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i reoli detholiad penodol o ddefnyddiau eraill, nad ydynt yn rhai Dosbarth B, ar safleoedd cyflogaeth.</p> <p>Dylai colli safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol fod yn amodol ar feini prawf polisi llym gan fod cynigion yn debygol o gael eu cyflwyno ar dir sy'n cael ei ddefnyddio gan ddiwydiannau cyflogaeth hŷn a mwy traddodiadol â gwerth tir is. Mewn rhai achosion, bydd yn bwysig cadw'r tir ar gyfer cwmnïau llai ac unedau deori newydd sy'n ymsefydlu mewn ardal.</p> <p>Dylai ystyriaeth allweddol yn y meini prawf polisi gynnwys tystiolaeth ar farchnata tir ac adeiladau cyflogaeth presennol, gan gynnwys tystiolaeth gadarn am hyd y cyfnod marchnata, yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir ac unrhyw ymatebion a dderbynnir.</p>
--	---

Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr

Asesu'r Angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

5.77 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALLau) asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a bod â pholisïau ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLI. Mae Cylchlythyr 005/2018 y cynllun Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn atgyfnerthu'r safbwynt hwn. Bydd yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn rhan o'r sail dystiolaeth a fydd yn destun craffu cyhoeddus drwy'r broses o baratoi cynllun a'r archwiliad cyhoeddus.

5.78 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ALLau i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen a nodwyd am leiniau ychwanegol yn cael ei ddiwallu. Er mwyn gallu asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn gywir, cyflwynodd adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ofyniad i ALLau gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Rhaid cynnal asesiadau bob pum mlynedd o leiaf ar ôl mabwysiadu'r asesiad cychwynnol yn 2016. Rhaid iddynt fod yn destun ymgynghoriad a chael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

5.79 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl y mae'n rhaid i ALLau eu hystyried wrth baratoi asesiadau, o dan y teitl 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr – Canllawiau'. **Mae'r canllawiau yn ei gwneud hi'n ofynnol nodi'r angen cyfredol, angen yn y dyfodol ym mlwyddyn 5 a'r angen yn y dyfodol dros gyfnod y CDLI presennol.**

Rhaid i ACLlau sicrhau bod yr Asesiad wedi'i ddiweddarau ac yn nodi'r angen ar gyfer cyfnod cyfan y cynllun. Bydd angen cwblhau'r gwaith hwn, yn ogystal â darparu dynodiadau safle priodol (lle bo'n berthnasol) cyn y cam adneuo statudol. Rhaid i ACLlau sicrhau bod yr Asesiad wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Gweinidog perthnasol yng Nghymru. Rhaid i statws yr Asesiad sy'n cefnogi'r cynllun fod yn glir.

Lle mae ACLlau yn cynnal adolygiad o gynllun, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddiweddarau'r Asesiadau nad ydynt yn cynnwys ffigur angen ar gyfer cyfnod cyfan CDLI amgen a chytuno arnynt, fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Rhaid i'r CDLI fod yn glir ynghylch canlyniadau'r Asesiad yn nhermau cyfanswm yr angen a'r math o angen dros gyfnod y cynllun a'r amserlenni gofynnol ar gyfer diwallu'r angen yn unol â'r dystiolaeth.

5.80 Dylid cynnwys tabl sy'n nodi'n glir y gwahanol categorïau o angen dros y cyfnod perthnasol yn y cynllun (Tabl 23). Bydd yn helpu eglurder y cynllun, yn enwedig lle mae angen amrywiaeth a math o safleoedd. Bydd yn sicrhau bod modd ffurfio dangosyddion monitro effeithiol hefyd.

Tabl 23: Angen Sipsiwn a Theithwyr dros Gyfnod y Cynllun

Math / Lleoliad yr Angen	2016-2021	2021 – 2025	Cyfanswm Angen Cyfnod Cynllun CDLI	Dyraniad sydd ei angen yn y CDLI?
e.e. Preswyl	X llain	X llain	X llain	le / Na Dyrennir tir yn x ar gyfer y llain / Na – rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer x llain
Siewmyn	X llain	X llain	X llain	le / Na Dyrennir tir yn x ar gyfer y llain
Safle tramwy	X llain	X llain	X llain	le / Na Dyrennir tir yn x ar gyfer y llain
Cyfanswm lleiniau cyfnod y cynllun CDLI	X llain <u>angen brys</u>	X llain (2021-2025)	xx llain <i>x – Preswyl</i> <i>x – Siewmyn</i> <i>Teithiol</i> <i>x Tramwy</i>	

5.81 Dylai'r cynllun nodi'n glir os yw'r sefyllfa wedi newid ers i'r Asesiad gael ei gyhoeddi. Er enghraifft; bydd safleoedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio ers cyhoeddi'r Asesiad yn effeithio ar lefel yr angen sy'n weddill i'w gyflawni drwy'r cynllun. Lle mae'r angen wedi newid ers yr Asesiad, rhaid ei fynegi'n glir a'i gyfiawnhau.

5.82 Dylai ALLau ystyried manteision gweithio ar y cyd ar Asesiadau er mwyn gwneud y gorau o effeithlonrwydd ac adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau cynllunio effeithiol ar sail ranbarthol. Gallai hyn arwain at ddull cyffredin a chysondeb o ran nodi anghenion a dyrannu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn CDLlau.

Dyrannu Safleoedd – Addas a Chyflawnadwy

Lle mae angen dyrannu safleoedd, dylai ACLlau gynnwys polisi penodol sy'n nodi'r dyraniad(au) Sipsiwn a Theithwyr gan egluro lleoliad a chyfanswm nifer y lleiniau sydd eu hangen.

Mae methu â nodi safleoedd addas a chyflawnadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd yn strategaeth risg uchel a bydd yn cynyddu'r risg na fydd y CDLI yn cael ei farnu'n gadarn.


5.83 Bydd angen i'r ACLI gyfiawnhau drwy'r dystiolaeth fod unrhyw ddyraniad arfaethedig yn ddigonol o ran maint i ddiwallu'r angen o fewn yr amserlenni a nodir ac nad oes unrhyw rwystr i'w gyflawni. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn glir ynghylch y broses asesu safle a gynhaliwyd. Rhaid i safleoedd fod yn addas a chyflawnadwy a chydymffurfio â gofynion polisi cenedlaethol. Rhaid i'r sail dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni unrhyw ddyraniad(au) fod ar gael ar y cam adneuo. Rhaid ystyried safbwyntiau cyrff statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, adrannau perthnasol y Cyngor (e.e. priffyrdd, draenio, Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy) a dangos eu bod yn profi bod safleoedd yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac nad oes rhwystrau i'w cyflawni.

5.84 Os yw safle arfaethedig yn destun cyfyngiad llifogydd C1, er gall egwyddor datblygu fod yn briodol o safbwynt polisi cenedlaethol, yr ystyriaeth allweddol i'r ACLI yw dangos bod y dynodiad(au) arfaethedig yn addas ac yn gyflawnadwy yn unol ag unrhyw fesurau lliniaru y gallai fod eu hangen er mwyn bodloni gofynion polisi cenedlaethol.

5.85 Bydd angen i'r ACLI gynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) digon manwl a gofyn am gyngor gan y corff statudol, Cyfoeth Naturiol Cymru cyn adneuo. **Mae dynodiad sydd â gwrthwynebiad gan gorff statudol na ellir ei oresgyn yn strategaeth risg uchel.**

Profion Hyfywedd ar gyfer Cynllun Datblygu

5.86 Un o'r profion allweddol o 'gadernid' cynllun yw dangos ei fod yn gyflawnadwy ac yn hyfyw. Nodir yr **hierarchaeth hyfywedd** isod.



Beth yw Hyfywedd?

Gellir ystyried bod datblygiad yn hyfyw os, ar ôl ystyried yr holl gostau hysbys, gan gynnwys: polisi/rheoliadau'r Llywodraeth, yr holl gostau adeiladu a seilwaith, cost ac argaeledd cyllid, costau eraill fel ffioedd a swm wrth gefn, bydd gwerth y datblygiad yn creu gwared sy'n ddigon i roi elw digonol i'r datblygwr a gwerth tir sy'n ddigonol i annog perchennog tir i werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Gall datblygiad hefyd gael ei wneud yn hyfyw drwy argaeledd grantiau gan y Llywodraeth.

5.87 Mae hyfywedd a chyflawnadwyedd yn cychwyn ar y cam ymgeisiol lle dylid cyflwyno asesiad o hyfywedd gyda phob safle ymgeisiol. Mae'r adran Safleoedd Ymgeisiol yn nodi manylion yr hyn sydd ei angen ar y cam hwn. Bydd gwybodaeth a gesglir ar y cam hwn yn sail ddefnyddiol i lywio'r broses o baratoi'r cynllun a llywio'r astudiaethau hyfywedd lefel uchel a safle-benodol.

5.88 Rhaid i'r ACLI gynnal **arfarniad hyfywedd lefel uchel** i asesu lefelau bras hyfywedd datblygu mewn ardaloedd marchnad dai. Dylai ardaloedd marchnad dai eang nodi'r cyfraniad y gall safleoedd ei wneud at gyflawni seilwaith, tai fforddiadwy ac unrhyw ofynion polisi eraill. Dylai'r ACLI nodi a yw'n debygol y bydd unrhyw faterion neu gostau anarferol penodol i safle a allai effeithio ar hyfywedd safleoedd. Gallai hyn arwain at dargedau amrywiol ar gyfer canrannau tai fforddiadwy ar draws ardal yr ACLI.

5.89 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun, dylid cynnal **arfarniadau o hyfywedd penodol i safle** ar gyfer y safleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun (gall y trothwy maint amrywio rhwng ACLlau). Bydd arfarniad yn ei gwneud hi'n bosibl ystyried gwybodaeth fanylach gan ystyried manylion penodol y safle. Y dull a ffeirir yw gwneud hyn ar y cyd â hyrwyddwr safle sydd â mynediad at y manylion, neu fel arall drwy waith modelu manylach gyda thybjaethau penodol i safle. Gellir cael darlun manylach o lawer a all arwain at dargedau tai fforddiadwy gwell, yn hytrach na'r ardal ehangach a nodwyd yn yr arfarniad lefel uchel. Nid yw'r naill a'r llall yn gwrthddweud ei gilydd, ond yn hytrach mae'r arfarniad safle-benodol yn mireinio'r arfarniad lefel uchel. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

5.90 Ar y cyfan, mae profion lefel uchel yn seiliedig ar fethodoleg sy'n rhoi gwerth tir gweddilliol (ar ôl darparu ar gyfer elw digonol i'r datblygwr) a gaiff ei gymharu wedyn â'r gwerth (neu werthoedd) tir meincnod ar gyfer ardal ddaearyddol. Fel arfer, mae arfarniadau safle-benodol yn cynnwys gwerth meincnod tybiedig; y prawf wedyn yw a fydd yr elw gweddilliol yn rhoi elw priodol i ddatblygwr yng nghyd-destun amodau'r farchnad sydd ohoni. Ar gyfer y cynllun datblygu, mae angen profion lefel uchel er mwyn rhoi sicrwydd y gellir cyflawni'r cynllun a'r polisiâu mewn egwyddor, gan ystyried targedau tai fforddiadwy, seilwaith a gofynion polisi eraill. Bydd angen i'r safleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni strategaeth y cynllun ddangos hefyd y gellir eu cyflawni drwy ystyried costau, cyfyngiadau a gofynion penodol i safle manylach. (Gweler hefyd yr adrannau ar seilwaith a chyflawni ym Mhennod 5). **Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid cynnal arfarniadau pellach o hyfywedd yn ystod y cam cais cynllunio.**

Tybiaethau Craidd Profion Hyfywedd

5.91 Mae sawl model hyfywedd. Mae rhai o'r modelau hyn yn canolbwyntio ar ddull ardal safle tybiannol, tra bod eraill yn seiliedig ar ddetholiad o safleoedd penodol. Mae gan y naill a'r llall eu rhinweddau, er eu bod yn canolbwyntio ar elfennau

ychydig yn wahanol, gyda chanlyniadau tebyg. Mater i bob ACLI yw ystyried y dull penodol a ddewisir i ddangos tystiolaeth o hyfywedd.

5.92 Nid yw'r Llawlyfr yn pennu model penodol, ond mae angen rhoi sylw i'r cydrannau allweddol canlynol a'u mynegi'n glir yn sail dystiolaeth y cynllun, gan fynegi'n glir sut mae canlyniadau'r gwaith hyfywedd wedi llywio polisiau a dyraniadau'r cynllun i ddangos y gellir eu cyflawni. Dyma'r cydrannau allweddol:

Diagram 17: Cydrannau hyfywedd

Cymysgedd datblygiad (dwysedd a mathau o dai)	Disgwyliadau perchennog tir / Meincnod Gwerth Tir
Prisiau tai	Costau anarferol (lle bo'n berthnasol)
Wrth gefn	Safleoedd Tybiannol / Gwirioneddol
Ffioedd	Effeithiau cronol polisiau'r cynllun (rhwymedigaethau a106/Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL))
Costau Adeiladu	% Tai Fforddiadwy a Rhaniad Deiliadaeth (canolradd, rhentu cymdeithasol)
Elw datblygiad	Bandiau Canllawiau Costau Derbyniol (ACG)




Cydweithio â Rhanddeiliaid Allweddol

5.93 Mae cynnwys y gymuned fusnes, datblygwyr, perchenogion tir a phartion eraill â diddordeb o gamau cynnar llunio cynllun yn hanfodol er mwyn sicrhau consensws eang ar y mewnbynnau hyfywedd allweddol. Mae'n arfer da i ACLlau gynnwys y diwydiant er mwyn sicrhau consensws lle bynnag y bo modd cyn cynnal astudiaethau hyfywedd. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gytundeb ar y canlyniadau, yn ogystal â lleihau'r meysydd hynny lle mae anghytuno hefyd. Gellir defnyddio Datganiad Tir Cyffredin i ddangos lle ceir consensws, neu feysydd lle mae anghytuno ar y cydrannau hyfywedd.

5.94 I sicrhau'r lefel uchaf o gonsensws dylid ffurfio Grŵp Llywio Hyfywedd (VSG) (Diagram 18) sy'n dod â phartneriaid allweddol ynghyd i gytuno ar y costau penodol ar gyfer yr holl gydrannau. Dylid cadw cytundeb ar y costau ar gyfer yr amrywiol gydrannau hyfywedd (Diagram 17), cofnodion cyfarfodydd a nodiadau o gytundeb neu anghytundeb, fel y'u hadlewyrchir yn y Datganiad Tir Cyffredin, a'u cynnwys a'u hymgorffori yn y modelu hyfywedd i gefnogi polisiau a dyraniadau'r cynllun. Dim ond

o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud amrywiadau i allbynnau allweddol y Grŵp Llywio'n ddiweddarach yn y broses; bydd angen cyfiawnhau'r rhain yn llawn.

Diagram 18: Model Grŵp Astudiaeth Hyfywedd



5.95 Dylid defnyddio dull 'llyfr agored' yn y broses hon ble bynnag a phryd bynnag y bo'n bosibl. Mae tryloywder tystiolaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth realistig o gostau a gwerth gwaith datblygu yn yr ardal leol, gan ddarparu'r dystiolaeth briodol a fydd yn galluogi ACLI i benderfynu a ellir cyflawni safle, gan barchu sensitifrwydd masnachol (lle y bo'n berthnasol). **Rhaid i berchenogion tir a datblygwyr sy'n hyrwyddo safleoedd drwy'r cynllun datblygu sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn ac ystyrllon yn y broses.** Os na fydd tîrfeddianwyr na datblygwyr yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos sut y cyflawnir safleoedd o fewn amserlenni a nodwyd, ni ddylai'r safleoedd hynny gael eu dyrannu yn y cynllun. Dylai ACLIau osgoi cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i ddatblygwyr uwchlaw'r hyn a nodir yn y model hyfywedd sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Lle mae ACLIau ac asiantaethau llywodraeth yn hyrwyddwyr safle, rhaid i unrhyw safleoedd a hyrwyddir ddangos bod modd eu cyflawni drwy eu cynnwys mewn strategaeth waredu. Dylid trin pob hyrwyddwr tir yn gyfartal.

5.96 Cydnabyddir y gall gwybodaeth sy'n angenrheidiol i ddangos hyfywedd fod yn sensitif yn fasnachol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheswm digonol dros beidio â darparu'r dystiolaeth briodol. Gall yr ACLI drafod gyda'r diwydiant datblygu sutgellir

cyflwyno'r dystiolaeth mewn fformat sy'n llywio'r broses ond sy'n diogelu sensitifrwydd masnachol. Er enghraifft, gellid defnyddio ffigurau cyfun, yn hytrach na dadansoddiad mwy manwl o gostau.

5.97 Mae'n hanfodol bod gwaith hyfywedd, yn seiliedig ar allbynnau'r Grŵp Llywio Hyfywedd, yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y broses baratoi statudol. **Mae angen i'r dystiolaeth barhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn gymesur â'r cam a gyrhaeddwyd.**

Mewnbynnau Craidd (Profi Lefel Uchel)

5.98 Mae'r ystyriaethau modelu craidd y dylid eu hystyried wrth gynnal profion hyfywedd lefel uchel i'w gweld yn Nhabl 24.

Tabl 24: Ystyriaethau Modelu Hyfywedd

<p>Safleoedd Tybiannol / Safleoedd Gwirioneddol</p>	<p>Penderfynu a ddylid profi safle o faint tybiannol, neu safleoedd gwirioneddol sydd â deiliadaeth a dwysedd sy'n adlewyrchu'r safleoedd hynny y mae'r cynllun yn dibynnu arnynt. Dylid penderfynu ar ystyriaethau manwl, megis a yw'r safleoedd a brofir yn ardal safle gros neu'n dir datblygadwy net. Er y bydd arwynebedd gros yn berthnasol (yn enwedig ar safleoedd mawr) i lywio disgwyliadau perchennog tir ynghylch gwerth y safle, dylid seilio cymariaethau rhwng safleoedd drwy waith 'meincnodi' ar arwynebedd datblygadwy net ym mhob achos.</p> <p>Dylid profi nifer digonol o safleoedd er mwyn bod yn ffyddiog nad yw'r canlyniadau'n dibynnu ar anghysondebau sy'n deillio o faint sampl bach. Mae'r Grŵp Llywio yn grŵp priodol i gadarnhau'r pwyntiau hyn. Bydd rhywfaint o ddadansoddiad ariannol o ddatblygiadau diweddar, hyd yn oed yn fras, yn helpu i gefnogi sail dystiolaeth ACLI hefyd.</p> <p>Os yw strategaeth y cynllun yn un tir llwyd yn bennaf, bydd hi'n bwysig sicrhau bod y safleoedd a'r tybiaethau hyfywedd/costau yn cyd-fynd oherwydd mae'n bosibl bod gan safleoedd tir llwyd fwy o gyfyngiadau/costau y mae angen eu hystyried yn y model. Ar y llaw arall, efallai y bydd gan safleoedd maes glas gostau 'agor'. Hefyd, bydd angen profi safleoedd ar draws y gwahanol is-farchnadoedd o fewn ardal cynllun gan ei bod yn annhebygol y bydd gwerthoedd yr un fath ar draws ardal gyfan ACLI.</p> <p>Dylid ystyried hyfywedd safleoedd bach (<5 neu <10) hefyd er mwyn pennu trothwyon priodol ar gyfer tai fforddiadwy.</p>
--	---

Ardaloedd y Farchnad: Aliniad y Strategaeth a'r Hierarchaeth Aneddiadau	<p>Mae'n bosibl na fydd ardaloedd y farchnad dai a brofwyd mewn Astudiaethau Hyfywedd Tai Fforddiadwy (AHVS) yn cyd-fynd bob amser â'r strategaeth, anheddiad neu ardaloedd tai. Dylid ei gwneud yn glir sut mae'r targedau polisi a ddewiswyd yn ymwneud â'r sail dystiolaeth.</p>
Cymysgedd Datblygiad / Cymysgedd Deiliadaeth /Gwerthoedd ACG	<p>Gall y math o dai a'r cymysgedd o ddeiliadaeth ar safle effeithio'n sylweddol ar hyfywedd, a niwtral o ran deiliadaeth yw'r 'sefyllfa waethaf bosibl; Er enghraifft, gall cyfran uwch o dai canolradd wella hyfywedd yn sylweddol. Bydd yr Astudiaeth o'r Farchnad Dai Leol yn ddarn craidd o dystiolaeth sy'n nodi'r math o dai/cymysgedd deiliadaeth sydd eu hangen yn y cynllun. Mae'n bwysig bod yr isafswm a brofwyd yn ddangosol o'r hyn sydd ei angen (fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol).</p> <p>Mae'n bwysig bod y math o dai/cymysgedd deiliadaeth sydd mewn golwg yn realistig hefyd. Bydd trafodaethau â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn hanfodol i sicrhau bod y cymysgedd deiliadaeth sydd mewn golwg yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol. Byddai'n amhriodol cynnwys elfen fawr o gartrefi canolradd yn y model os nad oes hanes llwyddiannus o'u darparu. Gallai fod yn briodol treialu senario niwtral o ran deiliadaeth gan y gallai hyn gynnwys mwy o hyblygrwydd yn y cynllun. Yn y pen draw bydd angen i brofion a'r gwaith llunio polisi daro cydbwysedd rhwng (a) cyflawni cymaint o dai fforddiadwy ag sy'n bosibl (gan gofio mai anaml y bydd y cyflenwad yn cyfateb i'r galw) a (b) cyfateb i ganfyddiadau diweddaraf yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol o ran y rhaniad deiliadaeth i'r graddau y bo'n bosibl ac yn rhesymol.</p> <p>O ran y math o dŷ, bydd hi'n hanfodol trafod gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac mae'n debyg y bydd angen arbenigedd ar alw'r farchnad leol er mwyn llywio'r cymysgedd tybiedig o fathau o dai. Gallai'r cymysgedd gael ei lywio gan ddatblygiadau diweddar sydd wedi'u cymeradwyo / cwblhau.</p> <p>Mae'n bwysig hefyd bod y band Canllawiau Costau Derbyniol (ACG) cywir yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â gwerthoedd tai fforddiadwy fesul uned yn y model hyfywedd; bydd angen trafod hyn gyda'r diwydiant o'r cychwyn cyntaf.</p>
Ffrydiau Cyllid	<p>Lle mae cyllid cyhoeddus wedi'u sicrhau i gynorthwyo gyda chyflawni safleoedd, ar sail generig, dylid cynnwys hyn mewn tybiaethau</p>

	<p>ariannol i bennu a yw'r paramedrau hyfywedd bras wedi gwella i hwyluso datblygiad.</p>
<p>Gwerth Gwerthu Perchennog Tir / Meincnodi</p>	<p>Dylai'r dystiolaeth fod yn glir ynglŷn â pha enillion ariannol (neu feincnod gwerth tir) a fyddai mewn gwirionedd yn denu perchennog tir i werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig mewn ardal neu ardal is-farchnad.</p> <p>Bydd tystiolaeth o brisiau a dalwyd am dir tebyg yn fan cychwyn addas, wedi'i haddasu lle y bo angen er mwyn ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng polisi cynllunio blaenorol ac arfaethedig a / neu ofynion o ran seilwaith. Disgwylir y bydd gwerthoedd tir, o bosibl, yn amrywio ar draws ardal weinyddol ACLI, gan adlewyrchu, ymhlith pethau eraill, werthoedd preswyl rhwng marchnadoedd tai.</p>
<p>Costau Adeiladu a newid deddfwriaethol hysbys a allai effeithio ar gostau adeiladu dros gyfnod y cynllun</p>	<p>Bydd data a gesglir drwy'r broses asesu hyfywedd safle yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gostau datblygu mewn ardal. Y dystiolaeth orau, lle y bo ar gael, yw adroddiad llyfr agored am gostau yr aed iddynt yn ddiweddar ar ddatblygiad(au) tebyg mewn ardal neu ardal is-farchnad.</p> <p>Os na fydd tystiolaeth o'r fath ar gael, gellir defnyddio costau adeiladu a gafwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladau (BCIS). Caiff y BCIS ei ddiweddarau'n flynyddol a chaiff y costau eu llywio gan safleoedd datblygu bach/canolig a'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â nhw.</p> <p>Er y gall fod arbedion maint ar gyfer safleoedd mwy o faint, o ran costau adeiladu sylfaenol, gall fod mwy o ofynion seilwaith yn gysylltiedig â safleoedd mwy o faint a chostau 'annormal' (e.e. halogiad) nad yw'r BCIS, o bosibl, yn rhoi digon o sylw iddynt. Pan fo costau o'r fath yn hysbys, dylid ymdrin â nhw ar wahân. Bydd angen i'r ACLI, ar y cyd â'r diwydiant, ystyried a ddylid gwneud addasiadau i'r model i ystyried unrhyw gostau uwch, neu gynnal profion safle-benodol ar safleoedd allweddol.</p> <p>Bydd newidiadau i reoliadau yn y dyfodol (e.e. rheoliadau adeiladu) yn cael eu cwmpasu gan gostau'r BCIS yn y pen draw. Fodd bynnag, gall fod cyfnod lle nad yw deddfwriaeth wedi dod i rym eto ond y bydd hynny'n digwydd yn ystod cyfnod y cynllun, lle mae'r gwaith ar hyfywedd yn digwydd cyn i'r costau hyn gael eu cynnwys, neu ble nad yw'r costau wedi cael eu hystyried gan ffigurau BCIS eto. Mae'n bwysig bod y gwaith ar hyfywedd yn cynnwys yr holl gostau hysbys er mwyn sicrhau bod y gwaith yn berthnasol, yn gyfoes ac yn gadarn.</p>

<p>A106/Ardoll Seilwaith Cymunedol Effaith gronol mesurau lliniaru uniongyrchol a gofynion polisi</p>	<p>Dylai'r gwerth cyfartalog a briodolir i ofynion polisi/rhwymedigaethau a106/tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol fesul annedd gael ei osod ar lefel i sicrhau bod mesurau lliniaru priodol, seilwaith angenrheidiol a gofynion polisi cronol y cynllun (megis tai fforddiadwy, manau agored, systemau draenio cynaliadwy ac addysg) yn cael eu cyflawni. Ni ddylai eu cost gronol achosi i ddatblygiad beidio bod yn hyfyw. Efallai y bydd angen addasu gofynion polisi sy'n datblygu er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gallu cyflawni gwaith datblygu.</p> <p>Bydd angen cynnal trafodaethau â datblygwyr a darparwyr seilwaith allweddol er mwyn llywio'r polisi/rhwymedigaethau a106/tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol hwn i sicrhau bod gofynion seilwaith a pholisi yn hyfyw ac yn gallu cael eu cyflawni. Dylai cyfraniadau ariannol yn y gorffennol roi syniad / man cychwyn.</p>
<p>Elw Datblygwyr</p>	<p>Bydd angen i'r model gynnwys maint elw cyfartalog er mwyn sicrhau bod elw realistig i ddatblygwr yn rhan o'r model. Yr amrediad arferol o elw a ddisgwylir gan ddatblygwyr ac sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y rhan fwyaf o fenthycwyr yw rhwng 15% ac 20% o'r Gwerth Datblygu Gros (GDV) ar gyfer datblygiadau a fydd yn cael eu gosod neu eu gwerthu ar y farchnad agored. Mae elw is, yn seiliedig ar 6% o'r gost, yn cael ei gymhwyso i ddarparu tai fforddiadwy fel rheol.</p> <p>Mae'n bwysig deall y mathau o ddatblygwyr sy'n gweithredu mewn ardal a sut y caiff tir ei ddwyn ymlaen. Mewn ardaloedd gwledig, mae datblygwyr llai o faint yn gweithio ar fodel gwahanol i adeiladwyr tai mawr. Gall risg uwch fod yn gysylltiedig â safleoedd mwy o faint os ydynt yn cymryd llawer o amser i'w hadeiladu ac efallai y bydd angen mwy o elw, ond efallai na fydd hyn yn wir am safleoedd llai sy'n cael eu datblygu'n gyflym. Mae elw datblygwyr yn gysylltiedig â chyfraddau llog a godir am gyllid hefyd.</p>
<p>Darpariaeth wrth gefn</p>	<p>Ni ddylai llunwyr cynlluniau gynllunio yn ôl y lwfans hyfywedd ond dylent ganiatáu ar gyfer darpariaeth wrth gefn i ymateb i farchnadoedd sy'n newid ac osgoi'r angen i ddiweddarau cynlluniau'n rheolaidd. Bydd cynnwys darpariaeth wrth gefn o fewn yr astudiaeth hyfywedd yn dad-risgio'r cynllun o ran bod lle i ddarparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau economaidd / materion sy'n benodol i'r safle. Dylai'r sail dystiolaeth fod yn glir pa ganran a gymhwyswyd a ble o fewn y model.</p>
<p>Ffioedd</p>	<p>Mae canran yn cael ei gynnwys ar gyfer ffioedd proffesiynol a chostau marchnata fel rheol. Bydd maint y datblygwyr sy'n gweithredu yn yr ardal a maint a natur y safle yn dylanwadu ar hyn. Bydd gan ddatblygwyr o wahanol faint fynediad at wahanol raddau o arbedion</p>

	maint, a/neu gallant adeiladu o stoc o ddyluniadau a mathau o dai safonol, yn hytrach na dylunio tai unigol ar gyfer pob safle.
Profion Sensitifrwydd	Dylid cynnal profion sensitifrwydd ar elfennau craidd y model i archwilio amrywiadau posibl yn yr elfennau unigol, h.y. costau BCIS, maint yr elw. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i fynd i'r afael â gwahaniaeth barn drwy'r broses o baratoi cynllun. Gellir defnyddio'r profion sensitifrwydd i lywio lefel y ddarpariaeth wrth gefn a/neu unrhyw glustog ychwanegol a ddefnyddir yn yr astudiaeth lefel uchel.

Arfarniadau o Hyfywedd Safleoedd Penodol

5.99 Bydd arfarniadau o hyfywedd safleoedd allweddol yn y cynllun yn rhoi mwy o fanylder a sicrwydd na dull profi lefel uchel. Maent yn cynnig cyfle i adlewyrchu amgylchiadau lleol yn well o fewn ardal ehangach y farchnad/is-farchnad yn ogystal â rhai costau hysbys, yn hytrach na dull tybiannol.

5.100 Bydd angen diwygio a/neu fireinio'r mewnbynnau hyfywedd a nodir uchod fel rhan o'r arfarniadau o hyfywedd y safleoedd. Gall yr ACLI ofyn am arfarniadau o hyfywedd safleoedd fel rhan o'r broses o lunio cynllun, wedi'u cyflwyno gan hyrwyddwyr safleoedd, neu eu paratoi ar y cyd rhwng y ddau barti lle gellir rhannu costau. Bydd cydweithio yn fuddiol i bawb.

5.101 Mae'n debygol y bydd yn cymryd sawl mis i gwblhau'r gwaith hwn yn dibynnu ar nifer y safleoedd; dylai ACLIau sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau cyn y cam adneuo. Dylai fod yn rhan annatod o'r broses o lunio cynlluniau ac nid 'ychwanegiad' ar y diwedd. Mae Tabl 25 yn nodi lefel y manylder sydd ei angen. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysol ond mae'n rhoi arweiniad ar lefel y manylder/sicrwydd sydd ei angen.

5.102 Cydnabyddir y gallai lefel y wybodaeth a ddarperir amrywio a bydd yn dibynnu ar ble mae'r safle yn y broses rheoli datblygiad a pharodrwydd y tirlfeddiannwr / datblygwr i ymgysylltu. **Mae'n hanfodol bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei darparu gan yr holl bartïon perthnasol er mwyn sicrhau bod modd datblygu safleoedd a'u cynnwys yn y cynllun datblygu.** Lle na fu'n bosibl cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol, efallai y bydd hi'n briodol eu heithrio o'r cynllun.

- Dylai'r holl wybodaeth gael ei hasesu drwy ddull llyfr agored. Pan na ellir darparu gwybodaeth benodol, gall fod yn briodol amnewid costau ac egwyddorion cyffredinol. Er enghraifft, defnyddio meincnod gwerth tir yn hytrach na phris gwerthu gwirioneddol y tir neu swm uwchlaw'r EUV.

- Gall costau, gan gynnwys costau seilwaith arferol, fod yn seiliedig ar gostau adeiladu hysbys a/neu'r BCIS (wedi'u diwygio i fod yn fwy 'priodol i'r safle' os yw'n berthnasol).
- Dylai costau afreolaidd gael eu hystyried i raddau perthnasol a defnyddiol.
- Os nad yw'r mathau penodol o dai/nifer yr anheddau/cymysgedd anheddau yn hysbys eto, gellir seilio arfarniad ar safleoedd o faint tebyg, gan ystyried gofynion y cynllun datblygu o ran polisïau dylunio a dwysedd.

5.103 Bydd safleoedd ar wahanol gamau yn y broses gynllunio/cais cynllunio, gyda rhai wedi cyrraedd yn bell yn y cam cyn-ymgeisio, gyda mwy o fanylion yn hysbys mewn perthynas â chostau, gofynion seilwaith a chyfyngiadau.

Tabl 25: Mewnbynnau Craidd: Arfarniadau Safle

Mewnbyn	Gofynion Gwybodaeth
Anheddau'r Farchnad Agored	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cartrefi a'r math o dai (a fydd yn cynnwys arwynebeddau llawr mewnol gros a nifer y lloriau ar gyfer pob math o dŷ, lle y bo ar gael) • Amcangyfrif o bris gwerthu cartrefi ar adeg yr asesiad o hyfywedd
Anheddau Fforddiadwy	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cartrefi a'r math o dai (a fydd yn cynnwys arwynebeddau llawr mewnol gros a nifer y lloriau ar gyfer pob math o dŷ, lle y bo ar gael) • Amcangyfrif o bris gwerthu cartrefi/band ACG • Gwybodaeth am Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / grantiau sydd ar gael, os yw'n hysbys
Cynllun Dyluniad y Safle	<ul style="list-style-type: none"> • Yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael (h.y. cam cais amlinellol neu gais llawn, neu egwyddorion dylunio bras) • Cynllun camau'r gwaith / ardaloedd datblygu eang • Arwynebedd gros a net y gellir ei ddatblygu ar ôl i gyfyngiadau allweddol ac egwyddorion dyluniad gael eu hystyried
Amseru a Chamau Cyflawni	<ul style="list-style-type: none"> • Amseru a chamau'r gwaith o adeiladu unedau • Ble mae'r safle yn y broses ddatblygu? • Ble mae'r trafodaethau arni?
Manylion Perchenogaeth Tir	<ul style="list-style-type: none"> • Pwy yw perchennog y tir, y datblygwr, os na, pryd fydd y datblygwr yn prynu'r tir? • Pris a dalwyd / a gytunwyd ar gyfer y tir.
Costau Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> • Costau/ffioedd wrth symud ymlaen i'r cam cais cynllunio.
Costau Adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> • Costau adeiladu gan gynnwys gofynion rheoleiddio a fydd yn effeithio yn awr ac yn y dyfodol agos

Costau Seilwaith Ffisegol	<ul style="list-style-type: none"> • Systemau Draenio (gan gynnwys asesiadau modelu hydrolog/astudiaethau dichonoldeb gofynnol a chostau datblygu cysylltiedig) • Priffyrdd • Costau agor a chostau allanol cyffredinol megis mynediad ffordd i anheddau a thirlunio) • Costau Afreolaidd (lle bo'n berthnasol) e.e. halogiad
Ffioedd Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl ffioedd proffesiynol perthnasol
Darpariaeth wrth gefn	<ul style="list-style-type: none"> • Lwfans canran neu swm
A106 / Ardoll Seilwaith Cymunedol / Polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Rhwymedigaethau a106/gofynion Ardoll Seilwaith Cymunedol penodol • Ymgorffori costau hysbys a gofynion polisi cronol
Gwerthu a Marchnata	<ul style="list-style-type: none"> • Ffioedd sy'n gysylltiedig â gwerthu a marchnata
Costau Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> • Ffioedd sy'n dylanwadu ar gapasiti benthyca ac elw
Elw Datblygu	<ul style="list-style-type: none"> • Maint elw datblygwyr

Mae'n bwysig bod y fethodoleg ar gyfer cynnal arfarniadau o safleoedd yn cael ei nodi'n glir a'i chymhwyso'n gyson.

5.104 Bydd hyn yn sicrhau bod cydrannau hyfywedd yn glir ac y gellir eu cymharu â safleoedd eraill. Mae hyn yn caniatáu cymhariaeth ag astudiaeth lefel uchel hefyd. Os oes anghytundeb ynghylch elfennau penodol, gellir nodi hyn yn glir er mwyn caniatáu trafodaethau mwy penodol yn ddiweddarach yn y broses. Dylai'r fethodoleg gael ei nodi'n glir yn y sail dystiolaeth, gan gynnwys esboniad o'r cysylltiad rhwng y ddau fodel.

Dylai ACLlau ystyried casglu data ar hyfywedd/costau drwy ddull cronfa ddata ar draws ardal y cynllun a all gynorthwyo'r gyda'r broses o lunio cynlluniau, monitro a rheoli datblygiad.

Gosod Targedau Tai Fforddiadwy

5.105 Mae darparu tai fforddiadwy yn flaenoriaeth genedlaethol allweddol. Dylai ACLlau ddarparu cymaint â phosibl o dai fforddiadwy yn eu CDLI, ar sail y dystiolaeth o hyfywedd dyraniadau/safleoedd yn eu cynllun. Gellir dyrannu safleoedd ar gyfer cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy. Rhaid i bolisiâu fod yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, oni bai bod tystiolaeth leol atodol neu waith ar safle penodol yn awgrymu fel arall.

5.106 Bydd canlyniad y profion hyfywedd yn dangos lle mae elw cystadleuol i'w gael o ddatblygu. Bydd hyn yn cyfrif am yr holl gostau, derbynebaw a thybiaethau cysylltiedig ar ddisgwyliadau perchnogion tir. Bydd yr 'hyblygrwydd' cadarnhaol hwn yn pennu graddfa'r tai fforddiadwy y gellir eu darparu ar draws ardal y cynllun cyfan,

neu ar safleoedd unigol. Bydd hyn wedyn yn cael ei drosi'n gyfran (%) o dai fforddiadwy i anelu ati, gan adlewyrchu'r dystiolaeth hyfywedd.

5.107 Os caiff targed tai fforddiadwy ei osod yn rhy uchel, mae'n annhebygol y caiff y lefelau hynny eu cyflawni a gallent effeithio ar y gwaith o gyflawni safleoedd ac ymestyn y broses rheoli datblygiad. Rhaid i'r targedau a ddewisir fod yn realistig a chyd-fynd â'r sail dystiolaeth a'r tybiaethau ynddi. Bydd y mewnbynnau hyfywedd a drafodir yn yr adran hon yn pennu pa lefel o dai fforddiadwy sy'n realistig ac yn hyfyw. Fodd bynnag, gall safleoedd gael eu cyflwyno o hyd lle nad yw'r perchennog tir yn barod i dderbyn yr elw o ran y cynnydd yng ngwerth y tir drwy fecanweithiau eraill, fel pwerau prynu gorfodol. Os felly, bydd angen i dystiolaeth ddangos sut gellir cyflawni'r mecanwaith arall hwn.

Nod cyffredinol astudiaeth hyfywedd lefel uchel yw sicrhau bod y mewnbynnau allweddol ynddi yn glir, yn realistig, ac yn berthnasol a bod y targedau a'r trothwyon tai fforddiadwy a ddewisir yn hyfyw yn y rhan fwyaf o achosion.

5.108 Efallai y bydd angen gosod targedau ar wahân ar gyfer safleoedd allweddol os yw'r sail dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn fwy priodol. Mae'n hanfodol bod ACLI yn adnabod ei ardal a'r math o ddatblygwyr sy'n gweithredu yno er mwyn cynhyrchu tystiolaeth gadarn. **Bydd gwahaniaethau rhwng gweithredwyr mawr a bach o ran modelau busnes, costau gweithredu, y gallu i fenthyg arian, gwahanol sylfaen costau ac ati, a dylai ACLI eu hystyried wrth fodelu hyfywedd.**

Fframwaith Polisi Tai Fforddiadwy-Rhestr Wirio

✓	Dylai cyfanswm yr unedau tai fforddiadwy y mae'r cynllun yn eu cyflawni gael eu nodi yn y polisi, nid y cyfiawnhad rhesymedig. Gellir ategu hyn drwy gyflwyno tabl sy'n nodi'r cydrannau cyflenwi sy'n sail iddo yn y cyfiawnhad rhesymedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eglurder y cynllun a monitro effeithiol.
✓	Dylai lefel yr angen o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol presennol gael ei gynnwys yn y cyfiawnhad rhesymedig ynghyd â'r gofynion o ran rhaniad deiliadaeth (canolradd a rhentu cymdeithasol). Bydd hyn yn gwneud y cynllun yn eglur gan sicrhau ei fod yn hyblyg, yn addas i'r diben ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i sicrhau tai fforddiadwy.
✓	Dylai fod gan y polisi tai fforddiadwy dargedau a throthwyon canrannol sy'n gysylltiedig â'r sail dystiolaeth hyfywedd. Lle maent yn wahanol, e.e. ar gyfer amgylchiadau lleol penodol, dylid cyfiawnhau ac esbonio hyn yn glir.
✓	Dylai'r targedau tai fforddiadwy (%) gysylltu'n glir ag ardaloedd gofodol a thystiolaeth hyfywedd. Os profir y gwaith hyfywedd ar ardaloedd y farchnad/cod post nad yw'n cyd-fynd â strategaeth aneddiadau'r cynllun, dylid esbonio'r berthynas hon. Dylai fod yn glir ble mae'r targedau canrannol yn berthnasol yn ofodol.
✓	Dylai'r sail dystiolaeth egluro pa drothwyon safle sy'n hyfyw i geisio cyrraedd y targedau canrannol; dylid nodi'r rhain yn glir yn y polisi.

✓	Dylai'r polisi gynnwys cyfeiriad at ganiatáu trafodaethau ynghylch hyfywedd fesul safle. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai hyn ddigwydd.
✓	Dylai'r polisi nodi'n glir beth fydd yn digwydd os bydd y targed yn arwain at sicrhau uned rannol ac o dan ba amgylchiadau y ceisir symiau gohiriedig, lle bo'n berthnasol (gall CCA ymhelaethu ar gyfrifiadau manwl).

Gweithredu a Chyflawni

Darpariaeth Seilwaith

5.109 Dywed y polisi cynllunio cenedlaethol bod darparu seilwaith digonol ac effeithlon i gyflawni'r cynllun yn hanfodol. Gellir rhannu'r seilwaith yn ddwy elfen: seilwaith cyfleustodau cyhoeddus a ddarperir gan gyrrff statudol, a'r gofynion polisi/mesurau lliniaru ar/oddi ar y safle sydd eu hangen i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol. Dylid cyfuno'r ddwy elfen i ddarparu asesiad cyffredinol o'r seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu a chyflawni safleoedd a'r cynllun. Os oes costau'n gysylltiedig â gofynion seilwaith, er enghraifft, gwelliannau i fynediad neu ddarparu tai fforddiadwy, dylai'r rhain gael eu hystyried mewn asesiad hyfywedd.

Dylai'r CDLI nodi'n glir pryd y disgwylir i gynigion a dyraniadau gael eu cyflwyno, cysylltiadau ag unrhyw seilwaith gofynnol, nodi gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith a nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am ariannu gwelliannau o'r fath a phryd yng nghyfnod y cynllun er mwyn hwyluso datblygiad.

5.110 Mae darparu seilwaith cyfleustodau cyhoeddus, gan gynnwys cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, band eang, trydan a nwy, yn rhan bwysig o greu cymunedau cynaliadwy. Dylai datblygiad gael ei leoli a gweithredu gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n caniatáu ar gyfer y defnydd mwyaf cynaliadwy o welliannau presennol i'r seilwaith a gwelliannau yn y dyfodol. Wrth baratoi cynllun bydd yn hollbwysig defnyddio'r pum ffordd o weithio i wneud y canlynol:

- **Cynnwys** y cyrrff ymgynghori penodol sy'n gyfrifol am ddarparu seilwaith cyfleustodau cyhoeddus cyn gynted â phosibl yn y broses o lunio'r cynllun i lywio lleoliadau yn y dyfodol i'w datblygu
- Deall **capasiti**'r rhwydwaith seilwaith presennol yn ôl y math o seilwaith
- Esbonio ble y gwneir **gwelliannau** i'r rhwydwaith a'r cynnydd mewn capasiti a ddaw yn eu sgil
- Gwybod **pryd** bydd gwelliannau'n cael eu gwneud, wedi'u cysylltu â rhaglen blaenariannu, h.y. rhaglen fuddsoddi pum mlynedd Cynllun Rheoli Asedau (AMP) Dŵr Cymru.
- Nodi'r **rhwyngberthynas** rhwng cynyddu capasiti a thwf yn y dyfodol
- Deall a oes angen ariannu unrhyw **ddiffyg/diffygion** yn y ddarpariaeth seilwaith cyn rhaglenni ariannu yn y dyfodol ac ystyried hyn yn y gwaith modelu hyfywedd ariannol ar gyfer datblygiad
- Paratoi **Cynllun Seilwaith** gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio. Bydd y Cynllun Seilwaith yn rhan o sail dystiolaeth CDLI, er mwyn dangos sut gall y cynllun ddarparu'r seilwaith angenrheidiol, yn y lle cywir, gan y corff priodol, ar adeg briodol

Pwy i'w Gynnwys?

5.111 Mae Rheoliadau CDLLau yn nodi cyrff ymgynghori penodol (Rheoliad 2 CDLLau). Rhaid i ACLlau ymgynghori â'r cyrff hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae'r cyrff hyn yn gyfrifol am elfennau hanfodol o'r seilwaith ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n hanfodol wrth ddangos sut caiff y cynllun ei gyflawni.

Enghraifft o Gyrff Ymgynghori Penodol – Rheoliad 2 (Rheoliadau CDLLau)
Llywodraeth Cymru (sy'n cynnwys pob Adran berthnasol (nid yw'n rhestr hollgynhwysol) – Cadw, trafnidiaeth (fel yr Asiantaeth Priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd), y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL) rheoli llifogydd a dŵr, cydraddoldeb, y môr, yr economi a'r Gymraeg)
Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (cynghori ar berygl llifogydd, draenio a systemau draenio cynaliadwy, bioamrywiaeth, Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS a HRA)
Byrddau Iechyd Lleol (yr angen am gyfleusterau iechyd, gan gynnwys gofal iechyd sylfaenol)
Dŵr Cymru (seilwaith carthffosiaeth a dŵr)
Darparwyr cyfathrebu (telathrebu a band eang)
Ymgymrwyr trydan a nwy (capasiti a gofynion grid/rhwydwaith)
ACLLau cyfagos

5.112 Mae gan gyrff ymgynghori penodol rôl allweddol ym mhroses y cynllun datblygu gan mai nhw sy'n gyfrifol am ddarparu'r cyngor statudol ar strategaeth a chynigion cynllun o ran a yw:

- Yn dderbyniol ar lefel llunio cynllun
- Yn gallu cael eu lliniaru yn unol â gofynion deddfwriaeth a pholisïau perthnasol
- Yn gallu cael eu gwasanaethu gan seilwaith priodol ar yr adeg briodol

5.113 Mae'n hanfodol bod y cyrff ymgynghori penodol yn cael eu cynnwys mor gynnar â phosibl yn y broses o lunio'r cynllun er mwyn siapio/dylanwadu ar y dewis o safleoedd a strategaeth y cynllun. Dylid mynd ati i sicrhau cyfranogiad mewn dull â ffocws penodol er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ac arbedion effeithlonrwydd, gan sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael, ar yr adeg gywir.

5.114 Bydd cam cyntaf y broses o sicrhau cyfranogiad yn dechrau unwaith y bydd yr alwad am safleoedd ymgeisiol wedi'i chwblhau. Ni ddylai ACLlau gyflwyno rheistri hir o safleoedd ymgeisiol i gorff ymgynghori penodol a gofyn iddo am sylwadau. Dylai safleoedd ymgeisiol gael eu hidlo a'u blaenoriaethu fel bod y ffocws ar y safleoedd hynny sydd â phosibilrwydd rhesymol o gael eu dyrannu, yn unol â'r strategaeth a'r fethodoleg asesu sy'n esblygu. Disgwylir i ddarparwyr seilwaith ymateb yn gadarnhaol ac mewn modd amserol gan gynnig cyngor ar gynigion datblygu,

capasiti/cyfleoedd seilwaith ac amseru diweddariadau/gofynion. Gall cytundeb rhwng y ddwy ochr drwy baratoi Datganiad Tir Cyffredin, wedi'i fireinio wrth i waith ar y cynllun fynd yn ei flaen, fod yn ddull defnyddiol o ddarparu tystiolaeth o waith cyflawni/amseru'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r cynllun. Dylid nodi hyn yn glir yn y sail dystiolaeth a dylid nodi'r elfennau craidd/gofynion angenrheidiol i'w cyflawni yn glir yn y cynllun. Gall fod gan y cyrff ymgynghori penodol nodiadau cyfarwyddyd yn hyn o beth a dylai ACLlau ystyried y rheini yn eu rhaglen gynnwys.

Capasiti'r Rhwydwaith Presennol

5.115 Dylai ACLlau feddu ar ddealltwriaeth glir o faterion capasiti o fewn y rhwydwaith seilwaith presennol. O wybod lle nad oes rhagor o gapasiti ar gael mewn lleoliadau penodol, dylai cyfyngiadau posibl yn y rhwydwaith (a allai ryddhau capasiti o ganlyniad i fuddsoddi neu newid arferion gweithredol) neu lle mae ardaloedd o gapasiti ychwanegol, fod yn ffactorau allweddol o ran penderfynu ar leoliad datblygiadau yn y dyfodol.

5.116 O safbwynt seilwaith, bydd defnyddio'r capasiti o fewn y rhwydwaith presennol yn arwain at y gost ychwanegol isaf i'r darparwr rhwydwaith. **Y pwynt pwysig yw ystyried capasiti'r rhwydwaith seilwaith o'r cychwyn cyntaf wrth baratoi cynllun.**

Ble mae gwelliannau'n mynd i gael eu gwneud?

5.117 Bydd gan ddarparwyr seilwaith flaenraglen ariannu'n esbonio sut a phryd fydd gwelliannau yng nghapasiti'r rhwydwaith seilwaith yn y dyfodol yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, mae gan Dŵr Cymru Gynlluniau Rheoli Asedau ar gyfer rhaglenni buddsoddi pum mlynedd. Bydd cyd-leoli datblygiadau yn y dyfodol mewn mannau lle mae bwriad i fuddsoddi'n sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl. Bydd yn lleihau costau datblygu hefyd, gan gynyddu hyfywedd ariannol safleoedd, sy'n golygu y gellir cyflawni polisïau eraill y cynllun, fel tai fforddiadwy.

5.118 Yn ogystal â lleoli seilwaith newydd a/neu welliannau i seilwaith, mae angen dealltwriaeth o'r angen i gynyddu capasiti, yn yr ardaloedd eu hunain ac yn y rhwydwaith ehangach. Gall datrys cyfyngiadau yn y seilwaith presennol alluogi capasiti ychwanegol sydd eisoes yn y system, ond nad oes modd manteisio arno, i ddatblygu gwasanaethau. Mae angen i gynlluniau sicrhau y gall y galw gan ddatblygiadau yn y dyfodol gael ei ddiwallu gan welliannau yn y rhwydwaith. Nid yw gwelliannau i seilwaith presennol, neu seilwaith newydd, yn golygu uwchraddio ffisegol bob amser; weithiau gellir eu cyflwyno drwy ddatblygiadau technolegol.

Pryd fydd buddsoddiad yn digwydd?

5.119 Rhaid i seilwaith gael ei ddarparu'n brydlon gyda datblygiadau newydd. Dylai strategaeth y cynllun datblygu nodi camau cyflawni datblygiadau drwy gydol cyfnod y cynllun, wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r gwaith o ddarparu seilwaith. Mae angen tystiolaeth i ddangos sut mae'r seilwaith yn cefnogi'r taflwybr tai.

5.120 Bydd gan gyrrff ymgynghori penodol eu blaenraglenni buddsoddi eu hunain. Bydd y rhain yn nodi cyfnodau amser pan fydd seilwaith newydd a/neu seilwaith wedi'i uwchraddio yn cael ei roi ar waith. Bydd angen dangos tystiolaeth o'r cysylltiad rhwng amseriad buddsoddiad yn y dyfodol a sut mae'n cysylltu â chamau cyflawni datblygiad.

Rhyngberthynas Seilwaith

5.121 Mae angen i gynlluniau ddangos bod yr holl elfennau seilwaith uchod yn dod at ei gilydd. Bydd angen i unrhyw seilwaith y mae'r datblygiad yn dibynnu arno gael ei gyflawni yn y lle cywir, drwy'r drefn ariannu briodol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd yn unol â chamau'r gwaith datblygu.

Diffyg/Diffygion

5.122 Gall fod achosion lle mae safleoedd a gaiff eu cynnwys mewn cynllun yn briodol, ond na ellir eu cynnal gan seilwaith ar yr adeg sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth. Os yw safleoedd o'r fath i gael eu cynnwys yn y cynllun bydd angen tystiolaeth bod ffynonellau ariannu eraill yn gallu darparu'r seilwaith angenrheidiol, h.y. gall y datblygiad ei hun ariannu'r diffyg.

5.123 Os oes cyfyngiad seilwaith ar ddatblygu mewn lleoliad penodol, dylai'r ACLI asesu, ar y cyd â'r corff statudol perthnasol, a ellir ei oresgyn drwy rwymedigaeth gynllunio adran 106 neu, os oes un ar waith, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn ei hanfod, bydd hyn yn golygu bod y datblygwr/perchennog tir yn ariannu'r seilwaith ei hun cyn cael cyllid gan gorff ymgynghori penodol.

5.124 Lle bo'n ymarferol, bydd angen ystyried cost unrhyw seilwaith angenrheidiol yn y cyfrifiadau hyfywedd ariannol er mwyn sicrhau y gall datblygiad fynd rhagddo. Bydd angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod unrhyw rwymedigaeth gynllunio a106 yn cyd-fynd â'r profion perthnasol hefyd (yn y bôn, mesurau lliniaru uniongyrchol ar gyfer y datblygiad) neu os oes cais am Ardoll Seilwaith Cymunedol, ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, yn enwedig yr agwedd 'cyfuno' (Mae Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, Rheoliadau 122 a 123 yn cyfeirio at hyn). Mae'n hanfodol cynnwys yr ACLI, y datblygwr a'r corff ymgynghori penodol er mwyn alinio'r elfennau hyn.

Cynllun Seilwaith

5.125 Dylai ACLlau baratoi cynllun Seilwaith fel dogfen gefndir i ddangos yn glir sut bydd seilwaith priodol o ran capasiti, lleoliad, cyllid ac amseru ar waith i gefnogi'r gwaith o weithredu a chyflawni'r CDLI. Dylai ystyried yr holl bwyntiau uchod a dylid ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i waith ar safleoedd allweddol fynd yn ei flaen. Bydd y Cynllun Seilwaith yn ddarn allweddol o wybodaeth a dylid ei ddefnyddio hefyd ar gyfer monitro effeithiol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a'r adolygiad o'r cynllun. Gallai hefyd lywio gwaith ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, lle y bo'n briodol.

Mae Cynllun Seilwaith yn ffordd hanfodol o ddangos tystiolaeth o ofynion seilwaith a'u crynhoi fel a ganlyn:

Materion cyd-destunol a darpariaeth bresennol (e.e. nodi capasiti presennol y rhwydwaith seilwaith, carthffosiaeth, cyflenwad dŵr, trafndiaeth, cyfathrebu, band eang, addysg, seilwaith gwyrdd, cyfleusterau diwylliannol a chyfleusterau iechyd).

Y lleoliad/math o seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r dyraniadau yn y cynllun – Trafndiaeth (cerdded a beicio, ffyrdd a rheilffyrdd), Addysg (meithrin, cynradd, uwchradd), Iechyd (ysbytai, canolfannau iechyd, deintyddion, gofal yr henoed), Rheoli'r Amgylchedd (seilwaith gwyrdd, asedau bioamrywiaeth, perygl llifogydd a rheoli dŵr wyneb), Cyfleustodau (dŵr a dŵr gwastraff, nwy, trydan a thelathrebu).

Mecanwaith ariannu /camau cyflawni – Arweinydd/corff cyflawni, ffynonellau ariannu posibl, cyfnod cyflawni, amcangyfrif o'r costau, statws).

Cyflawnadwyedd – Ffactorau Eraill

5.126 Yn ogystal â'r seilwaith a ddarperir gan gyrrff ymgynghori penodol, neu sydd ei angen ar rai eraill ac yn cael ei gyflawni ganddynt, mae mathau eraill o fesurau lliniaru y mae angen eu bodloni er mwyn i'r datblygiad gyflawni gofynion Creu Lleoedd a chymunedau cynaliadwy a chael ei ystyried yn dderbyniol. Caiff gofynion lliniaru eu cyflawni'n aml drwy rwymedigaethau a106, neu amodau cynllunio, mesurau lliniaru uniongyrchol i wneud datblygiad yn dderbyniol. Mae enghreifftiau'n cynnwys: darparu mannau agored, lliniaru/digolledu mewn perthynas ag asedau ecolegol, neu welliannau i briffyrdd lleol. Bydd cynnwys adrannau perthnasol yr ALI a/neu asiantaethau allanol yn hanfodol yn hyn o beth. Dylid dod â mesurau lliniaru at ei gilydd fesul safle drwy Atodiad Gweithredu a Chyflawni y dylid ei gynnwys yn y cynllun.

Atodiad Gweithredu

5.127 Diben yr Atodiad Gweithredu a Chyflawni yw nodi'r materion, y cyfyngiadau, y camau cyflawni a'r mesurau lliniaru allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r cynigion yn y

CDLI, y gellir eu defnyddio fel sail i bennu dangosyddion monitro a sbardunau. Bydd yn cynnwys disgrifiadau cryno o'r safleoedd allweddol, ynghyd â throsolwg o'r materion cyflawni a gweithredu ar gyfer safleoedd penodol, yn cynnwys cyfyngiadau safleoedd, y mesurau a pholisïau lliniaru / digolledu angenrheidiol a gofynion polisi / rhwymedigaethau a106 / seilwaith. Bydd y wybodaeth hon yn egluro gofynion safleoedd allweddol o ran seilwaith ac yn rhoi gwybod i ddatblygwyr posibl am ddisgwyliadau wrth gyflwyno safleoedd yn y cam cais cynllunio gyda'r holl wybodaeth berthnasol yn hysbys. Bydd pob parti'n gwybod, ymlaen llaw, beth fydd i'w ddisgwyl ac o ganlyniad dylid ei gynnwys yng nghostau cyflwyno safleoedd o'r cychwyn cyntaf. Mae Tabl 26 yn nodi'r math o wybodaeth i'w chynnwys mewn Atodiad Gweithredu a Chyflawni.

5.128 Efallai y bydd angen eu polisïau penodol eu hunain ar safleoedd allweddol sy'n rhan annatod o'r gwaith o gyflawni'r cynllun sy'n nodi materion a chyfyngiadau allweddol, egwyddorion prif gynllunio, fframweithiau cysyniad a gofynion seilwaith lle bo'n briodol.

Tabl 26: Atodiad Gweithredu a Chyflawni

Enw /Cyfeirnod dyraniad safle	Maint y safle	Math o ddyraniad	Cyfanswm yr unedau	Cyfnodau Camau Cyflawni
Tir yn Ffordd W	x. x ha	(Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	(Preifat a Fforddiadwy) Unedau Preifat a Fforddiadwy	2018-2022 2023-2027 2028-2033
Disgrifiad o'r safle				
Lleolir y safle tir llwyd/maes glas x.x hectar hwn i'r dwyrain o bentref/tref y ar hen gae chwaraeon ger afon z.				
Materion a chyfyngiadau allweddol y safle				
<ul style="list-style-type: none"> • A oes gwelliannau mynediad a phriffyrdd? Sylwadau'r adran priffyrdd? • A oes materion yn ymwneud â pherygl llifogydd ar y safle? A yw'r corff statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi ymateb gan dynnu sylw at faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw? A oes angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd neu fesurau lliniaru eraill? • A oes cyfyngiadau o ran perchenogaeth tir? • A oes dynodiadau amgylcheddol/rhywogaethau ecolegol gwarchoddedig ar, neu o fewn pellter penodol i'r safle, y mae angen gwneud iawn amdanynt? A oes cyfleoedd i wella asedau ecolegol? A yw'r cyrff ymgynghori penodol wedi 				

gwneud unrhyw sylwadau ynghylch materion y mae angen mynd i'r afael â nhw? Canfyddiadau'r HRA?

- A yw'r safle'n cael ei wasanaethu'n briodol gan gyfleustodau (h.y. band eang, carthffosiaeth, dŵr)? Gweler y Cynllun Seilwaith sy'n crynhoi ymatebion y cyrff ymgynghori penodol.
- A yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg? A oes angen mesurau lliniaru?
- A oes materion archaeolegol? A yw'r safle'n effeithio ar ddynodiadau treftadaeth? A yw Cadw wedi tynnu sylw at unrhyw faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw?
- A oes problemau o ran halogiad/adfer?

Gofynion allweddol o ran seilwaith a pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn CCA lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad – gwelliannau i briffyrdd

Addysg – Nifer y lleoedd ysgol i blant

Tai fforddiadwy - X% yn unol â pholisi y

Mannau agored – hectarau/uned/math o uned

Cyfleustodau – dolen i'r Cynllun Seilwaith

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol. Er enghraifft:

Prif gynllun manwl ar gyfer safle/ardal benodol

Asesiad o'r Gymraeg

Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd

Gwelliannau amgylcheddol / atebion sy'n seiliedig ar natur (a geisir gan yr ACLI) mewn ymateb i'r sail dystiolaeth

Astudiaeth Tirwedd

Datganiad Trafnidiaeth

Asesiad Ecolegol

Gwerthusiad Archaeolegol

Treftadaeth


Asesiad Ynni

Pennod 6: Trosolwg o'r Gofynion Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu

Cyflwyniad

6.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r tasgau allweddol sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno'r CDLI i Weinidogion Cymru. Mae'n nodi rôl yr Arolygydd yn yr archwiliad a'r hyn a ddisgwylir gan yr ACLI a chyfranogwyr eraill, gan adlewyrchu canllawiau archwilio diweddaraf yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'n trafod mabwysiadu'r CDLI hefyd ar ôl derbyn adroddiad rhwymol yr Arolygydd. Crynhoir y broses fel a ganlyn.

Diagram 19: Y Broses Gyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu



Paratoi ar gyfer Cyflwyno

6.2 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol ar y cynllun adneuo ddod i ben a chyn cyflwyno'r cynllun, dylai'r ACLI ymgymryd â'r tasgau allweddol canlynol:

- Sicrhau bod yr holl ddogfennau tystiolaeth perthnasol i gyfiawnhau'r cynllun wedi'u paratoi. Dylid cyhoeddi unrhyw ddiweddariadau i ddogfennau presennol / tystiolaeth ychwanegol / Datganiad Tir Cyffredin, gan nodi'n glir eu statws, eu perthynas â fersiynau blaenorol a'r goblygiadau ar gyfer y cynllun (gweler y paragraffau ar Newidiadau â Ffocws, 6.3 a 6.13 – 6.22.)
- Ystyried sut mae sylwadau ar y CDLI adneuo angen ymateb neu ddim angen ymateb, goblygiadau i'r cynllun ac effaith unrhyw wybodaeth newydd
- Paratoi'r Adroddiad Ymgynghori diweddaraf
- Diweddarau adroddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a HRA, lle bo angen
- Cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch yr archwiliad, gofynion gweithdrefnol, amserlenni ac ati. – Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)
- Ailystyried amserlen y Cytundeb Cyflawni: Sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno'n unol â'r Cytundeb Cyflawni a diweddarau'r amserlen gydag amseroedd pendant ar gyfer y camau sy'n weddill o'r cynllun
- Penodi Swyddog Rhaglen
- Sicrhau bod y gronfa ddata ymgynghori wedi'i diweddarau a gwneud rhestr o'r holl bartïon i'w hysbysu am yr archwiliad, cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLI

6.3 Os yw ACLI yn defnyddio'r Weithdrefn Adolygu Ffurf Fer (SFR), ni fydd pob cam yn berthnasol (gweler paragraffau 8.20 i 8.38).

Newidiadau â Ffocws – Amgylchiadau Eithriadol

- **Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio Newidiadau â Ffocws, ac ni ddylid eu cynnwys yn awtomatig o'r cychwyn.** Bydd angen ystyried y goblygiadau o ran amseru ar gyfer amserlen y Cytundeb Cyflawni a'i ddiwygio os bydd angen
- Paratoi, cyhoeddi ac ymgynghori ar y Newidiadau â Ffocws ac unrhyw ddogfennau cefnogol perthnasol am gyfnod o chwe wythnos o leiaf, gan gynnwys Asesiad o Gynaliadwyedd a HRA wedi'u diweddarau
- Paratoi crynodeb o Sylwadau ar y Newidiadau â Ffocws ar gyfer yr Arolygydd
- Nid oes rheidrwydd i hysbysu'r Cyngor/Awdurdod Parc Cenedlaethol am yr ymatebion i'r Newidiadau â Ffocws

Darparu Tystiolaeth wedi'i Diweddaru/Ychwanegol

6.4 Dylai ACLlau osgoi gwneud newidiadau i'r cynllun cyn ei gyflwyno nad ydynt yn Newidiadau â Ffocws. Er y gallai ymddangos yn ddoeth gwneud newidiadau cynnil i eiriad y polisi neu'r cyfiawnhad rhesymedig, i egluro pethau'n well o bosibl, gall newidiadau gael goblygiadau ehangach. Pe bai hyn yn digwydd, byddai newidiadau o'r fath wedi cael eu gwneud heb ymgynghori yn eu cylch, gan roi rhanddeiliaid o dan anfantais o bosibl. Gall olygu hefyd nad yw'r mater yn cael ei nodi drwy'r broses archwilio, a gallai hyn arwain at her gyfreithiol i'r cynllun.

6.5 Os bydd ACLI yn dymuno gwneud mân newidiadau, nad ydynt yn Newidiadau â Ffocws yn nhyb yr ACLI, mae angen trafod hyn gyda'r Arolygydd o ran y camau gweithredu priodol i'w dilyn. Mae'n bosibl y gellid cynnig gwelliannau o'r fath drwy ddatganiadau gwrandawriad, a fydd yn arwain at newidiadau materion sy'n codi fel rhan o'r broses archwilio, sy'n destun ymgynghoriad ar y cyd â'r Newidiadau â Ffocws, neu ar wahân cyn y sesiwn gwrandawriad perthnasol. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar hyn ar y cyd â'r ACLI, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw randdeiliad yn cael ei roi dan anfantais.

6.6 Ni ddylai unrhyw ddiweddariadau a/neu dystiolaeth ychwanegol newid cynnwys y cynllun. Os bydd angen, dylai diweddariadau/tystiolaeth ychwanegol o'r fath gyfiawnhau cynnwys presennol y cynllun, neu gyflwyno'r dystiolaeth mewn pryd, h.y. efallai y byddai'n ddoeth diweddaru'r papur cefndir tai i ddangos yn ffeithiol faint o gartrefi sydd wedi'u cwblhau ers y papur cefndir gwreiddiol. Ni fydd hyn yn newid y polisi. Lle bo Datganiad Tir Cyffredin wedi'i baratoi i helpu i ddangos gwaith cyflawni, gallai hyn fod o gymorth i'r broses archwilio; ni ddylai newid elfennau sylfaenol y cynnig/cynllun.

6.7 Ym mhob achos, bydd trafodaethau cynnar gyda'r Arolygydd, gan egluro'n glir y rhesymeg dros unrhyw ddiweddariad/tystiolaeth ychwanegol, yn helpu i benderfynu pa gamau i'w cymryd a'r mecanwaith priodol i'w ddilyn wrth gyhoeddi unrhyw newid. Bydd cadw at amserlen y Cytundeb Cyflawni yn hanfodol i leihau'r risg y bydd amgylchiadau'n newid a'r angen i gynhyrchu tystiolaeth ychwanegol neu wedi'i diweddaru ar gyfer yr archwiliad.

Diweddaru'r Adroddiad Ymgynghori

6.8 Mae'r gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â chynnwys yr Adroddiad Ymgynghori i'w gweld yn Rheoliad 22(2) CDLlau. Mae'r Adroddiad Ymgynghori'n ddogfen allweddol sy'n nodi'r trywydd archwilio a chrynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan wrthwynebwyr drwy gydol y broses a dylid ei ddiweddaru ar ôl y cam adneuo. Dylai'r Adroddiad Ymgynghori nodi'n glir pwy sydd wedi cael ei gynnwys yng nghamau allweddol y broses, crynodeb o'r prif faterion a sylwadau a wnaed a chynnwys argymhellion o ran sut mae'r ACLI yn ystyried y dylid mynd i'r afael â phob

sylw. Dylai'r Adroddiad Ymgynghori nodi hefyd os bu unrhyw wyriad oddi wrth y Cynllun Cynnwys Cymunedau gan gynnwys esboniad o pam a'r goblygiadau.

6.9 Dylai'r Adroddiad Ymgynghori gynnwys rhestr o unrhyw newidiadau i'r cynllun adneuo a awgrymwyd gan ymatebwyr y mae'r ACLI yn cytuno â nhw. Os oes gwrthwynebiadau strategol a/neu sylweddol i'r cynllun adneuo neu wrthwynebiadau gan ymgynghoreion statudol, efallai y bydd yr ACLI am drafod ymhellach gyda'r ymatebydd (ymatebwyr) i weld a fyddant yn ailystyried eu gwrthwynebiad, a pha agweddau y gellir cytuno arnynt er mwyn lleihau unrhyw anghytundeb, mynd i'r afael â materion allweddol a sicrhau proses archwilio fwy effeithlon. Gellir nodi meysydd lle ceir cytuno/anghytuno â gwrthwynebwyr sylweddol, a allai gynnwys cyfaddawd, mewn Datganiad Tir Cyffredin i'r Arolygydd yn y cam hwn. Bydd maint unrhyw newidiadau arfaethedig a sut dylid ymdrin â nhw yn y broses yn ystyriaeth allweddol. (Gweler yr adrannau ar Dystiolaeth Wedi'i Diweddarau/Ychwanegol, Newidiadau â Ffocws a Newidiadau Materion sy'n Codi.)

Ystyried Cynigion Amgen a Gyflwynwyd yn yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo

6.10 Ar y cam adneuo mae gan bob rhanddeiliad y gallu i roi sylwadau ar y polisiau a'r safleoedd a gynigir. O ran dyraniadau safleoedd, gallai gwrthwynebwyr gytuno bod safle yn briodol, bod ganddo'r ffin gywir, h.y. cefnogi'r cynllun, neu nodi bod angen diwygio ffin y safle; dileu neu ymestyn rhannau, neu gallent awgrymu nad yw safleoedd wedi'u cynnwys yn y cynllun, h.y. wedi'u hepgor neu dylid eu dileu'n gyfan gwbl. Os bydd y gwrthwynebwyr yn ystyried bod y safleoedd sydd wedi'u hepgor o'r cynllun yn angenrheidiol am y rhesymau a nodwyd, mater i'r ACLI fydd ystyried a phenderfynu a ddylid eu cynnwys yn y cynllun ac ystyried unrhyw oblygiadau. Mater i'r Arolygydd fydd ystyried sut, neu os, caiff y safleoedd hyn eu hystyried drwy'r broses archwilio, fel sy'n digwydd gyda'r holl sylwadau.

Hysbysu Rhanddeiliaid

6.11 Dylai'r ACLI wneud rhestr o'r holl bartïon sydd i'w hysbysu am y gwrandawriad archwilio sydd i ddod, cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLI. Dylid llunio'r rhestr hon ar sail rhestri presennol o ymgynghoreion statudol a phawb a ofynnodd am gael eu hysbysu ar y cam cyn adneuo a'r CDLI adneuo (Rheoliadau 24 a 25 CDLIau). Y tu hwnt i gydnabod eu bod wedi derbyn sylwadau, nid yw'n ofynnol i ACLIau ymateb i sylwadau unigol, er y gallant ddewis gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ACLIau hysbysu pob ymatebydd o sesiynau gwrandawriadau archwilio'r cynllun sydd wedi'u trefnu (Rheoliad 23 CDLIau.).

Diweddaru Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r HRA

6.12 Dylai'r ACLI ystyried yr holl sylwadau a wneir yn y cam adneuo ar Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adroddiad HRA (lle y bo'n berthnasol) ac ystyried yr angen am unrhyw newidiadau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth sylfaenol ychwanegol, diwygiadau neu ddyraniadau newydd, neu effeithiau newydd yn yr ardal leol nas nodwyd o'r blaen. Dylid dogfennu unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny (i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a/neu'r HRA) yn llawn.

Newidiadau â Ffocws

Mae Newidiadau â Ffocws yn eithriadol eu natur. Dylai'r angen i gael Newidiadau â Ffocws ar adolygiadau o gynlluniau fod yn fach iawn ac ni ddylid eu cynnwys yn yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun o'r cychwyn.

6.13 Mae'r cam Newidiadau â Ffocws yn rhan anstatudol o'r broses o baratoi'r cynllun a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei ddefnyddio. Ni ddylai ACLI osod cynllun ar adnau oni bai ei fod o'r farn ei fod yn gynllun cadarn a rhaid iddo ystyried yn ofalus i ba raddau y bydd cynnig newidiadau ar ôl adneuo yn codi amheuon ynghylch cadernid cyffredinol y cynllun adneuo a thanseilio'r sefyllfa yn y cam archwilio.

6.14 Dylid osgoi newidiadau a gynigir ar ôl y cam adneuo lle bynnag y bo modd drwy gynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned, ar sail tystiolaeth gadarn. Ni ddylai newidiadau ffurfiol i'r cynllun a gynigiwyd cyn yr archwiliad fod yn ofynnol os yw'r broses o gynnwys y gymuned yn barhaus wedi bod yn effeithiol, bod pob dewis amgen realistig wedi cael ei ystyried yn briodol yn ystod y cam paratoi a bod y cynllun wedi'i seilio ar sail dystiolaeth gyfredol a chadarn.

Fel eithriad, efallai y bydd angen ystyried cynnig newidiadau er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gadarn, er enghraifft, os yw polisi cynllunio cenedlaethol wedi newid yn sylweddol. Ni ddylai newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol neu sylwadau sy'n nodi problem o ran cadernid nas rhagwelwyd godi drwy adolygu cynlluniau os yw'r broses baratoi wedi bod yn effeithiol ac felly ni ddylai gyfiawnhau'r angen am Newidiadau â Ffocws.

6.15 Dylid cyfyngu ar nifer y Newidiadau â Ffocws i adlewyrchu darnau allweddol o dystiolaeth, ond ni ddylent fynd at wraidd y cynllun. Mae'n rhaid i ACLI ystyried yn ofalus effaith unrhyw newidiadau yn ystod y cam hwn ar gadernid y cynllun yn ei gyfanrwydd, ei strategaeth, yn ogystal â'r HRA a phroses asesu integredig yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys unrhyw effeithiau cronol). Dylid ymgynghori ynghylch y Newidiadau â Ffocws cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi cyn cyflwyno'r cynllun. Os ystyrir bod angen Newidiadau â Ffocws, dylid

ymgynggori arnynt cyn i'r CDLI gael ei gyflwyno i'w archwilio, ond ni ddylent rwystro'r broses o gyflwyno'r cynllun.

6.16 Ni ddylai'r ACLI aros tan ddiwedd y cyfnod ymgynghori i gyflwyno'r cynllun i'w archwilio, ond cyflwyno'r cynllun cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i benderfyniad yr ACLI gael ei wneud. Bydd angen i'r ACLI gydgyssylltu'n agos â'r Arolygydd a benodwyd i benderfynu ar unrhyw oblygiadau amseru y gallai hyn eu cael ar yr amserlen archwilio.

6.17 Dylai'r ACLI ddilyn yr un broses ymgynghori ag y gwnaeth ar gyfer y cynllun adneuo, h.y. hysbysebu, drwy'r un cyfryngau a chyfnodau amser, yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar ddod (cyfnod o chwe wythnos o leiaf) yn ogystal â'r lleoliadau lle y gellir gweld dogfennau, gan gynnwys diweddarau'r wefan. Dylid labelu'r Newidiadau â Ffocws yn glir fel 'Atodiad' i'r cynllun wedi'i adneuo, sy'n nodi'r newidiadau y mae eisiau eu gwneud, unrhyw bolisiâu a thestun newydd/diwygiedig, wedi'u hategu gan ymresymu clir a thystiolaeth gadarn i gyfiawnhau pam mae angen y newidiadau. Dylai'r ddogfennaeth nodi'n glir mai dim ond ar y Newidiadau â Ffocws y gellir cyflwyno sylwadau ac nad yw hyn yn gyfle i ychwanegu at y sylwadau gwreiddiol. **Mae'n bwysig bod yr Atodiad sy'n cynnwys y Newidiadau â Ffocws yn glir ynghylch yr hyn y mae'r ACLI yn ceisio ei newid a pham er mwyn sicrhau bod yr Arolygydd mewn sefyllfa i'w hymgorffori yn ei adroddiad rhwymol, os ydynt yn cael eu hystyried yn briodol.**

Mae'n rhaid i'r ACLI nodi unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r Newidiadau â Ffocws o ran cadernid y cynllun gan ystyried y canlynol:

Sut mae'r Newidiadau â Ffocws yn berthnasol i strategaeth y cynllun. A gaiff y strategaeth ei newid o ganlyniad i'r newid(iadau)? Dylid ystyried y Newidiadau â Ffocws yn unigol ac ar y cyd o ran yr effaith ar y cynllun.

Sut bydd y Newidiadau â Ffocws yn berthnasol i amcanion llesiant Cynlluniau Llesiant, neu Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol ar gyfer yr ardal?

A yw'r Newidiadau â Ffocws yn cyd-fynd â Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gymeradwyo)? A fydd hyn yn codi materion cydymffurfiaeth gyffredinol?

A yw'r Newidiadau â Ffocws yn ystyried cynlluniau a strategaethau perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar gyflawni'r polisiâu yn y cynllun, e.e. Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol?

A oes gan y Newidiadau â Ffocws unrhyw oblygiadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol neu ddiwylliannol sy'n arwain at ddiwygio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd neu'r HRA? Pa waith ymgynghori pellach sydd wedi'i wneud, neu sy'n cael ei wneud, ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd neu HRA gan yr ACLI? Dylid ymgorffori pob effaith

mewn adroddiad diwygiedig ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a dylid rhoi cyhoedduswydd iddo a hysbysu'r cyrff ymgynghori.

6.18 Yr atodiad (sy'n cynnwys y Newidiadau â Ffocws), ar y cyd â'r cynllun adneuo a'r dystiolaeth ategol, fydd cynnwys y CDLI a gyflwynir i Weinidogion Cymru i'w archwilio. Ar yr amod bod yr atodiad wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i ddiwygio (os oes angen) gall yr Arolygydd ei dderbyn fel rhan o'r CDLI a gyflwynir; y CDLI a gyflwynir fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau â Ffocws fydd y man cychwyn ar gyfer ystyried cadernid drwy'r broses archwilio.

6.19 Dylai'r ACLI goladu ymatebion a dderbynnir ar y Newidiadau â Ffocws a'u hanfon ymlaen cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ynghyd â chrynodeb, yn uniongyrchol at yr Arolygydd fel bod ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gychwyn yr archwiliad; mae hyn yn gwbl weithdrefnol ac nid oes angen unrhyw benderfyniad pellach gan yr ACLI ar hyn o bryd. Nid oes angen i'r ACLI ymateb yn ffurfiol i'r ymatebion a gafwyd.

6.20 Os yw'r ACLI yn ystyried gwneud newidiadau sylfaenol sy'n effeithio ar y strategaeth ac sydd mor sylweddol o ran natur a graddfa fel eu bod yn mynd at wraidd y cynllun, bydd angen iddo roi ystyriaeth ofalus i sut gellir bwrw ymlaen â'r cynllun. Byddai gan newidiadau sylfaenol o'r fath oblygiadau o ran 'cadernid' y cynllun. Bydd angen i'r ACLI ystyried i ba raddau y mae'r angen am newid sylfaenol o'r fath yn codi amheuan ynghylch cadernid cyffredinol y cynllun adneuo.

6.21 Nid oes angen ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch mân newidiadau golygyddol i gywiro ffeithiau (teipos a chamgymeriadau gramadegol) ac ni ddylid eu cynnwys yn yr atodiad sy'n cael ei hysbysebu gan fod gan yr Arolygydd ddigon o awdurdod i wneud newidiadau golygu. Dylid rhestru'r newidiadau hyn fel rhestr atodedig i gyd-fynd â'r CDLI pan gaiff ei gyflwyno i'w archwilio. Fodd bynnag, gallai mynd y tu hwnt i'r cwmpas cyfyngedig iawn hwn arwain yn anfwriadol at newidiadau i bwyslais neu ganlyniadau polisiâu a allai effeithio ar faterion gweithdrefnol lle gallai rhanddeiliaid a allai fod wedi mynegi gwrthwynebiad iddynt fod o dan anfantais (gweler yr adran ar Ddiweddariadau/Tystiolaeth ychwanegol). Dylid osgoi'r senario hon.

6.22 Ni ddylai fod angen i'r ACLI ddiwygio amserlen y CDLI. Ni ddylai'r Newidiadau â Ffocws oedi'r cyflwyno, nac arwain at oedi cyffredinol yn y broses archwilio. Fodd bynnag, yn dibynnu ar gwmpas ac arwyddocâd y newidiadau, mater i'r Arolygydd fydd ystyried pryd i drefnu'r cyfarfod cyn gwrandawriad (os yw'n briodol) a sesiynau gwrandawriad. Bydd y CLG rhwng yr Arolygiaeth Gynllunio a'r ACLI yn adlewyrchu unrhyw oblygiadau amser ar ôl cyflwyno.

Cyflwyno

6.23 Pan gyflwynir CDLI i'w archwilio'n annibynnol, mae'n rhaid i'r ACLI roi cyhoeddusrwydd i'r cyflwyno a rhoi cyhoeddusrwydd i'r dogfennau perthnasol a sicrhau eu bod ar gael (Rheoliad 22 CDLIau). Dylai ACLIau ystyried canllawiau archwilio'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n nodi'r broses a'r materion i'w hystyried o ran cyflwyno ac archwilio. Dyma grynodedb o'r tasgau cyflwyno:

- Cyflwyno'r dogfennau canlynol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio – CDLI Adneuo, fel y'i diwygiwyd yn eithriadol gan Newidiadau â Ffocws (Adendwm) adroddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r HRA
- Cytundeb Cyflawni/Cynllun Cynnwys y Gymuned, Adroddiad Ymgynghori, CSR, copi o unrhyw sylwadau ar y CDLI Adneuo/Newidiadau â Ffocws a dogfennau ategol a phapurau cefndir (cysylltwch â Llywodraeth Cymru i gadarnhau pa ddogfennau y gellir eu cyflwyno ar bapur a/neu'n electronig)
- Cyflwyno Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac HRA gan gynnwys asesiad o unrhyw Newidiadau â Ffocws, adroddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd ac HRA a gyflwynwyd gan hyrwyddwyr safleoedd amgen (nas aseswyd o'r blaen gan yr ACLI).

6.24 Pan fernir bod y Weithdrefn Adolygu Ffurf Fer yn briodol, hwyrach na fydd pob cam o'r broses o baratoi CDLI yn berthnasol (gweler paragraffau 8.20 – 8.38).

Dogfennau Cyflwyno

6.25 Yn unol â Rheoliad 22 CDLIau, rhaid i ACLI roi cyhoeddusrwydd i'r cyflwyno a'i hysbysebu a chyhoeddi'r dogfennau perthnasol a sicrhau eu bod ar gael. Rhaid iddo anfon copïau papur at yr Arolygiaeth Gynllunio a Llywodraeth Cymru (y Gyfarwyddiaeth Gynllunio) ar yr un pryd ynghyd â chopi electronig o'r dogfennau canlynol (cysylltwch â Llywodraeth Cymru i gael gwybod pa ddogfennau'n union a sawl copi sydd eu hangen).

- y CDLI Adneuo
- yr Atodiad: rhestr o Newidiadau â Ffocws (lle bo'n berthnasol)
- adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Adroddiad yr Adolygiad (ar gyfer diwygio'r CDLI)
- y Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol (CSR) (lle bo'n berthnasol)
- unrhyw ddeunydd ategol arall y sail dystiolaeth a dogfennau technegol fel yr HRA a thystiolaeth/dogfennau technegol sy'n seiliedig ar fater/pwnc
- y Cytundeb Cyflawni yn cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau
- yr Adroddiad Ymgynghori (a ddylai ddiweddar'u'r adroddiad ymgynghori cychwynnol ac ymhelaethu arno, gweler yr adran flaenorol)

- Unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin

Copi o'r holl sylwadau a wnaed ar y cynllun adneuo a'r Newidiadau â Ffocws lle bo'n berthnasol (*ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio'n unig*)

Profion a Gwiriadau Cadernid

6.26 Mae Adran 64(2) o Ddeddf 2004 yn darparu'n benodol na ddylai ACLI gyflwyno CDLI oni bai ei fod o'r farn bod y cynllun yn barod i'w archwilio. Mae hyn yn golygu na ddylid cyflwyno cynlluniau 'nad ydynt yn gadarn' i gael eu harchwilio. Bydd angen i'r ACLI ddangos bod y cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid a nodir yn Nhabl 27. Bwriad y cwestiynau a restrir o dan bob prawf yw helpu i nodi'r materion a all fod yn berthnasol i bob prawf. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac efallai na fydd yn berthnasol ym mhob achos. Dylai ACLIau ystyried canllawiau archwilio'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n nodi'r broses a'r materion i'w hystyried o ran cyflwyno ac archwilio.

6.27 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cysondeb â pholisi cenedlaethol drwy gydol y broses o baratoi CDLI, ac mae'n debygol o annog peidio cyflwyno CDLI os oes gwrthdaro sylfaenol. Os ystyrir nad yw cynllun yn sylfaenol gadarn, bydd yr ACLI yn cael ei hysbysu fel y gellir cymryd unrhyw gamau angenrheidiol (h.y. ei dynnu'n ôl) cyn ei gyflwyno. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwrthwynebiad ar sail cadernid yn y ffordd arferol, caiff ei ystyried yn ystod yr archwiliad.

Tabl 27: Profion Cadernid

Gofynion Paratoi:

- A yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLLau, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau AAS, Arfarniad o Gynaliadwyedd, HRA ac ati?)
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn y drefn honno)

Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas? (A yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)

Cwestiynau

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'n ystyried y Nodau Llesiant?
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?
- A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?
- A yw'n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?
- A yw'n gydnaws â chynlluniau ACLlau cyfagos?
- A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
- A yw'r ACLI wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth?

Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Cwestiynau

- A yw'n benodol i'r ardal leol?
- A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisiâu'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir ac a oes ganddo ffocws?

Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Cwestiynau

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?
- A fydd y datblygiad yn hyfyw?
- A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

Archwilio

6.28 Dyma grynodedb o'r tasgau allweddol ar y cam hwn:

- Archwiliad gan Arolygydd/Arolygwyr gyda sesiynau gwrandawriad fel y bo'n briodol
- Darparu lleoliad a phenodi Swyddog Rhaglen
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses archwilio a sesiynau'r gwrandawriad a hysbysu rhanddeiliaid amdanynt
- Cyfarfod cyn y gwrandawriad i nodi materion a fformat ar gyfer yr archwiliad
- Cytuno ar unrhyw Ddatganiad Tir Cyffredin a'i gyflwyno
- Paratoi a chyflwyno datganiadau ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad
- Ystyried unrhyw ofynion ar gyfer Newidiadau Materion sy'n Codi a rhoi cyhoeddusrwydd ac ymgynghori fel y bo'n briodol

Swyddogaeth ac Amserlenni

6.29 Swyddogaeth yr archwiliad yw asesu a ddilynwyd y gofynion paratoi ac a yw'r CDLI a gyflwynwyd yn bodloni'r profion cadernid. Bydd yr Arolygydd yn ystyried gwrthwynebiadau unigol ar sail sut mae'r rhain yn mynd i'r afael â chadernid cyffredinol y CDLI.

6.30 Dylai'r archwiliad fod yn rhan gyflym ac effeithlon o'r broses gyffredinol o baratoi CDLI. Ni ddylai'r cyfnod rhwng cyflwyno'r CDLI yn ffurfiol a chyhoeddi adroddiad yr Arolygydd fod yn fwy nag 11 mis, a llai ar gyfer Diwygiadau Ffurf Fer i'r cynllun.

6.31 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, yn penodi Arolygydd i gynnal archwiliad annibynnol. Os yw'r materion yn gymhleth neu os oes nifer fawr o wrthwynebiadau, efallai y bydd angen penodi un neu fwy o Arolygwyr cynorthwyol er mwyn osgoi oedi; gall swyddogion cynllunio gynorthwyo'r Arolygydd hefyd.

6.32 Mae trafodaethau cynnar gyda'r Arolygiaeth Gynllunio'n ddefnyddiol i egluro'r amserlen a'r agweddau gweithdrefnol ar gyfer yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw angen i'r ACLI gynorthwyo'r Arolygydd/Arolygwyr gyda sylwadau yn y Gymraeg. Dylai ACLIau ofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio am ymweliad cynghori i drafod penodi Swyddog Rhaglen a rôl y swyddog hwnnw a sut yr ymdrinnir â'r archwiliad.

6.33 Dylai'r ACLI benodi Swyddog Rhaglen sydd â phrofiad gweinyddol addas. Mae'n bwysig penodi'r Swyddog Rhaglen yn gynnar yn y broses, yn ddelfrydol ar y cam adneuo. Ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n dechrau archwiliad hyd nes y bydd Swyddog Rhaglen wedi'i benodi. Mae'r Swyddog Rhaglen yn gyfrifol am:

- Reoli trefniadau'r rhaglen o ddydd i ddydd cyn ac yn ystod yr achos
- Cofnodi'r holl ddogfennau a chynlluniau a gyflwynir yn ystod yr achos
- Trefnu bod yr Arolygydd yn arolygu safleoedd
- Ymdrin â gohebiaeth â gwrthwynebwyr a'r ACLI ar ran yr Arolygydd, gan gynnwys ceisiadau am ddatganiadau a chyfnewid unrhyw ddatganiadau

6.34 Y ffynhonnell fwyaf tebygol o Swyddog Rhaglen profiadol yw cronfa o swyddogion annibynnol, ac mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio restr ohonynt. Dylid penodi Swyddogion Rhaglen ar ôl derbyn sylwadau ar y cynllun adneuo (gweler canllawiau gweithdrefnol CDLI yr Arolygiaeth Gynllunio).

6.35 Bydd effeithlonrwydd yr archwiliad yn dibynnu'n helaeth ar gynnal a chadw gwefan gynhwysfawr lle mae'n rhaid i'r holl ddogfennau archwilio fod ar gael i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol bod yr ACLI yn gwneud darpariaeth ar gyfer digon o le ar y we ac yn darparu'r adnoddau ar gyfer diweddarau'r wefan yn gyflym yn enwedig yn ystod sesiynau'r gwrandawriad. Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer cyfieithu dogfennau hefyd.

6.36 Mae'r ACLI yn darparu lleoliad ar gyfer yr achos ffurfiol. Rhaid gwneud trefniadau digonol i ddarparu lle ar gyfer cyfranogwyr, y cyhoedd a'r wasg, yn ogystal â'r Arolygydd a'r Swyddog Rhaglen. Dylai'r lleoliad fod yn hygyrch o ran cludiant cyhoeddus ac o ran addasrwydd i bobl anabl. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu a fydd angen cyfleusterau cyfieithu ond bydd yn mabwysiadu'r dull a ddefnyddir gan yr ACLI fel rheol.

6.37 Mae'n rhaid i'r ACLI roi'r hysbysiad gofynnol am wrandawiadau archwilio (Rheoliad 23 CDLIau) sy'n amlinellu sut, ble, a phryd y mae'r achos i ddigwydd, ei ddiben, ac enw'r Arolygydd. Rhaid i'r ACLI hysbysu'r rhai sydd â hawl i gymryd rhan yn yr archwiliad hefyd.

Cymryd rhan yn yr Archwiliad a'r Fformat

6.38 Mae canllawiau manwl ar y broses archwilio i'w cael yn "Archwiliadau cynlluniau datblygu lleol: canllaw gweithdrefnol" yr Arolygiaeth Gynllunio.

6.39 Mae rôl yr Arolygydd yn rhagweithiol. Yn dibynnu ar natur a chymhlethdod yr archwiliad bydd yr Arolygydd yn cynnal cyfarfod cyn gwrandawriad fel arfer i nodi'r materion i'w trafod, fformat yr archwiliad a gall gynnal cyfarfodydd dilynol ar gyfer rhaglennu a phennu'r agenda.

6.40 Ar ddechrau sesiwn agoriadol yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn egluro:

- Natur a phwrpas yr archwiliad
- Y bydd adroddiad dilynol (rhwymol) yn cael ei wneud i'r ACLI
- Rôl unrhyw Arolygwyr cynorthwyol neu swyddogion cynllunio
- Yr hyn a gytunwyd yn y cyfarfod cyn gwrandawriad
- Yr amserlen ar gyfer yr archwiliad
- Manylion y trefniadau ar gyfer unrhyw ymweliadau safle

6.41 Gall yr Arolygydd ofyn am ddatganiadau ysgrifenedig byr ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad gan gyfranogwyr mewn ymateb i gwestiynau penodol, neu brawf o dystiolaeth i'w gyflwyno erbyn dyddiad penodol. Os felly, caiff trefniadau eu rhoi ar waith i sicrhau bod y deunydd hwn ar gael i bawb sy'n cymryd rhan yn y sesiynau.

6.42 Dylai'r holl sylwadau ganolbwyntio ar y mater dan sylw a dylent osgoi ailadrodd deunydd cyd-destunol sydd ar gael i'r Arolygydd yn barod. Dylai gwrthwynebwyd, gan gynnwys y rhai sydd i'w clywed yn yr archwiliad, ddibynnu ar eu sylwadau gwreiddiol oni bai bod ganddynt wybodaeth ychwanegol neu newydd a fyddai o gymorth i'r Arolygydd. Ni ddylid dod â deunydd newydd sylweddol i'r archwiliad oni bai ei fod yn hanfodol i brofi gwrthwynebiad. Bydd yr Arolygydd yn ystyried sut caiff unrhyw wybodaeth newydd sylweddol ei hystyried drwy'r archwiliad. **Bydd yr Arolygydd yn rhoi llawn cymaint o ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig ag y bydd yn ei roi i sylwadau a wneir ar lafar yn yr archwiliad.**

6.43 Bydd sesiynau'r gwrandawriad llafar yn cael eu cynnal ar ffurf trafodaeth gyhoeddus lle bydd y materion a nodwyd ymlaen llaw gan yr Arolygydd yn cael eu trafod a'r cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Mae Arolygwyr yn gallu gwahodd unrhyw un i fynychu'r archwiliad, gan gynnwys cefnogwyr a, lle bo angen, y rhai na wnaethant unrhyw sylwadau, neu nad ydynt wedi gofyn am gael eu clywed, pe bai hyn yn hanfodol i benderfynu ar gadernid y cynllun. Fodd bynnag, nid oes gan gefnogwyr y cynllun yr hawl i gael eu clywed.

6.44 Bydd yr Arolygydd yn sicrhau bod y rhai sydd wedi arfer eu hawl i gael gwrandawriad, yn cael cyfle i gymryd rhan yn yr archwiliad yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae'r 'hawl i gael eich clywed' yn ei hanfod yn golygu'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Arolygydd ac i ymddangos yn bersonol yn yr archwiliad. Mater i'r Arolygydd yw'r ffordd y cânt eu clywed. Gall yr Arolygydd grwpio gwrthwynebwyr gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o amser yr archwiliad, er enghraifft os ydynt yn ymwneud â'r un safle neu grŵp o safleoedd, yr un setliad neu bolisi.

6.45 Bydd yr Arolygydd yn pennu'r gweithdrefnau i'w defnyddio i glywed sylwadau ar lafar, gan ragdybio y byddant yn rhai anffurfiol. Gwrandewir ar y rhan fwyaf drwy drafodaeth bord gron, sy'n arbennig o berthnasol ar gyfer asesu'r strategaeth, neu wrandawriadau a allai, o dan rai amgylchiadau, fod yn fwy priodol ar gyfer asesu dyraniadau safle penodol.

6.46 Gellir defnyddio gwrandawriadau ffurfiol os yw'r Arolygydd o'r farn bod hyn yn angenrheidiol ac yn briodol, fel arfer pan fydd angen profi'r dystiolaeth mewn modd mwy ymchwiliol gyda chymorth eiriolwyr. Hyd yn oed wedyn, bydd yr archwiliad yn cael ei arwain gan yr Arolygydd, gan fabwysiadu'r weithdrefn fwyaf effeithlon i'w alluogi i benderfynu a yw'r CDLI yn gadarn ai peidio.

6.47 Yr Arolygydd sy'n penderfynu ym mha drefn fydd materion yn cael eu harchwilio, yn dibynnu ar natur y materion a ddewiswyd i'w trafod. Yn gyffredinol, mae archwilio'r strategaeth cyn dyrannu safleoedd yn fuddiol, yn enwedig lle mae'r strategaeth yn ddadleuol a gall yr Arolygydd gyhoeddi canfyddiadau interim.

6.48 Mae'n bosibl cynnal sesiynau cydamserol o fewn archwiliad dan ofal gwahanol aelodau o dîm yr Arolygydd lle nad oes cydberthynas rhwng y materion a ddewiswyd i'w trafod. Yn dibynnu ar ba ran o'r cam llunio cynllun a gyrhaeddwyd a'r berthynas ddaearyddol, gellir cynnal cyd-archwiliadau, neu gyd-archwiliadau rhannol. Fel hyn, gellid defnyddio'r un Arolygydd, neu dîm o Arolygwyr, i archwilio mwy nag un cynllun ar y tro. Lle mae ACLlau cyfagos wedi cyflwyno eu CDLlau i'w harchwilio, gellid archwilio materion tai ar y cyd, yn enwedig lle mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn croesi ffiniau gweinyddol. Cyn belled â'i bod yn glir sut gallai rhanddeiliaid gymryd rhan a bod y pwnc i'w drafod yn y cynllun priodol yn glir, gallai hyn wneud y defnydd gorau o adnoddau ar adegau pan gyflwynir nifer o gynlluniau ar yr un pryd.

Efallai fod lle i gyd-archwiliadau, neu gyd-archwiliadau rhannol, lle mae gan awdurdodau cyfagos broblemau tebyg i'w datrys a bod eu CDLlau wedi cyrraedd camau tebyg.

6.49 Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r rhannau hynny o'r ardal sy'n dod o dan y cynllun sydd fwyaf perthnasol, gan ymweld yn unig â safleoedd lle bydd hynny'n helpu i ddod i gasgliad. Bydd yr Arolygydd yn cynnal ymweliadau safle ar ei ben ei hun oni bai bod ei fod angen mynediad i dir neu adeiladau preifat. Pan fydd rhywun gyda'r Arolygydd, dim ond arsylwi ar nodweddion ffisegol ac amgylcheddol a wna'r Arolygydd ac ni fydd yn trafod rhinweddau gwrthwynebiadau na chynigion. Gall yr Arolygydd ofyn am gadarnhad neu eglurhad o nodweddion penodol y gellir eu gweld ar y safle pan fydd yn cynnal yr archwiliad gyda chwmni.

Cyn neu yn ystod sesiynau'r gwrandawriad, gall yr Arolygydd nodi'r angen am ddiwygiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r profion cadernid a gofyn i'r ACLlau gynnig Newidiadau Materion sy'n Codi perthnasol. Dylid cadw rhestr o'r newidiadau hyn a sicrhau ei bod ar gael ar wefan yr archwiliad.

Ystyried Agweddau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

6.50 Mater i'r ACLI yw bodloni ei hun ei fod wedi cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gywir. Rôl yr Arolygydd mewn archwiliad yw ystyried cadernid y CDLI gan ddefnyddio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r sail dystiolaeth a'r cyfiawnhad rhesymedig.

6.51 Gall fod amgylchiadau lle bydd yr Arolygydd o'r farn bod y dystiolaeth yn adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd naill ai'n annigonol i ddod i gasgliad boddhaol ynglŷn â chadernid y CDLI, neu fod yr asesiad integredig yn ddiffygiol mewn gwirionedd ac nad yw'n rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer y CDLI. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i'r Arolygydd ohirio'r archwiliad er mwyn disgwyl i'r dystiolaeth angenrheidiol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fod ar gael, neu argymhell na ellir mabwysiadu'r CDLI nes i'r dystiolaeth angenrheidiol gael ei chasglu a bod yr asesiad integredig yn cael ei ddiwygio a bod yr adroddiad amgylcheddol yn cael ei ddiwygio.

6.52 Os bydd gwrthwynebydd yn cynnig safle amgen sydd eisoes wedi'i asesu fel rhan o waith yr ACLI wrth baratoi'r cynllun, gall yr Arolygydd ystyried rhinweddau achos y gwrthwynebydd. Fodd bynnag, man cychwyn yr archwiliad yw bod y strategaeth a'r dyraniadau yn y CDLI yn gadarn ac na fydd yr Arolygydd yn edrych y tu hwnt iddynt oni bai ei fod yn dod i'r casgliad nad ydynt yn gadarn. Os yw gwrthwynebydd yn awgrymu safle newydd neu amgen, mae'n bwysig bod gwybodaeth o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael hefyd.

6.53 Ni fyddai Arolygydd yn gallu argymhell newid i'r cynllun adneuo oni bai bod digon o wybodaeth o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i allu deall beth fyddai effeithiau'r newid. Byddai angen i'r Arolygydd fod yn fodlon y byddai cynnwys y safle'n arwain at gynllun cadarn. Rhaid i unrhyw newid o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n

dangos sut byddai'r newid yn effeithio ar y cynllun o ran ei gynaliadwyedd. Gall yr Arolygydd gynnig newidiadau i'r cynllun, Newidiadau'r Arolygydd i'r Materion yn Codi (IMAC), er bod yn rhaid i hyn gyd-fynd â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol. Byddai angen ymgynghori ynghylch y rhain a dilyn yr un broses â Newidiadau i'r Materion sy'n Codi (MAC). Y disgwyl yw mai dim ond nifer fach iawn o newidiadau o'r fath (IMAC) a wneir.

Adroddiad yr Arolygydd a Mabwysiadu

6.54 Mae'r tasgau allweddol sy'n ymwneud ag adroddiad yr Arolygydd fel a ganlyn:

- Cyhoeddi'r Adroddiad yr Arolygydd sy'n rhwymo
- Mabwysiadu'r cynllun cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd
- Cyhoeddi / darparu adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, hysbysu cyrff statudol gan gynnwys sut ystyriwyd ystyriaethau amgylcheddol, a mesurau ar gyfer monitro cynigion
- Paratoi Datganiad Mabwysiadu, rhoi cyhoeddusrwydd i'r mabwysiadu a hysbysiadau

6.55 Wrth asesu cadernid CDLI, bydd yr Arolygydd yn arfer ei farn broffesiynol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, y sylwadau a wnaed, ac amgylchiadau penodol y CDLI a'r ardal. Nod cyffredinol yr Arolygydd yw, lle bynnag y bo'n bosibl, sicrhau bod y CDLI yn cyrraedd y cam lle caiff ei ddyfarnu'n gadarn ac y gellir ei fabwysiadu.

6.56 Ar ôl y gwrandawiadau bydd yr Arolygydd yn cynhyrchu adroddiad sy'n nodi argymhellion manwl yn nodi'r newidiadau gofynnol i'r CDLI (gan gynnwys y map cynigion) ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau (adran 64(7) PCPA 2004). Ni fydd yr adroddiad yn crynhoi unrhyw achosion a gyflwynwyd i'r archwiliad ond bydd yn canolbwyntio ar gadernid neu ddiffyg cadernid y CDLI, a bydd casgliadau'r Arolygydd yn mynd i'r afael â hynny.

6.57 Mae'n dilyn bod rhaid i unrhyw newidiadau i'r CDLI a gyflwynwyd gan yr Arolygydd yn ei adroddiad fod yn amlwg gadarn. Er enghraifft, rhaid i unrhyw newidiadau:

- Gyd-fynd yn gyffredinol â pholisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (nes cyhoeddi'r FfDC)
- Cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol (pan gaiff ei gyhoeddi/mabwysiadu)
- Beidio ag effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw un sydd heb gael cyfle i wneud sylwadau
- Bod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael yn yr archwiliad
- Cael eu cefnogi gan resymeg glir, yn seiliedig ar y dystiolaeth

- Cyd-fynd â strategaeth y CDLI
- Bod yn realistig a gallu cael ei gyflawni

6.58 Ni fyddai Arolygydd yn gallu argymhell cynnwys unrhyw safle newydd neu amgen yn y CDLI pe bai hyn yn golygu nad yw'r cynllun yn gadarn. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Arolygydd yn argymhell cynnwys safle newydd neu amgen pe bai'n ddoeth gwneud hynny. Pe bai'n amlwg nad yw cynllun yn gadarn, gallai'r Arolygydd argymhell ei fod yn cael ei dynnu'n ôl. **Ni all Arolygydd sy'n credu nad yw cynllun yn gadarn yn y bôn argymhell ei fabwysiadu.** Fodd bynnag, gan dybio y gwneir gwiriadau cadernid cyn cyflwyno'r cynllun, byddai hyn yn annhebygol.

6.59 Fel arall, y canlyniadau mwyaf tebygol o'r asesiad cadernid a wneir gan yr Arolygydd yw:

- Bod y cynllun (gan gynnwys Newidiadau â Ffocws fel y nodir yn yr Adendwm) yn cael ei ystyried yn gadarn, yn amodol ar y Newidiadau Materion sy'n Codi y cytunwyd arnynt gan yr ACLI a/neu nifer fach o newidiadau ychwanegol gan yr Arolygydd
- Mae angen gwaith ychwanegol cyn y gellir archwilio'r CDLI ymhellach

Bydd casgliadau'r Arolygydd yn **rhwymol a rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol dderbyn y newidiadau sy'n ofynnol gan yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLI fel y'i diwygiwyd.**

6.60 Mae gan yr ACLI gyfle cyn cwblhau adroddiad yr Arolygydd i ofyn am gael cywiro gwallau ffeithiol, 'Gwirio Ffeithiau'. Efallai na fydd yr ACLI yn cwestiynu casgliadau'r Arolygydd, er y gallai ofyn am eglurhad ar unrhyw gasgliad sy'n ymddangos yn aneglur. Dylai ACLIau gwblhau'r gwiriad ffeithiau cyn pen pythefnos ar ôl cael adroddiad yr Arolygydd. Ar ôl i'r broses gwirio ffeithiau gael ei chwblhau a bod yr Arolygydd wedi ymateb i unrhyw bwyntiau a godwyd (os o gwbl), caiff yr adroddiad terfynol ei gyflwyno i'r ACLI ac i Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru ar ffurf electronig a phapur. Bydd yr ACLI a'r Arolygiaeth Gynllunio'n cytuno ar amserlen adroddiad yr Arolygydd fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth.

6.61 O ran cyfieithu i'r Gymraeg, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cydymffurfio â'i chynllun iaith, fel y'i heglurwyd yn ei chanllawiau ar weithdrefnau archwilio CDLIau a gyhoeddwyd. Yr adroddiad terfynol fydd yr adroddiad gwreiddiol fel y'i hysgrifennwyd gan yr Arolygydd, cyn iddo gael ei gyfieithu. Bydd yr archwiliad yn cau'n ffurfiol ar ôl cyflwyno adroddiad yr Arolygydd i'r ACLI.

Cyhoeddi Adroddiad Arolygydd

6.62 Mae'n rhaid i ACLI roi cyhoeddusrwydd i adroddiad yr Arolygydd a sicrhau ei fod ar gael erbyn y diwrnod y mabwysiedir y CDLI; rhaid hefyd iddo hysbysu'r rhai a ofynnodd am gael eu hysbysu bod y CDLI wedi'i gyhoeddi (Rheoliad 24 CDLIau). Dylai copïau o'r adroddiad fod ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau lle cafodd y cynllun ei adneuo ac ar wefan yr ACLI, yn unol â Rheoliad 24 CDLIau.

Datganiad Mabwysiadu ac Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r ACLI fabwysiadu'r CDLI drwy benderfyniad, cyn pen 8 wythnos ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygydd; rhaid iddo baratoi datganiad mabwysiadu, a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y CDLI wedi'i fabwysiadu a lle y gellir ei archwilio (Rheoliad 25 CDLIau).

6.63 Rhaid i'r datganiad mabwysiadu nodi dyddiad y mabwysiadu a'r rhesymau a'r cyfnod ar gyfer cyflwyno her yn yr Uchel Lys. Dylai grynhoi sut mae'r ACLI wedi ystyried canfyddiadau'r broses asesu integredig hefyd a sut mae ystyriaethau cynaliadwyedd yn fwy cyffredinol wedi'u hintegreiddio yn y CDLI. Rhaid i'r crynodeb hwn nodi'n glir unrhyw newidiadau a wnaed i'r CDLI o ganlyniad i'r broses asesu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, neu pam na chafodd unrhyw newidiadau eu gwneud, neu pam cafodd opsiynau eu gwrthod. Ni all y datganiad mabwysiadu ddyblygu deunydd sydd eisoes yn adroddiad yr Arolygydd, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adroddiad yr Ymgynghoriad, ond gallai ddefnyddio croesgyfeiriadau at y dogfennau hyn. Dylai hwn fod yn ddatganiad cymharol fyr o ddim mwy na 2-3 tudalen.

Cyhoeddi CDLI / Dyddiad Gweithredu

6.64 Rhaid sicrhau bod copïau o'r CDLI mabwysiedig, y datganiad mabwysiadu, adroddiad yr Arolygydd ac adroddiad terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau lle cafodd y cynllun ei adneuo ac ar wefan yr ACLI; rhaid anfon copïau o'r datganiad mabwysiadu at y rhai sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu am fabwysiadu'r CDLI (Rheoliadau 25 a 39 CDLIau).

6.65 Dylai'r dogfennau hyn fod ar gael i'w prynu hefyd am ffi resymol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai'r CDLI gael ei gyhoeddi'n derfynol cyn gynted ag y bo modd ac fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni. Mae'n rhaid i'r ACLI anfon un copi o'r CDLI mabwysiedig a'r datganiad mabwysiadu at Lywodraeth Cymru.

Daw CDLI yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu neu, os yw'r cynllun wedi'i alw i mewn, y dyddiad y mae'n cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Darperir cyfnod o chwe wythnos i gyflwyno her i'r Uchel Lys gan PCPA 2004 (adran 113).

Pennod 7: Materion Gweithdrefnol ac Ystyriaethau Eraill

Tynnu Cynllun yn Ôl

7.1 Gall ACLI dynn CDLI sy'n cael ei ddatblygu'n ôl ar unrhyw adeg cyn iddo gael ei gyflwyno i'w archwilio, er bod yn rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru o fwriad i dynnu'n ôl cyn gwneud hynny (adrannau 66 a 66A, PCPA 2004).

Ar ôl i'r cynllun gael ei gyflwyno, ni ellir ei dynnu'n ôl oni fydd yr Arolygydd sy'n cynnal yr archwiliad yn argymhell ei fod yn cael ei dynnu'n ôl (ac nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthod yr argymhelliad hwnnw) neu fod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i dynnu'r cynllun yn ôl.

7.2 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i CDLI gael ei dynnu'n ôl, mae'n rhaid i'r ACLI hysbysebu'r ffaith a dileu pob dogfen a gyhoeddwyd i'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynllun (Rheoliad 26 CDLIau). Dylai'r ACLI ystyried pa elfennau o'r dystiolaeth a allai fod yn ddilys wrth baratoi cynllun pellach, a thrwy hynny osgoi ailadrodd y gwaith casglu tystiolaeth a lleihau costau pellach cymaint â phosibl.

Her Uchel Lys

7.3 Gall unrhyw un herio dilysrwydd y CDLI, neu unrhyw ddiwygiad iddo, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 o PCPA 2004, neu fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol yn y Rhan honno o'r PCPA 2004 neu Reoliadau a wnaed oddi tani (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015)). O dan amgylchiadau o'r fath gellir gwneud cais i'r Uchel Lys.

Darperir cyfnod o chwe wythnos i gyflwyno her i'r Uchel Lys gan PCPA 2004 (adran 113). Rhaid i geisiadau i'r Uchel Lys gael eu gwneud o fewn chwe wythnos ar ôl i'r ALI fabwysiadu'r cynllun neu ar ôl i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun.

Y cyfnod mae CDLI yn Weithredol

Dywed Rheoliad 11 bod rhaid i'r cynllun gynnwys y dyddiad y daw'r cyfnod y paratowyd y cynllun ar ei gyfer i ben.

Mae adran 62(9) o PCPA 2004 (fel y mewnosodwyd gan adran 12 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu bod CDLI yn peidio â bod yn CDLI pan ddaw'r cyfnod a bennir i ben.

7.4 Pan na fydd y cyfnod y mae cynllun yn weithredol amdano wedi ei bennu, y dyddiad y bydd y cyfnod yn dod i ben fydd 31 Rhagfyr yn y flwyddyn galendr a bennir ar y cynllun. Bydd unrhyw CCA sy'n dibynnu ar bolisi mewn CDLI a fabwysiadwyd sy'n peidio â bod yn weithredol o dan adran 62 o PCPA 2004 (mae'r cynllun yn

peidio â bod yn CDLI pan ddaw'r cyfnod a nodwyd i ben) hefyd yn peidio â bod yn weithredol. Pan gaiff cynllun ei fabwysiadu, dylai o leiaf 10 mlynedd o gyfnod y cynllun fod yn weddill.

Cynlluniau sy'n cael eu paratoi neu sydd wedi dod i ben

Mae adran 38(6) o PCPA 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Yn gyffredinol, bydd y pwys a roddir ar CDLI sy'n cael ei baratoi (fel y'i diffinnir yn Rheoliad 2 CDLIau) wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio'n dibynnu ar y cam a gyrhaeddwyd, ond nid yw'n cynyddu o reidrwydd wrth i'r cynllun agosáu at gael ei fabwysiadu.

7.5 Ar ôl cyflwyno CDLI i Weinidogion Cymru ei archwilio, mae'n ofynnol i'r Arolygydd ystyried cadernid y cynllun cyfan yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol a'r holl faterion eraill sy'n berthnasol iddo. O ganlyniad, gallai polisiâu gael eu diwygio neu eu dileu o'r cynllun yn y pen draw hyd yn oed os nad oeddent yn destun sylwadau ar y cam adneuo (neu eu bod yn cael eu cadw, er iddynt dderbyn gwrthwynebiad sylweddol). Dim ond pan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol y ceir sicrwydd ynghylch cynnwys y cynllun. Felly, wrth ystyried pa bwys y dylid ei roi ar y polisiâu penodol mewn CDLI sy'n cael ei baratoi ac sy'n berthnasol i gynnig penodol, bydd angen i ACLIau ystyried y dystiolaeth sylfaenol a chefnidir y polisiâu'n ofalus. Gall polisi cenedlaethol fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn hefyd.

Pan fo CDLI yn cael ei baratoi, gall cwestiynau godi ynghylch gweithredu cyn amser. Ni ellir cyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar sail gweithredu cyn amser fel arfer ac eithrio mewn achosion lle mae cynnig datblygu'n mynd at wraidd cynllun a'i fod mor arwyddocaol yn unigol neu'n gronol, fel y byddai rhoi caniatâd cynllunio'n gwneud penderfyniadau rhag blaen ynghylch graddfa, lleoliad neu gamau cyflawni datblygiadau newydd y dylid eu gwneud yn briodol yng nghyd-destun y CDLI.

7.6 Lle ceir polisi cyflawni fesul cam yn y cynllun sy'n hanfodol i strwythur y cynllun, gall fod amgylchiadau lle mae angen gwrthod caniatâd cynllunio ar sail gweithredu cyn amser os yw'r polisi i gael effaith. Bydd y cam y mae cynllun wedi'i gyrraedd hefyd yn ffactor pwysig ac anaml y gellir cyfiawnhau gwrthod caniatâd ar sail gweithredu cyn amser pan fydd cynllun ar y cam paratoi cynllun cyn adneuo, heb unrhyw obaith cynnar o'i adneuo, oherwydd yr oedi hir y byddai hyn yn ei achosi wrth benderfynu ar ddyfodol y tir dan sylw.

7.7 Mae angen barnu'n ofalus a ddylid gwrthod caniatâd cynllunio ar sail gweithredu cyn amser a bydd angen i'r ACLI nodi'n glir sut byddai rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad dan sylw yn niweidio canlyniad y broses o lunio CDLI.

7.8 Mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn y lle cyntaf yw penderfynu, drwy fonitro ac adolygu'r cynllun datblygu, a yw polisïau mewn CDLI mabwysiedig wedi dyddio at ddibenion penderfynu ar gais cynllunio. Mewn achosion o'r fath, dylai ACLlau roi llai o ystyriaeth i'r cynllun o blaid ystyriaethau perthnasol eraill fel polisi cenedlaethol.

Argaeledd Dogfennau

7.9 Mae'n ofynnol i ACLI gyhoeddi'r Cynllun Cyflawni (gan gynnwys ar ei wefan) a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd (h.y. yr amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau) (Rheoliad 10 CDLlau) a'r CDLI sydd wedi'i fabwysiadu/cymeradwyo (Rheoliad 39 CDLlau). Dylai dogfennau'r cynllun, gan gynnwys y mapiau cynigion, fod ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfa'r ACLI (ac mewn mannau eraill yn unol â'r Cytundeb Cyflawni) ac i'w prynu am dâl rhesymol.

7.10 Rhaid iddo hysbysebu'r ffaith fod y cynllun ar gael hefyd yn ogystal â'r gwahanol ddogfennau, adroddiadau a datganiadau eraill a gynhyrchwyd yn ystod y weithdrefn a arweiniodd at ei fabwysiadu. Mae'n rhaid i gopïau o'r dogfennau eraill hyn barhau i fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio tan chwe wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad mabwysiadu, sef y cyfnod ar gyfer her gyfreithiol (Rheoliad 38 CDLlau). Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd neu hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynllun fod ar gael i'w archwilio hefyd.

7.11 Drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r cynllun yn cael ei chadw mewn un lle. Dylai mapiau cynigion fod ar gael ar ffurf electronig, o ran hygyrchedd ac er mwyn eu galluogi i fod yn ddynamig ac ymateb i newid, wrth i CDLlau gael eu hadolygu ac wrth i bolisïau gael eu diwygio. Bydd cael mecanweithiau clir ac effeithiol ar gyfer cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol yn sicrhau tryloywder ac yn sicrhau y gall rhanddeiliaid chwarae rhan fwy effeithiol yn y broses.

Hysbysiadau

7.12 Dylai ACLlau fodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â holl ofynion y CDLI a Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS a HRA ac ati ar gyfer hysbysu a chyhoedduswydd. Nid oes fformat statudol penodol ar gyfer hysbysiadau. Dylid drafftio hysbysiadau gyda golwg ar hygyrchedd o ran rhoi esboniad symlach a defnyddio iaith glir. Dylid darparu manylion cyswllt lle gellir cael esboniad o'r broses neu fformatau amgen ar gyfer dogfennau a sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai na allant wneud sylwadau ysgrifenedig. Bydd hyn yn sicrhau y gall pob parti chwarae rhan ystyrlon ac effeithiol yn y broses.

Y Gymraeg a'r Saesneg yn y Broses o Lunio Cynllun

7.13 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi cyflwyno dyletswydd ar sefydliadau, gan gynnwys ACLlau, i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau'n rhoi eglurder ynghylch y gwasanaethau y dylid eu darparu yn Gymraeg ac yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd rhesymol a chymesur.

7.14 Mae llawer o'r safonau'n debygol o fod yn berthnasol i bob cam o broses y CDLI ond yn enwedig yn y ffordd y mae ACLlau yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal achosion archwilio. Dylid nodi defnydd o'r Gymraeg mewn deunydd cyfathrebu yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Mae cyfarfodydd cyn gwrandawriad yn fforwm lle gellir trafod cwestiynau ymarferol ynghylch yr iaith a ddefnyddir yn sesiynau'r gwrandawriad fel y gall y rhai sydd am gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wneud hynny'n effeithiol.

7.15 O ran cyfieithu dogfennau, mae gan bob ACLI ei safonau Cymraeg ei hun, a'r rhain fydd y man cychwyn. Er enghraifft, os yw Safon 40 yn gymwys, y disgwyliad yw bod popeth yn cael ei gyfieithu, oni bai bod rheswm cadarn dros beidio â gwneud hynny. Bydd materion yn ymwneud â natur dechnegol dogfennau, cynulleidfau, maint a pharhad dogfennau yn ystyriaethau allweddol. Nid oes un dull gweithredu sy'n addas i bawb a mater i bob ACLI fydd cydymffurfio â'r safonau fel y maent yn berthnasol iddynt. Dylid gofyn am gyngor Swyddogion Cydymffurfio mewn ACLlau.

Pwerau Llywodraeth Cymru yn y Broses o Lunio Cynllun

7.16 Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfarwyddo eang yn ogystal â phwerau diofyn mewn perthynas â CDLIau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan PCPA 2004 (fel y'i diwygiwyd) i ymyrryd yn y broses o lunio cynllun hefyd. Prin iawn yw'r defnydd o bwerau ymyrryd.

Dim ond pan fydd popeth arall yn methu y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r pwerau hyn ac ymyrryd yn y broses o lunio cynllun pan fo'r ddeialog wedi methu a bod CDLI:

- 1) Yn codi materion o bwys cenedlaethol, neu
- 2) Yn gallu cael effaith y tu hwnt i ardal yr awdurdod sy'n gwneud y cynllun.

7.17 Y pwerau perthnasol o dan PCPA 2004 yw:

A63 (5) – cyfarwyddo telerau'r Cytundeb Cyflawni lle na ellir dod i gytundeb

A65 (1) – cyfarwyddo ACLI i addasu ei gynllun mewn modd penodedig cyn ei fabwysiadu

- A65 (4) – galw cynllun i mewn i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru
- A66 (1) – cyfarwyddo mewn perthynas â thynnu'r CDLI yn ôl cyn ei fabwysiadu =
- A67 (4) – cyfarwyddo ACLI i beidio â mabwysiadu'r cynllun
- A68 – dirymu CDLI ar gais yr awdurdod
- A70 (2) – cyfarwyddo bod cynllun yn cael ei ddiwygio
- A71 – pwerau camu-i-mewn lle nad yw ACLI yn cymryd y camau angenrheidiol
- A72 (1) – rhoi cyfarwyddyd i baratoi CDLI ar y Cyd
- A72 (7) – pan fo awdurdod yn tynnu'n ôl o gytundeb i baratoi CDLI ar y cyd, rhoi cyfarwyddyd i aildechrau'r archwiliad annibynnol a bod y camau a gymerir at ddiben yr archwiliad ar y cyd yn cael effaith mewn perthynas â chynllun unigol cyfatebol yr awdurdod hwnnw.

Malltod ac Osgoi Malltod

Bydd cyhoeddi CDLI adneuo y mae'n bwriadu ei fabwysiadu, yn unol â Rheoliadau CDLI 17 neu 26B, yn sbarduno darpariaethau malltod cynllunio, felly hefyd adneuo cynigion i ddiwygio neu ddisodli CDLI a fabwysiadwyd.

7.18 Er y dylai ACLI sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar gyfer datblygu a seilwaith wrth baratoi ei CDLI, mae'n bwysig bod cynigion yn realistig ac yn debygol o gael eu gweithredu dros gyfnod y cynllun.

7.19 Pan fo amgylchiadau'n newid fel bod cynigion mewn CDLI mabwysiedig nad ydynt yn debygol o gael eu gweithredu bellach, dylai'r ACLI gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn glir i'r rhai sy'n defnyddio'r cynllun neu'n cyfeirio ato. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion fel cynigion ar gyfer prosiectau datblygu neu seilwaith mawr (e.e. cynigion ffyrdd) lle y gall ansicrwydd ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynigion yn mynd rhagddynt arwain at falltod canfyddedig i berchnogion eiddo yn y cyffiniau.

7.20 Yr unig ffordd o ddileu cynigion o'r fath o'r cynllun yw drwy ei adolygu'n ffurfiol ac mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn offeryn defnyddiol i amlygu'r newidiadau angenrheidiol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellir gwneud penderfyniadau i beidio â bwrw ymlaen â chynigion ar amserlen nad yw'n cyd-fynd ag amserlen monitro flynyddol neu adolygu cynllun. Felly, pan fo penderfyniad pendant wedi'i wneud i beidio â bwrw ymlaen â chynnig (e.e. drwy benderfyniad ffurfiol), dylai'r ACLI sicrhau bod copïau o'r penderfyniad (neu ddogfennau priodol eraill) ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

7.21 Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn dymuno hysbysu'n uniongyrchol y rhai sydd â thir neu eiddo a allai fod wedi'i effeithio, ac eraill fel y gwelant yn dda.

Dylai ACLIau fod yn ymwybodol nad yw'r dull hwn o weithredu yn gyfystyr â newid ffurfiol i'r cynllun. Yn nhermau adran 38(6) PCPA 2004, ni fydd unrhyw effaith ar y cynigion yn y cynllun. Serch hynny, bydd y cofnod o benderfyniad yr ACLI na fydd y cynigion yn cael eu symud ymlaen yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas ag unrhyw geisiadau cynllunio neu apêl sy'n dilyn. Dylai'r ACLI sicrhau bod y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig yn cael ei ymgorffori yn y set nesaf o newidiadau i'r cynllun neu'r cynllun sy'n ei ddisodli maes o law.

Darpariaethau Trosiannol ac Arbed (Darpariaethau 2005)

7.22 Lle nad oes CDLI ar gyfer ardal, mae darpariaethau trosiannol ac arbed yn gymwys mewn perthynas ag ardal unrhyw awdurdod yng Nghymru nes bod y CDLI ar gyfer yr ardal honno yn gwbl weithredol. Bydd unrhyw gynllun datblygu presennol (h.y. Cynllun Datblygu Unedol, Cynllun Fframwaith neu Gynllun Lleol) yn peidio â bod yn effeithiol ar gyfer ardal yr awdurdod priodol pan fydd CDLI yn dod yn weithredol ar gyfer yr ardal honno. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwneud o dan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2005 – O.S.2005/2847 (C.118).

Pennod 8: Monitro, Adolygu a Diwygio

Monitro, Adolygu a Diwygio

8.1 Mae monitro'n broses barhaus ac nid yw'n dod i ben pan gaiff cynllun ei fabwysiadu. Mae'n ddolen adborth hanfodol o fewn y broses gylchol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Dylai gwaith monitro ac adolygu fod yn swyddogaeth barhaus y system a arweinir gan y cynllun ac mae'n agwedd hanfodol ar lunio polisiau ar sail tystiolaeth.

Mae'r gofynion deddfwriaethol allweddol mewn perthynas â monitro ac adolygu fel a ganlyn:

Dywed PCPA 2004 (Adran 61) bod yn rhaid i ACLI **gadw golwg** ar y materion y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal neu'r gwaith o gynllunio ei datblygiad.

Dywed PCPA 2004 (Adran 76) a Rheoliad 37 CDLlau bod yn rhaid i ACLI gyhoeddi a chyflwyno **Adroddiad Monitro Blynyddol** i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni, neu beidio (erbyn 31 Hydref bob blwyddyn).

Dywed PCPA 2004 (Adran 69(1)) a Rheoliad 41(1) CDLlau gyda'i gilydd fod **rhaid** i ACLI **adolygu ei CDLI dim mwy na phedair blynedd** o ddyddiad ei fabwysiadu.

Dywed Rheoliad 41 CDLlau bod rhaid i'r ACLI gymeradwyo, drwy benderfyniad, adroddiad o adolygiad a baratowyd yn unol ag Adran 69(1) a chyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 69(2). Dylid cyflwyno **'Adroddiad Adolygu'** i Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i sbarduno'r broses adolygu.

Mae Rheoliad 17 o **Reoliadau AAS** yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau penodol gael eu monitro er mwyn nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd a galluogi camau unioni priodol i gael eu cymryd.

Y Fframwaith Monitro

8.2 **Rhaid i bob CDLI gynnwys fframwaith monitro.** Mae gan ACLlau fframwaith monitro wedi'i fabwysiadu ar waith yn barod i lywio canfyddiadau yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu. Mae monitro'n gylch parhaus; nid yw'n dod i ben gyda'r mabwysiadu. Ar gyfer diwygio cynlluniau, bydd angen i ACLlau ystyried beth oedd yn effeithiol a beth y gellid ei wella i sicrhau bod y fframwaith monitro'n parhau i fod yn addas at y diben, yn gysylltiedig â strategaeth ac amcanion y cynllun newydd. Dylai ACLlau ystyried fframweithiau eraill a fabwysiadwyd ledled Cymru hefyd, lle y bo'n berthnasol. Dylai pob ACLI ystyried yr egwyddorion cyffredinol canlynol wrth lunio'r fframwaith:

Ni ddylai paratoi'r fframwaith monitro fod yn ôl-ystyriaeth	Dylai fod yn ystyriaeth barhaus o gamau cynnar paratoi'r cynllun tan gwblhau'r fframwaith monitro yn ystod y cam archwilio. Dylai ACLlau ystyried gweithredu a chyflawni ym mhob cam, nid ar y diwedd.
Cadw ffocws	Ni fydd angen monitro pob polisi/cynnig yn y cynllun datblygu, dim ond y rhai sy'n allweddol i gyflawni strategaeth ac amcanion y cynllun. Dylai ACLI fod yn glir ynghylch y math o wybodaeth y mae ei hangen yn gynnar yn y broses o baratoi'r cynllun. Dylai ACLlau ystyried yr hyn sy'n ymarferol ac yn rhesymol, adnoddau a data sydd ar gael.
Sefydlu dangosyddion, targedau a phwyntiau sbardun effeithiol	Dylai dangosyddion fod yn gryno ac yn glir am yr hyn sy'n cael ei fonitro a sut mae hyn yn berthnasol i'r strategaeth. Dylai pob dangosydd fod yn fesuradwy gyda thargedau clir a phriodol a phwyntiau sbardun effeithiol. Dylent fod yn amserol ac yn benodol.

Cynnwys a Strwythur Fframwaith Monitro

8.3 Dylai'r fframwaith monitro **gynnwys y prif bolisiâu/cynigion, dangosyddion, targedau a phwyntiau sbardun a chamau gweithredu**, gan eu rhoi yn y fformat sydd yn Nhabl 28:

Tabl 28: Strwythur Fframwaith Monitro

Amcan:				
Polisiâu/cynigion allweddol	Dangosydd	Targed	Pwynt sbardun	Ffynhonnell gwybodaeth

Datblygu Dangosyddion, Targedau, Pwyntiau Sbardun a Chamau Gweithredu

Dangosyddion

8.4 Dylai'r dangosyddion yn y fframwaith monitro ganolbwyntio ar y polisiâu allweddol hynny sy'n hanfodol i weithredu'r cynllun. Ni ddylai fod yn rhy feichus nac yn rhy gymhleth. **Dylai pob dangosydd fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn realistig.** Dylai ACLlau ddefnyddio'r profiad a gafwyd wrth weithredu fframweithiau

sy'n bodoli eisoes a thrwy drafodaethau ag ACLlau eraill i fireinio eu dangosyddion wrth adolygu cynlluniau. Mae'r dangosyddion sy'n ofynnol ym mhob fframwaith monitro yn cynnwys y rhai sydd yn Nhabl 29.

Tabl 29: Dangosyddion

Dangosyddion sy'n Ofynnol yn ôl Deddfwriaeth	
Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Rheoliad 37 CDLlau. Rhaid i bob Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys nifer y tai fforddiadwy a thai'r farchnad a gwblhawyd bob blwyddyn yn ardal y cynllun.
Dangosyddion Allweddol sy'n Berthnasol i Bob Cynllun	
Dosbarthiad gofodol datblygiadau tai	Monitro lefelau cwblhau tai bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth dwf a'r hierarchaeth aneddiadau.
Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy <u>blynyddol</u> wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.	<p>Rhaid monitro lefelau cwblhau tai blynyddol yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig fel y'i nodir yn y taflywybr tai a fabwysiadwyd (gweler Tabl 21 a Diagram 16). Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).</p> <p>Ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y cynllun. Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).</p> <p>Dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau safleoedd, hap-safleoedd bach a mawr ar wahân hefyd.</p> <p>Gweler yr adran ar ddiweddarau'r taflywybr tai drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol.</p>

<p>Cyfanswm gronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwylidig.</p>	<p>Rhaid monitro lefelau cwblhau tai blynyddol gronnol yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol fel y'i nodir yn y taflwybr tai a fabwysiadwyd (gweler Tabl 21 a Diagram 16). Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).</p> <p>Ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai gronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog gronnol a nodir yn y cynllun. Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).</p> <p>Gweler yr adran ar ddiweddarau'r taflwybr tai drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol.</p>
<p>Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy wedi'u monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun.</p> <p>Deiliadaeth tai fforddiadwy wedi'u cwblhau.</p>	<p>Monitro lefelau cwblhau tai fforddiadwy a gyflawnir drwy'r system gynllunio bob blwyddyn yn erbyn y targed a osodwyd yn y cynllun.</p> <p>Dylai dangosydd ar wahân fonitro'r rhaniad yn y ddeiliadaeth (rhentu cymdeithasol a chanolradd) yn unol â'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.</p>
<p>Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.</p> <p>Twf swyddi.</p>	<p>Monitro'r defnydd o dir cyflogaeth yn y cynllun.</p> <p>Dangosyddion yn monitro twf swyddi Dosbarth B yn unol â'r strategaeth.</p>
<p>Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad.</p>	<p>Monitro sut mae tai fforddiadwy'n cael eu darparu yn unol â thargedau a throthwyon polisi ym mhob ardal is-farchnad (lle y bo'n berthnasol) gan gynnwys unrhyw wyriad uwchlaw neu islaw'r targed.</p>

Hyfywedd.	Dylai'r ACLI fonitro tueddiadau (cadarnhaol a negyddol) o ran penderfynyddion allweddol amodau'r farchnad a hyfywedd megis prisiau tai, gwerth tir, costau adeiladu.
Y gyfradd ddatblygu ar ddyraniadau allweddol (cwblhau yn gysylltiedig â thafwybrau camau cyflawni a chynlluniau seilwaith, lle y bo'n briodol).	Monitro datblygiad defnydd tir a'r seilwaith cysylltiedig ar safleoedd datblygu allweddol yn y cynllun. Bydd angen ystyried y gyfradd ddatblygu yn erbyn y tafwybr a ragwelir, egwyddorion Creu Lleoedd a'r atodiad cyflawni.
Darparu seilwaith allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun.	Bydd hyn yn monitro datblygiad seilwaith newydd, megis gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd a gwelliannau i'r cyfleustodau y mae strategaeth y cynllun yn ddibynnol arnynt.
Cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn diwallu angen a nodwyd.	Bydd hyn yn monitro datblygiad safleoedd wedi'u clustnodi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu angen a nodwyd dros gyfnod llawn y cynllun. Bydd angen dangosydd ar wahân hefyd i fonitro a darparu ar gyfer unrhyw angen sy'n codi o'r newydd y tu allan i'r GTAA.
Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	Dangos pa mor effeithiol yw osgoi datblygiadau agored iawn i niwed yn yr ardaloedd sy'n wynebu'r risg fwyaf.
Dangosyddion Penodol Lleol a Chyd-destunol	
Dangosyddion Lleol.	Dylai dangosyddion polisi/pwnc penodol gael eu diffinio gan bob ACLI yn benodol i'w ardal a'u hystyried yn erbyn pwysigrwydd monitro effeithiolrwydd strategaeth y cynllun.
Dangosyddion Cyd-destunol.	Dylai pob ACLI ddiffinio'r rhain ac ystyried dylanwadau ar lefel strategol i ddisgrifio'r amodau economaidd, cymdeithasol ac

	amgylcheddol y mae'r cynllun datblygu yn gweithredu oddi mewn iddynt.
Cysylltiadau â Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS	
Arfarniad o Gynaliadwyedd / AAS.	Bydd angen i'r cynllun ystyried y cysylltiadau rhwng proses fonitro'r AAS/yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r broses o fonitro'r CDLI er mwyn osgoi dyblygu. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adrodd ar y cyd. Gweler yr adran ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd.

Targedau

8.5 Rhaid i bob dangosydd fod â tharged cyfatebol, hyd yn oed os yw'n cael ei fynegi fel cyfeiriad teithio a ffefrir. Rhaid i dargedau fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn realistig. Dylai targedau CDLlau ymwneud yn uniongyrchol â strategaeth, amcanion a chanlyniadau polisi'r cynllun. Yn ei hanfod, beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni? Yn gyffredinol, mae'r targedau'n rhai rhifiadol (cartrefi a swyddi) gofodol (canran y twf mewn mannau, dyraniadau safle) neu'n gyd-destunol (tueddiadau demograffig, cyfraddau diweithdra, patrymau cymudo ac ati).

Pwyntiau Sbardun

8.6 Pwyntiau sbardun yw'r prif fecanwaith ar gyfer penderfynu sut mae polisiâu'n gweithio ac a oes angen gweithredu. Maent yn gosod y paramedrau y dylai polisiâu gyflawni yn eu herbyn. Dylent fod yn benodol ac yn fesuradwy er mwyn sicrhau y gellir amlygu problemau. Er enghraifft, nid yw'n briodol i ACLlau gynnwys sbardunau eang eu cwmplas gan y bydd hyn yn aneffeithiol ac yn cyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau clir lle y ceir tueddiadau o ran tangyflawni. **Dylid mesur pwyntiau sbardun sydd ag allbynnau rhifiadol penodol (e.e. cwblhau tai / tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd) dros ddwy flynedd yn olynol (er mwyn bod yn glir, golyga hyn gyfraddau cyflawni blynyddol nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyflwynwyd) gan ganiatáu i dueddiadau ddatblygu a dod yn amlwg.**

Camau Gweithredu

8.7 Pan fydd pwyntiau sbardun yn cael eu rhoi ar waith, mae angen ymchwilio i ddeall pam nad yw polisiâu a chynigion yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a phennu pa gamau y bydd angen eu cymryd. Bydd angen i ACLlau ystyried cyflawni'r holl ddangosyddion ar y cyd, y gydberthynas rhyngddynt a maint y tangyflawni. Bydd rhai dangosyddion yn fwy arwyddocaol nag eraill o ran cyflawni strategaeth y cynllun datblygu. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn unrhyw gamau dilynol.

8.8 Rhaid i ACLlau nodi'n glir sut caiff amrywiadau tangyflawni eu hystyried drwy **gampau gweithredu** yn y dyfodol a darparu eglurder ar y camau dilynol i'w cymryd, yn dibynnu ar faint unrhyw amrywiad. Os nad yw'r dangosyddion allweddol yn cael eu bodloni, gallai'r opsiynau gynnwys y rhai sydd yn Nhabl 30.

Tabl 30: Camau Monitro

Parhau i fonitro
Mae polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
Angen hyfforddiant
Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant i swyddogion neu Aelodau.
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)
Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n ôl y bwriad ac mae angen canllawiau pellach, a pharatoi CCA ychwanegol o bosibl.
Angen ymchwilio/gwaith ymchwil pellach
Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen gwaith ymchwil a/neu ymchwilio pellach.
Angen adolygiad polisi
Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid ydynt yn llwyddo i gyflawni; efallai y bydd angen adolygu'r polisi penodol.
Adolygu'r cynllun
Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad pedair blynedd statudol.

Adroddiadau Monitro Blynyddol

Adroddiadau Monitro Blynyddol yw'r prif fecanwaith i asesu'r gwaith o gyflawni a gweithredu strategaeth cynllun. Maent yn darparu tryloywder yn y broses gynllunio drwy hysbysu rhanddeiliaid a'r gymuned am berfformiad y cynllun yn erbyn y materion y mae wedi'u nodi.

Mae'n ofynnol i bob ACLI sydd â CDLI mabwysiedig baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol. Dylid cofnodi canlyniadau'r adroddiad yn y flwyddyn ariannol lawn gyntaf o 1 Ebrill i 31 Mawrth ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Mae'n rhaid i Adroddiadau Monitro

Blynyddol gael eu cymeradwyo gan yr ACLI a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn dan sylw.

8.9 Dylid cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLI, oni bai y byddai llai na 12 mis wedi mynd heibio ers ei fabwysiadu. Yn yr achos hwn, dylid ei gyflwyno erbyn 31 Hydref y flwyddyn wedyn.

8.10 Dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol asesu i ba raddau y mae strategaeth a pholisïau, safleoedd a gofynion seilwaith allweddol y cynllun yn cael eu cyflawni. **Bydd pob Adroddiad Monitro Blynyddol yn seiliedig ar ganlyniadau a sylwadau'r flwyddyn flaenorol.** Bydd hyn yn galluogi tueddiadau i ddod yn glir, gyda sylwadau a dadansoddiadau mwy manwl. Yna bydd yn glir sut mae'r polisïau a'r cynigion yn cyflawni o flwyddyn i flwyddyn.

8.11 Nid yw'n realistig nac yn angenrheidiol i bob polisi gael ei fonitro. Byddai hyn yn arwain at ddogfen sy'n fawr ac yn gymhleth heb fod angen. Bydd angen cynnwys rhai meysydd allweddol yn gyson bob blwyddyn, a'r ACLI fydd yn penderfynu ar y rhain ar sail yr elfennau hynny sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun. Dylai'r penodau ym mhob Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys y canlynol o leiaf, fel y nodir isod yn Nhabl 31.

Tabl 31: Cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Pennod		Cynnwys Bras
1	Crynodeb gweithredol	<p>Nodi canfyddiadau a chasgliadau allweddol mewn perthynas â chyflawni'r strategaeth, gan nodi casgliadau clir ynghylch a oes angen adolygu cynllun. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa faterion newydd sydd wedi codi yn ardal y cynllun, neu newidiadau i bolisïau lleol/cenedlaethol? • Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLI a'i bolisïau a'i dargedau allweddol? • Pa safleoedd sydd wedi cael eu datblygu neu eu hoedi mewn perthynas â disgwyliaid y cynllun yn y ddau le ac yn y rhaglen camau cyflawni (fel y nodwyd yn y taflwybr)

		<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw lefel yr amrywiant oddi wrth y gyfradd adeiladu flynyddol a chronol ddisgwyliedig? A oes tuedd dwy flynedd i dangyflawni (nifer y tai a gwblhawyd bob blwyddyn nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyflwynwyd)? • Pa mor effeithiol fu'r gwaith o gyflawni polisïau ac atal datblygiadau amhriodol?
2	Dadansoddiad o newid /dangosyddion cyd-destunol arwyddocaol	Crynodeb ac adolygiad o'r materion cyd-destunol ehangach y mae'r CDLI yn gweithredu oddi fewn iddynt, h.y. strategaethau/polisïau allanol.
3	Dadansoddiad o ddangosyddion craidd/allweddol	<p>Asesiad clir o ran a yw'r cynllun yn cyflawni'r strategaeth, gan gynnwys ei phrif amcanion a gweithredu'r lefelau twf gofynnol (e.e. targedau datblygu tai, darparu safleoedd, tai fforddiadwy, a seilwaith)</p> <p>Rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys diweddariad o'r taflwybr tai a sylwadau a gwaith dadansoddi cysylltiedig. Rhaid cyflwyno'r rhain yn y fformat fel y'i nodir yn y Bennod hon.</p>
4	Dadansoddiad o ddangosyddion lleol	Asesiad o bolisïau nad ydynt yn effeithiol a sut bydd y materion hyn yn cael sylw.
5	Canlyniadau dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Yn ymwneud ag adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r asesiad integredig.
6	Casgliad ac argymhellion	Nodi newidiadau i'r cynllun sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod adolygu statudol neu sy'n cael eu sbarduno'n gynharach, os yw'n briodol.

8.12 Dylai strwythur bras yr Adroddiad Monitro Blynyddol barhau'r un fath bob blwyddyn er mwyn hwyluso'r dadansoddiad rhwng adroddiadau olynol ac adeiladu ar ganlyniadau blaenorol. Gall defnyddio deunyddiau eglurhaol fel siartiau a graffiau wneud yr Adroddiadau Monitro Blynyddol yn fwy hygyrch i randdeiliaid, grwpiau busnes a'r gymuned. Dylai canlyniadau pob dangosydd gael eu nodi'n glir gan ddefnyddio'r fframwaith eang yn Nhabl 32

Tabl 32: Strwythur yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Amcan:			
Polisiâu allweddol:		Polisiâu cysylltiedig:	
Dangosydd:	Targed:	Canlyniad:	Pwynt sbardun:
		Mabwysiadu:	
		Adroddiad Monitro Blynyddol Rhif 1:	
		Adroddiad Monitro Blynyddol Rhif 2:	
		Adroddiad Monitro Blynyddol Rhif 3:	
		Adroddiad Monitro Blynyddol Rhif 4:	
Dadansoddiad:			
Gweithredu:	<i>Mewnosod lliw yn ymwneud â'r opsiynau a nodwyd yn gynharach yn y bennod</i>		

8.13 Dylai canlyniadau'r monitro nodi'n glir os (a sut) mae'r strategaeth yn gweithio ac os yw dyraniadau allweddol yn cael eu cyflawni fel y rhagwelwyd dros gyfnod y cynllun. Bydd y canlyniadau'n nodi unrhyw heriau, cyfleoedd a ffyrdd posibl ymlaen hefyd ar gyfer adolygu polisiâu a chynigion yn yr adolygiad o'r cynllun. Ystyrir ei bod yn arfer da cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ar ôl

cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd hyn yn galluogi'r ACLI i roi esboniad o'r materion a'r tueddiadau a chaniatáu i adborth gael ei roi ar faterion allweddol.

Symud tuag at system monitro cyflenwi tai newydd: Pa ddangosydd monitro tai sylfaenol y dylai pob ACLI ei ddefnyddio?

Nid yw'r dangosyddion tai newydd (y rhai sydd wedi'u lliwio'n felyn) a nodir yn Nhabl 29 wedi'u cynnwys ar hyn o bryd mewn fframweithiau monitro CDLIau a fabwysiadwyd. Yn y dyfodol bydd yn rhaid iddynt gael eu hychwanegu at fframwaith monitro 'cynlluniau arfaethedig' a'u cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyhoeddir ar ôl cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu hwn.

8.14 Cydnabyddir na allai 'cynlluniau cynnar na chenhedlaeth gyntaf' fod wedi 'cydymffurfio â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu' o ran eglurder yr elfennau tai a geisir (Tabl 16) ac na fyddent o reidrwydd wedi mynd ati i gasglu gwybodaeth fanwl am gamau cyflawni ar bob safle/elfen o'r cyflenwad. Nid oedd y mwyafrif o'r cynlluniau cynnar yn cynnwys taflwybr tai. Roedd cynlluniau diweddarach yn fwy manwl ar y sail hon wrth i ACLIau symud tuag at roi mwy o bwyslais ar ddangos cyflawni drwy ddefnyddio'r dull taflwybr i ddangos amseriad a champau cyflawni safleoedd tai yn y CDLI. Fodd bynnag, cydnabyddir na fydd pob un ohonynt yn gyson o ran argaeledd gwybodaeth a'r ffordd y caiff ei chyflwyno. At hynny, fel arfer roedd taflwybrau tai yn cael eu llunio i gefnogi'r broses adneuo a/neu archwilio ac nid oeddent bob amser yn cael eu diweddarau ar ddiwedd y broses archwilio am nad oedd yn ofynnol gwneud hynny. Ar y sail hon, gall fod yn anodd i'r ACLIau hynny sydd â thafllwybr i fod yn hyderus ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa a'r ddarpariaeth yn y cynllun ar ddiwedd y sesiynau archwilio.


Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r ACLIau hynny a fabwysiadodd eu CDLI cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, ddefnyddio dull y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur faint o dai a gyflenwyd, a chynnwys y dull taflwybr mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. (gweler 8.15)

Bydd yn rhaid i ACLIau sy'n mabwysiadu CDLI ar ôl i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, fonitro faint o dai sy'n cael eu darparu drwy ddefnyddio'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig a'r dull taflwybr a nodir yn yr adran hon. (8.16-8.17)

Dylai'r ACLIau hynny nad ydynt wedi mabwysiadu eu CDLI cychwynnol barhau i lunio eu CDLIau yn unol â chanllawiau'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) a chynnwys, yn benodol, Dablau 19-21 a Diagram 16 yn eu CDLIau.

Mae'r diagram isod yn dangos y sefyllfa hon.

8.15 Dylai'r ACLlau hynny sydd â CDLI a fabwysiadwyd cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi ychwanegu gwybodaeth fwy cadarn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol am amseriad a chamau cyflawni safleoedd banc tir a dyraniadau. Dylid cynnwys taflwybr tai yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (wedi'i ategu gan Dablau 19-21) a luniwyd gyda'r wybodaeth orau sydd ar gael, a fydd yn rhoi ACLlau sydd newydd ddechrau ar adolygiad o gynllun neu a fydd yn dechrau ar adolygiad o gynllun yn y dyfodol, mewn sefyllfa gryfach. Yn yr achos hwn, caiff nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd ei blotio ar y graff yn erbyn 'llinell syth y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog' am nad oedd gan gynlluniau cynnar 'Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig fwy manwl' sy'n adlewyrchu amseriad a chamau cyflawni safleoedd yn y cynllun yn well. **Gall pob ACLI a fabwysiadodd CDLI cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu gael ei gyhoeddi lunio taflwybr yn seiliedig ar nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd hyd yma a nodi amseriad a chamau cyflawni safleoedd/cyflenwad yn y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun** yn y fformat tablaidd a graffigol a nodir yn y Llawlyfr hwn. Derbynnir, o ran y ffordd y mae'n cael ei gyflwyno, y gall y taflwybr fod yn wahanol i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn hynny o beth, er enghraifft gall cynlluniau cynnar na wnaethant gyfleu nifer y hap-ddatblygiadau dros gyfnod y cynllun yn glir, ei chael hi'n anodd cynnwys gwybodaeth fanwl am gamau cyflawni hap-safleoedd yn y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun.



Diweddaru'r Taflwybr Tai drwy ddefnyddio proses yr Adroddiad Monitro Blynyddol – Grŵp Rhanddeiliaid Tai a Chyflwyno'r Dadansoddiad yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Dylid cynnwys a diweddaru taflwybrau tai fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac mae'n rhaid i'r ACLI esbonio sut mae'n bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran nifer y tai a gyflenwyd yn erbyn y taflwybr.

Er mwyn bod yn glir, **ni ellir diwygio'r taflwybr gwreiddiol sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun a fabwysiadwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol**, yn hytrach caiff diweddariad ei lunio er mwyn cymharu nifer y tai a gyflenwyd mewn gwirionedd yn erbyn yr hyn a nodir yn y cynllun a fabwysiadwyd (y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig). Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys dau graff, un o'r cynllun a fabwysiadwyd yn erbyn y graff wedi'i ddiweddaru newydd a luniwyd ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Ar gyfer yr ACLIau hynny a fabwysiadodd CDLI cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu gael ei gyhoeddi, mae'n rhaid llunio taflwybr i'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol lle y caiff nifer y tai a gyflenwyd ei gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog.

Mae'n orfodol ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gynnwys Grŵp Rhanddeiliaid Tai ym mhroses yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'n rhaid i'r ACLI ailgynnull y grŵp mewn da bryd i lywio'r broses o gyhoeddi'r Adroddiadau Monitro Blynyddol erbyn 31 Hydref a sicrhau y caiff casgliadau'r Grŵp eu cynnwys ynddo. Mae cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn yr amserlenni a nodwyd yn ofyniad statudol ac ni ddylai gael ei ohirio gan y grŵp.

Caiff Cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid eu cadeirio gan yr ACLI. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ofyniad statudol a osodir ar yr ACLI. Dyma'r ddogfen sy'n nodi'n glir yr hyn nad yw'n gweithio a pham, a pha gamau y bydd yr ACLI yn eu cymryd i ddatrys unrhyw broblemau. Ar y sail hon, os bydd anghytundeb ynghylch amseriad a chamau cyflawni safleoedd, mater i'r ACLI fydd gwneud penderfyniad/dod i gasgliad ar y sail honno. Ni fydd gan yr un aelod o'r grŵp yr hawli wahardd cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Fodd bynnag, lle y ceir meysydd sy'n dal i fod yn destun anghydfod/anghytuno, a ddylai fod yn gyfyngedig o ran eu nifer, dylid cofnodi hyn yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Dylai'r Grŵp wneud pob ymdrech i sicrhau consensws ynglŷn ag amseriad a chamau cyflawni safleoedd yn ystod cyfnod y cynllun.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cylch gwaith y grŵp fydd ystyried y materion a nodwyd yn flaenorol ym Mhennod 5. I bob diben, diweddariadau o Dablau 19, 20 ac 21 a fydd yn llywio graff taflwybr tai newydd y mae'n rhaid ei gymharu yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol â'r hyn a geir yn y cynllun a fabwysiadwyd. At hynny, caiff gwybodaeth a gafwyd gan ddatblygwyr ar safleoedd allweddol ei defnyddio hefyd i lywio unrhyw ddangosyddion perthnasol a safle-benodol lle y bo'n gymwys.

Sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth – paramedrau ac egwyddorion allweddol

8.16 Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys adran sy'n cynnwys graff gwreiddiol y taflwybr (Diagram 16 – Graff Taflwybr Datblygu Tai) a Thabl 21 Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys diweddariad o'r ddwy elfen. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i waith monitro, cymharu a dadansoddi mwy manwl gael ei wneud yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Y pwynt allweddol yw y dylai fod yn glir i'r darllenwyr beth sydd wedi newid rhwng y cynllun a fabwysiadwyd a'r Adroddiad Monitro Blynyddol presennol. Mae'n rhaid i'r ACLI gynnwys sylwadau ar y canlyniadau a'r goblygiadau a nodi'n glir pa gamau (lle y bo'n berthnasol) sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg/tangyflawni yn erbyn strategaeth y cynllun. Mae'n rhaid cynnwys y fersiynau wedi'u diweddarau o Dablau 19 a 20 hefyd fel atodiadau i'r Adroddiad Monitro Blynyddol . Ar gyfer yr ACLlau hynny a fabwysiadodd CDLI cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu gael ei gyhoeddi bydd hyn yn cynnwys Diagram 16B cyfatebol drosodd, ond bydd y llinell ddu yn 'llinell syth y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog'.

Diagram 16A – Graff y Taflwybr fel y'i nodir yn y CDLI a fabwysiadwyd

- **Enghraifft Ddangosol:** Darpariaeth y Cynllun 12,000 o dai. Gofyniad y Cynllun 10,435 o dai – Hyblygrwydd y Cynllun 15%. Tybir y bydd dwy flynedd o ddata ar nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd pan gaiff y cynllun ei archwilio. Y 'llinell ddu' yw'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.





Diagram 16B - Graff y Taflywyr – fel y'i diwygiwyd drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol



- Dengys y graff wedi'i ddiwygio y cynllun pan fydd yn cyrraedd y cyfnod adolygu o bedair blynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu (Rheoliad 41).
- Dengys y graff fod diffyg blynyddol yn erbyn 'llinell ddu' y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig yn 2024/2025. Yn y flwyddyn hon mae nifer y tai a gwblhawyd yn cyfateb i -22 o unedau islaw'r hyn a ragwelwyd (802 y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig yn erbyn 780 o dai a gwblhawyd mewn gwirionedd) (- 2.7%)
- Y gyfradd adeiladu ofynnol gronol o ddechrau cyfnod y cynllun hyd at 31 Mawrth 2025 fel y'i nodir ar y 'llinell ddu' (yn ychwanegol at nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu) oedd 4,709 o unedau. Mae'r 'llinell frowngoch' ar gyfer nifer y tai a gwblhawyd yn nodi 4649 o unedau. Mae hyn yn cyfateb i ddiffyg o 60 o unedau o ran tai a gyflenwyd dros gyfnod y cynllun hyd yma (-1.27 %).
- Y 'barrau cyflenwi' yn y cyfnod sy'n weddill o'r cynllun fydd canlyniad y grŵp rhanddeiliaid (Tabl 19, 20 ac 21) a dengys fod y cyflenwad, ar y cyfan, yn fwy na'r hyn sydd ar ôl i'w adeiladu, yn gronol ac yn flynyddol.
- Mae'r graff hefyd yn dangos, wrth i ddyraniadau gael eu cyflwyno a chael caniatâd cynllunio, y byddai'r elfen hon, ar y cyfan, yn cynyddu'n gymesur tra byddai'r elfen dyrannu safleoedd yn lleihau.
- O ran tai a gwblhawyd yn unig, **mae'r cynllun, ar y cyfan, yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd.** Mater i'r ACLI fydd hyn, gan ddefnyddio pob dangosydd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i gynnwys sylwadau ar y canlyniadau / ffigurau a beth bydd hyn yn ei olygu yn y dyfodol.

Lle y ceir diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronol yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig neu'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol (nifer y tai a gwblhawyd bob blwyddyn, nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyhoeddwyd), mae'n rhaid i'r ACLI ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gasgliad/camau monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel ofynnol o dai neu gyflawni'r strategaeth. Gall methu â chyflawni yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig/Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynddo'i hun fod yn rheswm dros sbarduno adolygiad cynnar o'r cynllun. Mater i'r ACLI benderfynu arno fydd hwn.

Ystyriaethau eraill

8.17 Lle mae ACLI wedi cymhwyso 'ffactor disgownt %' (Tabl 18) at safleoedd â chaniatâd cynllunio pan fabwysiadwyd y CDLI, mae'n ymarferol anodd ac yn amhriodol cymhwyso'r un egwyddor at broses fonitro. Y rheswm dros hyn yw bod safleoedd a ddyrannwyd a thybiaethau o ran hap-safleoedd yn cael caniatâd cynllunio, wrth i gyfnod y cynllun fynd yn ei flaen, ac ni fyddai'n briodol cymhwyso ffactor disgownt at y safleoedd hyn am na chafodd ei gymhwyso atynt pan gafodd y cynllun ei fabwysiadu gyntaf. Yn y bôn, cymhwyswyd y ffactor disgownt ar adeg benodol at y banc tir yn unig ac nid at elfennau eraill o'r cyflenwad. Lle y gwnaeth ACLlau ddisgowntio safleoedd gwirioneddol drwy broses y CDLI, h.y. roedd safle â chaniatâd cynllunio yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio, dim ond os bydd yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol (a bod ganddynt ganiatâd cynllunio) y dylid ychwanegu'r safleoedd hyn yn ôl at y cyflenwad. Yn olaf, o ran hap-safleoedd mawr, ni ddylid eu hychwanegu at y ddwy flynedd gyntaf o'r cyflenwad er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith. Noder y bydd Tabl 21 yn wahanol i'r hyn a geir yn y cynllun a fabwysiadwyd. Bydd pob Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig o Dabl 21A er mwyn adlewyrchu nifer y tai a gwblhawyd bob blwyddyn mewn gwirionedd o gymharu â'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig/Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, fel y'u nodir yn y cynllun a fabwysiadwyd a dylid ei gyflwyno fel a ganlyn.

Tabl 21A

Blwyddyn y Cynllun Datblygu Lleol	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr	262	382	560	660	620	730	670								
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach	100	130	90	120	100	115	110								
Nifer y tai y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn								350	370	284	270	400	510	490	480
Nifer y tai y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau ar fanciau tir yn ystod y flwyddyn								465	450	500	300	150	150	70	
Nifer y tai y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau ar hapsafleoedd mawr yn ystod y flwyddyn								0	0	150	150	150	150	150	150
Nifer y tai y disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau ar hapsafleoedd bach yn ystod y flwyddyn								112	112	112	112	112	112	112	112
Nifer y Tai Wedi eu Cwblhau yn ystod y flwyddyn	362	512	650	780	720	845	780								
Cyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig o'r Cynllun Mabwysiedig			698	758	784	793	802	797	801	770	715	698	664	647	638

* Ni chyfrifir hapsafleoedd mawr o fewn dwy flynedd gyntaf y cynllun

Adolygu a Diwygio

Adolygu

Dywed Rheoliad 41 bod yn rhaid adolygu CDLI bob pedair blynedd o leiaf o'r dyddiad mabwysiadu.

Mae adran 69, PCPA 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLI gynnal adolygiad o'r CDLI a fabwysiadwyd ganddo ac adrodd ar ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru drwy Adroddiad Adolygu.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod angen adnewyddu'r sail dystiolaeth ar ôl pedair blynedd. Mae'n hanfodol bod CDLlau yn cael eu diweddarau'n gyson i sicrhau penderfyniadau cynllunio effeithiol a chyson, gan gefnogi amcanion system a arweinir gan gynllun a lleihau hap-ddatblygiadau.

Dylai'r Adroddiad Adolygu gael ei gyhoeddi o fewn chwe mis i sbarduno adolygiad o'r cynllun fel y nodir yn Rheoliad 41 (neu'n gynt os yw ACLI o'r farn bod hynny'n briodol).

Rhaid i'r **Adroddiad Adolygu ddod i gasgliad ar y weithdrefn adolygu**, p'un a yw'n ddiwygiad llawn (h.y. cynllun newydd) neu'r weithdrefn Adolygu Ffurf Fer.

Bydd Cytundeb Cyflawni'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yr un pryd â chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu neu'n fuan iawn wedyn (dim mwy na chwe mis ar ôl yr Adroddiad Adolygu).

Tabl 33: Sbardunau ar gyfer Adolygu

Adolygiad statudol		
1	PCPA 2004 (adran 69) a Rheoliad 41	Adolygu'r cynllun statudol yn gyfnodol, a dim mwy na phedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Gellir sbarduno hyn yn gynharach os yw'n gysylltiedig â dyddiadau terfyn y cynllun, amserlenni paratoi cynllun neu'r ACLI yn adolygu cynllun yn wirfoddol.
Sbardunau cyn yr adolygiad statudol sy'n effeithio ar gadernid y cynllun		
2	Tystiolaeth Adroddiad Monitro Blyneddol	<u>Rôl yr ACLI yw penderfynu ar arwyddocâd tueddiadau a nodir yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol a beth mae hyn yn ei olygu i'r cynllun ac unrhyw broses adolygu.</u> Pryderon sylweddol ynghylch gweithredu strategaeth y cynllun, effeithiolrwydd polisiau, cynnydd a gweithredu, h.y. tangyflawni/tuedd dwy flynedd ar gyfer y materion

		allweddol hynny megis darparu tai a chyflogaeth sydd wrth wraidd y broses o gyflawni strategaeth y cynllun.
3	Newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth	Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol (PCC) a/neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar strategaeth/polisiau allweddol y cynllun. Mabwysiadu cynllun haen uwch (h.y. y FfDC/Cynllun Datblygu Strategol) y gallai fod iddo oblygiadau i gynllun haen is.
4	Newid cyd-destunol	Newid sylweddol yn y cyd-destun y mae'r cynllun yn gweithredu ynddo, megis cau cyflogwr allweddol, newid mewn pwysau datblygu, galw'r farchnad neu strategaethau buddsoddi.
5	PCPA 2004 (adran 61)	Canlyniadau annisgwyl a sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd drwy waith arolygu wedi'i ddiweddarau sy'n effeithio ar weithredu strategaeth y cynllun.

Adroddiad Adolygu

Er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad Arolygu mor gadarn â phosibl a lleihau'r posibilrwydd o her gyfreithiol, yn enwedig y weithdrefn Adolygu Ffurf Fer, **mae'n hanfodol bod modd rhoi cyfiawnhad cryf i'r casgliadau yn yr Adroddiad Adolygu a dangos tystiolaeth i'w cefnogi'n unol â chanfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol a thystiolaeth ategol arall.** Mater i bob ACLI yw sicrhau ei fod wedi cynnal proses casglu tystiolaeth gadarn i amddiffyn ei gasgliadau, os cânt eu herio.

Lle mai'r canlyniad yw'r weithdrefn adolygu ffurf fer argymhellir bod yr Adroddiad Adolygu, ynghyd â thystiolaeth berthnasol i gyfiawnhau'r casgliad, yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru er mwyn iddo fynegi barn anffurfiol 'heb leihau effaith' yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir. **Pan fo pryderon sylweddol yn parhau ynghylch cwblhau'r Adroddiad Arolygu cyfeirir at hyn yn ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Cyflawni a gyflwynwyd,** gan amlinellu faint o risg y gallai'r ACLI ei hwynebu.

8.14 Dylai Adroddiad Adolygu fod yn fyr ac yn gryno a dylai amlinellu'r canlynol yn glir o leiaf:

- Pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried i lywio adolygiad o'r cynllun a pham
- Sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar weledigaeth, nodau ac amcanion y cynllun, gan gynnwys rhoi'r strategaeth ar waith

- Adolygiad o bob maes pwnc yn y cynllun gan nodi'n glir beth sydd angen ei newid a pha rannau o'r sail dystiolaeth y mae angen eu diweddarau i gefnogi'r newidiadau
- Ni fwriedir diwygio'r goblygiadau ar gyfer y rhannau hynny o'r cynllun o ran cydlynid ac effeithiolrwydd y cynllun yn ei gyfanrwydd
- Ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS a HRA
- Archwilio ac esbonio'r cyfleoedd i baratoi CDLlau ar y Cyd/CDLICau ar y Cyd gyd ACLlau cyfagos a chynyddu gweithio traws-ffiniol
- Casgliadau clir ynghylch pam mae angen dilyn y drefn lawn, neu'r weithdrefn adolygu ffurf fer

8.15 Er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad Adolygu mor gadarn â phosibl a chyfiawnhau ei gasgliadau, dylai ACLlau ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau. Dylai fod yn glir pa gyrff yr ymgynghorwyd â nhw, pa ymatebion a gafwyd a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y ffordd ymlaen. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol i ACLlau sy'n ymgymryd â'r weithdrefn adolygu ffurf fer (Rheoliad 26A CDLlau).

8.16 Dim ond wrth adolygu'r cynllun y gellir gwneud newidiadau i'r CDLI a fabwysiadwyd, fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu. Bydd yr Adroddiad Adolygu'n rhan allweddol o'r sail dystiolaeth sy'n sail i ffurf a chynnwys y cynllun diwygiedig; sy'n cael ei gyflwyno i'r Arolygydd i'w archwilio. Bydd sicrhau ei fod ar gael yn gynnar yn y broses adolygu'n golygu y gall gael ei ystyried gan bob parti a bod modd cyflwyno sylwadau arno. Dylai'r ACLI nodi unrhyw sylwadau a wnaed ac ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer cynnwys y cynllun a'r broses adolygu, h.y. adolygiad llawn o'r cynllun neu weithdrefn adolygu ffurf fer.

Adolygu'r Cynllun

8.17 Ar ôl paratoi cyfres o Adroddiadau Monitro Blynyddol sydd wedi nodi bod y cynllun yn cyflawni neu ddim yn cyflawni yn erbyn ei amcanion, neu wedi cyrraedd 4 blynedd ar ôl mabwysiadu'r CDLI, rhaid i'r ACLI ystyried sut mae'n mynd i adolygu ei gynllun, er mwyn paratoi cynllun i'w ddisodli. Byddai cyhoeddi FfDC, neu fabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol, yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ACLI ystyried yr angen i adolygu ei CDLI a fabwysiadwyd.

8.18 Mae'r llwybr i adolygu'r cynllun yn cynnwys dau opsiwn. Yn gyntaf, diwygio'r cynllun yn llawn gan ddilyn yr un gweithdrefnau ag a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cynllun a fabwysiadwyd, neu yn ail, y weithdrefn adolygu ffurf fer lle mae'r paramedrau sydd i'w hystyried yn llawer mwy penodol ac yn gyfyngedig eu cwmpas, fel y dangosir drwy'r Adroddiad Adolygu.

8.19 Gallai'r weithdrefn adolygu ffurf fer fod yn destun mwy o risg o ran heriau gweithdrefnol. Er enghraifft, a yw cwmpas yr adolygiad yn mynd y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu a/neu a yw polisi cenedlaethol newydd (drwy gyhoeddi argraffiad mwy diweddar o Bolisi Cynllunio Cymru) yn gofyn am newid sylweddol i'r cynllun a fabwysiadwyd, gan ehangu'r adolygiad unwaith eto? Yn dibynnu ar sut mae cwmpas a/neu gylch gwaith y broses adolygu ffurf fer yn mynd yn fwy eang, gallai gynyddu graddau'r risg weithdrefnol. Bydd yn fater i ACLI unigol ei ystyried a'i asesu yn unol â hynny.

Adolygiad Ffurf Fer

8.20 Dim ond os nad yw'r materion a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau ymgymryd â'r weithdrefn adolygu lawn y dylid ystyried y weithdrefn adolygu ffurf fer. Bydd ymgynghori'n anffurfiol â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn helpu i gadarnhau casgliad yr ACLI.

8.21 **Dim ond** os na fydd casgliadau'r Adroddiad Adolygu'n gwneud y canlynol y dylid ystyried y weithdrefn adolygu ffurf fer:


- Dangos nad yw'r strategaeth bresennol yn cael ei hystyried yn gadarn
- Dangos bod angen newidiadau i'r strategaeth neu unrhyw ran ohoni
- Arwain at gynllun, neu rannau o'r cynllun, yn dod yn wahanol iawn i'r cynllun a fabwysiadwyd
- Cynnig newidiadau sy'n sylweddol o ran cwmpas, nifer a graddfa

8.22 Lle bo ACLI yn penderfynu defnyddio'r weithdrefn adolygu ffurf fer, rhaid iddo allu cyfiawnhau ei gasgliadau'n gadarn yn unol â'r cynllun, y strategaeth a'r dystiolaeth ategol. Mae methiant i wneud hyn a symud ymlaen yng ngoleuni pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn strategaeth risg uchel a gallai arwain at waith ofer, costau diangen ac oedi sylweddol o ran amser os ystyrir yn ystod yr archwiliad bod y materion dan sylw yn cyfiawnhau'r weithdrefn adolygu lawn.

Gofynion Deddfwriaethol

Dywed adran 69(3) o PCPA 2004 bod yn **rhaid cynnal adolygiad o'r cynllun a'i gyhoeddi yn y ffurf a bennir** yn y Rheoliadau CDLlau. Mae Rhan 4A o'r Rheoliadau'n egluro'r weithdrefn adolygu ffurf fer. Yn wahanol i'r weithdrefn adolygu lawn, **nid yw'r weithdrefn adolygu ffurf fer yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo na pharatoi strategaeth a ffefrir.**

Diagram 20: Camau yn y weithdrefn adolygu ffurf fer



8.23 Drwy'r weithdrefn adolygu ffurf fer, rhagdybir bod y strategaeth yn y cynllun a fabwysiadwyd yn parhau'n briodol wrth symud ymlaen, yn ei hanfod mae'n 'gadarn'. Ar sail y rhagosodiad hwn, h.y. mae'r strategaeth yn parhau'n ddilys. Mae'r weithdrefn adolygu ffurf fer yn eithrio Rheoliad 15 a'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo ar raddfa a dosbarthiad twf.

8.24 Gyda llai o gamau deddfwriaethol ni ddylai'r amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun fod yn fwy na blwyddyn, yn cynnwys yr alwad am safleoedd ymgeisiol. Yn y rhan

fwyaf o achosion, gellid cwblhau'r archwiliad mewn 6 mis a gallai sesiynau'r gwrandawriad gael eu trefnu dros 2-3 diwrnod. At ei gilydd, dylai fod modd paratoi cynllun mewn tua blwyddyn a hanner, gydag un cyfnod llithriant ychwanegol o dri mis. Mae Tabl 34 yn crynhoi amserlen yr adolygiad ffurf fer.

8.25 Ni ddisgwylir y bydd angen ymgymryd â Newidiadau â Ffocws fel rhan o'r weithdrefn adolygu ffurf fer gan fod y newidiadau'n gyfyngedig o ran eu cwmpas, eu graddfa a'u natur. Bydd amser paratoi cynllun byrrach ar gyfer yr adolygiad ffurf fer yn helpu'r sail dystiolaeth bresennol i barhau'n gyfredol ac yn berthnasol. Dylid nodi hefyd bod cynllun mabwysiedig yn bodoli eisoes. Ni ddylai fod angen gwneud newidiadau ar ôl adneuo. Os, o dan amgylchiadau eithriadol, bod mân wallau ffeithiol yn cael eu canfod, gellir cywiro'r rhain drwy'r datganiadau gwrandawriad a Newidiadau Materion sy'n Codi yn y cam archwilio.

Tabl 34: Amserlen (Adolygiad Ffurf Fer)

Cam Allweddol		Amserlenni
Diffiniol		
Cam 1	Cytundeb Cyflawni Paratoi a chyflwyno	Hyd at bedair wythnos am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Cam 2	Cyn adneuo Ymgynghori â chyrrff ymgynghori penodol a chyffredinol a galw am safleoedd ymgeisiol o bosibl	Hyd at chwe mis
Cam 3	Cynllun adneuo ymgynghoriad cyhoeddus	Tua 6 mis
Dangosol		Amserlenni
Cam 4	Cyflwyno	Tua chwe mis yn unol â Chanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio
Cam 5	Archwilio	
Cam 6	Adroddiad yr Arolygydd	
Cam 7	Mabwysiadu	Cyfanswm amser paratoi'r cynllun hyd at flwyddyn a hanner gydag un cyfnod llithriant ychwanegol o dri mis

Gofynion Cyn Adneuo (Rheoliad 26A)

8.26 Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n ffurfiol ar y Cytundeb Cyflawni, gall yr ACLI gymryd camau yn unol â Rheoliad 26A (1) (Rhan 4A). Y cam

cyntaf yw ymgynghori â chyrrff ymgynghori penodol a chyffredinol ar yr Adroddiad Adolygu a'r dystiolaeth ategol. Ymgynghoriad statudol yw hwn a bydd angen ei gynnal hyd yn oed os yw'r ACLI wedi ymgynghori'n anffurfiol â'r un cyrrff yn gynharach yn y broses.

8.27 Dylai'r Adroddiad Adolygu nodi'n glir sut mae ymgynghori cynharach wedi llywio'r canfyddiadau a'r casgliadau ar y weithdrefn adolygu i'w dilyn. Rhaid i bob casgliad yn yr Adroddiad Adolygu gael ei ategu gan dystiolaeth naill ai drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol a/neu ddiweddariadau i dystiolaeth. Os mai bwriad yr ACLI yw cynnwys dyraniadau safle newydd yn y CDLI diwygiedig, dylid nodi hyn yn glir yn yr Adroddiad Adolygu ar gyfer yr ymgynghoriad.

8.28 Yna mae'n rhaid i'r ACLI ystyried yr holl sylwadau, darparu ymateb a chyhoeddi Adroddiad Ymgynghori cychwynnol (Rheoliad 26A(3) a (4)). Ar ôl i'r adroddiad ymgynghori cychwynnol gael ei baratoi, dylid cadarnhau'r cynnwys perthnasol sy'n cael ei adolygu a chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Os bydd canfyddiadau'r adroddiad ymgynghori cychwynnol yn cefnogi'r angen am ddyraniadau safleoedd newydd, dim ond wedyn y gall yr ACLI fynd ati i ofyn am enwebiadau ar gyfer safleoedd a galw am safleoedd ymgeisiol (Rheoliad 26A(6)).

8.29 Pan fo'r alwad am safleoedd ymgeisiol wedi cau, rhaid ystyried pob safle (Rheoliad 26A(9)) cyn y cam adneuo (Rheoliad 26B) i ddangos pa mor gyflawnadwy a hyfyw yw safleoedd sydd i'w dyrannu yn y cynllun. Dylai pob safle gael ei asesu gan ddefnyddio methodoleg camau cyflawni sy'n cynnwys hidlo cychwynnol ac asesiad manwl yn tynnu ar y casgliadau yn yr Adroddiad Adolygu a gwybodaeth am gyflawni safleoedd a'u hyfywedd. (Mae paragraffau 3.29 – 3.78 yn rhoi arweiniad pellach ar asesu safleoedd ymgeisiol.)

8.30 Argymhellir bod Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol (Rheoliad 26A(8)) gan gynnwys asesiadau safle, ar gael yn gyhoeddus cyn y cam adneuo at ddibenion gwybodaeth yn unig. Ar ôl asesu pob safle dylai'r ACLI lunio rhestr wedi'i blaenoriaethu o safleoedd y mae'n eu hystyried yn addas i'w dyrannu a dylid ymgynghori ar y rhestr hon gyda'r cyrrff perthnasol a darparwyr seilwaith.

8.31 Bydd angen cyflwyno tystiolaeth bod rhestr wedi'i blaenoriaethu o safleoedd sy'n addas i'w dyrannu yn y cynllun yn gyflawnadwy, yn enwedig o ran hyfywedd ariannol. Mae angen tystiolaeth hyfywedd eang ar y cam safle ymgeisiol er mwyn dangos y gall safleoedd gael eu datblygu mewn egwyddor. Mae hyn yn cyd-fynd â'r weithdrefn adolygu lawn lle y dylid cynnal asesiad hyfywedd ariannol ar gyfer pob safle newydd cyn gynted â phosibl. Bydd angen eglurder o ran gwybodaeth am gostau, rhwymedigaethau cynllunio adran 106, maint elw a gofynion polisi eraill. Bydd angen i'r dystiolaeth sy'n ategu dyraniadau safleoedd fod yn gadarn ac yn gymesur â maint ac arwyddocâd y safleoedd wrth gyflawni'r cynllun. (Mae

paragraffau 3.44 – 3.78 yn rhoi arweiniad pellach ar ddangos sut caiff y safleoedd eu cyflawni a'u hyfywedd ariannol.) Mae'n bwysig nodi y bydd angen yr holl dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn paratoi adolygiad llawn o'r cynllun, er enghraifft, paratoi tafliwybr tai gan ystyried camau cyflawni safleoedd ac unrhyw angen i fodloni gofynion newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ar gyfer y weithdrefn adolygu ffurf fer hefyd.

Cam Adneuo (Rheoliad 26B)

8.32 Ar ôl y cam cyn adneuo, mae Rheoliadau 26B – 26E yn adlewyrchu'r weithdrefn adolygu lawn fwy na heb ar y cam adneuo hyd at yr archwiliad.

Mae'n rhaid i'r holl newidiadau a gynigir yn y cam adneuo ddeillio o'r Adroddiad Adolygu gyda chysylltiad clir rhwng pob newid a chasgliadau ac argymhellion yr adroddiad. Mae cynnig unrhyw ddiwygiadau pellach, waeth pa mor fach ydynt, y tu allan i gwmpas yr Adroddiad Adolygu yn strategaeth risg uchel gan y gallai hyn oedi'r broses a chreu risg o wneud gwaith ofer os ystyrir bod nifer a graddfa'r newidiadau yn yr archwiliad yn cyfiawnhau ymgymryd â'r weithdrefn adolygu lawn.

8.33 Pan gaiff y cynllun ei adneuo, dyma fydd y tro cyntaf y bydd aelodau'r cyhoedd, rhanddeiliaid a grwpiau a sefydliadau eraill yn gweld graddau llawn y newidiadau a gynigir. Mae'n bwysig bod ACLlau yn esbonio mai dim ond rhai rhannau o'r cynllun sy'n cael eu diwygio ac y dylai sylwadau ymwneud â'r newidiadau hyn yn unig. Ni fydd angen i sylwadau a gyflwynir ar rannau o'r cynllun y tu allan i gwmpas y diwygiad gael eu hystyried gan yr ACLI a dylid nodi hyn yn glir yn yr adroddiad ymgynghori.

8.34 Y ffordd orau o ddangos newidiadau rhwng y CDLI a fabwysiadwyd a'r CDLI diwygiedig newydd yw mewn cynllun cyfansawdd gyda thestun y CDLI a fabwysiadwyd sy'n cael ei ddiwygio drwy newidiadau wedi'u tracio. Gallai fod yn fuddiol dangos y newidiadau wedi'u tracio mewn dau liw gwahanol, gan ddangos testun newydd a thestun wedi'i ddileu. Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig fod yn hawdd eu gweld naill ai'n unigol, neu eu grwpio yn ôl polisi a/neu fater.

8.35 Er mwyn cynorthwyo darllenwyr y cynllun i weld y newidiadau a deall y sail resymegol ar gyfer pob newid, dylai dogfen ar wahân i ategu'r cynllun cyfansawdd gael ei pharatoi a'i chyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad adneuo (Tabl 35). Dylai'r ddogfen hon restru'r holl newidiadau wedi'u tracio gydag esboniad clir am bob testun newydd a/neu destun wedi'i ddileu gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r map cynigion sy'n dangos newidiadau i ffiniau a dyraniadau safleoedd newydd, lle y bo'n berthnasol.

Tabl 35: Nodi Newidiadau i'r CDLI Mabwysiedig

Rhif cyfeirnod	Rhif Tudalen	Pennod / paragraff CDLI neu bolisi	Diwygiad arfaethedig	Cyfiawnhad

Cyflwyno ac Archwilio (Rheoliad 26E)

8.36 Dylai'r dogfennau cyflwyno gynnwys:

- Cytundeb Cyflawni
- Adroddiad Adolygu
- Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSR) os yw'n berthnasol
- CDLI Adneuo gyda newidiadau wedi'u tracio
- Rhestr o destun newydd a thestun wedi'i ddileu
- Copi o'r holl sylwadau adneuo
- Papurau cefndir ategol
- Adroddiadau Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS/HRA ac adroddiadau statudol eraill
- Adroddiadau ymgynghori wedi'u paratoi yn y camau cyn adneuo ac adneuo

8.37 Oherwydd natur y weithdrefn adolygu ffurf fer ac amserlenni paratoi cynllun byrrach, dylai'r adroddiad ymgynghori a baratowyd ar ôl adneuo gynnig ychydig iawn o newidiadau, os o gwbl, i'r CDLI adneuo. Os oes angen gwneud nifer bach o newidiadau, yna bydd angen i'r ACLI ystyried y rhain yng nghyd-destun y weithdrefn adolygu, ac ni fydd yn tybio bod diweddariadau a/neu gywiriadau i ffeithiau yn tanseilio'r broses. Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r CDLI adneuo gael eu nodi'n glir fel rhan o'r datganiadau gwrandawriad, a gallai'r rhain ymddangos fel Newidiadau i'r Materion sy'n Codi, nid Newidiadau â Ffocws.

8.38 Yn ystod yr archwiliad bydd yr Arolygydd yn ystyried yr holl ddiwygiadau arfaethedig yng nghyd-destun y cynllun mabwysiedig a'i gadernid parhaus. Mae'n rhaid i'r Arolygydd fod yn fodlon bod y cynllun cyfan yn parhau i fod yn gadarn cyn y gellir mabwysiadu'r CDLI diwygiedig, yn ei gyfanrwydd.

Pennod 9: Canllawiau Cynllunio Atodol

Beth yw statws Canllawiau Cynllunio Atodol?

Dim ond y polisïau yn y cynllun datblygu mabwysiedig sydd â statws arbennig o dan adran 38(6) PCPA 2004 wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir ystyried canllawiau cynllunio atodol fel ystyriaeth berthnasol cyn belled â'u bod yn deillio o'r cynllun datblygu mabwysiedig ac yn gyson ag ef a'u bod wedi bod yn destun ymgynghoriad eu hunain, a fydd yn eu gwneud yn fwy dylanwadol.

Nid yw canllawiau cynllunio atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol, ond mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun a'r polisi cynllunio cenedlaethol. Ni ellir cysylltu canllawiau cynllunio atodol â pholisi cenedlaethol yn unig; mae'n rhaid bod yna bolisi CDLI neu faen prawf polisi sy'n darparu 'bachyn' y cynllun datblygu tra bod y cyfiawnhad rhesymedig yn rhoi eglurhad o'r polisi cenedlaethol cysylltiedig.

9.1 Dylai pob canllaw cynllunio atodol ddeillio o bolisi CDLI neu, yn achos prif gynllun/briff datblygu, o ddyraniad safle. Ni ddylid defnyddio canllawiau cynllunio atodol i bennu pa fath, graddfa a lefel o ddatblygiad sy'n briodol ar gyfer safleoedd penodol. Gall fod gan ganllawiau cynllunio atodol rôl allweddol o ran dehongli ac ehangu ar bolisiau generig yn y CDLI. Gall canllawiau cynllunio atodol:

- Darparu canllawiau pwysig er mwyn ehangu ar bolisi sy'n seiliedig ar bwnc er mwyn helpu i weithredu'r CDLI (e.e. dylunio, tirwedd, seilwaith gwyrdd, treftadaeth, cadwraeth, tai amlfeddiannaeth (HMO), ynni adnewyddadwy)
- Nodi canllawiau/trothwyon manylder a rhifiadol lle y gallant newid er mwyn sicrhau nad yw'r CDLI yn dyddio'n gyflym ac er mwyn hwyluso hyblygrwydd (e.e. safonau parcio ceir)
- Darparu canllawiau manwl ychwanegol ar y math o ddatblygiad a ddisgwylir mewn ardal a neilltuwyd ar gyfer ei datblygu yn y CDLI. Gallai hyn fod ar ffurf briff datblygu neu brif gynllun manylach.

9.2 Nid yw canllawiau cynllunio atodol yn destun archwiliad ond dylent fod yn gyson â pholisi cenedlaethol. Ni ddylent gael eu mabwysiadu'n ffurfiol tan ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygydd ar y CDLI a bod y dull polisi wedi'i gadarnhau drwy benderfyniad i fabwysiadu'r cynllun gan yr ACLI. Dylai unrhyw ddogfennau a fabwysiedir fel canllawiau cynllunio atodol gydymffurfio â'r gweithdrefnau sydd wedi'u derbyn ar gyfer canllawiau cynllunio atodol (h.y. ymgynghori, diwygio a chymeradwyo).

Sut dylid ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu?

Ni ddylai'r CDLI ddirprwyo'r meini prawf ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i ganllawiau cynllunio atodol – dim ond cyngor a chanllawiau ddylai fod ynddynt. Ni ddylid defnyddio canllawiau cynllunio atodol chwaith er mwyn osgoi craffu cyhoeddus ar bolisiâu a chynigion a'u harchwilio'n annibynnol yn unol â'r gweithdrefnau statudol.

Dylai ACLlau nodi canllawiau cynllunio atodol allweddol sy'n hanfodol i weithredu safleoedd a chynigion allweddol o fewn y CDLI. Lle mae canllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â, ac yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o oblygiadau'r cynllun neu bolisi allweddol, yn ddelfrydol dylid eu paratoi ac ymgynghori arnynt ochr yn ochr â'r CDLI.

Dylai'r CDLI adneuo gynnwys gwybodaeth am ganllawiau cynllunio atodol cysylltiedig gyda'r amserlenni a ragwelir ar gyfer eu mabwysiadu o fewn atodiadau'r cynllun. Dylid cyfeirio at baratoi canllawiau cynllunio atodol allweddol yn y fframwaith monitro.

9.3 Dylai CDLlau gynnwys digon o bolisiâu a chynigion i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, gan osgoi gormod o fanylion. Ni ddylai CDLlau ailadrodd polisi cenedlaethol. Mae defnydd dethol o ganllawiau cynllunio atodol yn fodd o gyflwyno canllawiau mwy manwl, thematig, neu benodol i safle ar y ffordd y mae polisiâu CDLI yn cael eu dehongli a'u cymhwyso mewn amgylchiadau, neu ardaloedd penodol. Bydd yn bwysig ystyried rôl bosibl canllawiau cynllunio atodol mewn perthynas â strategaeth y CDLI, polisiâu, a goblygiadau ar gyfer adnoddau, yr amserlen a monitro. Dylai ACLlau adolygu effeithiolrwydd a pherthnasedd eu canllawiau cynllunio atodol presennol yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLI. Mae'n bosibl y gallai rhai Canllawiau Cynllunio Atodol presennol gael eu diwygio â mân ddiwygiadau, er mwyn nodi, o bosibl, pa rai o bolisiâu'r CDLI newydd y maent yn eu hategu (h.y. dylunio, blaen siopau, safonau meysydd parcio ac ati). Efallai y bydd angen gwneud newidiadau mwy sylweddol er mwyn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed i bolisiâu cenedlaethol a lleol. Mae'n rhaid i bob canllaw cynllunio atodol gael ei fabwysiadu yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

9.4 Dylai Cynlluniau Lleoedd gydymffurfio â'r cynllun datblygu a chael eu mabwysiadu gan yr ALI fel canllawiau cynllunio atodol i'r cynllun (gweler paragraffau 5.6 – 5.9). Gallant lywio'r adolygiad CDLI, gael eu paratoi ochr yn ochr â CDLI, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled â bod 'bachyn polisi' digonol yn y cynllun. Ni allant ddyblygu neu gyflwyno polisi newydd, ac ni allant ddad-ddyrannu safleoedd a nodwyd yn y cynllun datblygu mabwysiedig chwaith. Nid yw Cynlluniau Lleoedd yn rhan o'r cynllun datblygu statudol; yn hytrach maent yn ychwanegu manylder at y cynllun mabwysiedig.

Ystyriaethau Ymgynghori, Paratoi a Monitro

9.5 Er bod yn rhaid i ganllawiau cynllunio atodol ymwneud â pholisi CDLI penodol a gofyn am gyfranogiad lleol, bydd rhai materion sy'n ymwneud â chanllawiau cynllunio atodol yn gyffredin ar draws nifer o ACLlau.

Bydd yn fwy effeithlon os caiff canllawiau cynllunio atodol eu cynhyrchu ar y cyd ag ACLlau eraill lle bo hynny'n bosibl. Gallai grwpiau o ACLlau nodi, gyda'i gilydd, enghraifft o arfer da y gellid ei mabwysiadu fel dull enghreifftiol, wedi'i theilwra i'r amgylchiadau lleol.

9.6 Dylai'r Cytundeb Cyflawni bennu pa ganllawiau cynllunio atodol fydd yn cael eu paratoi (neu eu diwygio) pryd a'r amserlen sy'n nodi pryd y byddai canllawiau cynllunio atodol yn cael eu cyhoeddi at ddiben ymgynghori a hyd yr ymgynghoriad hwnnw. Dylai nodi'r dulliau o gynnwys cymunedau sy'n addas ar gyfer mathau gwahanol o ganllawiau cynllunio atodol hefyd. Rhaid dilyn ymrwymadau i gynnwys ac ymgynghori os yw'r canllawiau cynllunio atodol i fod o unrhyw werth.

Ni fydd gan ganllawiau cynllunio atodol fawr ddim neu ddim dylanwad oni chânt eu paratoi'n unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau ac oni fyddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad y Cyngor/Awdurdod Parc Cenedlaethol.

- Dylid cynnwys swyddogion rheoli datblygu.
- Dylid ymgynghori ag ymgynghoreion perthnasol (e.e. Rheoliadau CDLI, Cynllun Cynnwys Cymunedau)
- Dylid sicrhau bod canllawiau cynllunio atodol drafft ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus
- Dylid defnyddio proses 'sgrinio' Rheoliadau AAS, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.
- Dylai'r ACLI fabwysiadu'r canllawiau cynllunio atodol yn ffurfiol fel y gall Arolygwyr roi sylw priodol iddynt wrth benderfynu ar apeliadau
- Dylai canllawiau cynllunio atodol mabwysiedig gynnwys, neu gyfeirio at, ddatganiad ymgynghori ac unrhyw newidiadau a wneir

Dylid gwerthuso pa mor effeithiol ydynt ar y cyd â'r polisi y maent yn ei ategu fel rhan o'r broses fonitro flynyddol. Mae gan fonitro blynyddol gyfraniad i'w wneud hefyd o ran nodi'r gofyniad am unrhyw ganllawiau cynllunio atodol newydd neu rai wedi'u diweddarau.

9.7 Er bod canllawiau cynllunio atodol yn anstatudol ac nad oes angen Arfarniad o Gynaliadwyedd, AAS na HRA arnynt, gall y Rheoliadau AAS fod yn berthnasol i rai mathau o ganllawiau cynllunio atodol, er enghraifft rhai briffiau datblygu, prif

gynlluniau neu Gynlluniau Lleoedd. Lle mae sgrinio'n dangos bod AAS a/neu HRA yn berthnasol a bod effeithiau amgylcheddol sylweddol yn debygol, bydd angen i'r ACLI sicrhau ei fod wedi bodloni gofynion y Rheoliadau SEA a HRA.

Pennod 10: Cynlluniau Datblygu Strategol

Gofynion Cyfreithiol Cynllun Datblygu Strategol

10.1 Er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau ALI, cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 y gallu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Nid yw'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau, eu patrymau gweithio/cymudo, eu perthynas ag ysgolion a gweithgareddau hamdden wedi'u cyfyngu gan ffiniau gweinyddol ALI. Nid yw cynllunio ar sail ACLI unigol yn adlewyrchu sut mae pobl yn byw eu bywydau, sut mae marchnadoedd yn gweithredu na sut mae busnesau'n gweithio. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnig y gallu i sicrhau bod ardal ddaearyddol ehangach yn cwmpasu materion o'r fath mewn un cynllun, yn eu rhesymoli ac yn darparu dull cydlynol.

10.2 Mae'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Strategol yn adlewyrchu'r broses o baratoi CDLI yn fras o ran y camau statudol. Yn dilyn cais gan Awdurdod Cyfrifol (RA) i baratoi Cynllun Datblygu Strategol, bydd Rheoliadau'n cael eu paratoi i hwyluso'r broses. Bydd Rheoliadau 'Ffurf a Chynnwys' Cynllun Datblygu Strategol yn seiliedig ar Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd 2015). Mae Rheoliadau y gallai fod angen eu diwygio neu nad ydynt yn berthnasol o reidrwydd i Gynllun Datblygu Strategol, yn amodol ar waith pellach, i'w gweld yn Nhabl 36.

Tabl 36: Rheoliadau CDLI sydd angen eu diwygio/ddim yn berthnasol i Gynllun Datblygu Strategol?

Rheoliad 2	Bydd cyfeiriadau at Reoliadau 26A a 26B (gweithdrefn adolygu ffurf fer) yn cael eu dileu.
Rheoliad 12	Mae Rheoliad 12(2) yn cyfeirio at y map cynigion a pholisïau penodol i safle. Bydd angen diwygio'r Rheoliad hwn gan y gallai'r Cynllun Datblygu Strategol gynnwys polisïau nad ydynt yn benodol i safle ond sy'n seiliedig ar Ardaloedd Chwilio i gynnwys estyniadau trefol a chydymffurfio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS.
Rheoliad 13	Efallai y bydd angen cynnwys cyfeiriadau at fwy o gynlluniau a strategaethau rhanbarthol/cenedlaethol.
Rheoliad 13A	Ni fydd y Rheoliad hwn yn gymwys gan ei fod yn cyfeirio at y weithdrefn adolygu ffurf fer
Rheoliadau 26A – 26E	Ni fydd y cyfan o Ran 4A (Rheoliadau 26A i 26E) yn gymwys i Gynlluniau Datblygu Strategol gan fod hyn yn cyfeirio at y weithdrefn adolygu ffurf fer.
Rheoliad 36	Ni fydd y Rheoliad hwn yn gymwys i Gynlluniau Datblygu Strategol gan ei fod yn cyfeirio at CDLlau ar y Cyd. Ni fydd Cynlluniau Datblygu Strategol ar y Cyd.

Rheoliad 41	Bydd y cyfnod ar gyfer adolygu Cynllun Datblygu Strategol yn wahanol i'r cyfnod adolygu statudol o bedair blynedd ar gyfer CDLlau. Y bwriad yw ystyried cyfnod rhwng pedair a chwe blynedd, i'w benderfynu.
-------------	---

10.3 Mae Rhan 6 ac Atodlen 2A o PCPA 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Polisi Cynllunio (Cymru) 2015, yn nodi'r fframwaith i sefydlu Panel Cynllunio Strategol, sef y corff a fydd yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio'r broses ymarferol o sefydlu Panel Cynllunio Strategol.

<https://llyw.cymru/cynlluniau-datblygu-strategol-canllaw-ar-gyfer-awdurdodau-cynllunio-lleol>

Agweddau Allweddol ar Gynllun Datblygu Strategol

- Mae Cynllun Datblygu Strategol yn rhan o'r 'Cynllun Datblygu' statudol
Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 9) yn diwygio adran 38 (4) o PCPA 2004 sy'n nodi bod y Cynllun Datblygu Strategol yn rhan o'r cynllun datblygu. Os yw Cynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu neu ei gymeradwyo, dylid gwneud penderfyniadau'n unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol. Bydd y cynllun datblygu yn cynnwys CDLIC, CDLI, Cynllun Datblygu Strategol a FfDC sydd ar gael pan gânt eu mabwysiadu, eu cymeradwyo neu eu cyhoeddi (yn ogystal â CDLlau ar y Cyd a CDLIC ar y Cyd, os/lle maent yn cael eu mabwysiadu).
- Cydymffurfiaeth gyffredinol â chynlluniau eraill
Mae Polisi Cynllunio (Cymru) 2015 (adran 6) yn mewnosod adran 60I yn PCPA 2004 sy'n dweud bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Strategol gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC; mae adran 7 yn mewnosod adran 62(3A) yn PCPA 2004 sy'n dweud bod yn rhaid i CDLI gydymffurfio'n gyffredinol â Chynllun Datblygu Strategol a'r FfDC (lle y bo'n berthnasol). Rhoddir esboniad o gydymffurfiaeth gyffredinol a'r berthynas rhwng gwahanol gynlluniau ym mharagraffau 2.16 i 2.21 yn y Llawlyfr.
- Cyfnod y Cynllun Datgelu Strategol
Dywed adran 60I(4) bod yn rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol bennu'r cyfnod y bydd yn effeithiol amdano ("cyfnod y cynllun"). Gall Gweinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch cyfnod y cynllun. Y bwriad yw mynegi cyfnod o 25 mlynedd o leiaf ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol, gyda chyfnod gweithredol o ugain mlynedd o leiaf pan gaiff ei gyflwyno i'w archwilio'n gyhoeddus.

- Dyddiad gorffen Cynllun Datblygu Strategol
Dywed adran 60I(10) bod y cynllun yn peidio â bod yn Gynllun Datblygu Strategol pan ddaw cyfnod y cynllun i ben. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull ar gyfer CDLlau (adran 62(9) o PCPA 2004, a fewnosodwyd gan adran 12, Polisi Cynllunio (Cymru) 2015).
- Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS/HRA
Mae adran 60I(7) yn ei gwneud yn ofynnol i Banel Cynllunio Strategol gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y cynllun. Ar gyfer cynlluniau datblygu yng Nghymru, Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cwmpasu AAS yw hwn. Mae adran 60I(8) yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg. Bydd angen HRA ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd, ac mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn wirfoddol ar hyn o bryd (gweler paragraff 4.16) sy'n adlewyrchu'r dull ar gyfer CDLlau.
- Map Cynigion
Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys cyfres o fapiau sy'n cynnwys y map cynigion, yn cynnwys mapiau diagramatig a sgematig a mapiau manwl sy'n seiliedig ar O.S. Gellir dangos egwyddorion bras, cyfeiriadau teithio a dyraniadau penodol uwchben trothwyon penodol naill ai'n fanwl, h.y. gyda llinell goch yn dangos ffin, neu fel Ardaloedd Chwilio, sy'n galluogi rhywfaint o fireinio drwy CDLIC.

Cynnwys Cynllun Datblygu Strategol

10.4 Bydd paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn dilyn proses statudol debyg i CDLI gan eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn destun proses graffu annibynnol drwy archwiliad cyhoeddus. Mae Penodau 3 i 6 y Llawlyfr yr un mor briodol i Gynllun Datblygu Strategol o ran y broses (ac eithrio'r Rheoliadau yn Nhabl 36 nad ydynt wedi'u cwblhau eto), casglu tystiolaeth, cyflawni ar y materion craidd (gan ystyried graddfa) a'r broses archwilio. Nid yw'r materion hyn yn cael eu hailadrodd yma.

10.5 Mae gwahaniaeth clir rhwng y ddwy haen o gynlluniau, Cynlluniau Datblygu Strategol a CDLlau, o ran graddfa ac arwyddocâd. Dim ond ar y materion, y pynciau neu'r lleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni materion ehangach na rhai lleol, h.y. y tu hwnt i gylch gwaith ACLI neu CDLI unigol, y dylai Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu Strategol fynd ati i enwi pob man o fewn eu ffiniau. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar y manau hynny sy'n allweddol i ymateb i sbardunau newid allweddol. Gall hyn ymdrin â materion fel canolfannau pwysig ar gyfer twf economaidd, tai (yn cynnwys aneddiadau newydd) neu, i'r gwrthwyneb, ardaloedd eang i'w diogelu, gan gynnwys Lleiniau Glas a seilwaith gwyrdd strategol.

10.6 Rhaid i Gynllun Datblygu Strategol fynegi gweledigaeth a strategaeth i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth yn ei gyfanrwydd. At hynny, dylai fynegi strategaethau isranbarthol hefyd ar gyfer naill ai ACLlau unigol neu gyfuniadau o ACLlau fel bod modd symud ymlaen â CDLICau neu CDLICau ar y Cyd maes o law. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol gyflwyno'r cefndir a galluogi i CDLICau/CDLICau ar y Cyd gael eu paratoi sy'n cyd-fynd â strategaeth y Cynllun Datblygu Strategol ac yn ei gyflawni, h.y. maent mewn 'Cydymffurfiaeth Gyffredinol' (paragraffau 2.16 i 2.21). Bydd angen nodi elfennau sylfaenol y CDLICau/CDLICau ar y Cyd, megis y strategaeth, graddfa tai a nodi aneddiadau allweddol yn glir yn y Cynllun Datblygu Strategol lle mae modd dangos tystiolaeth i'w hategu a'u profi trwy'r archwiliad cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Gynllun Datblygu Strategol ddatgan yn benodol, ar sail ACLI:

- Gweledigaeth glir y gellir ei chyflawni ar gyfer ardal y Cynllun Datblygu Strategol ac ar gyfer pob ACLI cyfansoddol
- Strategaeth gyffredinol a chydlynol, gyda rolau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer lleoedd ar sail ranbarthol ac isranbarthol
- Hierarchaeth aneddiadau wedi'i mynegi'n glir yn seiliedig ar rôl a swyddogaeth lleoedd, yn canolbwyntio ar y lleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun
- Datblygu cynaliadwy a Chreu Lleoedd wedi'u hymgorffori fel yr egwyddorion trosfwaol
- Nodi'r ddarpariaeth a'r gofyniad tai cyffredinol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol ac ar gyfer pob ACLI/CDLIC cyfansoddol, wedi'i nodi fel anheddau
- Nodi darpariaeth gyflogaeth gyffredinol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol ac ar gyfer pob ACLI/CDLIC cyfansoddol
- Nodi ardaloedd gofodol ymdopi â thwf uwchlaw trothwy penodol, e.e. 1,000 o anheddau a safleoedd cyflogaeth o bwys rhanbarthol
- Nodi anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a phob ACLI/CDLIC gan ddefnyddio methodoleg gyson, gyda chydgyssylltu rhwng ALLau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai.
- Hierarchaeth fanwerthu ranbarthol
- Nodi taflwybr cyflawni bras ar gyfer cartrefi a swyddi sy'n cyd-fynd â gweithredu seilwaith i gefnogi newid
- Nodi 'mannau cyfyng' ac uchder o ran capasiti'r seilwaith law yn llaw â gofynion y dyfodol sydd eu hangen i gefnogi twf
- Nodi a chadarnhau ffynonellau ariannol ac amseru i ddarparu seilwaith
- Nodi meysydd eang o angen tai fforddiadwy a chysylltiadau â hyfywedd er mwyn dangos cyflawni
- Asesu a mesur capasiti seilwaith trafndiaeth gyhoeddus a phreifat a chyfleoedd i gynyddu symudiad moddol oddi wrth geir preifat
- Dull cydgysylltiedig o ymdrin â dynodiadau amgylcheddol, gan gynnwys lleiniau glas, asesiadau ecolegol a bioamrywiaeth
- Dull cydgysylltiedig o ddynodi ynni, mwynau a gwastraff

10.7 Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol bennu trothwyon ac ni fydd lleoedd a/neu faterion islaw'r trothwyon hyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Nid yw'n briodol i bobman yn ardal y cynllun gael ei gynnwys o fewn fframwaith polisi, na'i nodi'n ofodol ar fap cynigion. Bydd hyn yn amrywio'n ddaearyddol ar draws Cymru, hyd yn oed o fewn Cynllun Datblygu Strategol o bosibl, yn dibynnu ar arwyddocâd y mater a'i natur amrywiol. Ni ddylai dyraniadau tai a chyflogaeth lleol gael eu nodi'n ofodol mewn Cynllun Datblygu Strategol. Mae yn briodol pennu aneddiadau newydd.

10.8 Gall CDLlau mabwysiedig o fewn y rhanbarth fod yn fan cychwyn wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol cyntaf o ran strategaeth ar gyfer y tymor byr i ganolig. Lle mae CDLlau wedi dyrannu safleoedd a fyddai'n arwyddocaol yn rhanbarthol, yn enwedig pan fyddant wedi cael caniatâd cynllunio, dylent gael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Strategol (os ydynt uwchlaw'r trothwy penodedig). Bydd angen darparu ar gyfer y safleoedd hynny er mwyn cynnal y gwaith o gyflawni cartrefi a swyddi. Fodd bynnag, **rheid i Gynllun Datblygu Strategol beidio â bod yn gydgrynhoad o CDLlau heb ystyried y cyfeiriad teithio tymor hwy ar gyfer y rhanbarth yn ei gyfanrwydd.**

10.9 Bydd angen ailedrych ar yr holl strategaethau presennol a chreu un strategaeth unedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, gan ystyried materion ehangach na rhai lleol. Dylai hyn gyflawni'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer y rhanbarth, a luniwyd gan y Panel Cynllunio Strategol. Ni fydd clymu cyfres o strategaethau CDLI at ei gilydd yn briodol gan y bydd y strategaethau hyn wedi'u ffurfio ar eu pennau eu hunain ac nid ydynt yn adlewyrchu:


- Materion sy'n croesi ffiniau ACLlau unigol a sut maent yn effeithio ar leoliad datblygiadau mewn lleoedd
- Strategaethau twf megis y Fargen Ddinesig a'r Bargeinion Twf na fyddant wedi cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ar sail CDLI unigol o reidrwydd
- Ni fydd pob strategaeth ofodol sy'n briodol wrth gynllunio ar sail ranbarthol wedi cael ei hystyried drwy CDLlau unigol
- Bydd sbardunau newid ar draws y rhanbarth ehangach yn wahanol yn ofodol ac o ran maint nag a ystyriwyd yn flaenorol drwy CDLlau
- Ni fydd CDLlau cynnar yn ystyried y cyd-destun polisi a'r sbardunau allweddol diweddaraf
- Nid oedd unrhyw fodd o ystyried y materion hyn ar y cyd mewn ffordd gynhwysfawr cyn hyn

10.10 Bydd pob Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys datganiad ysgrifenedig a map cynigion. Gall y map cynigion fod yn seiliedig ar O.S., yn ddiagramatig ei natur, neu'n gyfuniad o'r ddau. Y Panel Cynllunio Strategol fydd yn penderfynu ar hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo fod ar raddfa ddigonol i alluogi i naill ai 'Ardaloedd Chwilio' neu safleoedd penodol gael eu nodi'n glir, os ydynt yn allweddol i gyflawni'r cynllun. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cynnig cyfle i fabwysiadu dull mwy

cyffredinol o ymdrin â pholisïau rheoli datblygu, gyda CDLICau yn rhoi cyd-destun lleol, lle y bo'n briodol.

10.11 Y man cychwyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol yw deall y sbardunau ar gyfer newid o fewn cyfnod/rhanbarth y cynllun a gallu'r rhanbarth i ddarparu ar gyfer newid drwy'r strategaeth fwyaf priodol i wireddu'r weledigaeth. **Rhaid i hyn gynnwys egwyddorion Creu Lleoedd, Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, y Prawf Porth a'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni** (Polisi Cynllunio Cymru).

Diagram 21: Trosolwg o Baratoi Cynllun Datblygu Strategol



Prif Sbardunau Newid

10.12 Mae'r ffactorau sy'n sbarduno newid ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol yn dilyn yr un egwyddorion â CDLI, er eu bod yn wahanol o ran graddfa. Bydd angen asesiad economaidd o'r sefyllfa bresennol yn ogystal â chyfleoedd yn y dyfodol ar sail rhagolygon a dewisiadau polisi. Mae hyn yr un mor wir am dai, manwerthu, seilwaith ac ati. Mae Pennod 5 y Llawlyfr yn rhoi manylion ynghylch sut i'w mesur (ni chânt eu hailadrodd yn yr adran hon). Bydd tystiolaeth sy'n bodoli eisoes i gefnogi Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf yn berthnasol hefyd. Mae'n bosibl y gall tystiolaeth o CDLlau mabwysiedig/newydd fod yn rhan o sail dystiolaeth y Cynllun Datblygu Strategol. Fodd bynnag, bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cwmpasu cyfnod hirach na CDLI (o leiaf ugain mlynedd o fywyd gweithredol) a fydd yn golygu y bydd y materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yn fwy o ran maint ac yn fwy cymhleth. Gan fod llawer o ACLlau wedi defnyddio methodolegau gwahanol wrth baratoi eu CDLI, **bydd cysoni un fethodoleg ar gyfer modelau economaidd, poblogaeth, tai neu unrhyw fodelau arall yn hanfodol cyn y gellir symud ymlaen â Chynllun Datblygu Strategol.**

10.13 Bydd yn hanfodol cynnwys cwmnïau seilwaith a chyfleustodau hefyd, yn enwedig gan fod gan gynlluniau rheoli asedau linellau amser byrrach yn aml. Bydd angen cysylltiadau â chynlluniau ariannu'r Llywodraeth a darpariaeth seilwaith hefyd er mwyn deall a manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad cyhoeddus. Bydd yr FfDC yn egluro lle y dylid canolbwyntio buddsoddiad a newidiadau yn y tymor hwy hefyd, a rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol adlewyrchu hyn ac ymhelaethu arno.

10.14 Wrth ystyried sbardunau rhanbarthol, byddant yn rhoi ffigur cyffredinol, h.y. ar gyfer y rhanbarth yn ei gyfanrwydd, ond gall dynnu sylw hefyd at 'fannau poblogaidd', lleoliadau neu leoedd penodol yn y rhanbarth. Er enghraifft, efallai y bydd mwy o alw am dai mewn rhai lleoliadau, cyllid seilwaith, neu fwy o botensial i greu swyddi. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cyd-daro'n ddaearyddol neu fel arall, a gall y dystiolaeth awgrymu bod angen dull polisi amrywiol ar draws y rhanbarth.

Y gallu i Ymdopi â Newid

Hierarchaeth aneddiadau a rôl/swyddogaeth

10.15 Un agwedd allweddol ar gynllunio strategol yw nodi hierarchaeth aneddiadau ar draws y rhanbarth. Ni ddylai fod yn seiliedig ar faint ffisegol lleoedd yn unig, ond dylai gynnwys amrywiaeth a graddfa'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael hefyd, eu rhyngberthynas â'r aneddiadau cyfagos/cysylltiedig, capasiti a chadernid y seilwaith, gan gynnwys sut mae nwyddau a phobl yn symud o fewn y rhanbarth a thu hwnt.

10.16 Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried pob lleoliad yn y rhanbarth a sut maent yn berthnasol i'w gilydd, yn seiliedig ar eu rôl a'u perthynas swyddogaethol, gan arwain at hierarchaeth aneddiadau sydd fwyaf addas i ymdopi â newid/twf pellach. Bydd angen ystyried yr aneddiadau hynny sydd y tu hwnt i'r rhanbarth hefyd, ond sy'n cael dylanwad o fewn y rhanbarth, er mwyn deall sut maent yn effeithio ar yr hierarchaeth aneddiadau. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys Bryste ar gyfer y De-ddwyrain, yr Amwythig/Telford/Henffordd/Birmingham ar gyfer y Canolbarth a Mersi/Glannau Dyfrdwy ar gyfer y Gogledd.

10.17 Nid yw pob anheddiad ar draws rhanbarth yn gyfartal o ran ei rôl a'i swyddogaeth. Ni ddylai fod gan bob ACLI o fewn rhanbarth anheddiad, neu aneddiadau, wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Strategol. Dim ond y lleoedd hynny sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun y dylai Cynllun Datblygu strategol eu nodi, ac nid llunio rhestr o leoliadau gydag o leiaf un ym mhob ACLI cyfansoddol fel sefyllfa ddiodyn. Dylai fod sail dystiolaeth glir ar gyfer nodi lleoedd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u rôl a'u swyddogaeth, o fewn y rhanbarth a thu hwnt.

10.18 Mae'r elfennau allweddol y dylid eu hystyried wrth gynnal dadansoddiad o hierarchaeth aneddiadau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Lefel y ddarpariaeth gyflogaeth (dadansoddiad yn ôl swyddi a sector)
- Graddfa'r tai presennol
- Ystyried hyfywedd datblygiad a'r ffordd y caiff ei gyflawni
- Pa mor hunangynhwysol yw anheddiad, patrymau cymudo (cystadleuydd neu gyflenwol, mwy/llai arwyddocaol, y gallu i ddenu pobl o fwy o bellter sy'n gymesur â graddfa ac amrywiaeth y gwasanaethau/cyfleusterau a gynigir)
- Hierarchaeth fanwerthu
- Amrywiaeth/graddfa cyfleusterau gofal iechyd
- Amrywiaeth/graddfa cyfleusterau addysgol/lefel y cyfleoedd academaidd
- Amrywiaeth/graddfa asedau diwylliannol (theatrau, lleoliadau cynadleda, cyfleusterau chwaraeon)
- Hygyrchedd/cysylltedd lleoedd yn ôl gwahanol foddau trafniadaeth, arwyddocâd y modd (llynell reilffordd gangen yn hytrach na'r brif llynell) a gwydnwch
- Amrywiaeth/graddfa a chapasiti moddau trafniadaeth gyhoeddus
- Nodi aneddiadau sy'n is i lawr yr hierarchaeth o gymharu ag aneddiadau uwch yn yr hierarchaeth os yw'r gwasanaeth/cyfleuster yn fwy arwyddocaol yno (h.y. ysbyty yn hytrach na chanolfan meddygon teulu)
- Cyfyngiadau ac asedau amgylcheddol a allai ddylanwadu ar raddfa cyfleoedd ar gyfer twf yn y dyfodol

10.19 Mae cydberthynas rhwng graddfa'r gwasanaethau a'r swyddogaethau y gall aneddiadau o feintiau amrywiol eu cynnal/cynnig a'r pellter rhwng aneddiadau. Mae

aneddiadau o fewn rhanbarth yn cystadlu am yr un farchnad yn aml. Bydd aneddiadau hunangynhwysol iawn, pellteroedd gwahaniad ffisegol/daearyddol a maint y cynnig yn effeithio ar y ffordd y mae aneddiadau'n ymwneud â'i gilydd yn swyddogaethol. Wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol, bydd angen nodi hierarchaeth swyddogaethol o aneddiadau, yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, cyn pennu graddfa a dosbarthiad daearyddol twf.

10.20 Nid yw'r Llawlyfr yn pennu graddfa ac amrywiaeth y gwasanaethau/cyfleusterau y dylai anheddiad eu cynnwys, na'r pellteroedd ffisegol i bennu dadansoddiad swyddogaethol. Nid yw hyn yn briodol gan y bydd yn amrywio ledled Cymru, gan adlewyrchu gwahanol natur, graddfa, rôl a swyddogaeth aneddiadau. Bydd hyn yn rhywbeth i'r Panel Cynllunio Strategol gyflwyno tystiolaeth glir ar ei gyfer a'i fynegi drwy'r cynllun a'r map cynigion.

Astudiaeth Cynhwysedd Trefol

10.21 Mae angen cynnal asesiad llawn o gapasiti ardaloedd trefol i ymdopi â thwf o fewn ffiniau trefol diffiniedig presennol. Gall cynyddu crynodiad y boblogaeth yn agos at dwf cyflogaeth gynorthwyo dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o drafnidiaeth dorfol, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o'r tir presennol. Bydd dealltwriaeth glir o'r cyfraniad posibl y gall ardaloedd trefol ei wneud at dwf yn hanfodol, nid yn unig o ran cartrefi, ond hefyd o ran swyddi a seilwaith ategol i ddarparu lleoedd o'r radd flaenaf lle mae pobl yn dymuno byw. Dylai unrhyw gapasiti a nodwyd fod yn gyflawnadwy, ar y cyfan, dros gyfnod y cynllun.

10.22 Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod ar draul lleihau ansawdd bywyd a phrofiadau'r trigolion presennol ac ymwelwyr. **Dylid ei ystyried yn nhermau'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a nodwyd (Polisi Cynllunio Cymru, Ffigur 4) yn hytrach na dim ond 'gwasgu' y nifer mwyaf o gartrefi i mewn i ardal ffisegol.** Mae sicrhau y gellir darparu'r seilwaith perthnasol i gefnogi cymunedau a busnesau, creu lleoedd lle mae trigolion yn dymuno byw a galluogi busnesau i weithredu ar eu gorau yn enghreifftiau o gynllunio'n gyfannol ar sail Creu Lleoedd. (Rhoddir canllawiau manwl ym Mholisi Cynllunio Cymru ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y Llawlyfr hwn.)

10.23 Er mwyn cefnogi Cynllun Datblygu Strategol, bydd angen Astudiaeth Cynhwysedd Trefol ar gyfer yr aneddiadau hynny sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun, gan ddangos y cyfraniad twf y gallant ei wneud. Bydd asesiad o gyfraniad rhifiadol cartrefi a swyddi y gellir eu cyflawni o fewn ffiniau trefol sydd wedi'u diffinio'n barod, sy'n adlewyrchu'r dull Creu Lleoedd, yn hanfodol.

Cysylltiadau â Rhanbarthau/Lleoedd cyfagos

10.24 Bydd lleoedd y tu allan i'r rhanbarth, yng Nghymru a thu hwnt, sydd â dylanwad sylweddol ar newid o fewn y rhanbarth. Gellid ystyried y llefydd allanol hyn yn gystadleuydd, sy'n ceisio denu cyfleoedd twf economaidd o'r rhanbarth, neu i'r

gwrthwyneb, gellid ystyried eu bod yn gyfle i arallgyfeirio a chynyddu gwydnwch y rhanbarth a gwella llesiant ei boblogaeth.

10.25 Bydd hi'n bwysig deall i ba raddau y mae lleoedd allanol yn dylanwadu ar ddynmeg y rhanbarth a beth yw'r goblygiadau. Bydd angen gweithio ar draws ffiniau er mwyn deall y ddynmeg hon. Mae hyn yn gymwys i ddarparwyr/capaciti/cyfyngiadau seilwaith hefyd gan eu bod hwythau hefyd yn croesi ffiniau ALL/rhanbarthol. Caiff hyn ei ystyried drwy'r archwiliad i'r cynllun. Bydd hi'n hanfodol bod y Panel Cynllunio Strategol yn gallu dangos sut mae wedi ystyried materion o'r fath.

Cysyniadau Gofodol - Enghreifftiau o Gysyniadau Posibl

10.26 Mae adran ganlynol y Llawlyfr yn disgrifio opsiynau gofodol amrywiol y gellir eu hystyried wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Efallai y bydd yna rai eraill y bydd Panel Cynllunio Strategol am eu hystyried hefyd. Nid yw'r Llawlyfr yn hollgynhwysol yn hyn o beth. Y bwriad yw dangos enghreifftiau o gysyniadau na fyddant wedi cael eu hystyried wrth baratoi CDLI, ond sy'n adlewyrchu dull gwahanol wrth gynllunio ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Mater i'r Panel Cynllunio Strategol fydd ystyried a rhoi tystiolaeth o'r amrywiaeth o opsiynau gofodol gwahanol y mae wedi'u hystyried yn briodol wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol, sut mae'r opsiynau amrywiol wedi perfformio o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth. **Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu opsiwn penodol.**

Canolbwyntio ar ardaloedd trefol allweddol presennol

10.27 Yr aneddiadau hynny ar frig yr hierarchaeth aneddiadau ddylai fod y lleoliadau mwyaf cynaliadwy (yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru) i ymdopi â thwf, ar sail eu rôl a'u swyddogaeth. Fodd bynnag, mae gallu'r aneddiadau hyn i ymdopi â thwf ychwanegol o fewn y ffiniau trefol presennol yn amrywio. Bydd yr Astudiaeth Cynhwysedd Trefol yn adnodd pwysig er mwyn deall beth yw'r cynhwysedd hwnnw, ar y cyd ag egwyddorion Creu Lleoedd. Ni ddylai cymunedau sy'n bodoli eisoes fod o dan anfantais o ran ansawdd eu hamgylchedd a'u ffordd o fyw, dim ond er mwyn lleihau'r angen i ehangu ar safleoedd tir glas. Dylai Astudiaeth Cynhwysedd Trefol lawn o'r lleoedd allweddol yn y rhanbarth a lefel y newid y gallai'r lleoedd hynny ymdopi ag ef fod yn fan cychwyn wrth geisio darparu ar gyfer twf.

10.28 Lle ystyrir bod lleoedd a nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau yn briodol ar gyfer newid, a bod Astudiaeth Cynhwysedd Trefol wedi'i chynnal sy'n dangos na ellir darparu ar gyfer twf o fewn y ffin drefol bresennol, bydd angen ystyried estyniadau trefol i ddiwallu'r angen a nodwyd.

10.29 Wrth ystyried estyniad(au) trefol, rhaid i hyn ddechrau ar y rhagdybiaeth y bydd y ffin drefol yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried, cyn cynnal dadansoddiad o gyfyngiadau/cyfleoedd i fireinio hyn i 'Ardaloedd Chwilio'. Mae ardaloedd chwilio'n ardaloedd sy'n fwy yn ofodol na'r arwynebedd ffisegol gwirioneddol sydd ei angen i gyflawni'r datblygiad gofynnol. Dylent fod yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer dewisiadau amgen yn yr ardal chwilio, gan olygu bod modd mynd i'r afael â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS. Fodd bynnag, ni ddylai ardaloedd chwilio fod yn rhy eang o ran eu llinellau gofodol, gan y byddai hyn yn arwain at ddiffyg eglurder a sicrwydd i fynegi sut caiff twf ei ddarparu mewn lleoedd. Ar y llaw arall, nid ydynt yn ffin safle penodol (llinell goch ar sail O.S.) ond yn rhoi digon o eglurder y gellir darparu ar gyfer datblygiad o fewn yr ardal chwilio ehangach hon, a ddangosir ar y map cynigion. Wedyn, mater i'r CDLIC fydd ystyried union fanylion dyraniadau penodol, yn seiliedig ar dystiolaeth leol fanylach.

10.30 Bydd angen methodoleg, yn seiliedig ar feini prawf datblygu cynaliadwy, Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, y Prawf Porth, Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni, i asesu pob ardal bosibl i ymdopi â maint y newid sydd ei angen dros gyfnod y cynllun. Bydd angen iddi werthuso pob lleoliad posibl mewn modd cyson. Gallai methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddefnyddir gan ACLlau wrth baratoi eu CDLlau fod yn fan cychwyn defnyddiol, er y bydd angen adlewyrchu graddfa ac arwyddocâd Cynllun Datblygu Strategol. Er enghraifft, byddai dynodiadau cenedlaethol yn fwy perthnasol na rhai lleol. Gellid ymgorffori dynodiadau lleol mewn datblygiadau arwyddocaol ac ni ddylid eu diystyru o'r cychwyn. Unwaith eto, dylai'r dadansoddiad fod yn seiliedig ar faint/arwyddocâd Cynllun Datblygu Strategol, nid manylion CDLI o reidrwydd.

Pegwn (pegynau) twf

10.31 Pegwn (pegynau) twf yw lle mae datblygiad economaidd yn cynyddu mewn aneddiadau penodol, yn bennaf ar frig yr hierarchaeth aneddiadau, lleoedd lle mae potensial i sectorau economaidd penodol dyfu, wedi'u hategu gan wasanaethau ategol, seilwaith, hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a chartrefi. Er bod gan bob anheddiad y potensial i dyfu, bydd y raddfa'n amrywio o ran ei sefyllfa gymharol o fewn yr hierarchaeth aneddiadau gyffredinol.

10.32 Pegwn (pegynau) twf fydd canol parth dylanwad, gan fanteisio ar yr adnoddau/cyfleoedd hynny o fewn y rhanbarth ehangach ac ehangu arnynt. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys cynyddu nifer ac ansawdd y cyflenwad llafur, o ran niferoedd ac o ran arbenigedd. Gallai gael ei siapio gan fuddsoddiad mewn gwasanaethau cefnogi yn y dyfodol hefyd, fel addysg neu hyfforddiant sgiliau i gynyddu symudedd ar i fyny yn y cyflenwad llafur. Bydd argaeledd a chryfder asedau dyraniadau cyflogaeth posibl yn effeithio ar raddfa'r twf hefyd.

10.33 Dylai Cynllun Datblygu Strategol ddangos tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol o ran potensial economaidd, twf sector yn y dyfodol, y cyflenwad sgiliau, adnoddau, y

safleoedd sydd ar gael a'r gwasanaethau/cyfleusterau ategol. Bydd yn hanfodol ystyried senarios twf amrywiol, cyfleoedd i gynyddu cyfoeth a ffyniant cymunedau, busnesau ac aneddiadau ac, yn y pen draw, y rhanbarth yn ei gyfanrwydd.

10.34 Y bwriad wedyn yw sicrhau bod yr effaith hon yn ymestyn y tu hwnt i'r pegwn (pegynau) twf i mewn i'r aneddiadau cyfagos a'r rhanbarth drwyddo draw. Mae canlyniad cynnydd mewn twf economaidd yn cael effaith 'ganlyniadol' ar wasanaethau ategol ychwanegol i hwyluso hyn, er enghraifft cartrefi ar gyfer y gweithlu ychwanegol, seilwaith ategol (ffisegol a chymdeithasol) yn ogystal ag amseru a chyflawni.

10.35 Er mwyn mesur yr effaith ganlyniadol, bydd angen tystiolaeth i ddangos sut mae lleoliadau wedi'u cysylltu â'r prif begwn (begynau) twf a graddfa'r cysylltiad hwn. Gallai hyn fod drwy gadwyni cyflenwi economaidd ategol neu ddibyniaeth ar lafur (gall patrymau cymudo ddangos hyn). Bydd nodi'r rheswm (rhesymau) dros unrhyw gysylltedd a graddfa'r cysylltiad yn dangos sut mae aneddiadau cyfagos/aneddiadau â chysylltiad agos rhyngddynt yn creu effaith glwstwr, gan weithio ar y cyd i gefnogi'r pegwn (pegynau) twf.

Twf lluosganolog

10.36 Mae twf lluosganolog yn canolbwyntio ar sut gall grŵp o aneddiadau weithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, fel cynyddu cyfleoedd gwaith a gefnogir gan gartrefi newydd. Yr hyn sy'n allweddol i'r dull gweithredu hwn yw dealltwriaeth drylwyr, wedi'i hategu gan dystiolaeth, o'r cysylltedd a'r berthynas rhwng aneddiadau, eu rolau unigol, sut maent yn gweithredu ar y cyd a sut maent fel grŵp yn gweithredu ar lefel llawer uwch nag y byddai eu safleoedd unigol yn yr hierarchaeth aneddiadau yn ei awgrymu. Efallai y bydd rhai aneddiadau'n darparu rolau cefnogol, fel cartrefi, i ganolfannau eraill lle ceir cyfleoedd gwaith, wedi'u cysylltu gan lwybrau trafndiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn dilyn yr un egwyddor â'r dull pegwn twf, ond bod casgliad (clwstwr) o leoedd yn gweithredu fel sawl pegwn twf ar yr un pryd. Dylai rolau lleoedd fod yn gyflenwol, yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd.

Aneddiadau newydd

10.37 Mae aneddiadau newydd yn ddatblygiadau annibynnol gyda digon o gyfleoedd cyflogaeth a seilwaith ategol i gael eu hystyried yn endid hunangynhwysol. Dylent fod mor hunangynhwysol ag sy'n ymarferol bosibl, gan leihau'r nifer sy'n cymudo/allgymudo a pheidio â chynyddu'r pwysau ar y rhwydwaith trafndiaeth, yn unol â'r Hierarchaeth Trafndiaeth Gynaliadwy. Dylent fod yn ddigon pell oddi wrth yr ardaloedd trefol presennol hefyd er mwyn osgoi effeithio ar eu rôl a'u swyddogaeth. Dylid eu cynllunio o'r cychwyn i fod yn hunangynhwysol sy'n golygu y bydd angen darparu seilwaith hanfodol yn gynnar yn natblygiad yr anheddiad newydd, yn hytrach na thyfu'n raddol dros amser. Cynllunio ar gyfer seilwaith yn gyfannol o'r cychwyn sydd â'r gallu mwyaf i sicrhau lleoedd cynaliadwy.

10.38 Dylai aneddiadau newydd wneud y defnydd gorau o'r seilwaith presennol, er yn ôl eu natur, mewn llawer o achosion bydd angen seilwaith newydd sylweddol. Yn ei hanfod, mae hyn yn ymwneud ag adeiladu cymunedau newydd a seilwaith cysylltiedig i'w cefnogi. Bydd hyn, yn ei hanfod, yn gofyn am amser ychwanegol a buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith er mwyn gwneud cynnydd, a dylid ystyried hyn mewn cynllun cyflawni. Bydd angen i'r gost, y ffynonellau ariannu a'r goblygiadau o ran amser gael eu hystyried wrth gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol, proses debyg i'r un sy'n weithredol ar hyn o bryd ar gyfer CDLlau. Bydd cynllun seilwaith i ategu'r Cynllun Datblygu Strategol yn fuddiol ac yn gwneud y sail dystiolaeth yn fwy cadarn.

10.39 Bydd angen ystyried yn ofalus er mwyn deall y tueddiadau a'r cysylltiadau a allai esblygu yn y dyfodol rhwng anheddiad newydd ac aneddiadau presennol. Dylid asesu lefelau cysylltedd a chyfyngiant i sicrhau nad oes effaith andwyol ar egwyddorion bras datblygu cynaliadwy a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleuedd Cynaliadwy, h.y. osgoi creu anheddiad noswyllo ar sail symudiadau ceir preifat.

Archwilio

10.40 Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn destun archwiliad cyhoeddus, gan ddilyn yr un broses â CDLI. Bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i Gynllun Datblygu Strategol gael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn a all wrthsefyll unrhyw graffu a sicrhau ei fod yn bodloni'r 'Profion Cadernid' fel y nodir yn y Llawlyfr (Tabl 27, paragraff 6.27). Cyfrifoldeb y Panel Cynllunio Strategol, gyda chymorth swyddogion, fydd paratoi'r dystiolaeth i ategu'r cynllun. Felly mae'n hanfodol bod y cynllun yn gallu dangos bod digon o dystiolaeth i fodloni rhannau gweithdrefnol a thechnegol y prawf. Gallai methu â gwneud hynny arwain at ddod i'r casgliad nad yw'r cynllun yn 'gadarn' ac nad oes modd ei fabwysiadu. Bydd hwn yn fater i'r Arolygydd benderfynu arno drwy'r broses archwilio, a grynhoir yn adroddiad rhwymol yr Arolygydd. Yn dilyn Adroddiad Arolygydd yn argymhell mabwysiadu, mater i'r Panel Cynllunio Strategol fydd mabwysiadu'r cynllun.

CDLICau

10.41 Pan fabwysiedir Cynllun Datblygu Strategol, bydd gofyn i'r ACLlau cyfansoddol baratoi CDLIC, mewn 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â'r Cynllun Datblygu Strategol a'r FfDC. Mae CDLICau yr un fath â CDLlau, er y'u disgrifir yn wahanol yn y Llawlyfr hwn er mwyn gwahaniaethu rhwng y ffaith mai dim ond pan fabwysiedir Cynllun Datblygu Strategol sy'n cwmpasu ffin weinyddol ACLI perthnasol y byddant yn digwydd. Lle nad oes Cynllun Datblygu Strategol mabwysiedig, bydd yn ofynnol i ACLlau baratoi CDLI.

10.42 Gall Cynllun Datblygu Strategol gwmpasu'r cyfan, neu ran o ffin weinyddol ALI. Fodd bynnag, er mwyn osgoi cynyddu cymhlethdod a chost paratoi'r cynllun, cynghorir y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gynnwys ffin gyfan yr ACLI. Cyfrifoldeb yr ACLlau sy'n cyflwyno cynnig yw penderfynu ar ffin Cynllun Datblygu Strategol o hyd. Bydd CDLICau yn dilyn yr un weithdrefn baratoi â CDLI, gyda PCPA 2004 (Rhan 6) a Rheoliadau CDLI 2015 (fel y'u diwygiwyd) yn gymwys.

10.43 Mae CDLICau yn rhan o'r cynllun datblygu statudol ac yn ategu'r ardaloedd hynny lle mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Strategol. Cânt eu paratoi gan yr ACLI perthnasol a rhaid iddynt 'gydymffurfio'n gyffredinol' â'r Cynllun Datblygu Strategol a'r FfDC. Dogfennau dyrannu yw CDLICau yn y bôn ac maent yn adeiladu ar y strategaethau a'r gofynion rhanbarthol ac isranbarthol a nodir yn y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd hyn yn dileu dyblygu materion y mae tystiolaeth wedi'i chyflwyno ar eu cyfer ac sydd wedi'u penderfynu drwy'r Cynllun Datblygu Strategol eisoes.

10.44 Nid oes modd cychwyn CDLIC hyd nes, yn ddelfrydol, bod Cynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu, gan sicrhau bod yna sicrwydd ar y polisïau a'r cynigion. Fodd bynnag, efallai y bydd yn bosibl dechrau paratoi CDLIC unwaith y bydd Cynllun Datblygu Strategol wedi cael ei gyflwyno i'w archwilio, gan mai dyma'r cynllun y mae'r Panel Cynllunio Strategol yn ei ystyried yn 'gadarn' ac felly'n gallu cael ei fabwysiadu. Mae hyn yn ddull risg uchel a mater i'r Panel Cynllunio Strategol fydd cynghori'r ACLlau ynghylch graddfa'r hyder a'r risg wrth ddatblygu CDLIC dan yr amgylchiadau hyn. Mae CDLICau ar y Cyd yn dilyn yr un drefn â CDLIC unigol. Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu i hwyluso CDLICau mewn diweddariadau i'r Llawlyfr.

Geirfa

Term	Diffiniad
AAR	Gofyniad Blynyddol Cyfartalog
ACG	Canllawiau Costau Derbyniol
AHVS	Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy
ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AMP	Cynlluniau Rheoli Asedau
AMR	Adroddiad Monitro Blynyddol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
BAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
BCIS	Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladau
BMVAL	Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
Cadw	Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru
CIL	Ardoll Seilwaith Cymunedol
CIS	Cynllun Cynnwys Cymunedau
CR	Adroddiad Ymgynghori
CS	Safleoedd Ymgeisiol
CSR	Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol
DA	Cytundeb Cyflawni
DAMs	Mapiau Cyngor Datblygu
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
DS	Strategaeth Waredu
EA	Deddf Cydraddoldeb 2010
ELR	Adolygiad o Dir Cyflogaeth
ER	Adroddiad Amgylcheddol: Yn ofynnol o dan y Rheoliadau AAS
EUV	Gwerth Defnydd Presennol
EZs	Ardaloedd Menter: Wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru
FCs	Newidiadau â Ffocws
FCA	Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd
GDV	Gwerth Datblygiad Gros
GIS	System Wybodaeth Ddaearyddol
GP	Meddygaeth Gyffredinol
GTAA	Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr
HIA	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
HMO	Tai Amlfeddiannaeth
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
IMACs	Newidiadau'r Arolygydd i'r Materion sy'n Codi
IR	Adroddiad Arolygydd
IROPI	Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig
ISA	Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
JPB	Cyd-fwrdd Cynllunio
ALL	Awdurdod Lleol
LDO	Gorchmynion Datblygu Lleol
CDLL	Cynllun Datblygu Lleol
CDLLC	Cynllun Datblygu Lleol Cryno
LHMA	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

ACLL	Awdurdod Cynllunio Lleol
MACs	Newidiadau Materion sy'n Codi
FFDC	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
NNR	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
APC	Awdurdod Parc Cenedlaethol
NPMP	Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
O.S.	Arolwg Ordnans
PAC	Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio
PAW	Cymorth Cynllunio Cymru
PCPA 2004	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015)
PINS	Arolygiaeth Gynllunio
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
PWA 2015	Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
RA	Awdurdod Cyfrifol
RJ	Cyfiawnhad Rhesymedig
RR	Adroddiad Adolygu
RSL	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
RTS	Datganiad Technegol Rhanbarthol
A106	Cytundeb cyfreithiol adran 106: Rhwymedigaeth Gynllunio
SA	Arfarniad o Gynaliadwyedd
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
SDP	Cynllun Datblygu Strategol
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SFCA	Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
SFR	Adolygiad Ffur Fer
SIC	Dosbarthiad Diwydiannol Safonol
SINC	Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur
SIP	Cynlluniau Integredig Sengl
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
BBaChau	Busnesau Bach a Chanolig
SoCG	Datganiadau Tir Cyffredin
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
SPP	Panel Cynllunio Strategol
SPZ	Parthau Cynllunio Syml
SODDGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SuDs	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodiadau Cyngor Technegol
TCPA	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
UCS	Astudiaeth Cynhwysedd Trefol
VSG	Grŵp Llywio Hyfywedd
DEDDF LLESIANT 2015	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
WBPs	Cynlluniau Llesiant
WLIA	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
CGC	Cynllun Gofodol Cymru

